



# Cynllun Blynyddol 2015/16

Datganiad

Dyddiad cyhoeddi:

26 Mawrth 2015

## Y ddogfen hon

Bob mis Mawrth, bydd Ofcom yn cyhoeddi Cynllun Blynyddol sy'n nodi ein blaenoriaethau ac yn disgrifio'r gwaith arall y byddwn yn ei wneud yn ystod y flwyddyn i ddod. Y ddogfen hon yw ein Cynllun Blynyddol ar gyfer blwyddyn ariannol 2015/16.

Mae rhan agoriadol y ddogfen yn disgrifio'r 11 blaenoriaeth rydym wedi'u nodi ar gyfer Ofcom yn 2015/16 a'r pum prif faes rydym yn awyddus i wneud cynnydd ynddynt yn y flwyddyn i ddod. Rydym hefyd yn crynhoi ein rhaglen waith ehangach ledled y DU ac yn disgrifio ein dull o ddarparu gwerth am arian.

Mae'r ail ran yn cynnwys cyfres o atodiadau sy'n disgrifio ein rhaglen waith yn fanylach, gan gynnwys disgrifiad llawn o'r gwaith y byddwn yn ei wneud o dan bob maes gwaith sy'n flaenoriaeth. Rydym hefyd wedi nodi'r gwaith sylweddol arall y byddwn yn ei wneud, yn ychwanegol at y blaenoriaethau hyn.

# Cynnwys

Penodau		Tudalen
1	Crynodeb gweithredol	1
2	Ymatebion i'r ymgynghoriad a diwygiadau i'r Cynllun Blynyddol Drafft	5
3	Ein blaenoriaethau strategol ar gyfer 2015/16	11
4	Ein gwaith pwysig arall ar gyfer y flwyddyn hon	16
5	Pwerau Ofcom o dan y gyfraith cystadleuaeth	19
6	Ein gwaith yn y gwledydd	20
7	Meysydd gwaith posibl a allai ymddangos yn y blynyddoedd nesaf	22
8	Cyflawni ein dyletswyddau a gwerth am arian	24
Atodiadau		Tudalen
1	Rhaglen waith fanwl ar gyfer ein meysydd gwaith blaenoriaeth	27
2	Rhaglen waith fanwl ar gyfer ein meysydd gwaith pwysig	45
3	Gwaith rhaglennol Ofcom a'i wasanaethau i randdeiliaid	67
4	Lleihau beichiau a chymhlethdod y broses rheoleiddio	75
5	Crynodeb o ymatebion i'r Cynllun Blynyddol Drafft a gwahoddiad i gyflwyno sylwadau	81



## **Pennod 1**

# **Crynodeb gweithredol**

## **Mae'r ddogfen hon yn disgrifio rhaglen waith Ofcom ar gyfer blwyddyn ariannol 2015/16**

- 1.1 Prif ddyletswyddau Ofcom yw hyrwyddo buddiannau dinasyddion yng nghyswllt materion yn ymwneud â chyfathrebiadau a hyrwyddo buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, lle bo hynny'n briodol, drwy hybu cystadleuaeth. O ran y gwasanaeth post, os yw Ofcom o'r farn bod unrhyw wrthdaro, mae'n ddyletswydd arnom i sicrhau bod darparu'r gwasanaeth post cyffredinol yn cael blaenoriaeth dros y dyletswyddau hyn.
- 1.2 Mae'r Cynllun Blynnyddol yn disgrifio'r gwaith y byddwn yn ei wneud yn ystod y flwyddyn i ddod i gyflawni ein dyletswyddau. Mae hefyd yn nodi, o fewn y rhaglen waith ehangach hon, y blaenoriaethau rydym wedi'u gosod ar gyfer ein sefydliad o 1 Ebrill 2015 ymlaen.

## **Bydd Ofcom yn ceisio sicrhau cynnydd mewn pum maes allweddol yn 2015/16**

- 1.3 Bydd Ofcom yn ceisio gwneud cynnydd mewn pum prif faes yn 2015/16 drwy ein blaenoriaethau a'n rhaglen waith ehangach. Bydd cyflawni yn y pum maes hwn yn helpu i sicrhau canlyniadau da i ddefnyddwyr, dinasyddion a busnesau.

## **Byddwn yn sicrhau cystadleuaeth deg ac effeithiol ac yn cefnogi cymhellion effeithlon i fuddsoddi**

- 1.4 Eleni, byddwn yn cynnal adolygiad strategol o gyfathrebiadau digidol, gan ystyried sut y gall rheoleiddio barhau i hyrwyddo buddsoddiad effeithlon mewn seilwaith, parhad cystadleuaeth a lle y gall dadreoleiddio fod yn briodol.
- 1.5 Byddwn hefyd yn canolbwyntio ar gyfathrebiadau busnes drwy'r adolygiad o'r farchnad cysylltedd busnes. Yn ogystal, byddwn yn asesu a yw'r farchnad yn diwallu anghenion BBaCh. Os byddwn yn dod ar draws meysydd lle nad yw'r farchnad yn diwallu anghenion BBaCh, byddwn yn pwysu a mesur beth y gellir ei wneud drwy ddefnyddio amrywiol fesurau.
- 1.6 Bydd ein gwaith i wella'r broses o newid darparwr cyfathrebiadau'n galluogi defnyddwyr i fanteisio ar gystadleuaeth yn y farchnad. Byddwn yn sicrhau prosesau newid gwell ar rwydweithiau Openreach a KCOM<sup>1</sup>. Hefyd, rydym yn awyddus i sicrhau bod newid ar gyfer gwasanaethau ffon symudol a gwasanaethau wedi'u bwndelu mor hawdd â phosibl i'r defnyddiwr a byddwn yn cyflwyno cynigion ar gyfer diwygio, yn ôl yr angen, yn ddiweddarach yn 2015.

---

<sup>1</sup> Mae KCOM yn darparu gwasanaethau llais a band eang yn ardal Kingston upon Hull, lle nad yw rhwydwaith Openreach ar gael.

## **Byddwn yn parhau i bennu meysydd a all achosi niwed i ddefnyddwyr ac yn rhoi sylw iddynt**

- 1.7 Byddwn yn gwneud hyn drwy barhau i fonitro ac ymateb i dystiolaeth o niwed i ddefnyddwyr. Yn benodol, byddwn yn lansio ymchwiliadau i gwynion a phryderon defnyddwyr neu feysydd niwed posibl y byddwn yn eu canfod. Rydym wedi cynllunio gwaith i roi sylw i alwadau niwsans, camwerthu gwasanaethau (er enghraifft slamio<sup>2</sup>) a biliau annisgwyl o uchel (a elwir yn 'sioc bil').
- 1.8 Byddwn yn parhau i weithio gyda grwpiau eraill i hyrwyddo diogelwch cynulleidfaoedd ar-lein, gan ganolbwyntio'n benodol ar blant. Mae hyn yn cynnwys gwaith gyda Chyngor y DU dros Ddiogelwch Plant ar y Rhyngryd (UKCCIS). Byddwn yn defnyddio dull newydd wedi'i dargedu yng nghyswllt gweithgareddau gorfodi ar gyfer darlledwyr teledu er mwyn diogelu cynulleidfaoedd.

## **Byddwn yn canolbwyntio o'r newydd ar ansawdd gwasanaethau i ddefnyddwyr a busnesau**

- 1.9 Mae ansawdd gwasanaethau'n dal yn her sylweddol yn y sector cyfathrebiadau. Rydym wedi gosod safonau sylfaenol newydd ar Openreach ac rydym yn monitro ei berfformiad yn erbyn ei rwymedigaethau yng nghyswllt gosod ac atgyweirio llinellau sefydlog. Byddwn hefyd yn adolygu perfformiad Openreach o ran darparu llinellau 'Ethernet' yn y farchnad cysylltedd busnes, a byddwn yn llunio mesurau newydd i adrodd am brofiad gwirioneddol defnyddwyr o fand eang sefydlog.

## **Byddwn yn helpu i hyrwyddo'r gwasanaethau cyfathrebu eang sydd ar gael i ddefnyddwyr a busnesau.**

- 1.10 Byddwn yn gwneud hyn drwy weithio i hybu darpariaeth symudol well ar y cyd â'r Llywodraeth a'r diwydiant. Byddwn yn adolygu'r ffactorau a allai effeithio ar gynaliadwyedd y gwasanaeth post cyffredinol yn y dyfodol. Byddwn yn dal ati i hybu'r gwaith o sicrhau bod pob gwasanaeth band eang ar gael yn ehangach, a rhoi cyngor technegol i fentrau'r llywodraeth er mwyn ymestyn a gwella gwasanaethau band eang. Bydd hyn o fudd i bobl sy'n byw mewn dinasoedd neu mewn ardaloedd gwledig yn ogystal â busnesau o bob maint.

## **Bydd ein gwaith yn diwallu'r galw cynyddol am sbectrwm**

- 1.11 I sicrhau y gall pob defnyddiwr elwa o wasanaethau symudol gwell, byddwn yn rhyddhau rhagor o sbectrwm ar gyfer gwasanaethau data di-wifr. Mae ein gwaith yn y maes hwn yn cynnwys paratodau ar gyfer arwerthiant y sbectrwm 2.3GHz a 3.4GHz sydd i fod i'w gynnal erbyn diwedd 2015/16 a chymryd camau i ryddhau'r band 700Mhz ar gyfer band eang symudol yn y dyfodol. Byddwn hefyd yn cynrychioli buddiannau'r DU yng Nghynhadledd Radiogyfathrebu'r Byd.

## **Rydym wedi nodi 11 blaenoriaeth benodol ar gyfer 2015/16**

- 1.12 I gyflawni'r nodau hyn, rydym wedi nodi 11 blaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae'r blaenoriaethau hyn naill ai'n weithgareddau penodol sy'n allweddol ar gyfer cyflawni'r pum nod uchod, neu weithgareddau sydd â charreg filltir glir yn 2015/16. Crynhoir y rhain yn Ffigur 1 ac maent wedi'u grwpio gyda'i gilydd o dan ein 'dibenion


---

<sup>2</sup> Arfer lle mae cwsmeriaid yn cael eu symud o un cwmni i gwmni arall heb yn wybod iddynt na'u caniatâd.

strategol'. Mae ein blaenoriaethau yn cael eu trafod yn fyr o dan [Pennod 3](#) ac yn fwy manwl yn [Atodiad 1](#).

- 1.13 Hefyd, byddwn yn ymgymryd ag amrywiaeth o waith sylweddol arall sy'n bwysig ar gyfer cyflawni ein dyletswyddau. Nodir hyn yn gryno ym [Pennod 4](#), ac yn fanylach yn [Atodiad 2](#).

**Ffigur 1 – Blaenoriaethau i Ofcom yn 2015/16**



### **Mae ein rhaglen waith yn adlewyrchu pwysigrwydd ystyriaethau polisi cenedlaethol, rhanbarthol a rhyngwladol**

- 1.14 Wrth gyflawni ein dyletswyddau, byddwn yn ystyried buddiannau dinasyddion a defnyddwyr ar draws y DU i gyd, ac yn cynrychioli buddiannau dinasyddion y DU mewn trafodaethau polisi ar lefel rhyngwladol.
- 1.15 Byddwn yn ymgymryd â gwahanol fathau o waith i hyrwyddo buddiannau defnyddwyr yn y gwledydd a'r rhanbarthau yn y flwyddyn i ddod. Mae hyn yn cynnwys hybu'r

gwasanaethau cyfathrebiadau sydd ar gael ar draws y DU, a lle y maent ar gael. Gallwch weld ein rhaglen waith lawn yn y gwledydd o dan [Pennod 6](#) isod. Yn ogystal â'r gwaith hwn, byddwn yn ymateb yn briodol i drafodaethau a datblygiadau polisi sy'n ymwneud â datganoli (gweler paragraff [A2.119](#)).

- 1.16 Yn rhyngwladol, byddwn yn parhau i gynrychioli buddiannau'r DU fel y bo'n briodol, mewn trafodaethau byd-eang ac mewn dadleuon polisi Ewropeaidd. Nodir ein rhaglen ar gyfer gwaith rhyngwladol ym mharagraff [A3.29](#).
- 1.17 Ar draws y DU a'i gwledydd, byddwn yn parhau i gydgyssylltu â gwneuthurwyr polisi i sicrhau canlyniadau da i ddefnyddwyr. I gyflawni hyn, byddwn yn parhau i gyfrannu at raglen waith Rhwydwaith Rheoleiddwyr y DU.



## Pennod 2

# Ymatebion i'r ymgynghoriad a diwygiadau i'r Cynllun Blynyddol Drafft

## Roedd yr ymatebion i'r Cynllun Blynyddol Drafft yn delio â nifer o themâu, fel newid cyflenwr ac ansawdd y gwasanaeth

- 2.1 Cawsom 32 ymateb i'r Cynllun Blynyddol Drafft. At ei gilydd, roeddynt yn cefnogi cwrpas ein rhaglen waith arfaethedig, gan awgrymu ei bod fwy neu lai yn diwallu anghenion ein rhanddeiliaid. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion hefyd yn gwneud cynigion ynghylch sut y dylai Ofcom ddelio â meysydd gwaith penodol.
- 2.2 Mae'r holl ymatebion nad oeddynt yn gyfrinachol yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan [yma](#). Hefyd, rydym wedi crynhoi'r ymatebion yn fanylach yn [Atodiad 5](#). Yn yr Atodiad hwn rydym ninnau hefyd wedi ymateb i sylwadau ac awgrymiadau a gawsom.
- 2.3 Yn y bennod hon, rydym wedi dewis sawl thema allweddol o'r ymatebion sy'n ymwneud â'n meysydd gwaith drafft. Nodir y rhain yn y tabl isod, ynghyd â'n hymateb ni lle y bo'n briodol.

<b>Ymgynghoriadau BT</b>	<p><b>Yng ngoleuni'r newidiadau yn amodau'r farchnad ers sefydlu Ymgynghoriadau BT, roedd nifer o randdeiliaid yn awgrymu y dylai Ofcom adolygu'u heffeithiolrwydd a chymryd camau i hybu cystadleuaeth.</b></p> <p>Bydd yr Adolygiad Strategol o Gyfathrebiadau Digidol yn ystyried y materion hyn fel rhan o adolygiad ehangach o gystadleuaeth, buddsoddi a'r potensial am ddadreoledio yn y marchnadoedd sefydlog a symudol. Mae'r gwaith hwn yn cael ei ddisgrifio ym mharagraff <a href="#">A1.6</a> isod.</p>
<b>Busnesau Bach a Chanolig</b>	<p><b>At ei gilydd, roedd yr ymatebwyr yn cefnogi gwaith Ofcom i ddeall anghenion cysylltedd busnesau bach a chanolig yn well.</b></p> <p>Mae sicrhau cystadleuaeth effeithiol yn y gwasanaethau i fusnesau yn flaenoriaeth inni yn y flwyddyn i ddod. Ym mis Medi 2014, amlinellodd Ofcom ei raglen waith a oedd wedi'i llunio i alluogi busnesau bach a chanolig i gael y gorau o wasanaethau cyfathrebiadau yn y DU. Byddwn yn parhau â'r gwaith hwn i sicrhau canlyniadau da i BBaCh ac i nodi opsiynau polisi posibl a allai roi gwell profiad iddynt.</p>
<b>Newid</b>	<p><b>Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr a roddodd sylwadau ar newid yn cefnogi dull gweithredu tebyg ar gyfer prosesau newid ar draws y gwahanol wasanaethau, gan gynnwys, er enghraifft, y rheini a brynir mewn bwndeli. Roedd hanner ohonynt yn ffafrio prosesau newid sy'n cael ei arwain gan y darparwr sy'n ennill y cwsmer dros ddulliau eraill.</b></p> <p>Mae gwella'r broses newid i ddefnyddwyr yn dal yn flaenoriaeth i Ofcom. Rydym wedi diweddarau ein cynlluniau i ystyried sut y gellid gwneud rhagor o welliannau i'r drefn newid i ddefnyddwyr: gweler paragraff <a href="#">A1.19</a>.</p> <p>Yn benodol, byddwn yn cwblhau ein gwaith yn rhoi trefniadau newid symlach ar waith ar gyfer newid sy'n cael ei arwain gan y darparwr sy'n ennill y cwsmer ar gyfer llinellau lle mae'r ddau barti'n defnyddio rhwydweithiau copr BT neu KCOM. Hefyd, rydym yn awyddus i sicrhau bod</p>

newid ar gyfer gwasanaethau ffôn symudol a gwasanaethau wedi'u bwndelu mor hawdd â phosibl i'r defnyddiwr a byddwn yn cyflwyno cynigion ar gyfer diwygio, yn ôl yr angen, yn ddiweddarach yn 2015.

<b>Ansawdd Gwasanaeth</b>	<b>Nododd sawl ymatebydd y dylai Ofcom sicrhau ei fod yn gorfodi'n llym y gofynion ansawdd gwasanaeth sy'n berthnasol i Openreach.</b>
	<p>Roedd ein Cynllun Blynyddol Drafft yn nodi ein gwaith ar ansawdd gwasanaeth fel blaenoriaeth ar gyfer 2015/16. Rydym wedi gosod safonau sylfaenol newydd ar Openreach ac rydym yn monitro ei berfformiad yn erbyn ei rwymedigaethau yng nghyswllt gosod ac atgyweirio llinellau sefydlog. Byddwn hefyd yn adolygu ansawdd y gwasanaeth y mae Openreach yn ei gynig o ran llinellau Ethernet fel rhan o'n hadolygiad o'r farchnad cysylltedd busnes.</p>
<b>Galwadau niwsans</b>	<b>Roedd nifer o ymatebwyr yn annog Ofcom i wneud mwy i leihau galwadau niwsans, gan gynnwys drwy fesurau blocio galwadau a thrwy olrhain galwyr niwsans.</b>
	<p>Yn y Cynllun Blynyddol Drafft, mae diogelu defnyddwyr rhag niwed, gan gynnwys drwy alwadau niwsans, wedi cael ei wneud yn flaenoriaeth ar gyfer 2015/16. Byddwn yn ymgysylltu â chyrff yn y DU a chyrff rhyngwladol i sicrhau rhagor o welliannau i'r wybodaeth sydd ar gael i ddefnyddwyr ynghylch pwy sy'n eu galw (h.y. gwasanaeth adnabod y galwr), yn arbennig pan mae galwadau'n pasio rhwng rhwydweithiau (gweler paragraff <a href="#">A2.32</a>).</p>
<b>Y ddarpariaeth gan wasanaethau sefydlog a symudol</b>	<b>Lleisiodd nifer o ymatebwyr bryderon am effaith manau di-gyswllt sefydlog a symudol ar ddefnyddwyr.</b>
	<p>Rydym wedi gwneud y maes hwn yn flaenoriaeth ar gyfer 2015/16. Bydd y gwaith yn cynnwys <a href="#">mapiau darpariaeth symudol</a> rhyngweithiol newydd i alluogi defnyddwyr i gymharu'r ddarpariaeth symudol y mae pob cwmni rhwydwaith symudol yn ei chynnig ymhob un o wledydd y DU. Byddwn hefyd yn diweddarau ein hymchwil yn 2014 i ansawdd y profiad y mae cwmnïau symudol gwahanol yn ei ddarparu o ran gwasanaethau llais symudol (a fesurir fel canran o'r galwadau symudol a gaiff eu cwblhau'n llwyddiannus ar rwydweithiau pob un o'r cwmnïau).</p>
<b>Rhwymedigaethau'r Gwasanaeth Cyffredinol</b>	<b>Roedd BT a KCOM yn cynnig y dylai Ofcom adolygu cwmpas y Rhwymedigaethau Gwasanaeth Cyffredinol, gan gynnwys y rheini sy'n gysylltiedig â ffonau talu, yng ngoleuni newidiadau yn y farchnad.</b>
	<p>Bydd Ofcom yn parhau i fonitro'r Rhwymedigaethau Gwasanaeth Cyffredinol drwy'r amodau penodol sy'n effeithio ar BT a KCOM. Fel rhan o hyn, byddwn yn ystyried yr achos dros adolygu gweithrediad ac effeithiolrwydd yr amodau a'r darpariaethau cysylltiedig manwl ar flychau ffonio cyhoeddus.</p>
	<b>Roedd rhanddeiliaid eraill yn dadlau dros gyflwyno Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol i gynig cyflymder band eang sefydlog sylfaenol.</b>
	<p>Mae'r Llywodraeth wedi nodi ei bwriad i ehangu'r Rhwymedigaethau Gwasanaeth Cyffredinol i fynnu cyflymder band eang sylfaenol o 5Mbit yr eiliad. Byddwn yn parhau i gefnogi ac ymgysylltu â'r Llywodraeth wrth iddi ddatblygu ei chynigion polisi ar gyfer Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol ar gyfer band eang. Byddwn hefyd yn ymgysylltu â'r Comisiwn Ewropeaidd ar ei adolygiad o gwmpas y Rhwymedigaethau Gwasanaeth Cyhoeddus ar lefel yr UE. Bydd ein <i>Diweddariad i'r Adroddiad Seilwaith</i> yn ystod hydref 2015 yn parhau i fonitro sut mae'r defnydd a wneir o'r</p>

rhyngwyd yn amrywio yn ôl y cyflymder sydd ar gael ar gyfer band eang.

**Gofynion o ran data symudol** Roedd gan yr ymatebwyr farn amrywiol am y galw i'r dyfodol am sbectrwm, o'r defnydd ohono ar gyfer data symudol, y Rhyngwyd Pethau a rhaglenni peiriant i beiriant (M2M). Dywedodd rhai y dylai Ofcom ymchwilio i ffyrdd o ddyrannu sbectrwm ychwanegol ar gyfer rhaglenni'r Rhyngwyd Pethau. Dadleuai eraill na ddylid dyrannu rhagor o sbectrwm at ddefnyddiau data symudol mewn ffordd a fyddai'n achosi trafferthion i ddefnyddwyr presennol.

Yn ein cynlluniau ar gyfer rhyddhau sbectrwm ym mandiau 2.3/3.4GHz a'r band 700MHz, rydym wedi cynnal astudiaethau manwl o'r effaith bosibl ar ddefnyddwyr presennol, ac wedi addasu'r rhain lle'r oedd hynny'n bosibl. Gwnaethom gyhoeddi gwahoddiad i gyflwyno sylwadau y llynedd ar ofynion sbectrwm y Rhyngwyd Pethau, ac mae'r canfyddiadau wedi'u cyhoeddi [yma](#).

**Adolygu'r Amodau Cyffredinol** Roedd rhanddeiliaid fel Vodafone a Chymdeithas Telegyfathrebiadau Cystadleuol y DU (UKCTA) yn cynnig y dylai Ofcom adolygu darpariaethau'r Amodau Cyffredinol, er enghraifft cael gwared â thermâu anghyson ac adolygu priodoldeb gofynion sy'n effeithio ar ddarparwyr gwasanaethau band cul. Lleisiodd ymatebwyr bryderon hefyd am yr amodau sy'n berthnasol i elfennau lluosog bwndel.

Mae datblygiad yr Amodau Cyffredinol dros amser wedi creu fframwaith cymesur ar gyfer diogelu defnyddwyr penodol i'r sector, i gydategu a chyd-fynd â darpariaethau diogelu defnyddwyr ar draws sectorau.

Mae llawer o gwmpas yr Amodau Cyffredinol yn deillio o'r fframwaith rheoleiddio Ewropeaidd, a bydd yn briodol rhoi sylw i gwestiynau ynghylch hwn mewn adolygiadau ar lefel Ewropeaidd.

Credwn ei fod yn bwysig fod diogelwch cymesur i ddefnyddwyr yn berthnasol i wasanaethau o fewn cwmpas pa un a gawsant eu prynu yn unigol neu mewn bwndel.

## Newidiadau o bwys i'r Cynllun Blynyddol Drafft yn sgil yr ymatebion i'r ymgynghoriad a datblygiadau eraill

- 2.4 Isod, rydym yn disgrifio'r newidiadau mwyaf sylweddol i'n rhaglen waith ers cyhoeddi'r Cynllun Blynyddol Drafft.

### Cyflawni Adolygiad Strategol o Gyfathrebiadau Digidol

- 2.5 Yn ein hadolygiad o'r farchnad mynediad sefydlog ym mis Mai 2014 a hefyd yn ein Cynllun Blynyddol Drafft, gwnaethom nodi sut y gallai deng mlynedd ers ein hadolygiad strategol cyntaf o'r farchnad telegyfathrebiadau fod yn gyfle doeth i gynnal adolygiad ehangach o wasanaethau cyfathrebiadau. Ar 12 Mawrth, gwnaethom gyhoeddi adolygiad trosfwaol o farchnadoedd cyfathrebiadau digidol y DU, yr Adolygiad Strategol o Gyfathrebiadau Digidol.
- 2.6 Mae nifer o resymau dros weithredu yn awr. Rydym wedi gweld nifer o ddatblygiadau sylweddol, gan gynnwys cynlluniau ar gyfer y rownd nesaf o fuddsoddiad yn y rhwydwaith symudol a sefydlog, y defnydd o wasanaethau cyfathrebiadau drwy fand

eang (OTT - over-the-top) a diddordeb parhaus y farchnad mewn cydgyfeiriant a chyfuno ar draws y gadwyn werth.

- 2.7 Ynghyd â'r cyhoeddiad hwn gwnaethom gyhoeddi cylch gorchwyl y gellir ei weld ar ein gwefan [yma](#).
- 2.8 Rydym wedi nodi y bydd yr adolygiad yn flaenoriaeth ar gyfer 2015/16, ac rydym yn disgrifio'r maes gwaith ym mharagraff [A1.6](#).

### **Gweithio i sicrhau cystadleuaeth deg ac effeithiol mewn gwasanaethau darlledu, gan gynnwys ein hadolygiad o'r rhwymedigaeth rhaid cynnig yn gyfanwerthol**

- 2.9 Mewn blynyddoedd diweddar mae nifer o ddatblygiadau wedi digwydd yn y farchnad mewn perthynas â darparu gwasanaethau sy'n debyg i wasanaethau teledu, gyda gwasanaethau fideo ar alwad, yn aml yn cael eu darparu drwy fand eang (OTT) gan ddefnyddio'r rhyngwyd, yn cynyddu mewn poblogrwydd. Ym Mhennod 8 ein Cynllun Blynyddol Drafft, gwnaethom nodi y gallai fod angen gwneud rhagor o waith i ddeall goblygiadau datblygiadau marchnad yn y farchnad llwyfannau teledu.
- 2.10 Yn ddiweddar, gwnaethom gyhoeddi [cylch gorchwyl](#) ar gyfer asesiad o'r ffordd y gall datblygiadau yn y farchnad ddylanwadu ar ddatblygiadau llwyfannau llinol i ganfod a yw'n debygol y ceir cystadleuaeth effeithiol ym maes darparu gwasanaethau cynnwys newydd er budd defnyddwyr.
- 2.11 Disgrifir y gwaith hwn yn awr fel maes gwaith sylweddol ym mharagraff [A2.6](#).

### **Cyflwyno ffioedd trwyddedau blynyddol ar gyfer y sbectrwm 900 MHz a 1800 MHz**

- 2.12 Yn 2010, dywedodd y Llywodraeth wrth Ofcom am adolygu'r ffioedd sy'n cael eu talu ar gyfer y bandiau sbectrwm 900MHz a 1800MHz i adlewyrchu eu gwerth llawn yn y farchnad, ar ôl cwblhau'r arwerthiant 4G. Rydym wedi bod yn ymgynghori ynghylch diwygio'r ffioedd hyn ers i'r arwerthiant 4G ddod i ben ym mis Chwefror 2013. Ym mis Rhagfyr 2014, cytunodd y Llywodraeth a'r cwmnïau rhwydweithiau symudol y byddai'r cwmnïau yn gweithredu'r rhwymedigaeth i sicrhau darpariaeth llais i 90% o arwynebedd daearyddol y DU erbyn 31 Rhagfyr 2017 fan hwyraf.
- 2.13 Adeg cytundeb mis Rhagfyr, gwnaethom gytuno y byddem yn rhoi cyfle i bawb â diddordeb roi sylwadau ynghylch a ddylai'r rhwymedigaeth darpariaeth llais newydd o ran y cwmpas daearyddol, gan ystyried y costau cynyddrannol cysylltiedig a wynebir gan y cwmnïau, effeithio ar ffioedd trwyddedau i'r dyfodol. Gwnaethom gyhoeddi ymgynghoriad ar y pwnc hwn ym mis Chwefror 2015.
- 2.14 Disgrifir y gwaith hwn yn awr fel maes gwaith sylweddol ym mharagraff [A2.77](#).

### **Hybu dewis effeithiol i ddefnyddwyr drwy sicrhau bod gwybodaeth glir a pherthnasol ar gael yn hawdd**

- 2.15 Yn dilyn cyhoeddiad y Llywodraeth am gytundeb gyda chwmnïau rhwydweithiau symudol i fynd i'r afael â manau di-gyswllt rhannol yn y ddarpariaeth symudol, rydym wedi nodi rhagor o feysydd lle gallwn ddarparu gwybodaeth i ddefnyddwyr ar y ddarpariaeth symudol.

- 2.16 Yn ogystal â'r gwaith a nodir yn y Cynllun Blynyddol Drafft, yn Ch3 2015/16 bwriadwn gyhoeddi diweddariad i'n [hymchwil yn 2014](#) i ansawdd y profiad y mae cwmnïau symudol gwahanol yn ei ddarparu o ran gwasanaethau llais symudol (a fesurir fel canran o'r galwadau symudol a gaiff eu cwblhau'n llwyddiannus ar rwydweithiau pob un o'r cwmnïau). Bydd y gwaith hwn yn cyfrannu at yr ymchwil pellach i berfformiad gwasanaethau band eang symudol a'r ddarpariaeth symudol y byddwn yn ei gynnal yn 2015/16, fel y nodir yn y Cynllun Blynyddol Drafft.

### **Ymateb fel y bo'n briodol i newidiadau yn y broses datganoli pwerau i lywodraethau cenedlaethol**

- 2.17 Yn ein Cynllun Blynyddol Drafft gwnaethom amlinellu ein hymateb i wahoddiad Comisiwn Smith i Ofcom gyfrannu at ei waith yn ystyried rhagor o ddatganoli i Senedd yr Alban. Rydym wedi diweddarau ein disgrifiad o'n gwaith yn y maes hwn yn dilyn datblygiadau ers cyhoeddi ein Cynllun Blynyddol Drafft. Mae disgrifiad llawn o'n gwaith i'w gael ym mharagraff [A2.120](#).
- 2.18 Yn dilyn cyhoeddi argymhellion Comisiwn Smith ym mis Tachwedd 2014, cyhoeddodd Llywodraeth y DU gymalau drafft ym mis Ionawr 2015 yn dangos sut y byddai'r mesurau hyn yn cael eu hymgorffori mewn deddfwriaeth. Nodwn fod y ddeddfwriaeth ddrafft yn cynnwys nifer o ddarpariaethau sy'n ymwneud ag Ofcom a'i waith, er enghraifft pŵer i Weinidogion yr Alban benodi un aelod o Fwrdd Ofcom a fydd yn gallu cynrychioli buddiannau'r Alban.
- 2.19 Hefyd, ar 27 Chwefror 2015, rhyddhaodd Llywodraeth y DU bapur gorchymyn fel rhan o gytundeb Dydd Gŵyl Dewi ar ragor o ddatganoli i Gymru. Nodwn fod hyn yn cynnwys nifer o ddarpariaethau sy'n ymwneud ag Ofcom a'i waith, er enghraifft pŵer i Weinidogion Cymru benodi un aelod o Fwrdd Ofcom a fydd yn gallu cynrychioli buddiannau Cymru. Mae gwaith sy'n gysylltiedig â hyn yn cael ei ddisgrifio hefyd ym mharagraff [A2.120](#).
- 2.20 Yn 2015/16, byddwn yn parhau i ymateb fel y bo'n briodol i unrhyw gynigion ar gyfer datganoli pwerau i ddeddfwrfeydd yn y DU a llywodraethau cenedlaethol fel y maent yn effeithio ar y sectorau cyfathrebiadau.
- 2.21 Y ddadl ar ddatganoli yw'r cyd-destun ar gyfer rhoi rhagor o ffocws ar bwysigrwydd polisi rheoleiddio i bob un o'r gwledydd. Derbynion ni ymatebion gan nifer o randdeiliaid yn y gwledydd i'r ymgynghoriad, a'r cyfan yn pwysleisio pwysigrwydd adlewyrchu'r gwaith y mae Ofcom yn ei wneud gyda'r gwledydd yn y Cynllun Blynyddol. Gwnaeth Llywodraeth Cymru gais penodol am inni ddiwygio geiriad ein chweched diben strategol er mwyn cyfeirio at ein gwaith gyda gweinyddiaethau datganoledig yn y gwledydd, cais yr ydym wedi ymateb yn gadarnhaol iddo.
- 2.22 Mae ein rhaglen waith yn cynnwys amrywiaeth eang o weithgareddau i adlewyrchu buddiannau'r gwledydd unigol yn ogystal â'r DU drwyddi draw. I adlewyrchu hyn yn well, rydym wedi gwneud yr ychwanegiad canlynol i eiriad ein diben strategol (mewn print italig isod):
- 2.23 "Cyfrannu at bolisi cyhoeddus a ddiffinnir gan y Senedd, a'i weithredu, *a lle y bo'n briodol gan weinyddiaethau datganoledig*".

## **Rhoi mesurau ar waith i sicrhau bod rhifau daearyddol ar gael, a gwneud gwaith pellach yn ôl yr angen ar rifau nad ydynt yn rhai daearyddol**

- 2.24 Ers cyhoeddi'r Cynllun Blynyddol Drafft, rydym wedi nodi rhagor o waith sydd i'w wneud ar rifau nad ydynt yn rhai daearyddol ar gyfer 2015/16
- 2.25 Byddwn yn adolygu'r defnydd o rifau symudol, gan gynnwys diffinio 'gwasanaeth symudol' sy'n cael ei ddefnyddio wrth ddyrannu rhifau o'r ystod rhifau symudol 07. Bydd yr adolygiad yn ystyried y dull rydym yn ei gymryd yng nghyswllt ceisiadau i ddefnyddio rhifau symudol ar gyfer dyfeisiau Rhyngrwyd Pethau (cymwysiadau peiriant i beiriant, neu M2M). Rydym yn disgwyl ymgynghori ar y cynigion yn ddiweddarach eleni. Disgrifir y gwaith hwn yn llawn ym mharagraff [A3.5](#).

## **Adolygiad o weithdrefnau gweithredol cyffredin y post (PCOP)**

- 2.26 Yn y Cynllun Blynyddol Drafft gwnaethom ddweud y byddem yn cwblhau adolygiad o weithdrefnau gweithredol cyffredin y post (PCOP) erbyn Ch1 2015/16. Rydym yn awr wedi penderfynu rhoi gorau i'n gwaith ar PCOP oherwydd cyfyngiadau adnoddau.

## **Uno cwmnïau**

- 2.27 Ym mhennod 6, sy'n esbonio pwerau Ofcom yng nghyswllt y gyfraith gystadleuaeth, rydym wedi nodi'r rôl y gallwn ei hysgwyddo yn rhoi cymorth ar gais i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) ar uno posibl rhwng cwmnïau.

### Pennod 3

# Ein blaenoriaethau strategol ar gyfer 2015/16

## Eleni, rydym wedi nodi 11 blaenoriaeth ar gyfer 2015/16


- 3.1 Bob blwyddyn, bydd y Cynllun Blynyddol yn nodi'r prif flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r bennod hon yn rhoi amlinelliad byr o bob un o'r blaenoriaethau. Rhoddir mwy o fanylion am y rhain yn ein rhaglen waith yn [Atodiad 1](#) ac [Atodiad 2](#).

## Fel yn y blynyddoedd a fu, byddwn yn cyflwyno'r blaenoriaethau hyn yn erbyn y 'dibenion strategol' sy'n disgrifio ein dyletswyddau craidd

- 3.2 Yn [2013](#) gwnaethom nodi chwe diben strategol Ofcom fel fframwaith sy'n cwmpasu'r holl ddyletswyddau sydd gennym. Ers hynny, rydym wedi trefnu ein rhaglen waith i gyd-fynd â'r fframwaith hwn.
- 3.3 Mae ein dibenion strategol yn aros fwy neu lai yr un fath am y flwyddyn ariannol nesaf. Ond, rydym wedi ychwanegu'r canlynol at eiriad ein chweched diben strategol (mewn print italig isod) i adlewyrchu ein gwaith parhaus gyda'r gweinyddiaethau datganoledig yn y gwledydd:

*"Cyfrannu at bolisi cyhoeddus a ddiffinnir gan y Senedd, a'i weithredu, a lle y bo'n briodol gan weinyddiaethau datganoledig".*

**Ffigur 2 – Blaenoriaethau i Ofcom yn 2015/16**



**Crynodeb o'r gwaith y byddwn yn ei wneud i gyflawni pob un o'n blaenoriaethau ar gyfer 2015/16**

3.4 Mae rhaglen waith lawn i'w gweld yn [Atodiad 1](#) y ddogfen hon, yn ogystal â thabl o ganlyniadau interim a hirdymor rydym yn gweithio i'w cyflawni. Yn y bennod hon, rydym wedi darparu crynodeb bur o'n gwaith sy'n ymwneud â'n 11 blaenoriaeth.



<b>Cyflawni Adolygiad Strategol o Gyfathrebiadau Digidol</b>	<p>Rydym wedi cyhoeddi adolygiad trosfwaol o farchnadoedd cyfathrebiadau digidol y DU. Bydd yr adolygiad newydd yn ystyried nifer o faterion yn y sector, gan sicrhau yn benodol bod y cymhellion iawn ar gael ar gyfer buddsoddi, cynnal cystadleuaeth gref a nodi lle gellir cyflwyno dadreoleiddio.</p> <p>Gan ddefnyddio ein hymgysylltiad â rhanddeiliaid dros y misoedd nesaf, byddwn yn cyhoeddi dogfen drafod yn ystod haf 2015. Byddwn wedyn yn pwysu a mesur yr ymatebion cyn cyhoeddi ein safbwyntiau cychwynol at ddiwedd 2015.</p>
<b>Sicrhau cystadleuaeth effeithiol wrth ddarparu gwasanaethau cyfathrebu ar gyfer busnesau, yn enwedig busnesau bach a chanolig (BBaCh)</b>	<p>Byddwn yn asesu i ba raddau mae'r farchnad yn diwallu anghenion busnesau bach a chanolig o ran y rhwydweithiau sefydlog sydd ar gael, ynghyd â gwasanaethau, prisiau ac ansawdd. Byddwn yn asesu lefel ymgysylltiad busnesau bach a chanolig â'r farchnad ac yn ceisio gweld a ydynt yn cael eu gwarchod yn ddigonol rhag achosion posibl o niwed.</p> <p>Byddwn hefyd yn cwblhau'r adolygiad o'r farchnad cysylltedd busnes, gan ymdrin â chynnyrch busnes 'llinellau ar brydles'.</p>
<b>Gwella'r broses o newid darparwyr i ddefnyddwyr</b>	<p>Byddwn yn cwblhau ein gwaith yn rhoi trefniadau newid symlach ar waith ar gyfer newid sy'n cael ei arwain gan y darparwr sy'n ennill y cwsmer ar gyfer llinellau lle mae'r ddau barti'n defnyddio rhwydweithiau copr BT neu KCOM. Rydym yn awyddus i sicrhau bod newid ar gyfer gwasanaethau ffôn symudol a gwasanaethau wedi'u bwndelu mor hawdd â phosibl i'r defnyddiwr a byddwn yn cyflwyno cynigion ar gyfer diwygio, yn ôl yr angen, yn ddiweddarach yn 2015.</p>
<b>Cyflwyno prisiau cliriach ar gyfer rhifau sy'n dechrau gyda 08, 09 ac 118, a sicrhau bod galwadau '080' ac '116' am ddim o ffonau symudol yn ogystal â llinellau tir</b>	<p>Byddwn yn sicrhau bod yr ystodau 080 ac 116 am-ddim-i'r-galwr i ddefnyddwyr sy'n ffonio o ffonau sefydlog a symudol. Ar gyfer galwadau i rifau 084, 087, 09 ac 118, ni fydd cost yr alwad wedi'i bwndelu ac felly bydd defnyddwyr yn gwybod yn union faint sy'n cael ei dalu i'w darparwr ffôn a faint i gwmnïau eraill.</p>
<b>Monitro a sicrhau gwell perfformiad o ran ansawdd gwasanaeth a gwasanaeth i gwsmeriaid</b>	<p>Rydym wedi gosod safonau sylfaenol newydd ar Openreach ac rydym yn monitro ei berfformiad yn erbyn ei rwymedigaethau yng nghyswllt gosod ac atgyweirio llinellau sefydlog. Byddwn hefyd yn parhau i adolygu pa mor ddigonol yw'r trefniadau gwneud iawn i ddefnyddwyr ar gyfer oedi wrth osod a thrwsio namau ar linellau sefydlog, gyda'r bwriad o wella dealltwriaeth y defnyddwyr o drefniadau presennol darparwyr gwasanaethau cyfathrebu.</p>
<b>Diogelu defnyddwyr rhag niwed mewn amrywiaeth o feysydd blaenoriaeth, gan gynnwys galwadau niwsans</b>	<p>Byddwn yn gweithredu yn erbyn galwadau niwsans drwy gyfrwng ein <a href="#">cynllun gweithredu ar y cyd</a> gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.</p> <p>Byddwn hefyd yn parhau i ymchwilio i achosion o gamwerthu yn y sector.</p>

**Adolygu'r ffactorau a allai effeithio ar gynaliadwyedd y gwasanaeth post cyffredinol**

Byddwn yn cynnal adolygiad eang o'r ffactorau a allai gael effaith sylweddol ar allu'r Post Brenhinol i gynnig y gwasanaeth post cyffredinol yn y dyfodol.

Bydd yr adolygiad hwn yn cynnwys datblygiadau yn y farchnad parseli a sefyllfa'r Post Brenhinol yn y farchnad hon, a faint o welliannau yn effeithlonrwydd y Post Brenhinol fyddai'n dderbyniol disgwyl iddo eu cyflawni.

**Hyrwyddo darpariaeth well o ran gwasanaethau sefydlog a symudol i ddefnyddwyr preswyl a busnes**

Byddwn yn datblygu dull cyson ar gyfer adrodd am ddarpariaeth ac ansawdd y profiad o wasanaethau symudol a fydd yn adlewyrchu profiadau go iawn defnyddwyr, a byddwn yn cyhoeddi metrigau sy'n benodol i gwmni i lywio'r dewisiadau sydd ar gael i ddefnyddwyr mewn fformat hygrych.

Byddwn hefyd yn parhau i gefnogi'r gwaith o gyflwyno gwasanaethau band eang digon cyflym i ateb gofynion defnyddwyr yr oes sydd ohoni. Yn yr Adroddiad Seilwaith, nodwyd mai oddeutu 10Mbit yr eiliad y mae llawer o ddefnyddwyr yn ei gael ar hyn o bryd.

Byddwn yn gwneud hyn drwy gefnogi cynllun 'Broadband Delivery UK' y Llywodraeth, a thrwy adrodd ar fylchau yn y ddarpariaeth band eang cyflym iawn mewn ardaloedd trefol a gwledig, ac ar gyfer busnesau bach a chanolig. Byddwn hefyd yn cefnogi'r Llywodraeth wrth iddi ddatblygu ei chynigion ar gyfer y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus ar gyfer band eang.

**Gweithio tuag at sicrhau bod sbectrwm yn cael ei ryddhau'n brydlon a'i ddyfarnu'n effeithiol, gan gynnwys y bandiau 2.3GHz, 3.4GHz a 700MHz**

Ein gobaith yw dyfarnu 190MHz o sbectrwm yn y bandiau 2.3GHz a 3.4GHz, a byddwn yn paratoi'r band 700MHz i'w ryddhau ar gyfer y sbectrwm symudol yn 2022 (neu cyn hynny os oes modd).

**Cynrychioli safbwynt y DU mewn trafodaethau rhyngwladol ar ddefnyddio sbectrwm**

Cynhadledd fyd-eang y Cenhedloedd Unedig yw Cynhadledd Radiogyfathrebu'r Byd (WRC), lle mae'r cytuniad rhyngwladol sy'n rheoli'r defnydd o sbectrwm yn cael ei adolygu a'i ddiwygio.

Bydd y penderfyniadau a wneir yng nghynhadledd 2015 yn cael dylanwad uniongyrchol ar ddefnydd o sbectrwm ar gyfer amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnwys band eang symudol a darlledu. Bydd hyn, yn y pen draw, yn siapiro'r penderfyniadau y byddwn yn eu gwneud o ran defnyddio sbectrwm, yn y DU, yn y blynyddoedd i ddod.

**Hybu diogelwch a ffydd y gynulleidfa mewn amgylcheddau traddodiadol ac amgylcheddau ar-lein**

Yn 2015/16 byddwn yn gwneud mwy o waith i fonitro'r gwaith gorfodi yn erbyn cynnwys teledu sy'n torri'r Cod Darlledu. Byddwn hefyd yn parhau i hybu diogelwch a gwarchodaeth plant ar-lein.

- 3.5 Byddwn yn mesur llwyddiant ein gwaith yn cyflawni'r blaenoriaethau hyn ar gyfer 2015/16 yn erbyn canlyniadau interim a therfynol, a nodir gennym ar ddiwedd

Atodiad 1. Yn ogystal â'r 11 blaenoriaeth hyn rydym wedi nodi ein rhaglen waith lawn yn Atodiad 2.

## Sut rydym yn pennu ein blaenoriaethau

- 3.6 Wrth ymateb i'n gwahoddiad i gyflwyno sylwadau, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2014, gofynnodd sawl un am gael mwy o wybodaeth ynghylch sut rydym yn pennu ein blaenoriaethau. Isod, rydym wedi nodi'r ffactorau y byddwn yn eu hystyried wrth wneud y penderfyniad hwn:
- 3.6.1 **Perchnogaeth y mater / ein cylch gwaith presennol:** Mewn rhai meysydd, mae gan Ofcom gylch gwaith clir neu ddyletswydd i gyflawni gwaith; mae hyn wedi'i nodi mewn deddfwriaeth.
  - 3.6.2 **Maint ac eglurder yr hyn a gyflawnir:** Mae gan rai prosiectau rywbeth arbennig o bwysig, sydd wedi'i ddiffinio'n glir, i'w gyflawni, gyda chanlyniadau cysylltiedig.
  - 3.6.3 **Pwysigrwydd y mater:** Mae pwysigrwydd rhywbeth yng ngolwg defnyddwyr a rhanddeiliaid eraill yn ffactor wrth flaenoriaethu gwaith.
  - 3.6.4 **Ymrwymiad adnoddau:** Os yw prosiect yn faich mawr ar adnoddau'r sefydliad, gall hyn gyfrannu at y broses o flaenoriaethu'r gwaith.

## **Pennod 4**

# **Ein gwaith pwysig arall ar gyfer y flwyddyn hon**

- 4.1 Yn ogystal â'n 11 blaenoriaeth, rydym isod yn disgrifio ystod lawn y gwaith pellach y byddwn yn ei gyflawni yn ystod y flwyddyn i ddod er mwyn cyflawni ein dyletswyddau statudol eraill yn llawn.

**Ffigur 3 – Gwaith pwysig arall ar gyfer Ofcom yn 2015/16**

<b>Hybu cystadleuaeth effeithiol a dewis gwybodus</b>	<b>Diogelu defnyddwyr rhag niwed</b>	<b>Hyrwyddo cyfleoedd i gyfranogi</b>	<b>Sicrhau y gwneir y defnydd gorau posibl o sbectrwm</b>	<b>Cynnal hyder cynulleidfaoedd mewn cynnwys a ddarllidir</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gweithio i sicrhau cystadleuaeth deg ac effeithiol ar gyfer gwasanaethau darlledu, gan gynnwys ein hadolygiad o'r rhwymedigaeth 'rhaid cynnig yn gyfanwerthol'</li> <li>• Gweithredu'r adolygiad o'r fframwaith ar gyfer darparu adroddiadau rheoleiddiol yn y maes telegyfathrebiadau</li> <li>• Cychwyn ar yr adolygiadau o'r farchnad band cul a mynediad sefydlog</li> <li>• Hybu dewis effeithiol i ddefnyddwyr drwy sicrhau bod gwybodaeth glir a pherthnasol ar gael yn hawdd</li> <li>• Cynnal Asesiad o'r Effaith ar y Farchnad i gefnogi Profion Gwerth</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gweithio gyda chyrff yn y DU a chyrff rhyngwladol i hybu gwelliannau i'r gwasanaeth adnabod y galwr</li> <li>• Cefnogi cynlluniau'r diwydiant a'r Llywodraeth i wella lefelau ymddiriedaeth mewn gwasanaethau rhyngwyd</li> <li>• Gweithio i sicrhau bod gwasanaethau hanfodol yn cael eu cefnogi ar rwydweithiau llais y genhedlaeth nesaf</li> <li>• Sicrhau bod defnyddwyr yn gallu cael iawndal am fethiannau mewn gwasanaeth ac am wasanaeth o ansawdd gwael</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Deall a hyrwyddo buddiannau defnyddwyr a dinasyddion bregus</li> <li>• Gwneud gwaith arall yn unol â'n dyletswydd i sicrhau bod y gwasanaeth post cyffredinol yn cael ei ddarparu</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cwblhau ein hadolygiad o'r gofynion sbectrwm ar gyfer gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig</li> <li>• Gwellu'r defnydd a fwriedir o'r sbectrwm UHF</li> <li>• Cyflwyno ffioedd trwyddedau blynyddol ar gyfer y sbectrwm 900 MHz a 1800 MHz</li> <li>• Gweithio gyda'r Llywodraeth i ddiwallu gofynion sbectrwm y gwasanaethau brys</li> <li>• Archwilio cyfleoedd i rannu sbectrwm a'u rhoi ar waith</li> <li>• Cynllunio ar gyfer gofynion sbectrwm data symudol yn y dyfodol, gan gynnwys ar gyfer y Rhyngwyd Pethau</li> <li>• Rhoi cynllun ar waith ar berfformiad amleddau radio (RF)</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cwblhau ein hadolygiad o reoleiddio fformatau cerddoriaeth ar y radio</li> <li>• Cwblhau ein hadolygiad o'r cod EPG</li> <li>• Datblygu cynlluniau ar gyfer gweithredu a thrwyddedu DAB ar raddfa fach</li> </ul>

**Cyfrannu at bolisi cyhoeddus a ddiffinnir gan y Senedd, a'i roi ar waith, a lle y bo'n briodol gan weinyddiaethau datganoledig**

- Cwblhau adolygiad Ofcom o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus
- Ymateb fel y bo'n briodol i newidiadau yn y broses datganoli pwerau i lywodraethau cenedlaethol
- Cyhoeddi diweddariad i adroddiad 2014 ar gyflwr seilwaith cyfathrebiadau'r DU
- Datblygu fframwaith ar gyfer mesur lluosogrwydd yn y cyfryngau
- Ymgysylltu â'r Llywodraeth am y posibilrwydd o roi fframwaith cyffredin ar gyfer safonau yn y cyfryngau ar waith
- Ymgysylltu â rhaglen ddeddfwriaethol y Comisiwn Ewropeaidd newydd

## Gwaith rhaglennol

4.2 Rydym yn ymgymryd â nifer o wasanaethau allweddol ar gyfer defnyddwyr a rhanddeiliaid eraill, sy'n parhau o un flwyddyn i'r llall. Mae hyn yn cynnwys ein gwaith i wneud y canlynol:

- gorfodi cystadleuaeth e.e. drwy ddatrys anghydfodau ac ymchwilio i gwynion o dan y Ddeddf Cystadleuaeth a gosod cosbau pan fo hynny'n briodol;
- sicrhau bod rhifau daearyddol ar gael, a gwneud gwaith pellach yn ôl yr angen ar rifau nad ydynt yn rhai daearyddol;
- monitro diogelwch a chadernid rhwydweithiau;
- cynnal a chyhoeddi ymchwil cysylltiedig â marchnadoedd a defnyddwyr;
- cynllunio aseiniadau sbectwm a dyfarnu trwyddedau;
- rhoi cyngor a chymorth ar gyfer achosion ymyrraeth, a chymryd camau gorfodi pan fo hynny'n briodol;
- aseinio trwyddedau darlledu, gan gynnwys rhai ar gyfer gorsafoedd teledu lleol;
- parhau i gyfrannu at raglen waith Rhwydwaith Rheoleiddwyr y DU; ac
- ymgysylltu â rhanddeiliaid rhyngwladol a chyfrannu'n frwd at rwydweithiau rheoleiddio Ewropeaidd.

## Pennod 5

# Pwerau Ofcom o dan y gyfraith cystadleuaeth

- 5.1 Yn ogystal â'n cyfrifoldebau rheoleiddio, mae gennym bwerau sy'n ymwneud â materion cyfathrebu i:
- orfodi gwaharddiadau *ex post* cytundebau gwrthgystadleuol a'r camddefnydd o safle goruchafol a nodir yn Neddf Cystadleuaeth 1998 a'r darpariaethau cyfatebol o dan y Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd; ac
  - ymchwilio i farchnadoedd a chyfeirio materion o dan Ddeddf Menter 2002 at yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA).
- 5.2 Mae'r term 'materion cyfathrebu' yn cynnwys gwahanol agweddau ar gyfathrebiadau electronig, yn ogystal â darlledu a darparu gwasanaethau post. Rydym yn defnyddio'r pwerau hyn ar y cyd â'r CMA.
- 5.3 Bydd Ofcom yn ystyried a yw'n fwy priodol ymarfer pwerau'r Ddeddf Cystadleuaeth neu'r pwerau sectoraidd mewn unrhyw achos penodol, yn amodol ar ofynion penodol y ddeddfwriaeth.
- 5.4 Dyma'r achosion rydym yn ymchwilio iddynt ar hyn o bryd yn unol â'n pwerau o dan y gyfraith cystadleuaeth:
- cwyn gan British Telecommunications ccc yn erbyn Sky ccc yn honni achos o gamddefnyddio safle goruchafol yng nghyswllt cyflenwi Sky Sports 1 a 2 yn gyfanwerthol;
  - cwyn gan Whistl UK Limited ynghylch y prisiau a'r telerau ac amodau a gynigir gan Royal Mail Group Limited ar gyfer rhoi mynediad at wasanaethau danfon llythyrau penodol; a
  - cwyn gan Virgin Media Limited yn ymwneud â gwerthu hawliau cyfryngau clyweledol byw yn y DU ar gyfer gemau'r Uwchgynghair.
- 5.5 Mae rhagor o wybodaeth ar gael ein gwefan [yma](#).

## Uno cwmnïau a chaffaeliadau

- 5.6 Er nad oes gan Ofcom gylch ffurfiol i wneud penderfyniadau yng nghyswllt cwmnïau'n uno a chaffaeliadau, rydym fel arfer yn gweithio'n agos gyda'r awdurdodau uno (y CMA a'r Comisiwn Ewropeaidd) i ddarparu cyngor arbenigol ynghylch uno yn y sectorau rydym ni yn eu rheoleiddio yn y DU.

## Pennod 6

# Ein gwaith yn y gwledydd

## Parhau i ymdrin ag anghenion penodol holl wledydd a rhanbarthau'r DU

- 6.1 Wrth gyflawni ein dyletswyddau, byddwn yn ystyried buddiannau dinasyddion a defnyddwyr ledled y DU. O'r herwydd, rydym yn gweithio i hyrwyddo buddiannau pob un o'r pedair gwlad yn y DU, ac yn ystyried buddiannau eu hamrywiol gymunedau rhanbarthol a'u grwpiau ethnig.
- 6.2 Yn y flwyddyn i ddod, byddwn yn hyrwyddo buddiannau holl wledydd y DU yn ein meysydd gwaith blaenoriaeth, drwy wneud y canlynol yn benodol:
- parhau i ystyried anghenion defnyddwyr mewn ardaloedd gwledig wrth gyflawni ein swyddogaethau yng nghyswllt gwasanaethau post a deall effaith newidiadau i amseroedd casglu ar gymunedau gwledig;
  - mesur a llunio adroddiadau am argaeledd gwasanaethau band eang ym mhob un o'r gwledydd;
  - hybu gwell darpariaeth band eang a llais symudol yn y gwledydd, gan gynnwys drwy gyfrwng ein gwaith ymchwil i ddarpariaeth band eang symudol a llais symudol; a
  - monitro a sicrhau bod ansawdd gwasanaeth yn gwella ym maes telegyfathrebiadau llinellau sefydlog. Yn benodol, mae hyn yn cynnwys monitro ansawdd y gwasanaeth y mae Openreach (a BT yng Ngogledd Iwerddon) yn ei ddarparu yn y gwledydd.
- 6.3 Byddwn hefyd yn hybu buddiannau'r gwledydd yn ein meysydd gwaith pwysig eraill, drwy fynd ati'n benodol i wneud y canlynol:
- ymdrechu o'r newydd i hyrwyddo cynhwysiant digidol drwy ddefnyddio a rhannu ein gwaith ymchwil i gyfranogiad digidol, sgiliau ac agweddau ar draws gwledydd y DU a rhwng ardaloedd trefol a gwledig. Byddwn yn dal i gadw golwg ar wahaniaethau daearyddol mewn cyflymder band eang, ac yn monitro lefelau llythrennedd yn y cyfryngau yn ôl gwlad. Byddwn hefyd yn parhau i gadw golwg ar y rhwydweithiau a'r gwasanaethau sydd ar gael i fusnesau bach a chanolig;
  - monitro ymdrechion i wella'r broses gyfeirio a lleoli sianeli teledu ar y cyfeiryddion rhaglenni electronig (EPG) gan gyfeirio'n benodol at anghenion cynulleidfaoedd yn y gwledydd;
  - cyhoeddi casgliadau terfynol ein hadolygiad o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus, fel y nodir yn fanylach isod, sy'n asesu perfformiad y system darlledu gwasanaeth cyhoeddus (PSB) ledled y DU yn gyffredinol ac ym mhob gwlad yn unigol;
  - hwyluso gwaith ymgysylltu ffurfiol blynyddol ar lefel uwch rhwng Channel 4 a rhanddeiliaid ym mhob gwlad er mwyn llunio adroddiadau am gynnydd wrth geisio bodloni ymrwymïadau cynhyrchu newydd y darlledwr;



- adrodd am amodau ym mhob un o wledydd y DU yn *Niweddariad 2015 yr Adroddiad Seilwaith*, gan gynnwys canlyniadau ein gwaith ymchwil i argaeledd band eang a thrwy ddiweddarau'r gwaith ymchwil i ddaearyddiaeth economaidd a gynhaliwyd gennym yn 2013; a
- datblygu fframwaith mesur ar gyfer lluosogrwydd yn y cyfryngau a fydd yn gallu dangos y sefyllfa ym mhob un o'r gwledydd, ac yn y DU drwyddi draw.

6.4 Byddwn hefyd yn gwneud rhywfaint o waith sy'n benodol i'r gwledydd yn y DU. Yng Ngogledd Iwerddon, byddwn yn:

- parhau i roi cyngor rheoleiddiol a thechnegol i Weithrediaeth Gogledd Iwerddon, a'r Cynulliad a llywodraeth leol, yn enwedig er mwyn helpu i wella'r broses o gyflwyno band eang a darpariaeth symudol;
- cysylltu â ComReg ac Awdurdod Darlledu Iwerddon i sicrhau bod dull gweithredu cydgysylltiedig yn cael ei ddefnyddio ar gyfer materion darlledu a rheoli sbectrum ar draws ffiniau;
- cynnal fforymau diwydiant ar wasanaethau post, darlledu a thelegyfathrebiadau er mwyn caniatáu i ddarparwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid lleol godi materion sy'n ymwneud â defnyddwyr a chystadleuaeth.

6.5 Yn yr Alban, byddwn yn:

- monitro effaith y drwydded ITV Borders ddiwygiedig ar yr arlwy materion cyfoes i wylwyr yn yr Alban; a
- gweithio gyda llywodraeth yr Alban er mwyn cyfrannu at drafodaethau parhaus ynglŷn â darlledu a materion yn ymwneud â chysylltedd.

6.6 Yng Nghymru, byddwn yn:

- gweithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg a'i swyddogion i gyflwyno cyfres o safonau arfaethedig yn ymwneud â'r Gymraeg yn lle'r cynllun iaith Gymraeg sydd gennym ar hyn o bryd;
- rhoi cyngor rheoleiddio i Lywodraeth Cymru, ac i lywodraeth leol yng Nghymru; ac
- yn ogystal â'r gwaith a ddisgrifiwyd uchod, byddwn yn parhau i wneud yn siŵr bod y gwasanaethau y mae Ofcom yn eu darparu i randdeiliaid a defnyddwyr yn bodloni anghenion dinasyddion, defnyddwyr a busnesau yn y gwledydd.

6.7 Yn ystod y flwyddyn i ddod, byddwn hefyd yn ymateb yn briodol i newidiadau i'r broses datganoli pwerau i lywodraethau cenedlaethol. Mae cefndir y gwaith hwn a'n dull gweithredu yn cael ei ddisgrifio'n fwy manwl ym mharagraff [A2.119](#).

## Pennod 7

# Meysydd gwaith posibl a allai ymddangos yn y blynyddoedd nesaf

- 7.1 Mae'r ymgynghoriad hwn yn amlinellu rhaglen waith Ofcom ar gyfer 2015/16 fel yr ydym ni'n gweld pethau ar hyn o bryd. Fodd bynnag, gall y sector cyfathrebiadau newid a datblygu'n gyflym, a gallai hyn arwain at amgylchiadau sy'n gofyn i ni ymgymryd â gwaith arall.
- 7.2 Mae'r adran hon yn sôn am nifer o ddatblygiadau a allai ddylanwadu ar ein gwaith yn y dyfodol. Nid yw cynnwys y materion hyn yma yn awgrymu y bydd Ofcom yn cyflawni gwaith yn y meysydd hyn fel blaenoriaeth yng Nghynlluniau Blynyddol y dyfodol. Yn hytrach na hynny, mae'r rhain yn faterion a allai ddod yn fwyfwy pwysig ar gyfer ein gwaith rheoleiddio yn y dyfodol, yn amodol ar ddatblygiadau yn y farchnad. Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr, oherwydd bydd blaenoriaethau a materion newydd yn dod i'r amlwg.
- 7.3 Gallai ambell un gynhyrchu gwaith yn 2015/16 yn sgil digwyddiadau allanol nad oedd modd eu rhagweld neu gapasiti mewnol yn dod ar gael. Tan hynny, bydd Ofcom yn parhau i fonitro'r farchnad i wneud yn siŵr ein bod yn barod at y dyfodol.

## Band eang tra chyflym

- 7.4 Wrth i fand eang cyflym iawn ddod yn gyffredin i lawer, mae diddordeb cynyddol yn y diwydiant ac ymysg llunwyr polisi yng nghanau nesaf gwasanaethau band eang. Bydd hyn yn cynnwys dyfodiad band eang tra chyflym gyda chyflymderau hyd at 1Gbit yr eiliad. Yn ei [strategaeth ar y seilwaith cyfathrebiadau digidol](#) a gyhoeddwyd ar 18 Mawrth, cyhoeddodd y Llywodraeth mai ei huchelgais yw y dylai band eang tra chyflym o 100Mbit yr eiliad o leiaf ddod ar gael i'r cyfan bron o safleoedd y DU.
- 7.5 Mae sawl cwmni band eang sefydlog wedi cyhoeddi cynlluniau'n ddiweddar i fuddsoddi o'r newydd mewn rhwydweithiau mynediad sefydlog band eang tra chyflym. Mae'r defnydd o fand eang tra chyflym yn cynnwys datblygiadau yn y rhwydwaith telefoni (gan gynnwys G.Fast), y rhwydwaith band eang cebl (megis gwelliannau yn y safon DOCSIS (Manyleb Data dros Ryngwyneb Gwasanaeth Cebl) a datblygiadau ffibr-i'r-cartref newydd. Byddwn yn gweithio i ddeall mwy am oblygiadau'r datblygiadau pwysig hyn yn y farchnad yn ein Hadolygiad o Gyfathrebiadau Digidol yn y flwyddyn i ddod, gan gynnwys cyflymder tebygol a dosbarthiad daearyddol y gwaith uwchraddio.

## Deall swyddogaeth atebolrwydd cyfryngwyr wrth lunio polisiau yn y dyfodol

- 7.6 Yn y dyfodol, efallai y bydd gan gyfryngwyr rhyngwyd fel darparwyr gwasanaethau rhyngwyd (ISPs) swyddogaethau sy'n fwy neu'n llai ffurfiol wrth sicrhau nodau polisi mor amrywiol â diogelu hawlfraint ac amddiffyn pobl ifanc dan 18 oed. Wrth i'r dadleuon ar y mater hwn barhau, byddwn yn sicrhau ein bod yn deall deddfwriaeth berthnasol y DU ac Ewrop, y posibilrwydd o ddyletswyddau rheoleiddio yn y dyfodol, a datblygiad cynlluniau gwirfoddol perthnasol gan gyfryngwyr o'r fath.

## **Defnyddio mwy o wybodaeth a data defnyddwyr**

- 7.7 O ganlyniad i'r cyfleoedd sy'n codi yn sgil gwasanaethau protocol rhynggrwyd (IP) a'r rhynggrwyd, mae'n bosibl y bydd cwmnïau yng nghadwyn gwerth y sector cyfathrebiadau'n casglu ac yn defnyddio mwy a mwy o wybodaeth am eu cwsmeriaid.
- 7.8 Mae hyn yn codi nifer o faterion posibl, gan gynnwys cystadleuaeth, amddiffyn defnyddwyr a phryderon ynghylch preifatrwydd. Er nad yw materion o'r fath yn faterion i Ofcom yn unig, mae'n faes sensitif sy'n datblygu a bydd angen i ni weithio gyda rheoleiddwyr eraill i ddiogelu buddiannau defnyddwyr a dinasyddion.

## **Tagfeydd a phyrth cystadleuaeth newydd**

- 7.9 Wrth i'r sectorau cyfathrebiadau ddatblygu, mae'n bosibl y bydd newid i'w weld yn ystod a nifer y chwaraewyr, y rhwydweithiau a'r gwasanaethau a allai fod yn dagfeydd neu'n byrth i gystadleuaeth. Er enghraifft, gallai rhai o'r datblygiadau yn y farchnad a drafodwyd yn yr adran hon newid dynameg gystadleuol y farchnad dros amser.
- 7.10 Mae Ofcom yn canolbwyntio ar gefnogi cystadleuaeth effeithiol a dewisiadau ar sail gwybodaeth. Felly byddwn yn parhau i fonitro'r risg o bryderon newydd o ran cystadleuaeth a all godi wrth i gadwyn gwerth y sector cyfathrebiadau esblygu. Efallai y bydd yn rhaid i ni hefyd ddod o hyd i atebion rheoleiddiol posibl i fynd i'r afael â phryderon o'r fath ynghylch cystadleuaeth a pholisi cyhoeddus.

## Pennod 8

# Cyflawni ein dyletswyddau a gwerth am arian

8.1 Yn y bennod hon, rydym wedi nodi ein cyllideb ar gyfer y flwyddyn i ddod, a'r camau rydym wedi'u cymryd i leihau gwariant wrth i ni barhau i gyflawni ein dyletswyddau a sicrhau gwerth am arian i'n rhanddeiliaid.

## Rydym wedi cwblhau ein Hadolygiad pedair blynedd o Wariant gan y Trysorlys

8.2 2014/15 oedd blwyddyn olaf Adolygiad o Wariant y Trysorlys dros bedair blynedd yng nghyswllt Ofcom. Rydym wedi ymateb i'r sialensiau sy'n wynebu gwariant cyhoeddus drwy adolygu sut rydym yn rheoleiddio'n effeithiol ac yn gymesur er budd dinasyddion a defnyddwyr, gan sicrhau gwerth am arian yr un pryd i'n rhanddeiliaid.

8.3 Yn 2010, dechreusom ar ein Prosiect Adolygiad o Wariant mewnol, ac fel rhan o'r adolygiad hwnnw lluniwyd cyfres o fesurau i sicrhau 28.2% o ostyngiad termau real mewn costau dros gyfnod o bedair blynedd, gan barhau i gyflawni yn erbyn ein holl ymrwymadau yr un pryd.

8.4 Y gyllideb a bennwyd ar gyfer 2014/15 oedd £117.0m, gan leihau'r gost reoleiddio gyffredinol 33.4%<sup>3</sup> mewn termau real o'i gymharu â 2010/11. Mae hyn yn fwy na'n hymrwymiad gwreiddiol i sicrhau arbedion o 28.2% erbyn 2014/15. Cyflawnwyd hyn gennym drwy adolygiad trwyadl o'n gweithrediadau gan gynnwys:

- lleihau nifer y staff a rhewi cyflogau;
- rhoi'r gorau i ddefnyddio ac is-osod lle dros ben mewn adeiladau nad oedd arnom ni ei angen ar gyfer y dyfodol, gan lwyddo i beidio â chael cynnydd yn y rhent ar ein swyddfa yn Llundain yn yr adolygiad rhent;
- lleihau treuliau a rhoi polisïau cynhaliaeth a theithio mwy llym ar waith;
- prosesau caffael a rheoli cyflenwyr mwy effeithiol;
- lleihau'r costau sy'n gysylltiedig â'n hymrwymadau rhyngwladol;
- symleiddio ein swyddogaethau swyddfa gefn; a
- lleihau nifer y gweithwyr dros dro a chontract.

## Ein cyllideb ar gyfer 2015/2016

8.5 Mae Cynllun Blynyddol 2015/16 yn adeiladu ar yr arbedion a wnaed eisoes drwy ein Prosiect Adolygiad o Wariant mewnol. Rydym wedi dod o hyd i arbedion eraill y

---

<sup>3</sup> Ar ôl rhoi cyfrif am arbedion a gyflawnwyd ar ôl trosglwyddo'r cyfrifoldeb ar gyfer rheoleiddio gwasanaethau post o Postcomm ym mis Hydref 2011

bwriadwn eu gwneud ac rydym wedi gosod cyllideb o £114.3m i adlewyrchu hyn: gostyngiad 3.4%<sup>4</sup> mewn termau real o'i gymharu â chyllideb 2014/15.

- 8.6 Mae costau ar gyfer 2015/16 yn ôl sector rhanddeiliaid yn cael eu cyhoeddi yn ein Tablau Tariff, ochr yn ochr â'r ddogfen hon. Nid oes dim newidiadau i'r dull a ddefnyddir i gyfrifo'r newidiadau hyn ar gyfer 2015/16.

## Sut rydym yn rheoli ein hadnoddau

- 8.7 Yn 2015/16, byddwn yn parhau i wneud y defnydd gorau posibl o'r adnoddau sydd ar gael i ni a byddwn yn canolbwyntio ar sicrhau gwerth am arian i randdeiliaid ac i drethdalwyr. Yn benodol, byddwn yn:
- gwneud gwaith trwyddedu PMSE (gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig) yn fewnol;
  - trawsnewid ein gwasanaethau TGCh, gan arloesi a chyflawni yng nghyswllt ein strategaeth TGCh, a chan gynnwys defnyddio gwasanaethau cwmwl pan fo hynny'n briodol. Rydym hefyd wedi gwneud cynnydd da wrth dendro'n gystadleuol am y gwasanaethau TGCh craidd sy'n cael eu darparu i ni, ac rydym yn disgwyl gweld budd y llif gwaith hwn o 2016 ymlaen;
  - cynnal adolygiadau ar sut rydym yn cael gafael ar swyddogaethau a gwasanaethau allweddol, fel rheoli cyfleusterau a gwasanaethau cyflogres a buddion cyflogeion, er mwyn sicrhau rhagor o arbedion;
  - codi ffioedd am fynychu digwyddiadau lle mae rhanddeiliaid yn gofyn am fwy o wasanaeth gan ein timau Peirianeg a Gorfodaeth Sbectrwm na'r hyn sy'n ofynnol drwy statud. Rydym eisoes wedi darparu gwasanaethau y codwn dâl amdanynt ar gyfer nifer o ddigwyddiadau pwysig, gan gynnwys Formula One a Wimbledon. Rydym hefyd yn gwneud gwaith ymgynghori ym maes trwyddedu, ac yn codi tâl am hynny, pan mae angen ein harbenigedd cyn i randdeiliaid wneud ceisiadau am drwyddedau;
  - Yn 2014/15, gwnaethom gwblhau ein gwaith yn ailstrwythuro ein tîm Peirianeg a Gorfodaeth Sbectrwm i wneud mwy o welliannau i ddiwallu anghenion defnyddwyr sbectrwm. Arweiniodd hyn at ragor o ostyngiadau yn nifer y staff a chostau yn y maes hwn ac ad-drefnu ein portffolio eiddo rhanbarthol;
  - dod o hyd i gyfleoedd eraill i gynhyrchu arian ychwanegol ar gyfer y Trysorlys. Er enghraifft, rydym wedi casglu £1.5m yn barod oddi wrth y diwydiant fel rhan o gynllun peilot dwy flynedd, a fydd yn dod i ben ym mis Ebrill 2015, i ddiogelu'r cyflenwad o rifau ffôn daearyddol; a
  - parhau i adolygu ein gofynion o ran eiddo. Rydym ni a'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) yn ein swyddfeydd yng Nghaerdydd a Belfast wedi cytuno ar drefniadau cydleoeli, a byddwn yn gweithio i edrych ar ein hól troed mewn safleoedd eraill a'i leihau pan fo hynny'n bosibl.
- 8.8 Bydd Ofcom yn parhau i ymgysylltu â chyrrff rheoleiddio eraill i ddefnyddio ein sgiliau a'n galluoedd ac i rannu arferion gorau, defnyddio ein hadnoddau cyfun a gweithredu mor effeithlon â phosibl. Ym mis Mawrth 2014, lansiodd Rhwydwaith Rheoleiddwyr y DU (UKRN) er mwyn annog rheoleiddwyr i gyd-drefnu a chydweithredu'n well, i

<sup>4</sup> Yn seiliedig ar RPI Ionawr 2015, sef 1.1%


rannu arferion gorau ac i hybu effeithlonrwydd gweithredol. Mae gwaith Ofcom i gefnogi UKRN yn cael ei ddisgrifio'n fwy manwl ym mharagraff [A3.33](#).

**Atodiad 1**

# Rhaglen waith fanwl ar gyfer ein meysydd gwaith blaenoriaeth

A1.1 Mae'r Atodiad hwn yn rhoi rhagor o fanylion am y gwaith rydym wedi'i gynllunio yn ein meysydd blaenoriaeth. Rydym yn amlinellu ein blaenoriaethau ar gyfer 2015/16 isod yn Ffigur 4.

**Ffigur 4 – Blaenoriaethau i Ofcom yn 2015/16**



## Diben strategol 1: hybu cystadleuaeth effeithiol a dewis gwybodus

A1.2 Mae defnyddwyr yn elwa o farchnadoedd sy'n fwy cystadleuol, gan fod cystadleuaeth yn meithrin arloesedd ac yn creu cymhellion ar gyfer buddsoddiad effeithlon. Mewn rhai marchnadoedd cyfathrebiadau ceir amodau nad ydynt yn gystadleuol iawn. Mae nifer o ffactorau economaidd yn gyfrifol am hyn, megis effeithiau rhwydweithiau a darbodion maint sylweddol.

- A1.3 Mae Ofcom yn cynnal adolygiadau o farchnadoedd bob tair blynedd o dan y fframwaith telegyfathrebiadau Ewropeaidd. Mae yna ymgymeriadau hefyd sy'n gyfreithiol rwymol y cytunwyd arnynt rhwng Ofcom a BT yn 2005. Arweiniodd y rhain at wahanu swyddogaethau BT, a chreu Openreach er mwyn darparu mynediad i gystadleuwyr at y rhwydwaith telegyfathrebiadau. Mae'r cyfuniad hwn o reoleiddio wedi arwain at gystadleuaeth gref yn yr amrywiol wasanaethau ffôn a band eang sydd ar gael, sydd wedi bod o fudd i ddefnyddwyr.
- A1.4 Rydym yn rhagweld y bydd rôl reoleiddio *ex ante* yn parhau yn y marchnadoedd rydym yn eu rheoleiddio, ynghyd â mesurau i sicrhau bod modd i ddefnyddwyr gael mynediad at y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i ddewis yn ddoeth rhwng darparwyr.
- A1.5 Rydym hefyd yn parhau i wneud ymyriadau i orfodi rheoliadau *ex ante* pan fo hynny'n briodol. Mae hyn yn cynnwys ein hymatebion i gwynion gan ddefnyddwyr neu randdeiliaid, ymchwiliadau ar ein liwt ein hunain, a gwaith i ddatrys anghydfodau sy'n ymwneud â chystadleuaeth. Mae gan Ofcom hefyd ddyletswyddau cydredol o dan Ddeddf Cystadleuaeth 1998 gyda'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) ac rydym yn rhoi sylw i'r rhain ar wahân i'n prif raglen waith o dan [Pennod 5](#).

**Hybu  
cystadleuaeth  
effeithiol a dewis  
gwybodus**

- Cyflawni Adolygiad Strategol o Gyfathrebiadau Digidol
- Sicrhau cystadleuaeth effeithiol wrth ddarparu gwasanaethau cyfathrebu ar gyfer busnesau, yn enwedig busnesau bach a chanolig (BBaCh)
- Gwella'r broses o newid darparwyr i ddefnyddwyr

### **Cyflawni Adolygiad Strategol o Gyfathrebiadau Digidol**

- A1.6 Ar 12 Mawrth, gwnaethom gyhoeddi adolygiad trosfwaol o farchnadoedd cyfathrebiadau digidol y DU, yr Adolygiad Strategol o Gyfathrebiadau Digidol. Yn flaenorol, roeddem wedi nodi sut y gallai deng mlynedd ers ein hadolygiad strategol cyntaf o'r farchnad telegyfathrebiadau fod yn gyfle doeth i gynnal adolygiad o'r fath yn ein *Hadolygiad o'r Farchnad Mynediad Sefydlog* ym mis Mai 2014 ac yn ein *Cynllun Blynyddol Drafft*.
- A1.7 Mae nifer o resymau dros weithredu yn awr. Rydym wedi gweld nifer o ddatblygiadau ehangach sylweddol, gan gynnwys cynlluniau ar gyfer y rownd nesaf o fuddsoddiad yn y rhwydwaith symudol a sefydlog, y defnydd o wasanaethau cyfathrebiadau drwy fand eang (over-the-top) a diddordeb parhaus y farchnad mewn cydgyfeiriant a chyfuno ar draws y gadwyn werth.
- A1.8 Er mwyn cefnogi datblygiad cyfathrebiadau digidol yn y dyfodol, mae'n hanfodol parhau i gael fframwaith strategol clir y gellir seilio penderfyniadau rheoleiddio arno yn y dyfodol. Rhaid cynllunio'r fframwaith i hyrwyddo cystadleuaeth a chefnogi arloesedd a buddsoddi. Dylai hefyd ystyried yr amrywiaeth o ddatblygiadau yn y farchnad, cyhoeddiadau a datblygiadau a ddisgwylir mewn gwasanaethau cyfathrebiadau digidol. Bydd y fframwaith hwn yn fodd inni sicrhau canlyniadau da i ddefnyddwyr, dinasyddion, busnesau a'r DU yn gyffredinol.
- A1.9 Rhagwelwn y bydd gan yr adolygiad hwn ddau brif gam o leiaf.
- 1.9.1 Bydd cam un yn canolbwyntio ar gasglu tystiolaeth a deall profiadau defnyddwyr a rhanddeiliaid o gyfathrebiadau digidol. Bydd hyn yn sail i



ddogfen drafod yn ystod haf 2015 ar heriau posibl i wneud i farchnadoedd weithio i ddefnyddwyr.

- 1.9.2 Gan adeiladu ar ymatebion rhanddeiliaid i'r ddogfen drafod hon, bydd cam dau yn anelu at lunio casgliadau cychwynnol a nodi cynllun clir ar gyfer y camau nesaf. Bydd union natur ein hallbwn yng ngham dau yn dibynnu ar y dystiolaeth a'r dadansoddiadau a fydd yn codi yng ngham un. Rhagwelwn y byddwn yn cwblhau rhan dau tua diwedd 2015.

- A1.10 Cafodd cylch gorchwyl yr adolygiad hwn ei gyhoeddi ar y cyd â'r cyhoeddiad, ac mae ar gael ar ein gwefan [yma](#).

## **Sicrhau cystadleuaeth effeithiol wrth ddarparu gwasanaethau cyfathrebu ar gyfer busnesau, yn enwedig busnesau bach a chanolig (BBaCh)**

### Galluogi busnesau bach i gael y gorau o wasanaethau cyfathrebu

- A1.11 Mae busnesau bach a chanolig, sef busnesau gyda 1-249 o weithwyr, yn cynnwys nifer sylweddol o ddefnyddwyr cyfathrebiadau ar draws y DU. Mae ganddynt amrywiaeth o anghenion cyfathrebu a gallant ddefnyddio gwasanaethau busnes neu breswyl i ddiwallu'r anghenion hynny.
- A1.12 Ym mis Medi 2014, amlinellodd Ofcom ei [raglen waith](#) a oedd wedi'i llunio i alluogi busnesau bach a chanolig i gael y gorau o wasanaethau cyfathrebu yn y DU. Yn ystod 2015/16, byddwn yn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn i sicrhau canlyniadau da ar gyfer BBaCh wrth ddarparu gwasanaethau cyfathrebu a dynodi opsiynau polisi posibl a allai wella eu profiad. Byddwn yn cyhoeddi dogfen gychwynnol ar y gwaith hwn yn Ch1 2015/16.<sup>5</sup>
- A1.13 Bydd ein gwaith yn cynnwys asesu i ba raddau mae canlyniadau'r farchnad ar hyn o bryd yn diwallu anghenion busnesau bach a chanolig o ran y rhwydweithiau sefydlog sydd ar gael, gwasanaethau cyfathrebu, pris ac ansawdd. Bydd hefyd yn asesu a oes modd i fusnesau bach a chanolig ymgysylltu'n effeithiol â'r farchnad, er enghraifft, wrth gymharu prisiau a gwasanaethau neu newid darparwr.
- A1.14 Byddwn yn ystyried a oes mesurau digonol ar waith i ddiogelu BBaCh rhag arferion a allai arwain at niwed i ddefnyddwyr, megis slamio.

### Adolygiad o'r farchnad cysylltedd busnes (BCMR)

- A1.15 Yn ystod tymor y gwanwyn 2014, aethom ati i ddechrau adolygu'r marchnadoedd ar gyfer gwasanaethau cysylltedd busnes (sydd hefyd yn cael eu galw'n llinellau ar brydles). Bydd canlyniad yr adolygiad hwn o'r farchnad yn hanfodol i'r gwaith o hyrwyddo cystadleuaeth a buddsoddiad wrth ddarparu gwasanaethau cysylltedd busnes yn y DU.
- A1.16 Gwnaeth gyhoeddi galwad am fewnbwn ym mis Ebrill 2014 a dau ymgynghoriad interim: y cyntaf ym mis Hydref 2014 a oedd yn ymdrin â'n gwaith dadansoddi data a'r ail ym mis Tachwedd 2014 yn ymwneud ag 'atebion goddefol'. Mae'n bosib y byddai angen i ddarparwr gyda llawer o bŵer yn y farchnad ganiatáu i ddarparwyr cyfathrebiadau eraill gael mynediad i'w seilwaith ffisegol o bibelli a ffibrau ar gyfer yr atebion hyn.

<sup>5</sup> Drwy gydol y ddogfen hon, rydym yn cyfeirio at 'chwarteri' blwyddyn ariannol Ofcom, oni bai ein bod yn dweud yn wahanol. Mae ein blwyddyn ariannol yn mynd o fis Ebrill 2015 i fis Mawrth 2016.

- A1.17 Ar hyn o bryd, rydym yn bwriadu cyhoeddi prif ymgynghoriad yr Adolygiad o'r Farchnad Cysylltedd Busnes yn ystod Ch1 2015/16, ynghyd ag unrhyw ymgynghoriadau eraill sydd eu hangen ynghylch atebion. Rydym yn disgwyl dod â'r adolygiad i ben gyda datganiad yn Ch4 2015/16.
- A1.18 Byddwn yn edrych ar ansawdd gwasanaeth Openreach, yn enwedig o safbwynt darparu gwasanaethau Ethernet, ac yn ystyried a ddylai fod yn briodol gosod safon sylfaenol.

### **Gwella'r broses o newid darparwyr i ddefnyddwyr**

- A1.19 I fanteisio ar gystadleuaeth yn y sector cyfathrebiadau, mae'n hanfodol fod defnyddwyr yn gallu newid darparwyr yn hawdd. Mae'n dal yn bwysig ein bod yn gwneud rhagor o gynnydd, fel y bo'n briodol, i sicrhau bod y prosesau newid yn effeithiol i ddefnyddwyr.
- A1.20 Yn 2015 byddwn yn cwblhau ein gwaith ar sefydlu un proses newid sy'n cael ei arwain gan y darparwr sy'n ennill y cwsmer (GPL) ar gyfer gwasanaethau llais a band eang ar rwydweithiau copr Openreach a KCOM. Bydd mesurau newydd hefyd yn cael eu sefydlu i sicrhau bod defnyddwyr yn ymwybodol o oblygiadau eu penderfyniad i newid, ac i helpu i'w diogelu rhag slamio, colli gwasanaeth a throsglwyddiadau mewn camgymeriad.
- A1.21 Rydym hefyd yn awyddus i sicrhau bod y broses o newid ffôn symudol a gwasanaethau wedi'u bwndelu mor hawdd â phosibl i gwsmeriaid. . Yn Ch1 2015/16 byddwn yn cyhoeddi canfyddiadau galwad y llynedd am fewnbwn ac yn nodi'r gwaith arall y byddwn yn ei wneud i asesu a oes achos dros wneud rhagor o ddiwygiadau ac, os oes, yng nghyswllt pa rwydwaith/rwydweithiau. Os byddwn yn teimlo y byddai defnyddwyr yn elwa o ragor o newidiadau ac y gellir gwneud newidiadau cymesur, byddwn yn ymgynghori ynghylch hyn yn ystod tymor yr hydref 2015.
- A1.22 Rydym hefyd yn ymchwilio i rwystrau i newid nad ydynt yn gysylltiedig â phroses, gyda'r nod o'i gwneud yn haws i bobl ymgysylltu â darparwyr a dewis un.

### **Diben Strategol 2: diogelu defnyddwyr rhag niwed**

- A1.23 Un o'n cyfrifoldebau craidd yw diogelu defnyddwyr rhag niwed. Yn sgil y newidiadau cyflym sy'n gallu digwydd yn y sectorau rydym yn eu rheoleiddio, rydym yn gwneud yn siŵr ein bod yn effro i unrhyw fathau newydd o niwed a allai ymddangos. Rydym hefyd yn parhau i ymateb i fathau eraill o niwed lle y maent yn parhau ac yn gweithio'n agos gyda chyrrff defnyddwyr a grwpiau eiriolaeth gan gynnwys y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau (CCP).

<b>Diogelu defnyddwyr rhag niwed</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Diwygio rhifau nad ydynt yn rhai daearyddol i sicrhau tryloywder o ran prisiau</li><li>• Monitro a sicrhau gwell perfformiad o ran ansawdd gwasanaeth a gwasanaeth i gwsmeriaid</li><li>• Diogelu defnyddwyr rhag niwed mewn amrywiaeth o feysydd blaenoriaeth, gan gynnwys galwadau niwsans</li></ul>
--------------------------------------	------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

- A1.24 Mae rhifau ffôn 'nad ydynt yn rhai daearyddol' (sy'n cynnwys rhifau sy'n dechrau gyda 08, 09 ac 11) yn cael eu defnyddio gan fusnesau a sefydliadau eraill i alluogi defnyddwyr i gael gafael ar eu gwasanaethau. Maent hefyd yn cael eu defnyddio ar

gyfer gwasanaethau rhifau premiwm megis llinellau gwybodaeth a llinellau pleidleisio ar gyfer rhaglenni rhyngweithiol. Maent yn wahanol i rifau sy'n cychwyn gyda 01 a 02 gan nad ydynt yn gysylltiedig â lleoliad daearyddol penodol yn y DU.

- A1.25 Rydym yn bryderus y gallai ystyr a chost galwadau i'r rhifau hyn ddrysu defnyddwyr. Ym mis Rhagfyr 2013, fe wnaethom benderfynu:
- sicrhau bod yr ystodau 080 ac 116 am ddim i ddefnyddwyr sy'n galw o ffonau sefydlog a symudol. Bydd hyn yn cynnig manteision uniongyrchol i alwyr ac yn ailgynnu ffydd yn yr ystodau hyn; a
  - cyflwyno strwythur 'tariff wedi'i ddadfwndelu' newydd ar gyfer galwadau gan ddefnyddwyr i rifau 084, 087, 09 ac 118. Dylai hyn sicrhau bod defnyddwyr yn gwybod faint o'u harian sy'n cael ei dalu i'w cwmni ffôn a faint sy'n cael ei basio i'r sefydliad sy'n cael ei alw.
- A1.26 Bwriadwn roi'r newidiadau hyn ar waith ym mis Gorffennaf 2015. Tan hynny, rydym yn ymgysylltu â rhanddeiliaid i wneud yn siŵr y bydd y rheolau newydd yn cael eu lansio'n ddidrafferth.
- A1.27 Ym mis Hydref 2014, gwnaethom ymgynghori ar gynigion i adlewyrchu'r gofynion tariff newydd yn y Cod Darlledu. Byddwn yn cyhoeddi datganiad yn nodi unrhyw newidiadau i'r Cod yn Ch1 2015/16 cyn y daw'r newidiadau i'r tariffau yn weithredol.

### **Monitro a sicrhau gwell perfformiad o ran ansawdd gwasanaeth a gwasanaeth i gwsmeriaid**

- A1.28 Yn [yr adolygiad o'r farchnad mynediad sefydlog](#) (FAMR) yn 2014 gosodwyd safonau sylfaenol newydd gennym ar Openreach ar gyfer darparu a thrwsio llinellau mynediad copr. Yn ogystal â hyn, gosodom ofyniad ar Openreach i ddarparu adroddiadau ar amrywiaeth o ddangosyddion perfformiad allweddol mewn perthynas â'i berfformiad, a chyhoeddi rhai o'r dangosyddion hynny ar ei wefan gyhoeddus.
- A1.29 Yn ystod 2015/16 byddwn yn monitro perfformiad Openreach yn erbyn ei rwymedigaethau o ran gosod a thrwsio llinellau sefydlog. Byddwn hefyd yn cynnal adolygiad manwl o'i ddatganiad cydymffurfiaid blynyddol. Ein nod yw gwneud yn siŵr bod Openreach ar y trywydd iawn i gyflawni'r safonau gwasanaeth sylfaenol hyn bob blwyddyn hyd at 2016/17.
- A1.30 Byddwn hefyd yn adolygu ansawdd y gwasanaeth y mae Openreach yn ei gynnis o ran llinellau Ethernet fel rhan o'n hadolygiad o'r farchnad cysylltedd busnes (gweler paragraff [A1.15](#)).
- A1.31 Yn ogystal â'r gwaith hwn ar ansawdd y gwasanaeth, byddwn yn gweithio i fynd i'r afael â gwasanaeth gwael i gwsmeriaid drwy sicrhau y cydymffurfir â rheolau ar gyfer delio â chwynion, a sicrhau gwelliannau i'r ffordd y mae darparwyr yn delio â chwynion.

### **Diogelu defnyddwyr rhag niwed mewn amrywiaeth o feysydd blaenoriaeth eraill gan gynnwys galwadau niwsans**

- A1.32 Ein dull cyffredinol o weithredu wrth ddarparu amddiffyniad i ddefnyddwyr yw canolbwyntio ar y materion sy'n gallu achosi niwed sylweddol i ddefnyddwyr a materion y mae modd inni roi sylw iddynt gan ddefnyddio'n pwerau. Rydym yn

gwneud gwaith ar ein liwt ein hunain, er enghraifft ein gwaith parhaus ar gamwerthu llinellau sefydlog, lleihau biliau annisgwyl o uchel, galwadau mud a sicrhau telerau contract teg. Mewn meysydd eraill mae ein gwaith yn adweithiol, yn cael ei ysgogi gan faterion sy'n dod i'r wyneb neu'n newid yn ystod y flwyddyn.

A1.33 Yn 2015/16 bydd ein gwaith sydd wedi'i gynllunio yn cynnwys:

- rhaglen barhaus o waith yn mynd i'r afael â galwadau niwsans, sy'n cael ei disgrifio yn ein [cynllun gweithredu ar y cyd](#) gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Mae hyn yn cynnwys ffocws ar fesurau technegol, gan weithio gyda sefydliadau yn y diwydiant yn y DU ac yn rhyngwladol, i wella'r gallu i adnabod galwyr. Mae'r gwaith hwn yn cael ei ddisgrifio ym mharagraff [A2.32](#) isod;
- ffocws o hyd ar sicrhau bod darparwyr yn cydymffurfio â'r rheolau ar gyfer delio â chwynion, gan gynnwys ymchwiliadau os yw hynny'n briodol, a gweithio gyda'r diwydiant i sicrhau gwelliannau i wasanaeth i gwsmeriaid yn fwy cyffredinol yn y maes telegyfathrebiadau;
- rhaglen barhaus o fonitro a gorfodi i fynd i'r afael â chamwerthu a 'slamio' (gan gynnwys trosglwyddo llinellau tir mewn camgymeriad), gan ddefnyddio ymchwiliadau fel sy'n briodol; a
- ffocws o hyd ar gydymffurfio ag [Arweiniad Ofcom](#) ar godi prisiau ar ganol contract;

### Diben strategol 3: hyrwyddo cyfleoedd i gyfranogi

A1.34 Mae cael mynediad at wasanaethau cyfathrebu yn fwyfwy pwysig i ddefnyddwyr a dinasyddion y dyddiau hyn gan eu bod yn eu helpu i gyfrannu at gymdeithas. Mae ein gwaith sy'n ymwneud â'r gwasanaethau cyfathrebu sydd ar gael yn hanfodol yn y cyd-destun hwn. Mae nifer o'n blaenoriaethau yn ymwneud â hyrwyddo cyfleoedd i gymryd rhan drwy wneud yn siŵr bod gwasanaethau ar gael yn eang a cheisio lleihau'r rhwystrau sy'n atal defnyddwyr rhag defnyddio gwasanaethau cyfathrebu.

**Hyrwyddo  
cyfleoedd i  
gyfranogi**

- Adolygu'r ffactorau a allai effeithio ar gynaliadwyedd y gwasanaeth post cyffredinol
- Hyrwyddo darpariaeth well o ran gwasanaethau sefydlog a symudol i ddefnyddwyr preswyl a busnes

### Adolygu'r ffactorau a allai effeithio ar gynaliadwyedd y gwasanaeth post cyffredinol

A1.35 Yn ôl y rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol mae'n rhaid i'r Post Brenhinol, ymysg pethau eraill, gasglu a dosbarthu llythyrau chwe diwrnod yr wythnos am bris fforddiadwy ac unffurf yn ddaearyddol i bob cyfeiriad yn y DU. Mae gennym ddyletswydd yng nghyswllt y post i gyflawni ein swyddogaethau mewn ffordd a fydd yn sicrhau bod gwasanaeth post cyffredinol ar gael.

A1.36 Mae'n rhaid i ni ystyried yr angen i'r gwasanaeth cyffredinol fod yn gynaliadwy yn ariannol ac iddo fod yn effeithlon cyn diwedd cyfnod rhesymol ac aros yn effeithlon ar ôl hynny. Mae gwaith sy'n ymwneud â'r gwasanaeth post cyffredinol yn arbennig o bwysig i'n gwaith er budd gwledydd y DU a dinasyddion a defnyddwyr mewn ardaloedd gwledig.

- A1.37 Yn ystod 2014/15, yn ogystal â'n trefn fonitro barhaus, roeddem wedi bwriadu bwrw ymlaen â gwaith ar y canlynol: metrigau a methodolegau ar gyfer asesu effeithlonrwydd y gwasanaeth post cyffredinol; adolygu ein dull gweithredu ar gyfer gwasgu elw ar wasanaethau mynediad; cwblhau ein hadolygiadau o weithdrefnau gweithredol cyffredin y gwasanaeth post a chodau diogelwch eitemau post; ac ymgymryd ag adolygiad o gynlluniau delio â chwynion a gwneud iawn i ddefnyddwyr.
- A1.38 Fodd bynnag, ym mis Tachwedd 2013 ac ym mis Ionawr 2014, cynigodd y Post Brenhinol brisiau newydd ar gyfer gwasanaethau mynediad, a arweiniodd at gwynion gan rai gweithredwyr post. Ym mis Ebrill 2014, agorwyd ymchwiliad dan y Ddeddf Cystadleuaeth gennym i'r newidiadau arfaethedig, a lansiwyd adolygiad polisi o'r rheoliadau a'r canllawiau sy'n ymwneud â gosod prisiau mynediad.
- A1.39 Yn ogystal â hynny, ym mis Mehefin 2014, cyflwynodd y Post Brenhinol sylwadau rheoleiddiol i Ofcom yn dadlau bod cystadleuaeth pen-i-ben yn fygythiad i'r gwasanaeth post cyffredinol. Roedd yn cynnig y dylai Ofcom fwrw ymlaen ag adolygiad o effaith cystadleuaeth pen-i-ben ar y gwasanaeth post cyffredinol a gwneud newidiadau rheoleiddiol i ddiogelu'r gwasanaeth post cyffredinol.
- A1.40 Felly, mae ein gwaith ar reoleiddio'r gwasanaeth post yn 2014/15 wedi cynnwys y ddau adolygiad hyn yn bennaf, adolygiadau nad oeddynt wedi'u cynllunio: o brisiau mynediad ac effaith cystadleuaeth pen-i-ben ar y gwasanaeth post cyffredinol, yn ogystal â'n hymchwiliad o dan y Ddeddf Cystadleuaeth i newidiadau'r Post Brenhinol i delerau ac amodau a phrisiau mynediad.
- A1.41 Ym mis Rhagfyr 2015 gwnaethom gyhoeddi:
- ein diweddariad monitro blynyddol ar y sector post, a oedd yn cynnwys metrigau newydd ar gyfer asesu effeithlonrwydd;
  - ymgynghoriad yn cynnig rheolau newydd ar gyfer gosod prisiau mynediad. Gwneir hyn i sicrhau nad yw prisiau mynediad y Post Brenhinol yn atal cystadleuaeth fuddiol, ond gan ganiatáu i'r Post Brenhinol osod pris sy'n gadael iddo wneud elw teg ac sy'n adlewyrchu costau mewn math penodol o ardal; a
  - dogfen benderfyniad yn esbonio bod ein dadansoddiad yn dangos nad oedd y gwasanaeth cyffredinol o dan fygythiad ar hyn o bryd oddi wrth gystadleuaeth pen-i-ben. Felly nid oeddem yn teimlo bod angen gosod amodau rheoleiddio newydd ar weithredwyr newydd.
- A1.42 Bu i'n hadolygiad o gystadleuaeth pen-i-ben yn y sector post hefyd amlygu nifer o ffactorau eraill a allai o bosibl gael effaith fwy sylweddol ar gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth post cyffredinol yn y dyfodol. Yn benodol, y rhain oedd cynnydd y Post Brenhinol yn gwella ei effeithlonrwydd a datblygiad y farchnad parseli.
- A1.43 Yn ogystal â'n gwaith parhaus yn monitro'r farchnad bost, gan gynnwys effaith cystadleuaeth pen-i-ben, gwnaethom gyhoeddi y byddem hefyd yn adolygu'r materion pwysig eraill hyn er mwyn cyfrannu at ein hystyriaeth o'n dyletswydd i sicrhau y darperir gwasanaeth post cyffredinol.
- A1.44 Gydol 2015/16, byddwn yn cynnal adolygiad ehangach o'r ffactorau sy'n gallu effeithio ar allu'r Post Brenhinol i barhau i ddarparu'r gwasanaeth cyffredinol yn y dyfodol, fel ei gynnydd gydag effeithlonrwydd a newidiadau yn y farchnad parseli. Rydym yn anelu at gwblhau'r rhan fwyaf o'r gwaith hwn erbyn diwedd 2015/16.

- A1.45 Efallai hefyd y bydd Ofcom yn cynnal adolygiad arall o gystadleuaeth tua diwedd 2015 os bydd raid.

### **Hyrwyddo darpariaeth well o ran gwasanaethau sefydlog a symudol i ddefnyddwyr preswyl a busnes**

- A1.46 Wrth i ddefnyddwyr a busnesau ddibynnu fwyfwy ar ddyfeisiau symudol, mae disgwyliadau o ran y ddarpariaeth symudol ac ansawdd y ddarpariaeth wedi codi. Mae'r gweithredwyr rhwydweithiau symudol (MNOs) yn cyflwyno rhwydweithiau 4G ar hyn o bryd ac mae'n rhaid i O2 ddarparu gwasanaethau 4G i 98% o'r boblogaeth erbyn 2017 o dan y telerau a osodwyd gennym ar gyfer ei drwydded sbectrwm.
- A1.47 Ond, fel y nodwyd mewn cyhoeddiadau diweddar, mae nifer o feysydd pryder yn parhau o ran y ddarpariaeth (mannau digyswllt rhannol a manau hollol ddigyswllt), yn ogystal ag ansawdd profiad.
- A1.48 Mae gwaith i hyrwyddo gwell darpariaeth o ran gwasanaethau symudol yn faes o ddiddordeb arbennig i bob un o wledydd y DU, fel y nodir o dan [Pennod 6](#).

### **Parhau i hybu gwell darpariaeth symudol a gwybodaeth am wasanaethau er mwyn llywio penderfyniadau polisi a rhoi gwybodaeth i ddefnyddwyr**

- A1.49 Byddwn yn darparu cymorth technegol i'r Llywodraeth wrth iddi ystyried opsiynau ar gyfer gwella'r ddarpariaeth gan rwydweithiau symudol. Rydym yn rhagweld y bydd y gwaith hwn yn cynnwys cynghori'r Adran Drafnidiaeth ar gynlluniau i wella'r ddarpariaeth ar drenau.
- A1.50 Bwriadwn gyhoeddi ymchwil wedi'i ddiweddarau ar berfformiad gwasanaethau band eang symudol yn Ch3 2015/16. Rydym hefyd yn bwriadu cyhoeddi rhagor o ymchwil ar y ddarpariaeth ar gyfer rhwydweithiau 2G, 3G a 4G yn Ch3 2015/16.
- A1.51 Yn ein *Hadroddiad Seilwaith yn 2014*, gwnaethom ryddhau mwy o'r dadansoddiadau a'r data sylfaenol mewn fformat agored. Mae hyn yn cynnwys data am gyflymder a darpariaeth band eang, manau â chyswllt Wi-Fi, y ddarpariaeth gan rwydweithiau symudol a rhwydweithiau darlledu. Gwnaethom hefyd wella ansawdd y data drwy sicrhau eu bod yn haws eu deall.
- A1.52 Rydym wedi datblygu porth ar-lein sy'n cynnwys mapiau rhyngweithiol a graffeg gwybodaeth sy'n dangos y data ar ffurf lluniau. <http://infrastructure.ofcom.org.uk>. Bwriad y rhain yw sicrhau bod setiau data mawr a chymhleth yn aml mor berthnasol a dealladwy â phosibl i amrywiaeth eang o ddefnyddwyr.
- A1.53 Byddwn yn parhau i ystyried cyfleoedd i sicrhau bod ein data yn fwy agored i randdeiliaid ac ar gael yn fwy hwylus, er enghraifft yn *Niweddariad yr Adroddiad Seilwaith* yn hydref 2015.

### **Gweithio i ddeall manteision posibl addasu trwyddedau cyfarpar mwyhau symudol (mobile repeater) dan do**

- A1.54 Mae cyfarpar mwyhau ar gyfer ffonau symudol (a elwir hefyd yn atgyfnerthyddion neu chwyddwyr) yn cael ei farchnata fel technoleg i wella'r ddarpariaeth yng nghyswllt rhwydweithiau symudol. Mae'r defnydd o gyfarpar mwyhau symudol yn cael ei reoleiddio o dan y Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr. Ar hyn o bryd, mae'n anghyfreithlon gosod neu ddefnyddio'r math hwn o gyfarpar radio heb drwydded neu esemptiad wedi'i roi gan Ofcom.

- A1.55 Rydym yn ystyried manteision posibl addasu'r trefniadau trwyddedu ar gyfer y defnydd priodol o gyfarpar mwyhau ar gyfer ffonau symudol, er mwyn gwella'r ddarpariaeth symudol i ddinasyddion a defnyddwyr.
- A1.56 Fel rhan o'n rhaglen waith ehangach ar ddarpariaeth symudol, rydym yn comisiynu astudiaeth i ddeall yn well nodweddion technegol unrhyw gyfarpar mwyhau symudol dan do a all fod ar gael ac a osodir gan ddefnyddwyr. Bydd canlyniadau'r astudiaeth hon yn cael eu cyhoeddi fel rhan o'r ymgynghoriad sydd yn yr arfaeth ar gyfer Ch2 2015/16.

### Cefnogi cynlluniau gan y Llywodraeth i wella argaeledd band eang a band eang cyflym iawn ledled y DU a'i gwledydd

- A1.57 Ym mis Awst 2014, cyhoeddodd yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) ei bod ar y trywydd iawn i gyrraedd targed y Llywodraeth o sicrhau bod band eang ffibr cyflym iawn ar gael i 95% o safleoedd erbyn 2017. Byddai hyn yn sicrhau bod gan y defnyddwyr hyn fand eang digon cyflym o fwy na 10Mbit yr eiliad. Mae ei ffocws yn awr yn symud i'r 5% yn weddill o safleoedd nad oeddynt yn rhan o'r targed gwreiddiol.
- A1.58 Mae Broadband Delivery UK (BDUK), o fewn DCMS, wedi lansio wyth cynllun peilot i brofi dulliau technolegol gwahanol ar gyfer ymestyn rhagor ar y ddarpariaeth band eang ffibr yn yr ardaloedd hyn. Yn 2015/16, byddwn yn parhau i ddarparu cyngor a chefnogaeth dechnegol, fel y bo'n briodol, i BDUK a'r llywodraeth ar hyrwyddo argaeledd band eang cyflym iawn.
- A1.59 Wrth i fand eang cyflym iawn gyrraedd mwy o'r boblogaeth, bydd ystyriaethau polisi'n troi at y genhedlaeth ddilynol o wasanaethau band eang tra chyflym, fel FTTP. Mae'r mater hwn yn cael ei drafod ym mharagraff [7.4](#) uchod.
- A1.60 Yn ddiweddar, cyhoeddodd y Llywodraeth y bydd yn cymryd camau pellach i gefnogi'r gwaith o gyflenwi band eang mewn ardaloedd gwledig, gan gynnwys cynyddu'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol - yr hawl cyfreithiol i wasanaeth sylfaenol - o fand eang deialu i fand eang 5 Mbit yr eiliad. Mae hefyd wedi dweud y bydd yn cyfrannu at gostau gosod gwasanaethau lloeren a fydd yn gallu darparu band eang cyflym iawn. Byddwn yn darparu cyngor technegol ar y materion hyn yn ôl yr angen ac yn gweithredu unrhyw ofyniad newydd o ran Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol.

### Monitro'r bylchau yn y ddarpariaeth gyflym iawn mewn dinasoedd ac ardaloedd gwledig

- A1.61 Nodwyd yn [Adroddiad Seilwaith 2014](#) fod bylchau yn y ddarpariaeth band eang cyflym iawn mewn dinasoedd (oherwydd ffactorau fel llinellau i gyfnewidfa yn unig) ac mewn ardaloedd gwledig. Nodwyd gennym hefyd fod y ddarpariaeth band eang cyflym iawn yn isel ar gyfer BBaCh o'i gymharu â safleoedd preswyl. Byddwn yn monitro'r cynnydd sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael â'r bylchau hyn wrth i fand eang cyflym iawn barhau i gael ei gyflwyno. Byddwn hefyd yn cyhoeddi dadansoddiad newydd yn *Niweddariad 2015 yr Adroddiad Seilwaith*.
- A1.62 Byddwn hefyd yn diweddarau ein hymchwil daearyddiaeth economaidd a bwriadwn ei gyhoeddi ochr yn ochr â *Diweddariad 2015 yr Adroddiad Seilwaith*. Bydd yr ymchwil hwn yn cwmpasu holl wledydd y DU.

## Diben strategol 4: sicrhau y gwneir y defnydd gorau posibl o sbectrwm

A1.63 Mae gan Ofcom ddyletswydd i sicrhau bod y sbectrwm electromagnetig yn cael ei ddefnyddio hyd yr eithaf. Mae sbectrwm yn hanfodol i amrywiaeth o ddefnyddwyr, o rwydweithiau symudol i loerennau a radar i ddarllediadau teledu a radio. Rydym yn rheoli'r adnoddau sbectrwm er mwyn hyrwyddo buddiannau dinasyddion a defnyddwyr, drwy hyrwyddo gwasanaethau sydd ar gael yn eang, cystadleuaeth a dewis o ran gwasanaethau.

### Sicrhau y gwneir y defnydd gorau posibl o sbectrwm

- Gweithio tuag at sicrhau bod sbectrwm yn cael ei ryddhau'n brydlon a'i ddyfarnu'n effeithiol, gan gynnwys y bandiau 2.3GHz, 3.4GHz a 700MHz
- Cynrychioli safbwynt y DU mewn trafodaethau rhyngwladol i gytuno ar y ffordd orau o ddefnyddio sbectrwm yn effeithiol

### Gweithio tuag at sicrhau bod sbectrwm yn cael ei ryddhau'n brydlon a'i ddyfarnu'n effeithiol, gan gynnwys y bandiau 2.3 GHz, 3.4 GHz a 700 MHz

#### Paratoi ar gyfer dyfarnu'r bandiau 2.3 GHz a 3.4 GHz a gweithio gyda'r Llywodraeth ar Rhyddhau Sbectrwm Sector Cyhoeddus

- A1.64 Fel rhan o'n strategaeth i gynyddu cyfanswm y sbectrwm sydd ar gael a chefnogi'r galw cynyddol am wasanaethau di-wifr a fydd yn darparu rhagor o fuddion i ddefnyddwyr a dinasyddion, rydym yn bwrw ymlaen â chynlluniau i ddyfarnu 190MHz o sbectrwm yn y bandiau 2.3GHz a 3.4GHz. Dyma ran o ymrwymiad y Llywodraeth i ryddhau 500MHz o sbectrwm o dan 5GHz o'r sector cyhoeddus i'r sector preifat erbyn 2020.
- A1.65 Gwnaethom gyhoeddi ymgynghoriad ar y dyfarniad hwn ym mis Tachwedd 2014. Roedd yn nodi dau ddyluniad posibl ar gyfer yr arwerthiant, asesiad cystadleuaeth ac amodau trwydded drafft. Roeddem yn cynnig cynnal arwerthiant a gwneud y dyfarniad erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2015/16.
- A1.66 Yn ystod tymor yr haf 2015 bwriadwn gyhoeddi datganiad, rheoliadau drafft a memorandwm gwybodaeth cyn yr arwerthiant. Bydd hyn yn cynnwys ein casgliadau ar amodau trwydded technegol a heb fod yn dechnegol a chasgliadau'n ymwneud â materion cydfodoli technegol. Fel rhan o'n paratoadau ar gyfer dyfarnu, byddwn hefyd yn gwahodd darpar gynigwyr i gyfrannu at ffug arwerthiant.
- A1.67 Yn ogystal â'r bandiau 2.3GHz a 3.4GHz, rydym yn gweithio gyda'r Llywodraeth i ystyried pa sbectrwm arall sy'n cael ei ddefnyddio gan y sector cyhoeddus a allai fod ar gael ac yn addas i'w rannu ag amrywiaeth o gymwysiadau eraill.

#### Newid defnydd y band 700MHz

- A1.68 Ym mis Tachwedd 2014 gwnaethom gyhoeddi [ein penderfyniad](#) i ryddhau sbectrwm yn y band 700MHz (694-790MHz) i'w ddefnyddio ar gyfer data symudol. Dyma ran bwysig o'n strategaeth ehangach i fynd i'r afael â'r gofynion sbectrwm yn y dyfodol ar gyfer data symudol. Ein hamcan yw sicrhau bod y band ar gael ar gyfer gwasanaethau symudol erbyn dechrau 2022 ac yn gynt os oes modd.
- A1.69 Ar hyn o bryd mae'r band 700MHz yn rhan sylweddol o'r sbectrwm a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau teledu daearol digidol. Hefyd, mae llawer o'r microffonau



di-wifr a ddefnyddir mewn digwyddiadau fel cyngherddau a pherfformiadau theatr (dyfeisiau PMSE sain) yn defnyddio'r band 700MHz. Drwy ddarparu'r band ar gyfer data symudol o 2022, ni fydd gwasanaethau PMSE sain a theledu daearol digidol yn gallu defnyddio'r sbectrwm hwn wedyn.

A1.70 Ein hamcan yw gweithredu'r newidiadau i'r band 700MHz ond gan ddiogelu'r buddion y mae gwasanaethau PMSE sain a theledu daearol digidol yn eu darparu i ddinasyddion a defnyddwyr. Mae ein dadansoddiad yn awgrymu y byddwn yn gallu cyflawni'r newid heb leihau'r ddarpariaeth teledu daearol digidol yn ormodol na'r sianelau sydd ar gael a heb achosi ymyrraeth sylweddol i wylwyr. Mae'r cyngherddau a'r perfformiadau sy'n dibynnu ar ddyfeisiau PMSE sain yn gwneud cyfraniad pwysig at economi greadigol a bywyd diwylliannol y DU. Yn unol â'n hawydd i ddiogelu teledu daearol digidol, rydym hefyd yn ceisio sicrhau bod gan ddefnyddwyr PMSE fynediad at y sbectrwm sydd ei angen arnynt i barhau i gyflwyno'r digwyddiadau hyn heb gyfaddawdu ar werthoedd cynhyrchu yn sylweddol.

A1.71 Dros y flwyddyn i ddod, byddwn yn:

- parhau i gyfrannu at drafodaethau cynllunio rhyngwladol ynghylch amleddau, gyda'r bwriad o sicrhau'r cytundebau cynllunio sbectrwm a fydd yn ofynnol er mwyn gallu newid y defnydd o'r band 700MHz. Byddwn yn gweithio gyda'n cymdogion rhyngwladol i gytuno ar brif fanylion cynllun amledd diwygiedig ar gyfer teledu daearol digidol erbyn diwedd 2015;
- gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid yn y maes darlledu i ddatblygu cynllun ar gyfer y newidiadau gofynnol i'r seilwaith teledu daearol digidol;
- gweithio gyda'r diwydiant PMSE, er mwyn ceisio sicrhau y gall defnyddwyr PMSE gael gafael ar y sbectrwm sydd ei angen arnynt; a
- gweithio gyda'r Llywodraeth, defnyddwyr PMSE, grwpiau defnyddwyr a diwydiant i ddatblygu cynllun er mwyn i wylwyr a defnyddwyr sbectrwm yr effeithir arnynt gael gwybodaeth a chefnogaeth yn ystod y cyfnod trawsnewid.

### **Cynrychioli safbwynt y DU mewn trafodaethau rhyngwladol i gytuno ar y ffordd orau o ddefnyddio sbectrwm yn effeithiol**

A1.72 Mae Ofcom yn cynrychioli'r DU mewn trafodaethau rhyngwladol ar sbectrwm, gan gynnwys Cynadleddau Radiogyfathrebu'r Byd. Mae'r cynadleddau hyn yn cael eu cynnal bob ryw bedair blynedd ac maent yn datblygu cytundebau rhanbarthol a bydeang ar y defnydd o sbectrwm.

A1.73 Mae'r cytundebau hyn ar lefel cytuniadau yn rhoi eglurder i gwmnïau a chynhyrchwyr cyfarpar ar y defnydd rhyngwladol o sbectrwm. Mae hyn yn arwain at arbedion maint a'r gallu i ryngweithredu, sy'n dod â buddion i ddefnyddwyr a dinasyddion y DU drwy brisiau is a dyfeisiau ar gael yn fwy eang.

A1.74 Bydd Cynhadledd Radiogyfathrebu'r Byd nesaf yn cael ei chynnal am bedair wythnos ym mis Tachwedd 2015. Bydd yn rhoi sylw i nifer o eitemau agenda a fydd yn cael effaith uniongyrchol ar lawer o ddefnyddwyr sbectrwm mewn sawl sector. Mae'r rhain yn cynnwys band eang symudol a symudol, awyrofod, lloeren, gwyddoniaeth a radio-seryddiaeth, radio amatur a morol.

A1.75 Mae Ofcom yn ymgysylltu â'r Llywodraeth a rhanddeiliaid yn ystod y paratodau ar gyfer Cynhadledd Radiogyfathrebu'r Byd yn 2015 i sicrhau bod safbwyntiau a barn y DU yn cael eu datblygu'n effeithiol yn unol â pholisïau a blaenoriaethau'r DU. Roedd Ofcom wedi ymgynghori ar eitemau agenda arfaethedig cynhadledd 2015 ym mis Mehefin 2014 a chyhoeddodd ddogfen a'r wybodaeth ddiweddaraf ynddi ym mis Ionawr 2015.

A1.76 Yn 2015/16, byddwn yn:

- cydlynu safbwyntiau'r DU sydd i'w cyflwyno yng nghyfarfodydd Grŵp Paratoi'r Gynhadledd dan CEPT (Cynhadledd Ewropeaidd y Gweinyddiaethau Post a Thelegyfathrebiadau) ar gyfer Cynhadledd Radiogyfathrebu'r Byd yn 2015. Yn y cyfarfod ym mis Mehefin 2015 rydym yn disgwyl llofnodi'r set gyntaf o Safbwyntiau Ewropeaidd Cyffredin ar ran y DU, cyn llofnodi gweddill y safbwyntiau yng nghyfarfod olaf y Grŵp Paratoi ym mis Medi;
- cyflwyno safbwyntiau'r DU a, lle bo'n briodol rhai'r CEPT, yn y Gynhadledd ym mis Tachwedd 2015. Byddwn yn negodi ar ran y DU a CEPT, gan geisio cael y canlyniadau gorau i ddinasyddion a defnyddwyr y DU ac i gwmnïau yn y DU y mae penderfyniadau a wneir yn y gynhadledd ynghylch sbectrwm yn mynd i effeithio arnynt.

A1.77 Yn dilyn y gynhadledd yn 2015, byddwn yn cyfrannu at drafodaethau i gytuno ar y strwythur gwaith ar gyfer cynhadledd radiogyfathrebu'r byd nesaf, yn 2019 mae'n debyg. Yn ogystal â gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r Gynhadledd, bydd Ofcom yn 2015/16 yn:

- parhau i gyfrannu'n rhagweithiol at Grŵp Polisi Sbectrwm Radio (RSPG) yr UE, a'r Pwyllgor Sbectrwm Radio (RSC). Yn benodol, bydd y Grŵp Polisi Sbectrwm Radio yn cyflwyno adroddiad ar ddyfarniadau sbectrwm effeithlon, dan arweiniad y DU a bydd y Pwyllgor Sbectrwm Radio yn mabwysiadu penderfyniadau ynghylch sbectrwm y bydd yn rhaid i'r DU ymrwymo iddynt; a
- parhau i gyfrannu at Bwyllgor Cyfathrebiadau Electronig y CEPT a'i weithgorau a thimau prosiect cysylltiedig i ddatblygu penderfyniadau a fydd yn helpu i bennu'r amodau a fydd yn berthnasol wrth ddarparu sbectrwm ar gyfer amrywiaeth o wasanaethau a chymwysiadau ledled Ewrop.

## **Diben strategol 5: cynnal hyder cynulleidfaedd mewn cynnwys a ddarlledir**

A1.78 Byddwn yn parhau i weithio i gynnal hyder y gynulleidfa mewn cynnwys a geir ar wasanaethau teledu a radio. Gyda'r gwaith hwn, mae'n rhaid inni adolygu'r rheolau a'r prosesau presennol i sicrhau eu bod yn dal yn effeithiol ac yn briodol, ac i gydweithio â'r diwydiant ac eraill i ymateb yn briodol i ddatblygiadau yn y farchnad wrth ddarlledu a defnyddio cynnwys clyweledol.

**Cynnal hyder  
cynulleidfaedd  
mewn cynnwys a  
ddarlledir**

- Hybu diogelwch a ffydd y gynulleidfa mewn amgylcheddau traddodiadol ac amgylcheddau ar-lein

## **Hybu diogelwch a ffydd y gynulleidfa mewn amgylcheddau traddodiadol ac amgylcheddau ar-lein**

- A1.79 Wrth i batrymau defnydd gwasanaethau cynnwys newid , mae'n bwysig ein bod yn parhau i hyrwyddo buddiannau cynulleidfaoedd.
- A1.80 Ar lwyfannau traddodiadol, rydym yn trwyddedu mwy o sianeli nag erioed, rhai ohonynt nad ydynt yn ddarledwyr ers tro byd gyda diwylliant cadarn o gydymffurfio â rheoliadau. Yn sgil hyn, ceir mwy o gyfleoedd ar gyfer arloesi, ond hefyd ceir mwy o risg y bydd cynnwys niweidiol yn cael ei ddarledu, neu gynnwys nad yw'n cydymffurfio â'r Cod Darledu.
- A1.81 Yn ogystal, rydym yn parhau i hyrwyddo diogelwch cynulleidfaoedd wrth iddynt wyllo cynnwys ar-lein, yn arbennig yn achos plant.

### Sicrhau bod cynnwys yn cydymffurfio â rheolau darledu drwy ddefnyddio dull newydd wedi'i dargedu ar gyfer ein gweithgareddau gorfodi ar gyfer darledwyr teledu

- A1.82 Yn 2014/15, gwnaethom gynnal adolygiad eang o'n prosesau ar gyfer trwyddedu gwasanaethau darledu a safonau gorfodi i sicrhau bod cynulleidfaoedd yn cael eu diogelu'n effeithiol. Mae mwy o bryderon wedi codi ynghylch darledu deunydd sy'n gallu bod yn niweidiol neu ddeunydd nad yw'n cydymffurfio, ac rydym wedi cyflwyno cosbau sylweddol oherwydd y math hwn o gynnwys.
- A1.83 Yn 2015/16 byddwn yn adeiladu ar yr adolygiad hwn, gan ymgymryd â sawl darn o waith i sicrhau bod y gwasanaethau rydym yn eu trwyddedu'n cydymffurfio â'n rheolau. Bydd hyn yn cynnwys:
- ymestyn y gwaith o fonitro cynnwys teledu i ganfod cynnwys a allai achosi niwed i gynulleidfaoedd, yn arbennig sianelau nad ydym yn derbyn fawr ddim cwynion amdanynt;
  - dull gorfodi newydd ar gyfer canfod a yw deiliaid trwyddedau yn diwallu'r gofynion sydd arnynt i gael gweithdrefnau cydymffurfio digonol yn eu lle. Bydd hyn yn ein galluogi i ganfod problemau difrifol a systemig o ran cydymffurfio cyn gynted â phosibl;
  - cynnal archwiliadau o wasanaethau a ddarperir gan ddarparwyr dolenni lloeren y DU i wneud yn siŵr nad ydynt drwy amryfusedd yn darparu mynediad i wasanaethau nad ydynt wedi'u trwyddedu;
  - ehangu ein rhaglen flynyddol o ddilysu trwyddedau fel y gallwn wirio gwybodaeth ychwanegol am ein deiliaid trwyddedau'n rheolaidd. Mae hyn yn cynnwys newidiadau i enwau, newidiadau i berchnogaeth trwyddedau, a chadarnhad bod gwasanaethau'n darledu ar hyn o bryd; a
  - rhaglen addysg newydd i helpu deiliaid trwyddedau i ddeall eu dyletswyddau rheoleidiol, er mwyn gwella'r broses gydymffurfio drwyddi draw.

### Hybu diogelwch a gwarchodaeth plant ar-lein

- A1.84 Mae Ofcom yn gyfrifol am reoleiddio gwasanaethau rhaglenni ar alwad (ODPS) ac am sicrhau eu bod yn dilyn safonau perthnasol. Mae hyn yn cynnwys amddiffyniadau yn erbyn 'deunydd dan gyfyngiadau arbennig', fel cynnwys R18, a

deunydd sydd wedi'i wahardd na fyddai'n derbyn dosbarthiad gan y BBFC<sup>6</sup>. Mae hyn yn dilyn rheoliadau a gyflwynwyd yn 2014 yn cadarnhau y dylai gwasanaethau rhaglenni ar alwad ar-lein fod yn rhwym wrth yr un safonau dosbarthu â deunydd all-lein.

A1.85 Mae gan Ofcom gyfrifoldeb hefyd i hyrwyddo llythrennedd yn y cyfryngau (adran 11 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003), ac mae'n cyflawni'r ddyletswydd hon drwy gyhoeddi ymchwil ar lythrennedd yn y cyfryngau, gan gynnwys agweddau a defnydd plant a rhieni o'r cyfryngau.

A1.86 Byddwn yn gwneud amrywiaeth o waith a fydd, gyda'i gilydd, yn ceisio cynnal a diweddu'r fframwaith ar gyfer diogelu plant rhag cynnwys clyweledol anaddas a chyfrannu at y ddadl ar sut i ddiogelu plant yn yr amgylchedd digidol. Mae hyn yn parhau yn un o feysydd pryder mawr Ofcom a'r Llywodraeth.

A1.87 Yn benodol, yn 2015/16:

- byddwn yn parhau i reoleiddio ODPS: mae Ofcom wedi dynodi'r Awdurdod ar gyfer Teledu ar Alwad (ATVOD) yn gyd-reoleiddiwr ar gyfer cynnwys golygyddol a'r Awdurdod Safonau Hysbysebu (ASA) yn gyd-reoleiddiwr ar gyfer cynnwys hysbysebion. Ond, Ofcom sy'n dal yn bennaf gyfrifol am sicrhau bod darparwyr gwasanaethau ar alwad yn cydymffurfio â'r safonau perthnasol. Byddwn yn parhau i gefnogi gwaith ATVOD yn gorfodi safonau mewn gwasanaethau rhaglenni ar alwad (ODPS). Byddwn hefyd yn gweithio gyda'r BBFC, lle bo hynny'n berthnasol, i sicrhau bod ein gwaith yn gorfodi'r rheolau'n ymwneud â deunydd gwaharddedig a deunydd dan gyfyngiadau arbennig yn ystyried unrhyw ganllawiau cyfredol y bydd yn eu cyhoeddi;
- byddwn yn aelod gweithredol o is-grŵp amddiffyn pobl ifanc dan oed y Grŵp Rheoleiddwyr Ewropeaidd ar gyfer Gwasanaethau Cyfryngau Clywedol (ERGA). Rôl ERGA yw cynghori'r Comisiwn Ewropeaidd ar ddefnyddio'r Gyfarwydddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol (AVMS) ac ar faterion sy'n ymwneud â gwasanaethau cyfryngau clyweledol yn fwy cyffredinol; a
- byddwn yn parhau i chwarae rhan weithredol yn cefnogi Cyngor Diogelwch Rhynggrwyd Plant Llywodraeth y DU (UKCCIS), gan gynnwys cadeirio'r gweithgor ar y cyfryngau cymdeithasol. Rydym yn gallu cyfrannu at waith UKCCIS drwy ein hymchwil marchnad i ymwybyddiaeth o gyfryngau ar-lein a'u defnydd, yn enwedig drwy ein hadroddiadau ar lythrennedd yn y cyfryngau. Hefyd, byddwn yn parhau i gyfrannu at ddadleuon Ewropeaidd ynghylch amddiffyn pobl ifanc dan oed, fel sy'n briodol.

A1.88 Mae'r Llywodraeth wedi dweud<sup>7</sup> ei bod yn disgwyl y bydd cwmnïau ar draws cadwyn gwerth y rhynggrwyd yn sicrhau bod offer i gadw plant yn ddiogel yn rhywbeth safonol ar yr holl ddyfeisiau sy'n gallu defnyddio'r rhynggrwyd. Fel rhan o hyn, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi gofyn inni asesu'r broses o roi hidlyddion ar waith yn y DU ac adrodd yn ôl am ymwybyddiaeth rhieni o reolaethau ar eu cyfer, yn ogystal â'u hyder yn y rheini, ac a ydynt yn eu defnyddio ai peidio.

<sup>6</sup> British Board of Film Classification

<sup>7</sup> Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, Connectivity, content and consumers: Britain's digital platform for growth, Gorffennaf 2013, [https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/225783/Connectivity\\_Content\\_and\\_Consumers\\_2013.pdf](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/225783/Connectivity_Content_and_Consumers_2013.pdf).

A1.89 Ochr yn ochr â rheoleiddwyr eraill yn y cyfryngau, bydd Ofcom hefyd yn parhau i ddiweddarau ParentPort, i sicrhau bod y wefan yn dal i ateb ei diben: ei gwneud yn haws i rieni gwyno wrth y rheoleiddwyr am ddeunydd y maent wedi'i weld neu ei glywed sydd yn anaddas i blant yn eu barn hwy.

### **I helpu i fesur ein perfformiad yn erbyn y blaenoriaethau hyn, rydym wedi pennu canlyniadau interim a therfynol**

A1.90 Byddwn yn mesur llwyddiant ein gwaith yn erbyn ein blaenoriaethau ar gyfer 2015/16 drwy gymharu â set o ganlyniadau interim a therfynol. Adroddir ar hyn yn yr Adroddiad Blynyddol ym mis Gorffennaf 2016.

A1.91 Rydym wedi gosod canlyniadau ar gyfer pob un o'n blaenoriaethau, fel y dangosir yn Ffigur 5 isod.

A1.92 Rydym wedi rhannu ein canlyniadau yn ganlyniadau interim a therfynol:

- canlyniadau interim – digwyddiadau yn y farchnad sy'n deillio o benderfyniad a wneir gan Ofcom (er enghraifft rhoi mynediad i drydydd partïon at rwydwaith neu wasanaeth penodol). Mae'r rhain yn cyfrannu at gyflawni'r canlyniadau terfynol; a
- canlyniadau terfynol - mae'r rhain yn disgrifio'r buddion ehangach i ddinasyddion a defnyddwyr. Enghraifft fyddai galluogi defnyddwyr i ddewis o blith amrywiaeth o gynigion adwerthu cystadleuol ac arloesol. Rydym yn bwriadu gwneud yr hyn y gellir ei wneud yn rhesymol i farnu ein llwyddiant wrth sicrhau canlyniadau terfynol, gan gydnabod ar yr un pryd y bydd datblygiadau yn y farchnad ehangach hefyd yn dylanwadu ar y canlyniadau hyn.

**Ffigur 5: Canlyniadau a blaenoriaethau Cynllun Blynyddol 2015/16**

	<b>BLAENORIAETHAU STRATEGOL</b>	<b>CANLYNIADAU INTERIM</b>	<b>CANLYNIADAU TERFYNOL</b>
<b>Hybu cystadleuaeth effeithiol a dewis gwybodus</b>	Cyflawni Adolygiad Strategol o Gyfathrebiadau Digidol	Mae gan Ofcom fframwaith strategol wedi'i ddiffinio'n glir o hyd ar gyfer ei benderfyniadau sy'n ystyried datblygiadau presennol yn y farchnad ac yn y dyfodol. Rydym yn rhoi ystyriaeth i gyfleoedd i ddadreoleiddio gwasanaethau a darparwyr cyfathrebiadau digidol.	Mae'r sector cyfathrebiadau digidol yn darparu buddsoddiad effeithlon, gyda rheoleiddio penodedig ar gyfer sicrhau cystadleuaeth. Mae fframwaith strategol cyson yn darparu sicrwydd rheoleiddio priodol i'r farchnad.
	Sicrhau cystadleuaeth effeithiol wrth ddarparu gwasanaethau cyfathrebu ar gyfer busnesau, yn enwedig busnesau bach a chanolig (BBaCh)	<i>Adolygiad o'r farchnad cysylltedd busnes:</i> Cwblhau adolygiad o'r marchnadoedd cysylltedd busnes a chyflwyno atebion os oes raid  <i>Galluogi busnesau bach a chanolig i gael y gorau o wasanaethau cyfathrebu:</i> Canfod a yw'r farchnad yn darparu canlyniadau da i fusnesau bach a chanolig a chyhoeddi dogfen gychwynnol yn Ch1 2015/16. Rhoi argymhellion polisi ar waith i wella profiadau BBaCh	<i>Adolygiad o'r farchnad cysylltedd busnes:</i> Hybu cystadleuaeth yn y gwasanaethau cysylltedd busnes a ddarperir a chreu amodau a fydd yn caniatáu i'r farchnad ddarparu arloesedd a buddsoddiad cynaliadwy mewn seilwaith  <i>Galluogi busnesau bach a chanolig i gael y gorau o wasanaethau cyfathrebu:</i> Gall BBaCh ddewis o blith amrywiaeth briodol o gyfathrebiadau, gwasanaethau a chyflenwyr, ac yn gallu ymgysylltu'n effeithiol â darparwyr
	Gwella'r broses o newid darparwyr i ddefnyddwyr	Sicrhau nad yw'r prosesau ar gyfer newid gwasanaethau cyfathrebiadau ar draws amrywiaeth o dechnolegau a chynnyrch yn atal defnyddwyr rhag newid darparwr	Mae defnyddwyr yn gallu newid rhwng darparwyr cyfathrebiadau'n hawdd a didrafferth, ac nid yw rhwystrau rhag newid yn niweidio'r broses gystadleuol
<b>Diogelu defnyddwyr rhag niwed</b>	Diwygio rhifau nad ydynt yn rhai daearyddol i sicrhau tryloywder o ran prisiau	Mae defnyddwyr yn gwybod am y newidiadau i alwadau Rhadffôn a rhifau wedi'u dadfwndelu. Mae darparwyr cyfathrebiadau'n defnyddio tariffau wedi'u dadfwndelu (taliadau mynediad a thaliadau gwasanaeth) ar eu llwyfannau bilio heb broblemau sylweddol (megis galwadau'n cael eu colli neu wedi'u prasio'n anghywir) Mae darparwyr gwasanaethau'n gwneud dewisiadau gwybodus ar yr ystod rhifau nad-ydynt-yn-rhai-daearyddol i'w ddefnyddio	Gwelliannau y mae modd eu mesur yn nealltwriaeth defnyddwyr o brisiau galwadau nad ydynt yn rhai daearyddol, a llai o sioc wrth gael bil am hynny

	Monitro a sicrhau gwell perfformiad o ran ansawdd gwasanaeth a gwasanaeth i gwsmeriaid	Monitro perfformiad Openreach a sicrhau ei fod yn cyhoeddi diweddariadau'n brydlon yng nghyswllt dangosyddion perfformiad allweddol yn erbyn ei rwymedigaethau o ran gosod a thrwsio llinellau sefydlog.	Mae cwsmeriaid yn elwa o ansawdd gwasanaeth gwell ar gyfer darparu ac atgyweirio'r gwasanaethau cyfathrebu a ddarperir dros rwydwaith Openreach
	Diogelu defnyddwyr rhag niwed mewn amrywiaeth o feysydd blaenoriaeth, gan gynnwys galwadau niwsans	Pennu achlysuron lle mae defnyddwyr yn cael niwed, a gweithredu ar hynny, gan gynnwys ymchwiliadau a chosbau fel y bo'n briodol, er mwyn lleihau'r niwed a sicrhau cydymffurfiaid	Gwelliannau yn lefel y niwed i ddefnyddwyr a achosir gan bob mater, y ceir tystiolaeth ohono drwy fesurau megis nifer y cwynion, barn y cyhoedd a'r cyfryngau, ac ymchwil pwrpasol arall

	BLAENORIAETHAU STRATEGOL	CANLYNIADAU INTERIM	CANLYNIADAU TERFYNL
<b>Hyrwyddo cyfleoedd i gyfranogi</b>	Adolygu'r ffactorau a allai effeithio ar gynaliadwyedd y gwasanaeth post cyffredinol	Pennu ac ystyried ffactorau a all effeithio ar ddarparu'r gwasanaeth post cyffredinol	Gwasanaeth post cyffredinol sy'n bodloni anghenion busnesau a chwsmeriaid preswyl
	Hyrwyddo darpariaeth well o ran gwasanaethau sefydlog a symudol i ddefnyddwyr preswyl a busnes	Cyhoeddi ymchwil ar berfformiad band eang symudol yn Ch3 2015/16 ac ymchwil ar y ddarpariaeth 2G, 3G a 4G yn Ch3 2015/16. Byddwn yn datblygu mapiau darpariaeth rhyngweithiol symudol newydd, a fydd yn gadael i ddefnyddwyr weld lle mae signal ar gael. Bydd defnyddwyr hefyd yn gallu rhoi adborth i Ofcom pan ddônt ar draws ardaloedd lle mae'r ddarpariaeth yn wael.	Parhau i hybu buddsoddiad yn y ddarpariaeth symudol drwy hysbysu defnyddwyr am y ddarpariaeth a'r cyflymderau data symudol y mae cwmnïau'n eu cynnig
		Rhoi gwybod am fylchau yn argaeledd band eang cyflym iawn mewn ardaloedd trefol a gwledig ac ar gyfer busnesau bach. Cefnogi BDUK fel y bo'n briodol	Mwy o fand eang sy'n ddigon cyflym ar gael i ddiwallu gofynion defnyddwyr
<b>Sicrhau y gwneir y defnydd gorau posibl o sbectrwm</b>	Gweithio tuag at sicrhau bod sbectrwm yn cael ei ryddhau'n brydlon a'i ddyfarnu'n effeithiol, gan gynnwys y bandiau 2.3GHz, 3.4GHz a 700MHz	<i>Dyfarnu bandiau 2.3GHz / 3.4GHz:</i> Rhoi trefn derfynol ar yr amodau technegol ar gyfer rhyddhau bandiau. Cwblhau'r gwaith polisi a dylunio ar gyfer yr arwerthiant, cwblhau'r rheoliadau ar ei gyfer a chynnal arwerthiant	<i>Dyfarnu bandiau 2.3GHz / 3.4GHz:</i> Cynnydd ym maint y sbectrwm sydd ar gael i ddiwallu'r galw cynyddol am wasanaethau di-wifr, gan ddarparu mwy o fuddion i ddefnyddwyr a dinasyddion

		<p><i>Newid y defnydd o'r band 700MHz: Cwblhau'r trafodaethau rhyngwladol cyn cynhadledd radiogyfathrebu'r byd 2015 ar gysoni'r band a chytuno ar gynllun amledd ar gyfer prif orsafoedd teledu daearol digidol</i></p>	<p><i>Newid y defnydd o'r band 700MHz: Newid defnydd ar gyfer band eang symudol sy'n gyson a gwaith cysoni rhyngwladol yn y dyfodol a theledu daearol digidol ar gael yn eang a sbectrwm yn dal ar gael ar gyfer PMSE</i></p>
	<p>Cynrychioli safbwynt y DU mewn trafodaethau rhyngwladol i gytuno ar y ffordd orau o ddefnyddio sbectrwm yn effeithiol</p>	<p>Cytuno ar safbwynt y DU ar gyfer Cynhadledd Radiogyfathrebu'r Byd gyda'r Llywodraeth a dylanwadu ar y gwaith o ddatblygu Safbwyntiau Ewropeaidd Cyffredin yn unol â buddiannau'r DU. Bydd Ofcom yn datblygu ac yn blaenoriaethu ein mewnbwn i'r pwyllgorau sbectrwm rhyngwladol amrywiol ar lefel Ewropeaidd, rhanbarthol a byd-eang, gan sicrhau dylanwad y DU gymaint ag y bo modd i ddarparu syniadau ac allbynnau sy'n gyson â pholisi'r DU.</p>	<p>Mae gan y DU safbwyntiau clir o ran polisi a fydd yn cael eu cyflwyno a'u trafod yn effeithiol yng Nghynhadledd Radiogyfathrebu'r Byd ym mis Tachwedd 2015. Cytunir ar y safbwyntiau gyda'r Llywodraeth ac maent yn ystyried anghenion rhanddeiliaid y DU yn briodol. Mae'r DU yn gyfranogwr uchel ei pharch mewn pwyllgorau sbectrwm rhyngwladol, sy'n arwain at ddatblygu penderfyniadau sbectrwm ar lefel Ewropeaidd yn unol â buddiannau'r DU.</p>
<p><b>Cynnal hyder cynulleidfaoedd mewn cynnwys a ddarllidir</b></p>	<p>Hybu diogelwch a ffydd y gynulleidfa mewn amgylcheddau traddodiadol ac amgylcheddau ar-lein</p>	<p>Gwella dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth darlledwyr o sut i gydymffurfio â'r gofynion trwydded perthnasol a rheolau'r Cod fel nad yw cynnwys nad yw'n cydymffurfio neu a all fod yn niweidiol yn cael ei ddarlledu</p> <p>Sicrhau bod gwasanaethau rhaglenni ar alwad yn cydymffurfio i helpu i ddiogelu plant rhag cynnwys anaddas. Hysbysir rhanddeiliaid am agweddau a defnydd plant a rhieni o'r cyfryngau</p>	<p>Trefn orfodi fwy effeithiol ar gyfer cynnwys sy'n rhoi lefelau uchel o amddiffyniad i gynulleidfaoedd</p> <p>Sicrhau bod fframwaith effeithiol ar waith i ddiogelu plant rhag cynnwys clyweledol anaddas mewn amgylcheddau digidol</p>



## Atodiad 2

# Rhaglen waith fanwl ar gyfer ein meysydd gwaith pwysig

- A2.1 Yn ogystal â'n blaenoriaethau a welir yn [Atodiad 1](#) uchod, rydym wedi pennu nifer o feysydd gwaith pwysig ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r gwaith sylweddol hwn yn gwneud cyfraniad pwysig tuag at gyflawni ein dibenion strategol ochr yn ochr â'n blaenoriaethau.

**Ffigur 6: Tabl o'r meysydd gwaith sylweddol ar gyfer 2015/16**

Hybu cystadleuaeth effeithiol a dewis gwybodus	Diogelu defnyddwyr rhag niwed	Hyrwyddo cyfleoedd i gyfranogi	Sicrhau y gwneir y defnydd gorau posibl o sbectrwm	Cynnal hyder cynulleidfaoedd mewn cynnwys a ddarlledir
<ul style="list-style-type: none"> <li>Gweithio i sicrhau cystadleuaeth deg ac effeithiol mewn gwasanaethau darlledu, gan gynnwys ein hadolygiad o'r rhwymedigaeth rhaid cynnig yn gyfanwerthol</li> <li>Gweithredu'r adolygiad o'r fframwaith ar gyfer darparu adroddiadau ariannol rheoleiddiol yn y maes telegyfathrebiadau</li> <li>Cychwyn ar yr adolygiadau o'r farchnad band cul a mynediad sefydlog</li> <li>Hybu dewis effeithiol i ddefnyddwyr drwy sicrhau bod gwybodaeth glir a pherthnasol ar gael yn hawdd</li> <li>Cynnal Asesiad o'r Effaith ar y Farchnad i gefnogi profion gwerth cyhoeddus gan Ymddiriedolaeth y</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gweithio gyda chyrff yn y DU a chyrff rhyngwladol i hybu gwelliannau i'r gwasanaeth adnabod y galwr</li> <li>Cefnogi cynlluniau'r diwydiant a'r llywodraeth i wella lefelau ymddiriedolaeth mewn gwasanaethau rhyngwryd</li> <li>Gweithio i sicrhau bod gwasanaethau hanfodol yn cael eu cefnogi ar rwydweithiau llais y genhedlaeth nesaf</li> <li>Sicrhau bod defnyddwyr yn gallu cael iawndal am fethiannau mewn gwasanaeth ac am wasanaeth o ansawdd gwael</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Deall a hyrwyddo buddiannau defnyddwyr a dinasyddion bregus</li> <li>Gwneud gwaith arall yn unol â'n dyletswydd i sicrhau bod y gwasanaeth post cyffredinol yn cael ei ddarparu</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cwblhau ein hadolygiad o'r gofynion sbectrwm ar gyfer gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig</li> <li>Gwella'r defnydd a fwriedir o'r sbectrwm UHF</li> <li>Cyflwyno ffioedd trwyddedau blynyddol ar gyfer y sbectrwm 900 MHz a 1800 MHz</li> <li>Gweithio gyda'r Llywodraeth i ddiwallu gofynion sbectrwm y gwasanaethau brys</li> <li>Archwilio cyfleoedd i rannu sbectrwm a'u rhoi ar waith</li> <li>Cynllunio ar gyfer gofynion sbectrwm yn y dyfodol, gan gynnwys ar gyfer y Rhyngwryd Pethau</li> <li>Rhoi cynllun ar waith ar berfformiad amleddau radio</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cwblhau ein hadolygiad o reoleiddio fformatau cerddoriaeth ar y radio</li> <li>Cwblhau ein hadolygiad o'r cod EPG</li> <li>Datblygu cynlluniau ar gyfer gweithredu a thrwyddedu DAB ar raddfa fach</li> </ul>

**Cyfrannu at bolisi cyhoeddus a ddiffinnir gan y Senedd, a'i roi ar waith, a lle y bo'n briodol gan weinyddiaethau datganoledig**

- Cwblhau adolygiad Ofcom o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus
- Ymateb fel y bo'n briodol i newidiadau yn y broses datganoli pwerau i lywodraethau cenedlaethol
- Cyhoeddi diweddariad i adroddiad 2014 ar gyflwr seilwaith cyfathrebiadau'r DU
- Datblygu fframwaith ar gyfer mesur lluosogrwydd yn y cyfryngau
- Ymgysylltu â'r Llywodraeth ar y dasg bosibl o roi fframwaith cyffredin ar waith ar gyfer safonau yn y cyfryngau.
- Ymgysylltu â rhaglen ddeddfwriaethol y Comisiwn Ewropeaidd newydd

- A2.2 Uchod, rydym wedi darparu diagram o'n meysydd gwaith pwysig, a'r rheini'n gydnaws â'n dibenion strategol.

## Diben strategol 1: hybu cystadleuaeth effeithiol a dewis gwybodus

<p><b>Hybu cystadleuaeth effeithiol a dewis gwybodus</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gweithio i sicrhau cystadleuaeth deg ac effeithiol ar gyfer gwasanaethau darlledu, gan gynnwys ein hadolygiad o'r rhwymedigaeth 'rhaid-cynnig-yn-gyfanwerthol'</li> <li>• Gweithredu'r adolygiad o'r fframwaith ar gyfer darparu adroddiadau ariannol rheoleiddiol yn y maes telegyfathrebiadau</li> <li>• Cychwyn ar yr adolygiadau o'r farchnad band cul a mynediad sefydlog</li> <li>• Hybu dewis effeithiol i ddefnyddwyr drwy sicrhau bod gwybodaeth glir a pherthnasol ar gael yn hawdd</li> </ul>
--------------------------------------------------------------------------	---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

### Gweithio i sicrhau y ceir cystadleuaeth deg ac effeithiol mewn gwasanaethau darlledu

#### Adolygu'r rhwymedigaeth 'rhaid cynnig yn gyfanwerthol'

- A2.3 Mae gan Ofcom ddyletswydd o dan Adran 316 o Ddeddf Cyfathrebu 2003 i osod amodau priodol ar gyfer sicrhau cystadleuaeth deg ac effeithiol wrth ddarparu gwasanaethau darlledu trwyddedig.
- A2.4 Yn 2010, cwblhaodd Ofcom adolygiad o'r farchnad Teledu drwy Dalu. Er mwyn sicrhau cystadleuaeth deg ac effeithiol, rhoesom rhwymedigaeth 'rhaid cynnig yn gyfanwerthol' ar Sky, a oedd yn ei gwneud yn ofynnol iddo gynnig Sky Sports 1 a 2 yn gyfanwerthol i werthwyr eraill. Fel rhan o'n penderfyniad ar yr adolygiad o deledu drwy dalu yn 2010, gwnaethom ymrwymo i adolygu'r penderfyniad hwn.
- A2.5 Y llynedd gwnaethom lansio ein hadolygiad i weld a yw'r rhwymedigaeth Rhaid Cynnig yn Gyfanwerthol yn parhau'n briodol ar gyfer sicrhau bod cystadleuaeth deg ac effeithiol yn parhau yn y farchnad teledu drwy dalu. Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried goblygiadau datblygiadau yn y farchnad ers 2010. Gwnaethom gyhoeddi [ymgyngoriad](#) ar gam cyntaf ein hadolygiad ym mis Rhagfyr 2014. Bwriadwn gyflwyno casgliadau ein hasesiad a, lle bo angen, byddwn yn ymgynghori eto ar unrhyw atebion arfaethedig ar gyfer sicrhau cystadleuaeth deg ac effeithiol, yn ystod 2015.

#### Asesu mynediad at wasanaethau ar alwad ar lwyfannau teledu

- A2.6 Mewn blynyddoedd diweddar, mae nifer o ddatblygiadau wedi digwydd yn y farchnad mewn perthynas â darparu gwasanaethau teledu gyda gwasanaethau fideo ar alwad, yn aml yn cael eu darparu drwy'r broses OTT (over-the-top) gan ddefnyddio'r rhyngwrwyd, yn cynyddu mewn poblogrwydd. Mae gwasanaethau fel BBC iPlayer yn rhoi'r gallu i wylwyr gael gafael ar gynnwys unrhyw bryd, yn unrhyw fan ac ar nifer o ddyfeisiau gyda'r potensial i gynnig ffordd o ddiwallu gofynion personol y gwyliwr, a darparu mwy o hwylustod ac ymgysylltiad dyfnach.
- A2.7 Mae gwylio teledu llinol traddodiadol yn dal i apelio ac mae llawer o wylwyr yn cael gafael ar wasanaethau ar alwad drwy lwyfannau teledu llinol sydd wedi hen sefydlu. Rydym yn edrych ar sut mae defnyddwyr yn ymwneud â gwasanaethau ar alwad a'r ffactorau a all ddylanwadu ar ddatblygiadau llwyfannau llinol i asesu a yw'n debygol y ceir cystadleuaeth effeithiol wrth ddarparu'r gwasanaethau cynnwys newydd hyn er budd defnyddwyr.

- A2.8 Gwnaethom gyhoeddi [cylich gorchwyl](#) yn ddiweddar ar gyfer yr asesiad hwn ac rydym wedi gofyn am sylwadau. Rhagwelwn y byddwn yn cyhoeddi dogfen ymgynghori yn gosod ein canfyddiadau cychwynol yn yr hydref.

### Ystyried gwasanaethau trawsyrru ar gyfer darlledu

- A2.9 Yn 2005, gwnaethom gwblhau adolygiad o'r farchnad gwasanaethau trawsyrru ar gyfer darlledu. Drwy'r adolygiad hwn, gwelsom fod gan Crown Castle ac ntl:broadcast (y ddau bellach yn rhan o Arqiva) bŵer sylweddol yn y farchnad ar gyfer darparu mynediad at fastiau a safleoedd a systemau antena a rennir neu y gellir eu rhannu. Gosodwyd amodau rheoleiddio yn sgil yr adolygiad hwn.
- A2.10 Yn y flwyddyn nesaf, byddwn yn ailystyried y farchnad gwasanaethau trawsyrru ar gyfer darlledu yn dilyn ein hadolygiad yn 2005.

### Cwyn gan Virgin Media o dan y Ddeddf Cystadleuaeth

- A2.11 Ym mis Tachwedd 2014, cychwynwyd ymchwiliad gennym i'r ffordd y mae'r Uwchgyngyrair pêl-droed yn gwerthu hawliau cyfryngau clyweledol byw yn y DU ar gyfer gemau pêl-droed yr Uwchgyngyrair. Bydd yr ymchwiliad yn cael ei gynnal o dan ein pwerau cydredol dan y Ddeddf Cystadleuaeth ac mae'n dilyn cwyn gan Virgin Media, a gyflwynwyd i Ofcom ym mis Medi. Disgrifir y gwaith hwn o dan [Pennod](#) y cynllun hwn, sy'n disgrifio ein dyletswyddau a'n cyfrifoldebau o dan ein pwerau cydredol o dan y gyfraith cystadleuaeth.

### **Gweithredu'r adolygiad o'r fframwaith ar gyfer darparu adroddiadau ariannol rheoleiddiol yn y maes telegyfathrebiadau**

- A2.12 Mae BT a KCOM yn darparu gwybodaeth i Ofcom am berfformiad ariannol eu gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio. Hefyd, rhaid i'r ddau gwmni gyhoeddi rhywfaint o'r wybodaeth hon yn eu datganiadau ariannol rheoleiddiol blynyddol.
- A2.13 Yn 2014, gwnaethom gyhoeddi ein penderfyniad i wneud newidiadau i ofynion adrodd rheoleiddiol BT. Gwnaethom hynny i wneud yn siŵr fod BT yn darparu gwybodaeth ariannol berthnasol a dibynadwy mewn ffordd sy'n cael ei deall gan randdeiliaid ac sy'n gymesur â'r buddion y mae'n eu darparu.
- A2.14 Mae'r newidiadau a gyflwynwyd yn rhoi mwy o rôl i Ofcom yn y ffordd y mae BT yn paratoi ei ddatganiadau ariannol rheoleiddiol, maent yn gwella'r ffordd y cyflwynir y datganiadau hyn a dylai olygu bod Ofcom a rhanddeiliaid eraill yn gallu cael gafael ar y wybodaeth y mae ei hangen arnynt.
- A2.15 Mae llawer o'r newidiadau hyn ar waith erbyn hyn. Ond, mae angen gwneud rhagor o waith i roi'r newidiadau eraill ar waith. Er enghraifft, mae angen inni sefydlu canllawiau newydd ar gyfer adroddiadau rheoleiddiol a fydd yn darparu'r rheolau cyfrifyddu i'w dilyn wrth baratoi datganiadau ariannol rheoleiddiol yn y dyfodol. Rydym yn disgwyl ymgynghori ar ganllawiau drafft yn Ch3 2015/16 a chyhoeddi'r canllawiau terfynol yn ystod gwanwyn 2016. Bydd y rhain yn seiliedig ar adolygiad, sydd bellach ar waith, o'r ffordd y mae BT ar hyn o bryd yn dyrannu ei gostau yn y datganiadau ariannol rheoleiddiol.

## **Cychwyn ar yr adolygiadau o'r farchnad band cul a mynediad sefydlog**

- A2.16 O dan y Fframwaith Ewropeaidd ar gyfer Cyfathrebiadau Electronig, mae'n rhaid inni adolygu rhai marchnadoedd cyfathrebiadau bob tair blynedd. Yn ystod 2015/16, byddwn yn cychwyn ar ddau adolygiad o'r fath.
- 2.16.1 Bydd yr adolygiad o'r farchnad mynediad sefydlog (FAMR, sy'n cynnwys band eang cyfanwerthol), yn edrych ar gystadleuaeth yn y ddarpariaeth cysylltiadau telegyfathrebu sefydlog y gellir eu defnyddio i gynnal gwasanaethau llais a band eang. Rydym yn anelu at gyhoeddi galwad am fewnbwn yn ail hanner 2015/16. Bydd y gwaith hwn yn parhau gydag 2016/17 gydag unrhyw ofynion rheoleiddio gofynnol yn cael eu cyflwyno cyn y daw'r drefn reoleiddio bresennol i ben ddiwedd Mawrth 2017.
- 2.16.2 Bydd yr adolygiad o'r farchnad band cul yn edrych ar gystadleuaeth yn y farchnad ar gyfer cychwyn a therfynu galwadau llais sefydlog i ganfod a oes angen cymryd unrhyw gamau unioni mewn perthynas â chystadleuaeth yn y farchnad hon. Anelwn at gyhoeddi galwad am fewnbwn ym mis Ebrill 2015, ymgynghoriad cyntaf yn hanner cyntaf 2015/16 ac ail ymgynghoriad yn ail hanner 2015/16. Bydd hyn yn sicrhau y gallwn gyflwyno unrhyw ofynion rheoleiddio gofynnol cyn y daw'r drefn reoleiddio bresennol i ben ddiwedd Medi 2016.
- A2.17 Byddwn hefyd yn monitro, ac os bydd angen, yn gorfodi darparwyr i gydymffurfio â'r rhwymedigaethau y gwnaethom eu cyflwyno fel rhan o'r FAMR diwethaf. Er enghraifft, ym mis Mawrth 2015 fe wnaethom nodi ein dull ar gyfer rheoleiddio'r bwllch y mae'n rhaid i BT ei gynnal rhwng ei brisiau cyfanwerthol ar gyfer Rhith Fynediad Dolen wedi'i Dadfwndelu (VULA, cynnyrch cyfanwerthol y mae BT a chwmnïau eraill yn ei ddefnyddio i ddarparu band eang cyflym iawn i ddefnyddwyr a busnesau) a'i brisiau manwerthu band eang cyflym iawn. Mae'n rhaid i BT ddarparu manylion y costau a'r refeniw angenrheidiol er mwyn dangos ei fod yn cydymffurfio â'r amod bwllch VULA bob chwe mis. Bydd yn rhaid iddo gyflwyno'r adroddiad cydymffurfio cyntaf i ni ei ystyried cyn pen deufis ar ôl i'r amod ddod i rym ym mis Ebrill 2015, a fydd yn cwmpasu mis cyntaf BT o gydymffurfio.

## **Hybu dewis effeithiol i ddefnyddwyr drwy sicrhau bod gwybodaeth glir a pherthnasol ar gael yn hawdd**

- A2.18 Mae gwybodaeth i ddefnyddwyr yn hollbwysig ar gyfer sicrhau bod marchnadoedd cyfathrebiadau cystadleuol yn gweithio er budd defnyddwyr. Byddwn yn parhau i gyhoeddi gwybodaeth mewn sawl maes i sicrhau bod defnyddwyr yn gallu cael gafael ar wybodaeth glir a pherthnasol am berfformiad gwahanol ddarparwyr.

### Perfformiad cysylltiadau band eang sefydlog

- A2.19 Ers 2008, mae Ofcom wedi monitro perfformiad cysylltiadau band eang sefydlog drwy gomisiynu gwaith i fesur ystod o fertigau technegol, gan ddefnyddio panel o ddefnyddwyr band eang sefydlog preswyl. Mae'r metrigau hyn yn cynnwys cyflymder llwytho cysylltiadau i fyny ac i lawr, oedi (latency), cryndod (jitter) a cholli pecynnau (packet loss).
- A2.20 Gan ddefnyddio'r ymchwil hwn, rydym yn cyhoeddi adroddiadau cryno sy'n monitro cyflymderau cyfartalog cysylltiadau'r DU ac yn cymharu perfformiad sawl pecyn cyffredin gan ddarparwyr gwasanaethau rhyngwyd. Bwriadwn barhau â'r ymchwil hwn yn 2015/16.

### Darpariaeth symudol a pherfformiad gwasanaethau band eang symudol

- A2.21 Rydym yn cyhoeddi ymchwil i [berfformiad gwasanaethau band eang symudol](#) i helpu defnyddwyr i ddeall y gwahaniaethau mewn perfformiad rhwng gwasanaethau symudol 4G a 3G, yn ogystal â gwybodaeth am y ddarpariaeth symudol. Bydd hyn yn cynnwys [mapiau darpariaeth symudol](#) rhyngweithiol newydd i alluogi defnyddwyr i gymharu'r ddarpariaeth symudol y mae pob cwmni rhwydwaith symudol yn ei chynnig ar draws gwledydd y DU.

### Ansawdd y profiad mewn gwasanaethau llais symudol

- A2.22 Yn Ch3 2015/16 bwriadwn gyhoeddi diweddariad i'n [hymchwil yn 2014](#) i ansawdd y profiad y mae cwmnïau symudol gwahanol yn ei ddarparu o ran gwasanaethau llais symudol (a fesurir fel canran o'r galwadau symudol a gaiff eu cwblhau'n llwyddiannus ar rwydweithiau pob un o'r cwmnïau).

### Ansawdd y profiad mewn gwasanaethau band eang sefydlog

- A2.23 Byddwn yn parhau i ymchwilio i ddulliau o fesur ansawdd cyffredinol y profiad mewn gwasanaethau rhynggrwyd band eang.
- A2.24 Gwnaethom gyhoeddi [ymchwil](#) cychwynnol i'r gadwyn ddisbarthu pen-i-ben ar y rhynggrwyd ochr yn ochr ag [Adroddiad Seilwaith 2014](#). Roedd yr ymchwil yn dangos y gallai ffactorau eraill heblaw cyflymderau mynediad fod â rôl bwysig yn y ffordd y mae gwasanaethau rhynggrwyd yn perfformio.
- A2.25 Yn 2015/16 byddwn yn parhau i ymchwilio i ddulliau a fydd yn darparu canlyniadau cyson a chadarn, ac yn eu mireinio. Byddwn hefyd yn parhau i ymgysylltu â'r diwydiant i sicrhau bod y dulliau a ddefnyddir yn ddealladwy ac y byddant yn destun craffu.

### Cyhoeddi data am gwynion bob chwarter

- A2.26 Rydym o'r farn bod cyhoeddi data sy'n benodol i ddarparwr ar gwynion defnyddwyr yn ddefnyddiol i ddefnyddwyr, yn enwedig pan fyddant yn ystyried darparwr neu wasanaeth newydd. Gall cyhoeddi'r data hefyd ysgogi darparwr i wella'u perfformiad.
- A2.27 Yn 2015/16, byddwn yn cyhoeddi data chwarterol am nifer y cwynion mae Ofcom yn eu derbyn (fesul 1000 o danysgrifwyr i weithredwr penodol). Mae'r data hyn yn berthnasol i wasanaethau llinell sefydlog, band eang, teledu drwy dalu a symudol drwy dalu'n fisol ar gyfer y darparwr mwyaf. Nid yw cyhoeddiadau Ch2 a Ch3 ar gyfer 2014/15 ar gael eto wrth inni gynnal gwiriadau i ddilysu cywirdeb y data. Ond, rydym yn disgwyl cyhoeddi'r adroddiadau hyn gyn gynted ag y bydd ein gwiriadau ar y data wedi'u cwblhau a bydd cyhoeddi data Ch4 2014 yn dilyn yn gyflym er mwyn inni gael y darlun diweddaraf.
- A2.28 Byddwn hefyd yn cyhoeddi arolwg boddhad cwsmeriaid yn 2015/16, a fydd yn asesu barn defnyddwyr am ansawdd y gwasanaeth i gwsmeriaid yn y marchnadoedd llinell sefydlog, symudol, band eang sefydlog a theledu drwy dalu.

### Meysydd gwaith perthnasol eraill

- A2.29 Mae'r meysydd gwaith eraill sy'n cael sylw yn y Cynllun hwn yn cyfrannu at ein nod o roi gwell gwybodaeth i ddefnyddwyr. Er enghraifft, rydym yn cyhoeddi nifer o

ganllawiau i ddefnyddwyr sy'n darparu gwybodaeth i ddefnyddwyr am wasanaethau cyfathrebiadau. Maent yn cynnwys gwybodaeth am wasanaethau cyfnewid/relái a gwasanaethau mynediad ar gyfer darlledu.

### Cynnal asesiadau o'r effaith ar y farchnad i gefnogi profion gwerth cyhoeddus gan Ymddiriedolaeth y BBC

- A2.30 O dan Gytundeb a Siarter Frenhinol y BBC, rhaid i Ymddiriedolaeth y BBC ddefnyddio prawf gwerth cyhoeddus cyn y gellir gwneud penderfyniad i wneud unrhyw newidiadau sylweddol i wasanaethau cyhoeddus y BBC yn y DU. Mae'r penderfyniad ynghylch awdurdodi'r cyfryw newid yn cael ei wneud wedyn gan yr Ymddiriedolaeth. Wrth ddod i'w chasgliad ar brawf gwerth cyhoeddus, rhaid i'r Ymddiriedolaeth ystyried dau adolygiad ar wahân:
- asesiad o werth cyhoeddus, a wneir gan yr Ymddiriedolaeth, sy'n asesu gwerth tebygol unrhyw newidiadau arfaethedig i'r rheini sy'n talu ffi'r drwydded, yn arbennig o ran eu cyfraniad at ddibenion cyhoeddus y BBC; ac
  - asesiad o'r effaith ar y farchnad, a wneir gan Ofcom, sy'n asesu effaith y newid arfaethedig yn y gwasanaeth ar wasanaethau eraill yn y farchnad. Mae'n ystyried yr effaith uniongyrchol ar ddefnyddwyr a chynhyrchwyr gwasanaethau eraill, er enghraifft o ran pris a dewis, a hefyd yr effaith debygol ar gystadleuaeth a datblygiad y farchnad.
- A2.31 Yn fwyaf diweddar, ym mis Rhagfyr 2014, gwnaeth Gweithrediaeth y BBC gais ffurfiol i Ymddiriedolaeth y BBC ar gyfer gwneud nifer o newidiadau i'w darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus yn y DU. Mae'r rhain yn cynnwys cau BBC Three a'i hail-lunio ar-lein, ymestyn oriau CBBC, gwella BBC iPlayer, a lansio sianel BBC One +1. Disgwyliwn gwblhau ein hasesiad o'r effaith ar y farchnad tua diwedd Ch1 2015/16. Bydd yr asesiad yn cyfrannu at benderfyniad Ymddiriedolaeth y BBC ynghylch a ddylid awdurdodi cynigion y BBC o ran ei wasanaethau.

## Diben Strategol 2: diogelu defnyddwyr rhag niwed

### Diogelu defnyddwyr rhag niwed

- Gweithio gyda chyrrff yn y DU a chyrrff rhyngwladol i hybu gwelliannau i'r gwasanaeth adnabod y galwr
- Cefnogi cynlluniau'r diwydiant a'r llywodraeth i wella lefelau ymddiriedaeth mewn gwasanaethau rhyngryd
- Gweithio i sicrhau bod gwasanaethau hanfodol yn cael eu cefnogi ar rwydweithiau llais y genhedlaeth nesaf
- Sicrhau bod defnyddwyr yn gallu cael iawndal am fethiannau mewn gwasanaeth ac am wasanaeth o ansawdd gael

### Gweithio gyda chyrrff yn y DU a chyrrff rhyngwladol i hybu gwelliannau i'r gwasanaeth adnabod y galwr

- A2.32 Mae galwadau a negeseuon testun digymell yn achosi niwsans mawr, dicter a phryder mawr mewn rhai achosion i ddefnyddwyr. Mae Ofcom wedi bod yn gweithredu yn y maes hwn fel blaenoriaeth ers sawl blwyddyn. Ond mae nifer y galwadau 'niwsans' digymell yn dal yn uchel, ac yn debygol o godi, ac mae'r ffaith bod costau cynhyrchu galwadau yn gostwng yn sydyn yn cyfrannu at y broblem. Ar yr un pryd, mae technolegau VoIP yn galluogi galwyr i newid eu manylion adnabod

y galwr (caller line identification) er mwyn cuddio pwy ydyn nhw, a all arwain at dwf mewn achosion o dwyll difrifol.

- A2.33 Mae Ofcom wedi bod yn gweithio gyda'r NICC (fforwm technegol ar gyfer sector cyfathrebiadau'r DU sy'n datblygu safonau 'gallu i ryngweithredu') a darparwyr cyfathrebiadau i wella'r ffyrdd o olrhain galwadau niwsans ar draws rwydweithiau.
- A2.34 Un nod yn y tymor hwy yw cyflwyno arferion 'dilysu' manylion adnabod y galwr (CLI). Yn 2015/16 byddwn yn ymgysylltu â chyrrff yn y DU a chyrrff rhyngwladol i hybu'r gwaith o wneud rhagor o welliannau i'r wybodaeth sydd ar gael i ddefnyddwyr ynghylch pwy sy'n eu galw (h.y. gwasanaeth adnabod y galwr), yn arbennig pan mae galwadau'n pasio rhwng rwydweithiau. Rydym yn gweithio gyda Phwyllgor Cyfathrebiadau Ffederal yr Unol Daleithiau i ddatblygu atebion technegol ar gyfer CLI ffug, a fydd yn cael eu cyflwyno drwy Dasglu Peirianeg y Rhyngrwyd (IETF) a'r Undeb Telegyfathrebiadau Rhyngwladol (ITU), ac mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth wedi'i sefydlu gydag awdurdodau rheoleiddio cenedlaethol eraill. Gyda'r math hwn o ateb, bydd yn rhaid datblygu trefn awdurdodi CLI drwy gynllun ardystio.
- A2.35 Rydym yn rhagweld y bydd angen gwneud rhagor o waith ar alwadau niwsans yn 2015/16 a fydd yn ceisio darparu sicrwydd mewn perthynas â CLI yn y DU, wedi'i seilio ar ddatblygiad y gwaith safoni yn yr IETF yn 2015. Byddwn yn ategu hyn gyda'n gwaith parhaus ni gyda chyrrff safonau a rheoleiddio eraill a'n hymwneud â BERIC.

### **Cefnogi cynlluniau'r diwydiant a'r Llywodraeth i wella lefelau ymddiriedaeth mewn gwasanaethau rhyngrwyd**

- A2.36 Pan fydd defnyddwyr a dinasyddion yn defnyddio dyfeisiau sydd wedi'u cysylltu â'r rhyngrwyd, gall y data a gynhyrchir fod yn fodd i ddarparwyr gwasanaethau masnachol a chyhoeddus gyflenwi amrywiaeth eang o wasanaethau newydd deniadol i ddefnyddwyr. Ym mis Ionawr 2015 gwnaethom gyhoeddi crynodeb o ymatebion i alwad am fewnbwn ar y Rhyngrwyd Pethau. Nododd sawl ymateb pa mor bwysig yw sicrhau ymddiriedaeth defnyddwyr i helpu i sicrhau bod defnyddwyr yn fodlon rhannu data eu dyfeisiau ag eraill mewn ffyrdd sy'n cefnogi twf ac arloesedd yn y Rhyngrwyd Pethau.
- A2.37 Mae gan y diwydiant gymhellant clir i wella lefelau ymddiriedaeth defnyddwyr ac, i'r diben hwn, byddwn yn parhau i weithio gyda sefydliadau perthnasol yn y DU ac yn rhyngwladol, gan gynnwys Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, i nodi ac ystyried atebion i faterion yn ymwneud â phreifatrwydd data sy'n gysylltiedig â'r Rhyngrwyd Pethau. Er enghraifft, byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid eraill perthnasol mewn rôl hwyluso, gyda'r nod o sefydlu arferion gorau er mwyn i ddefnyddwyr awdurdodi mewn modd tryloyw'r defnydd o'u data ar ddyfais ac ar gyfer prosesu a storio'r data hyn yn ddiogel.
- A2.38 Byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth â'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA), yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a PhonepayPlus, i ddarparu canllawiau i ddefnyddwyr sy'n cynnig cyngor ar ddefnyddio ffonau clyfar ac apiau yn fwy diogel. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r rheoleiddwyr hyn i rannu arbenigedd ar faterion diogelu defnyddwyr sy'n gysylltiedig â data yn fwy cyffredinol.



## **Gweithio i sicrhau bod gwasanaethau hanfodol yn cael eu cefnogi ar rwydweithiau llais y genhedlaeth nesaf**

- A2.39 Mae darparwyr cyfathrebiadau sefydlog ar draws y byd yn dechrau ystyried sut y bydd gwasanaethau a rwydweithiau llais yn esblygu, o ran cael eu cyflwyno dros rwydweithiau mynediad ar sail y protocol rhynggrwyd (IP). Mae datblygiad pellach cynigion cyfathrebu cydgyfeiriol (e.e. gwasanaethau sefydlog / symudol), yn ogystal ag oed rwydweithiau llais presennol, yn cyflymu'r broses hon.
- A2.40 Mae'n anochel y bydd datblygiadau o'r fath yn arwain at ddiwedd rwydweithiau llais traddodiadol. Ond, bydd yr amserlenni ar gyfer hyn yn dibynnu ar sawl ffactor, gan gynnwys y costau sy'n gysylltiedig â pharhau i gynnal a chadw'r rwydweithiau hyn. Yn y flwyddyn i ddod, byddwn yn monitro'r datblygiadau hyn ac yn ymyrryd lle y bo hynny'n briodol.
- A2.41 Gyda'r defnydd cynyddol o rwydweithiau llais ar sail protocol rhynggrwyd (IP) gan rwydweithiau mawr, bydd angen inni ystyried nifer o faterion i fodloni ein hunain y gall defnyddwyr barhau i fod â hyder yn y gwasanaethau llais a gynigir iddynt o ran argaeledd a gallu'r gwasanaethau hynny.
- A2.42 Felly, rydym yn bwriadu cyhoeddi galwad am fewnbwn yn Ch1 2015/16 yn gwahodd rhanddeiliaid i gyflwyno'u safbwyntiau am y materion technegol allweddol a all godi o ganlyniad i symud gwasanaethau llais o hen rwydweithiau i rwydweithiau'r genhedlaeth nesaf. Mae hyn yn cynnwys gallu rwydweithiau'r dyfodol i gynnal yr amrywiol wasanaethau etifeddol y bydd defnyddwyr o bosibl yn parhau i ddibynnu arnynt yn y dyfodol.
- A2.43 Ochr yn ochr â'r adolygiad ehangach hwn o lais dros rwydweithiau'r genhedlaeth nesaf, rydym yn benodol yn bwriadu ystyried y ffordd orau o gael mynediad at wasanaethau brys dros y seilweithiau cenhedlaeth nesaf amrywiol sy'n cael eu rhagweld. O bwysigrwydd mawr fydd y graddau y bydd rwydweithiau mynediad yn parhau i weithredu petai toriad yn y cyflenwad pŵer i'r adeilad neu'r gymdogaeth ehangach, er enghraifft drwy ddarparu batri wrth gefn. Bwriadwn weithio gyda rhanddeiliaid i ddeall y ffyrdd mwyaf effeithiol o sicrhau bod dinasyddion yn gallu cysylltu â'r gwasanaethau brys.

### **Monitro effaith symud i rwydweithiau mynediad y genhedlaeth nesaf ar wasanaethau etifeddol**

- A2.44 Efallai na fydd rwydweithiau mynediad y genhedlaeth nesaf (NGA) yn cynnal rhai gwasanaethau etifeddol. Byddwn yn monitro'r gwaith o gyflwyno a defnyddio gwasanaethau llais dros rwydweithiau mynediad y genhedlaeth nesaf er mwyn inni fod yn ymwybodol o unrhyw effaith ar wasanaethau o ganlyniad i hynny.
- A2.45 Lle bo angen, byddwn yn gweithio gyda chyrrff fel yr NICC i oresgyn unrhyw broblemau fydd yn codi.

## **Sicrhau bod defnyddwyr yn gallu cael iawndal am fethiannau mewn gwasanaeth ac am wasanaeth o ansawdd gwael**

### **Cod Ymarfer ar Gyflymderau Band Eang**

- A2.46 Daeth y Cod Ymarfer gwirfoddol ar Gyflymderau Band Eang, y cytunodd Ofcom a phob un o ddarparwyr gwasanaethau rhynggrwyd mwyaf y DU arno (sydd gyda'i

gilydd yn darparu dros 95% o gysylltiadau band eang adwerthol), i rym ym mis Ionawr 2009 ac fe'i hadolygwyd yn 2010.

- A2.47 Bwriad y Cod yw sicrhau bod defnyddwyr yn cael y wybodaeth y mae ei hangen arnynt ar gyflymderau band eang yn y pwynt gwerthu i wneud penderfyniadau prynu ar sail gwybodaeth.
- A2.48 Mae'r Cod hefyd yn cynnwys darpariaethau i sicrhau bod defnyddwyr sy'n derbyn cyflymder llinell fynediad sydd gryn dipyn yn is na'r ystod cyflymder llinell fynediad a amcangyfrifir yn gallu gadael eu contract yn ddi-gosb. Rydym wedi cynnal ymchwil siopwr dirgel i fesur cydymffurfiad cwmnïau â'r Cod.
- A2.49 Rydym ar gamau terfynol adolygu'r Cod Cyflymder Band Eang Gwirfoddol a bwriadwn gyhoeddi Cod diwygiedig yn Ch1 2015/16.

### Telerau contract teg

- A2.50 Yn 2015/16, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar faterion yn ymwneud â thelerau contract teg, gan gynnwys cydymffurfio â'r arweiniad a gyhoeddwyd gennym yn 2013 ar godi prisiau ar ganol contract.
- A2.51 Byddwn yn gwneud gwaith a fydd yn edrych yn agos ar lefel ac effaith problemau gyda gwasanaethau rhyngwyrdd ar ddefnyddwyr, megis colli band eang yn y cartref neu ddarpariaeth symudol wael. Rydym eisiau sicrhau bod darparwyr yn trin defnyddwyr yn deg yn yr amgylchiadau hyn, ac os gwelwn feysydd sy'n achosi pryder, byddwn yn ceisio canfod atebion a gweithio gyda rhanddeiliaid i roi sylw iddynt.

### Dulliau amgen o ddatrys anghydfod

- A2.52 Mae Ofcom yn mynnu bod yn rhaid i ddarparwyr cyfathrebiadau sy'n cynnig gwasanaethau i unigolion a busnesau bach fod yn aelodau o gynllun dulliau amgen o ddatrys anghydfod (ADR). Byddwn yn parhau i sicrhau bod darparwyr cyfathrebiadau a chynlluniau ADR yn bodloni'r gofynion ar gyfer ADR a delio â chwynion a bennir gan Ofcom.

## **Diben strategol 3: hyrwyddo cyfleoedd i gyfranogi**

### **Hyrwyddo cyfleoedd i gyfranogi**

- Deall a hyrwyddo buddiannau defnyddwyr a dinasyddion bregus
- Gwneud gwaith arall yn unol â'n dyletswydd i sicrhau bod y gwasanaeth post cyffredinol yn cael ei ddarparu

### **Deall a hyrwyddo buddiannau defnyddwyr a dinasyddion bregus**

- A2.53 Mae gan Ofcom ddyletswyddau i osod gofynion ar ddarparwyr cyfathrebiadau i sicrhau bod defnyddwyr anabl yn cael mynediad at wasanaethau cyfathrebu sy'n cyfateb i'r rheini y mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn eu mwynhau. Mae gennym ddyletswydd hefyd o dan y Ddeddf Cyfathrebu i ystyried anghenion pobl hŷn ac anabl yn ein gwaith.

Gwasanaethau cyfnewid (relay)

- A2.54 Mae gwasanaethau cyfnewid (relay) yn galluogi pobl sydd â nam ar eu clyw a/neu ar eu lleferydd i gyfathrebu ag eraill gan ddefnyddio offer ffôn neu ffôn testun, gyda chynorthwydd cyfnewid yn gweithredu fel cyfryngwr i drosi lleferydd yn destun ac fel arall ar gyfer y ddau barti.
- A2.55 Ym mis Hydref 2012, ar ôl cynnal adolygiad, gwnaethom ei gwneud yn ofynnol i bob darparwr gwasanaeth symudol a llinell sefydlog yn y DU ddarparu mynediad i'w cwsmeriaid at wasanaeth cyfnewid testun 'cenhedlaeth nesaf' gwell erbyn mis Ebrill 2014. Er na ddigwyddodd hyn yn unol â'r amserlen (ac fe osodwyd cosb o ganlyniad), mae'r gwasanaeth gwell ar waith erbyn hyn ac wedi cael croeso da gan ddefnyddwyr.
- A2.56 Yn ystod 2015/16, byddwn yn parhau i fonitro sut mae'r gwasanaeth cyfnewid testun newydd yn gweithio a faint sy'n manteisio arno. Bydd hyn yn cynnwys ymchwil ymhlith defnyddwyr y gwasanaeth er mwyn sicrhau ei fod yn arwain at y gwelliannau a ddymunir.
- A2.57 Yn ogystal â hyn, mae DAC (Deaf Access to Communications) yn arwain menter i annog darparwyr cyfathrebiadau, busnesau a chyrrff eraill i ddarparu gwasanaethau cyfnewid fideo yn wirfoddol. Rydym yn parhau i weithio gyda DAC, y Llywodraeth a'r diwydiant, fel y bo'n briodol, i helpu gyda hyn.

Gwella ansawdd isdeitlau byw

- A2.58 O gofio am y pryderon sy'n parhau am ansawdd isdeitlo byw, dechreuasom brosiect dwy flynedd yn 2013 i amlygu meysydd i'w gwella ac annog darlledwyr i weithredu ar y rhain drwy fesur samplau o is-deitlau byw a chyhoeddi'r canlyniadau. Yn 2014/15, cyhoeddasom ddau [adroddiad](#) ar gywirdeb, oedi a chyflymder samplau o isdeitlau byw gan y prif ddarlledwyr.
- A2.59 Byddwn yn cyhoeddi dau adroddiad arall yn Ch1 a Ch3 2015/16, ac ar ôl hynny byddwn yn ystyried a oes angen inni gymryd camau eraill. Byddwn hefyd yn adolygu'r arweiniad presennol ar ddarparu gwasanaethau mynediad yn sgîl y data a gesglir o'r ymarfer monitro.

Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig (EPGs) sy'n siarad

- A2.60 Mae gan oddeutu ddwy filiwn o bobl nam ar eu golwg sy'n ei gwneud yn anodd neu'n amhosibl iddynt ddefnyddio cyfeiryddion rhaglenni teledu ar y sgrin. Ym mis Gorffennaf gwnaethom [gais am fewnbwn](#) i gasglu barn partïon â diddordeb ynghylch a fyddai setiau teledu a blychau ar ben setiau teledu sy'n caniatáu i bobl glywed y wybodaeth sy'n cael ei dangos mewn cyfeiryddion rhaglenni teledu ar y sgrin yn ei gwneud yn haws i wylwyr dall neu wylwyr sydd â nam ar eu golwg ddewis beth i'w wyllo.
- A2.61 Byddwn yn ystyried a ddylid ymgynghori ar gynigion penodol ar gyfeiryddion rhaglenni electronig sy'n siarad, gan ystyried yr ymatebion i'n galwad am fewnbwn.

Mynediad at wasanaethau cyfathrebiadau ar gyfer cartrefi incwm isel

- A2.62 Ym mis Ionawr 2014 gwnaethom gyhoeddi ein hadroddiad [Cost a Gwerth](#) a oedd yn dangos bod defnyddwyr dros y ddeng mlynedd diwethaf wedi elwa o brisiau real yn

gostwng ar gyfer y rhan fwyaf o wasanaethau cyfathrebiadau, a mwy o ddewis a gwell ansawdd.

A2.63 Ym mis Gorffennaf gwnaethom [gyhoeddi ymchwil](#) ar farn defnyddwyr am bwysigrwydd gwasanaethau cyfathrebiadau a'u fforddiadwyedd. Er inni ganfod na fydd y rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn wynebu problemau fforddiadwyedd, gwelsom achosion lle'r oedd rhai defnyddwyr, yn arbennig y rheini ar incymau isel, yn wynebu problemau dyled neu heb fod yn gallu defnyddio gwasanaeth oherwydd cost y gwasanaeth.

A2.64 I fynd i'r afael â'r materion hyn, byddwn yn parhau i wneud y canlynol yn 2015/16:

- adrodd yn flynyddol ar broblem dyled a chost fel rhwystrau rhag cyfranogi yn ein hadroddiad ar brofiad defnyddwyr;
- gwella'r cysylltiadau rhwng elusennau dyled a darparwyr cyfathrebiadau, a gwella ymwybyddiaeth ynghylch beth i'w wneud mewn achosion o ddyled sy'n gysylltiedig â telegyfathrebiadau; a
- gwella ymwybyddiaeth o'r bargeinion mwyaf fforddiadwy.

### **Gwneud gwaith arall yn unol â'n dyletswydd i sicrhau bod y gwasanaeth post cyffredinol yn cael ei ddarparu**

A2.65 Oherwydd y datblygiadau a ddisgrifir ym mharagraff [A1.37](#), gwnaethom ohirio gwaith yn ymwneud â'r gwasanaethau post a nodwyd yn Adroddiad Blynyddol 2014/15.

A2.66 Yn dilyn hyn, ac oherwydd ein dyletswydd i ddiogelu'r gwasanaeth post cyffredinol, rydym yn bwriadu gwneud amrywiaeth o waith yn ystod 2015/16. Byddwn yn:

- cwblhau ein hadolygiad o brisiau mynediad yn Ch1 2015/16 ac, os bydd yn briodol, byddwn yn cwblhau ein gwaith dilynol arfaethedig ar adrodd ar gostau parthau;
- cwblhau ein hadolygiad ehangach o'r ffactorau a allai effeithio ar allu'r Post Brenhinol i barhau i ddarparu'r gwasanaeth cyffredinol yn y dyfodol;
- cwblhau ein hadolygiadau o'r cod ymarfer ar ddiogelwch eitemau post (Ch4 2015/16) a'r cynlluniau delio â chwynion a gwneud iawn (Ch4 2015/16);
- parhau â'n trefn barhaus o fonitro, sy'n cynnwys adrodd yn ôl yn fewnol yn rheolaidd a diweddariadau blynyddol i'r farchnad ynghylch perfformiad ariannol y gwasanaeth cyffredinol, ansawdd y gwasanaeth, datblygiad cystadleuaeth a chynnydd y Post Brenhinol tuag at wella'i effeithlonrwydd; a
- parhau i adolygu'r dull gweithredu ar gyfer amddiffyn cystadleuwyr rhag y wasgfa ar elw o ran gwasanaethau mynediad, gan gynnwys y sylfaen gost briodol ar gyfer unrhyw fesurau yn y dyfodol.

## Diben strategol 4: sicrhau y gwneir y defnydd gorau posibl o sbectrwm

### Sicrhau y gwneir y defnydd gorau posibl o sbectrwm

- Cwblhau ein hadolygiad o'r gofynion sbectrwm ar gyfer y sector gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig
- Gwella'r defnydd a fwriedir o'r sbectrwm UHF
- Cyflwyno ffioedd trwyddedau blynyddol ar gyfer y sbectrwm 900MHz a 1800MHz
- Gweithio gyda'r Llywodraeth i ddiwallu gofynion sbectrwm y gwasanaethau brys
- Archwilio cyfleoedd i rannu sbectrwm a'u rhoi ar waith
- Cynllunio ar gyfer gofynion sbectrwm yn y dyfodol, gan gynnwys ar gyfer y Rhyngryd Pethau

### Cwblhau ein hadolygiad o'r gofynion sbectrwm ar gyfer y sector gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig

- A2.67 Ym mis Hydref 2014, gwnaethom gyhoeddi ein [strategaeth](#) i sicrhau bod gan ddefnyddwyr dolenni fideo a chamerau di-wifr yn y sector gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig (PMSE) ddigon o sbectrwm i gynnal eu gweithgareddau.
- A2.68 Byddwn yn parhau â'n gwaith yn adolygu'r opsiynau mynediad at sbectrwm PMSE ar gyfer cymwysiadau PMSE sain (er enghraifft microffonau di-wifr, monitorau yn y glust a talkback). Bydd y gwaith hwn yn adeiladu ar ein dadansoddiad o'r cyflenwad a'r galw am sbectrwm amledd uchel iawn (UHF) ar gyfer y sector PMSE fel rhan o baratodau Ofcom i ryddhau'r band 700 MHz.
- A2.69 Byddwn yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid drwy gamau terfynol ein hadolygiad i ddatblygu fframwaith strategol ar gyfer mynediad i sbectrwm PMSE sain yn y dyfodol. Rydym yn anelu at gwblhau profion cydfodoli sylweddol erbyn canol 2015 a byddwn yn cyhoeddi casgliadau'r gwaith hwn erbyn Ch3 2015/16.
- A2.70 Yn ystod Ch1 2015/16 byddwn yn ymgynghori â rhanddeiliaid PMSE ynghylch syniadau ar gyfer symleiddio a gwella'r broses drwyddedu bresennol. Gan ddibynnu'n rhannol ar natur yr ymatebion hyn, disgwyliwn ymgysylltu eto â rhanddeiliaid ac ymgynghori ar roi unrhyw newidiadau ar waith yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

### Gwella'r defnydd a fwriedir o'r sbectrwm UHF

#### Model cynllunio'r DU

- A2.71 Mae mwy a mwy o alw gan wasanaethau eraill, gan gynnwys band eang symudol, PMSE a dyfeisiau bylchau gwyn am y sbectrwm UHF a ddefnyddir, gan wasanaethau teledu daearol digidol. Hefyd, mae'n rhaid rheoli'n ofalus y newidiadau yn y defnydd o sbectrwm mewn bandiau cyfagos (fel y defnydd o fand 800MHz gan wasanaethau esblygiad hirdymor (LTE)), fel nad ydynt yn achosi ymyrraeth niweidiol.
- A2.72 Mae hyn yn cynyddu pwysigrwydd gallu cynllunio'r defnydd o'r sbectrwm UHF i ddarparu'r lefel ofynnol o ddarpariaeth teledu daearol digidol yn effeithiol, a chael gwasanaethau eraill i'w ddefnyddio i'r eithaf heb achosi ymyrraeth niweidiol.

- A2.73 Datblygwyd model cynllunio'r DU (UKPM), sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd i gynllunio'r ddarpariaeth teledu daearol digidol, yn benodol i fodloni'r amcanion polisi ar gyfer newid i'r digidol. Roedd y rhain yn cynnwys yr amcan y dylai'r ddarpariaeth ddigidol ar ôl newid i'r digidol gyfateb i'r ddarpariaeth ddaearol analog, heb orfod gwneud llawer o waith yn uwchraddio erialau. Mae model cynllunio'r DU wedi llwyddo i gyflawni'r amcan eang hwn, ond mae'n bosibl nad yw rhai rhagdybiaethau cynllunio a ddefnyddiwyd yn addas ar gyfer amcanion polisi eraill, fel cael gwasanaethau eraill i ddefnyddio mwy o'r sbectrwm UHF heb achosi ymyrraeth niweidiol.
- A2.74 Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gwneud cryn gynnydd, ar y cyd â rhanddeiliaid yn y diwydiant, yn adolygu priodoldeb y rhagdybiaethau cynllunio a ddefnyddir ym model cynllunio'r DU i gyrraedd targedau'r ddarpariaeth teledu daearol digidol ac amcanion polisi eraill. Bwriadwn gwblhau a chyhoeddi canlyniad yr adolygiad hwn yn Ch2 2015/16.

### Adolygiad Strategol o UHF (420MHz i 470MHz)

- A2.75 Ym mis Ionawr 2013 dechreuom ddarn o waith i ddadansoddi ac amcangyfrif y galw am sbectrwm yn y bandiau UHF1 (425-450MHz) ac UHF2 (450-470MHz) dros y ddeng mlynedd nesaf gan ystyried y defnydd o'r bandiau ar hyn o bryd ac yn y dyfodol o bosibl. Bydd y prosiect hwn yn ystyried y twf yn y dyfodol oddi wrth ddefnyddwyr mawr, nodi unrhyw ddefnydd arall posibl ac ystyried eu heffaith ar ddefnyddwyr presennol. Bydd hefyd yn ystyried effaith patrymau defnydd sy'n newid yn Ewrop.
- A2.76 Cyhoeddwyd [cais am fewnbwn](#) ym mis Rhagfyr 2014 a dylai cam adolygu'r prosiect hwn gael ei gwblhau ddiwedd 2015. Bwriadwn gyhoeddi ymgynghoriad yn Ch4 2015/16. Bydd agweddau ar ei roi ar waith yn cael sylw mewn prosiect newydd yn dilyn yr adolygiad hwn.

### **Cyflwyno ffioedd trwyddedau blynyddol ar gyfer y sbectrwm 900MHz a 1800MHz**

- A2.77 Yn 2010, dywedodd y Llywodraeth wrth Ofcom am adolygu'r ffioedd sy'n cael eu talu ar gyfer y bandiau sbectrwm 900MHz a 1800MHz i adlewyrchu eu gwerth llawn yn y farchnad, ar ôl cwblhau'r arwerthiant 4G. Rydym wedi bod yn ymgynghori ar y ffioedd hyn ers i'r arwerthiant 4G ddod i ben ym mis Chwefror 2013. Ym mis Rhagfyr 2014, cytunodd y Llywodraeth a'r cwmnïau rhwydweithiau symudol y byddai'r cwmnïau yn gweithredu'r rhwymedigaeth i sicrhau darpariaeth llais i 90% o arwynebedd daearyddol y DU erbyn 31 Rhagfyr 2017 fan hwyraf.
- A2.78 Adeg cytundeb mis Rhagfyr, gwnaethom gytuno y byddem yn rhoi cyfle i bawb â diddordeb roi sylwadau ynghylch a ddylai'r rhwymedigaeth darpariaeth llais newydd o ran y cwmpas daearyddol, gan ystyried y costau cynyddrannol cysylltiedig a wynebir gan y cwmnïau, effeithio ar ffioedd trwyddedau i'r dyfodol. Gwnaethom gyhoeddi [ymgynghoriad](#) ar y pwnc hwn ym mis Chwefror 2015.
- A2.79 Yn amodol ar yr ymgynghoriad hwn, bydd Ofcom yn gwneud penderfyniad terfynol ar ffioedd trwyddedau blynyddol, sy'n debygol o ddod i rym yn ddiweddarach eleni, yn amodol ar y penderfyniadau hynny.

## Gweithio gyda'r Llywodraeth i ddiwallu gofynion sbectrwm y gwasanaethau brys

- A2.80 Ofcom sy'n rheoli sbectrwm ar gyfer y gwasanaethau brys. Yn y rôl hon rydym wedi bod yn cefnogi'r Llywodraeth wrth iddi ystyried anghenion cyfathrebu di-wifr y gwasanaethau brys yn y dyfodol.
- A2.81 Mater i'r Llywodraeth yw penderfynu a fydd angen gwneud newidiadau i wasanaethau cyfathrebiadau di-wifr y gwasanaethau brys, a sut y gwneir hyn. Y Swyddfa Gartref sy'n arwain y gwaith hwn. Mae'n cydlynu'r gofynion ar gyfer yr holl wasanaethau brys ac yn ystyried gofynion llais a data, a chyfathrebiadau band eang. Rydym yn cyfrannu at weithgareddau parhaus y rhaglen ESMCP (Raglen Cyfathrebiadau Symudol y Gwasanaethau Brys) sy'n gysylltiedig â sbectrwm.
- A2.82 Bydd Ofcom hefyd yn parhau i gynrychioli anghenion gwasanaethau brys y DU mewn fforymau rhyngwladol, gan gynnwys yng Nghynhadledd Radiogyfathrebu'r Byd yn 2015 ac yn Ewrop, lle mae trafod brwd yn digwydd ar bolisi sbectrwm yn y maes hwn.

## Archwilio cyfleoedd i rannu sbectrwm a'u rhoi ar waith

### Sbectrwm bylchau gwyn

- A2.83 Mae rhannu sbectrwm deinamig yn un rhan o'n gwaith ar gyfer gallu rhannu sbectrwm yn effeithiol. Mae rhoi mynediad at fylchau gwyn teledu yn gam cyntaf tuag at gyflawni hyn.
- A2.84 Mae'r term 'sbectrwm bylchau gwyn' yn cyfeirio at amleddau nad ydynt yn cael eu defnyddio gan y rheini sydd eisoes yn dal trwyddedau drwy'r amser neu ym mhob lleoliad. Bylchau gwyn teledu yw'r amleddau yn y band sbectrwm 470MHz i 790MHz (a elwir hefyd y band UHF) nad ydynt yn cael eu defnyddio ar amseroedd penodol nac mewn lleoliadau penodol gan wasanaethau presennol.
- A2.85 Gellir defnyddio mynediad manteisgar at fandiau amledd nad ydynt yn cael eu defnyddio o gwmpas y DU i gynnal gwasanaethau arloesol. Gellir cyflawni hyn drwy ddyfeisiau di-wifr sy'n ymwybodol o leoliad, neu gronfeydd data sy'n rhoi gwybodaeth am y bylchau gwyn sydd ar gael, gan gofio'r defnydd trwyddedig sydd eisoes yn bodoli. Ar sail y gwaith sydd wedi'i wneud yn y cynllun peilot ar fylchau gwyn teledu, credwn y gellir defnyddio cronfeydd data i gefnogi rhannu sbectrwm yn ddeinamig yn y band UHF ac mewn bandiau sbectrwm eraill yn y dyfodol.
- A2.86 Ar ôl cwblhau peilot o'r fframwaith ar gyfer cael mynediad at fylchau gwyn teledu, gwnaethom gyhoeddi ein datganiad polisi ym mis Chwefror 2015. Yn ystod 2015/16, disgwyliwn gwblhau'r gwaith sy'n ofynnol i gael mynediad at fylchau gwyn teledu. Bydd hyn yn cynnwys gwaith ar gymhwyso cronfeydd data ac awdurdodi dyfeisiau bylchau gwyn. Bwriadwn gyhoeddi ymgynghoriad statudol ar yr eithriad trwydded ar gyfer dyfeisiau bylchau gwyn yn Ch2 2015/16 a datganiad pan fyddwn yn gwneud y rheoliadau yn Ch3 2015/16.
- A2.87 Byddwn hefyd yn ystyried a oes rhagor o sbectrwm, gan gynnwys y sbectrwm a ddefnyddir gan y sector cyhoeddus, ar gael ac yn addas ar gyfer ei rannu, fel y trafodir ym mharagraff [A1.67](#).

## Cyfleoedd eraill i rannu sbectrwm

- A2.88 Fel y nodir gennym yn ein [Strategaeth ar gyfer Rheoli Sbectrwm](#), mae'n debyg y bydd unrhyw gyfleoedd i glirio sbectrwm (yn enwedig ar sail y wlad gyfan) yn dod yn fwy heriol. Gwnaethom ddweud y byddem yn rhoi pwyslais penodol ar rannu sbectrwm.
- A2.89 Mae rhannu sbectrwm yn digwydd i raddau helaeth yn barod, gyda 58% o'r sbectrwm wedi'i rannu rhwng dau neu fwy o ddefnyddwyr.<sup>8</sup> Bydd y galw cynyddol am sbectrwm, a galw a fydd yn cystadlu, yn golygu y bydd rhannu yn bwysicach byth. Felly, byddwn yn cynnal adolygiad eang i ganfod cyfleoedd posibl i rannu sbectrwm fel sy'n digwydd ar hyn o bryd a mathau newydd o rannu rhwng defnyddwyr gwahanol.
- A2.90 Yn Ch1 2015/16, bwriadwn gyhoeddi galwad am fewnbwn i'n helpu i ddatblygu ein dull o rannu sbectrwm, gan gynnwys cyfleoedd newydd ac offer newydd posibl. Yn dilyn rhagor o ymgynghori â rhanddeiliaid yn Ch3 2015/16, efallai y byddwn yn sefydlu prosiectau newydd i gyflwyno'r cyfleoedd hyn y byddwn wedi'u pennu'n flaenoriaethau.

## **Cynllunio ar gyfer gofynion sbectrwm data symudol yn y dyfodol, gan gynnwys ar gyfer y Rhyngwrld Pethau**

### Strategaeth data symudol a pharatoi ar gyfer 5G

- A2.91 Mae dinasyddion a defnyddwyr y DU eisoes yn elwa'n sylweddol o ddefnyddio dyfeisiau symudol, ac mae disgwyl i'r traffig data a gynhyrchir gan y dyfeisiau hyn dyfu'n sylweddol.
- A2.92 Gwnaethom gyhoeddi ein [strategaeth](#) hirdymor i roi sylw i'r her hwn ym mis Mai 2014. Mae'r strategaeth yn nodi ac yn blaenoriaethu nifer o fandiau yn ychwanegol at y bandiau 700MHz, 2.3GHz a 3.4GHz sydd i'w rhyddhau, lle byddwn yn gwneud rhagor o waith i ystyried y defnydd posibl ohonynt yn y dyfodol ar gyfer data symudol.
- A2.93 Yn ogystal â datblygu gwaith ar y bandiau penodol a nodwyd yn ein strategaeth, gan gynnwys y bandiau Wi-Fi 3.6-3.8GHz, 3.8-4.2GHz a 5-6GHz - byddwn yn parhau i wneud y canlynol:
- paratoi ar gyfer eitem agenda 1.1 Cynhadledd Radiogyfathrebu'r Byd-15 ym mis Tachwedd 2015, a fydd yn penderfynu pa fandiau fydd yn cael dyraniad rhyngwladol ar gyfer defnydd symudol (gweler paragraff [A1.72](#));
  - datblygu ein barn am y twf yn y dyfodol yn y galw am ddata symudol. Byddwn hefyd yn rhoi rhagor o ystyriaeth i oblygiadau'r galw hwn ar gyfer newidiadau yn y dyfodol yn y defnydd o sbectrwm a/neu rannu sbectrwm; a
  - datblygu ein dealltwriaeth o ddatblygiadau technolegol newydd a goblygiadau'r rhain i'r defnydd o sbectrwm.

---

<sup>8</sup> Ofcom, *Spectrum Attribution Metrics*, Rhagfyr 2013, [http://stakeholders.ofcom.org.uk/binaries/consultations/spectrum-management-strategy/annexes/Spectrum\\_attribution\\_metrics.pdf](http://stakeholders.ofcom.org.uk/binaries/consultations/spectrum-management-strategy/annexes/Spectrum_attribution_metrics.pdf).



A2.94 Er ei bod yn ddyddiau cynnar ar ddatblygiad y genhedlaeth nesaf o dechnolegau symudol (5G), byddwn yn datblygu ein dealltwriaeth o'r gofynion posibl ar sbectrwm ar gyfer y technolegau hyn dros y flwyddyn nesaf. Tra gall rhai bandiau o dan 6GHz fod yn addas ar gyfer gwasanaethau 5G yn y dyfodol, mae hefyd yn debygol y bydd galw am fandiau uwchlaw 6GHz ar gyfer gwasanaethau 5G. Gwnaethom gyhoeddi [cais am fewnbwn](#) ar fandiau uwchben 6GHz ym mis Ionawr 2015 a byddwn yn cyhoeddi diweddariad yn ystod Ch1 2015/16.

### Y gofynion posibl o ran sbectrwm ar gyfer y Rhynggrwyd Pethau

- A2.95 Yn ein [Strategaeth ar gyfer Rheoli Sbectrwm](#) gwnaethom nodi ein dull gweithredu cyffredinol ar gyfer rheoli sbectrwm radio ar draws nifer o sectorau'r diwydiant. Nodwyd bod y Rhynggrwyd Pethau yn faes pwysig i'w ystyried ymhellach, ar sail ymgysylltiad â rhanddeiliaid a'n dadansoddiad ein hunain o faint y farchnad yn y dyfodol.
- A2.96 Ym mis Gorffennaf 2014, gwnaethom gyhoeddi [cais am fewnbwn](#), gan ofyn am farn rhanddeiliaid am y camau sy'n ofynnol i hybu buddsoddiad ac arloesedd mewn cysylltiad â'r Rhynggrwyd Pethau. Yn benodol, gwnaethom ofyn am farn am y gofynion ar gyfer sbectrwm, diogelwch a chadernid rhwydweithiau, preifatrwydd data a phwysigrwydd cysoni rhyngwladol.
- A2.97 Roedd nifer a thôn yr ymatebion a gawsom yn dangos bod rhanddeiliaid at ei gilydd yn cytuno â'n barn y bydd y Rhynggrwyd Pethau yn dod â buddion sylweddol i ddinasyddion a defnyddwyr ar draws nifer o sectorau'r diwydiant.
- A2.98 Ein hasesiad yw y bydd digon o sbectrwm ar gael yn y pum mlynedd nesaf i gefnogi twf ac arloesedd yn y Rhwydwaith Pethau. Yn ystod 2015/16, byddwn yn parhau i fonitro a fydd mynediad i sbectrwm yn ffactor cyfyngol yn natblygiad Rhynggrwyd Pethau yn y tymor hwy.
- A2.99 Yn ystod 2015/16, byddwn yn parhau i archwilio i ffyrdd o ddarparu sbectrwm ar gyfer dyfeisiau Rhynggrwyd Pethau. Gall hyn gynnwys sbectrwm yn yr ystod 55-68MHz. Byddwn hefyd yn gweithio gyda'r diwydiant, y Llywodraeth a chyrrff perthnasol eraill i ymchwilio i ddulliau o ddarparu mynediad diogel a chadarn i ddata personol a rhwydweithiau'r Rhynggrwyd Pethau.

### Cynnal adolygiad strategol o'r sectorau gwyddor y gofod a lloeren

A2.100 Er mwyn cyfrannu at ein strategaeth ar gyfer y sectorau hyn yn y dyfodol, rydym yn cynnal adolygiad o fynediad at y sbectrwm a'r defnydd ohono gan ddefnyddwyr gwyddoniaeth y gofod a lloeren. Ein nod yw gwella ein dealltwriaeth o'r galw ar hyn o bryd ac yn y dyfodol am wasanaethau a chymwysiaid, goblygiadau rhyngwladol twf yn y galw, a sut y bydd y rhain yn effeithio ar anghenion y sector yn y dyfodol am sbectrwm.

### **Rhoi cynllun ar waith ar berfformiad amleddau radio**

A2.101 Mae profiad diweddar wedi dangos y problemau a achosir gan ddyfeisiau sy'n wael am hidlo allyriadau amleddau radio y tu allan i'r amleddau y mae ganddynt drwydded ar eu cyfer, neu y mae eu derbynyddion yn 'gwrando' ar signalau amledd radio y tu allan i'w hamleddau dynodedig.

- A2.102 Mae'r risg o ymyrraeth yn sgil hynny'n cymhlethu'r dasg o sicrhau bod sbectrwm ar gael ar gyfer defnyddiau newydd mewn bandiau amledd cyfagos. Gall y gost o ddatrys y problemau hyn fod yn sylweddol.
- A2.103 Fel rhan o'n [Strategaeth ar gyfer Rheoli Sbectrwm](#) rydym yn ymchwilio i ffyrdd o leihau heriau fel hyn yn y dyfodol drwy, ymysg pethau eraill, gyfrannu at y broses o osod safonau ar gyfer perfformiad amleddau radio.
- A2.104 Dros y flwyddyn i ddod, rydym yn disgwyl sefydlu fframwaith ar gyfer gwneud hyn, a gweithredu ar nifer bychan o achosion penodol. Byddwn hefyd yn cyfrannu at roi'r Gyfarwydddeb Cyfarpar Radio newydd ar waith, sy'n dod â mwy o faterion yn ymwneud â pherfformiad derbynyddion o fewn cwrmpas y fframwaith rheoleiddio Ewropeaidd.

## Diben strategol 5: cynnal hyder cynulleidfaoedd mewn cynnwys a ddarlledir

### Cynnal hyder cynulleidfaoedd mewn cynnwys a ddarlledir

- Cwblhau ein hadolygiad o reoleiddio fformatau cerddoriaeth ar y radio
- Cwblhau ein hadolygiad o'r cod EPG
- Datblygu cynlluniau ar gyfer gweithredu a thrwyddedu DAB ar raddfa fach

### Cwblhau ein hadolygiad o reoleiddio fformatau cerddoriaeth ar y radio

- A2.105 Yng Nghynllun Blynyddol 2014/15, dywedasom y byddem yn anelu at ymgynghori ar fframwaith diwygiedig ar gyfer rheoleiddio'r gerddoriaeth a chwaraeir gan radio masnachol lleol, a allai fod yn ei le erbyn haf 2014. Er mwyn sicrhau bod yr ymgynghoriad hwn yn rhoi sylw i'r holl faterion perthnasol ac yn ystyried pob barn a thystiolaeth, gwnaethom gyhoeddi [cais am fewnbwn](#) ym mis Mai 2014. Gwnaethom gyhoeddi [ymgyngoriad](#) ym mis Ionawr 2015.
- A2.106 Wrth ystyried a ddylid newid y ffordd rydym yn rheoleiddio'r gerddoriaeth a chwaraeir gan orsafoedd radio masnachol lleol, byddwn yn ceisio taro cydbwysedd rhwng ein dyletswydd statudol i sicrhau amrywiaeth i wrandawyr ac annog cystadleuaeth a rhoi hyblygrwydd i orsafoedd i addasu i'r newid yn chwaeth defnyddwyr.
- A2.107 Disgwyliwn gyhoeddi ein datganiad terfynol yn ystod Ch1 2015/16.

### Cwblhau ein hadolygiad o'r cod EPG

- A2.108 Mae'n rhaid i Ofcom gyhoeddi Cod Ymarfer y bydd yn rhaid i'r rheini sy'n darparu cyfeiryddion rhaglenni electronig (EPGs) ei ddilyn, gan gynnwys rhoi amlygrwydd i sianeli gwasanaeth cyhoeddus. Cafodd y [cod presennol](#) ei gyhoeddi yn 2003. Rydym wedi ystyried i ba raddau y mae'r cod yn gallu cyflawni amcanion y drefn rhoi amlygrwydd. Oherwydd hyn, mae Ofcom wedi penderfynu ei fod yn briodol adolygu'r cod.
- A2.109 Rydym yn bwriadu ymgynghori ar hyn, gan nodi cynigion newydd ar gyfer sicrhau amlygrwydd i sianeli gwasanaeth cyhoeddus. Ar ôl ymgynghori, byddem yn cyhoeddi cod newydd.

## Datblygu cynlluniau ar gyfer gweithredu a thrwyddedu DAB ar raddfa fach

- A2.110 Cefnogodd Ofcom waith i dreialu technoleg DAB cost isel yn Brighton rhwng mis Medi 2012 a mis Ionawr 2013. Bu'r gwaith treialu yn llwyddiannus yn dangos dull gweithredu arall ar gyfer darlledu DAB, gan ddibynnu ar dechnegau 'a ddiffinnir gan feddalwedd', lle mae meddalwedd sy'n rhedeg ar gyfarpar cyfrifiadurol cost isel ac sydd ar gael yn hawdd yn cael ei ddefnyddio yn lle cyfarpar darlledu pwrpasol neu 'galedwedd'.
- A2.111 Er mai prototeip oedd y cyfarpar a ddefnyddiwyd yn Brighton, roedd yn dangos bod y cysyniad o drawsyrro DAB am gost llawer is yn bosibl, a gallai hyn gynnig llwybr i'r llwyfan DAB i orsafoedd llai.
- A2.112 Yn y gynhadledd Go Digital ym mis Rhagfyr 2013, cyhoeddodd y Llywodraeth y byddai'n hoffi dod o hyd i ddulliau i alluogi gorsafoedd llai i gael modd o ddarlledu ar DAB. Roedd hyn yn cynnwys darparu arian i Ofcom am ddwy flynedd i ddatblygu'r gwaith a wnaethpwyd yn Brighton. Mae Ofcom yn awr wedi cychwyn ar raglen waith sy'n cynnwys datblygiad technegol y system a ddiffinnir gan feddalwedd, a gwaith ar fframwaith trwyddedu priodol.
- A2.113 Cyhoeddwyd [ymgyngoriad](#) gennym ar ein dull o drwyddedu amblecsau bach tymor byr at ddibenion cynnal treial technegol ym mis Hydref 2014. Rydym wedi cyhoeddi ein [datganiad](#) terfynol ac wedi gofyn am geisiadau am drwyddedau ar gyfer y treialon a rhagwelwn y byddant yn cael eu dyfarnu yn Ch1 2015/16, gydag amblecsau'r treialon yn cael eu lansio yn ystod haf 2015. Bydd y treialon yn rhedeg tan ddechrau Ch1 2016/17, a disgwylir i adroddiad terfynol Ofcom gael ei gyflwyno i DCMS yn ystod haf 2016 unwaith y bydd y treialon wedi dod i ben. Bydd unrhyw argymhellion yn ymwneud â fframwaith trwyddedu yn rhan o'r adroddiad hwnnw.

## Diben strategol 6: cyfrannu at bolisi cyhoeddus a ddiffinnir gan y Senedd, a'i roi ar waith, a lle y bo'n briodol gan weinyddiaethau datganoledig

**Cyfrannu at bolisi cyhoeddus a ddiffinnir gan y Senedd, a'i roi ar waith, a lle y bo'n briodol gan weinyddiaethau datganoledig**

- Cwblhau adolygiad Ofcom o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus
- Ymateb fel y bo'n briodol i newidiadau yn y broses datganoli pwerau i lywodraethau cenedlaethol
- Cyhoeddi diweddariad i adroddiad 2014 ar gyflwr seilwaith cyfathrebiadau'r DU
- Datblygu fframwaith ar gyfer mesur lluosogrwydd yn y cyfryngau
- Ymgysylltu â'r Llywodraeth am y posibilrwydd o roi fframwaith cyffredin ar gyfer safonau yn y cyfryngau ar waith
- Ymgysylltu â rhaglen ddeddfwriaethol y Comisiwn Ewropeaidd newydd
- 

## Cwblhau adolygiad Ofcom o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus

- A2.114 Mae'r Senedd yn mynnu bod Ofcom yn cynnal adolygiadau o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus. Dyma ddyletswyddau Ofcom wrth gynnal yr adolygiadau hyn:
- adolygu i ba raddau y mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi cyflawni dibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus;

- adrodd yn ôl am ddarledu gwasanaeth cyhoeddus gyda golwg ar gynnal a chryfhau ei ansawdd yn y dyfodol; ac
- adolygu i ba raddau y mae deunydd mewn gwasanaethau cyfryngau wedi cyfrannu at gyflawni amcanion gwasanaeth cyhoeddus.

A2.115 O dan yr eitem hon rydym hefyd yn cynnwys ein gwaith sy'n ymwneud â'n dyletswydd ddeddfwriaethol i gynnal adolygiad o'r ffordd y mae Corfforaeth Channel 4 yn cyflawni'i dyletswyddau mewn perthynas â chynnwys y cyfryngau.

A2.116 Ym mis Rhagfyr 2014, gwnaethom gyhoeddi [ymgyngoriad](#) yn nodi ein canfyddiadau dros dro ar berfformiad y system Darledu Gwasanaeth Cyhoeddus ar draws y DU i gyd, ac ymhob un o wledydd y DU yn unigol. Roedd hwn yn dangos y newidiadau sydd wedi digwydd yn y sector darledu gwasanaeth cyhoeddus ers 2008, yn seiliedig ar sylfaen ymchwil a data sylweddol Ofcom. Roedd hefyd yn cynnwys ymchwil ansoddol a meintiol newydd mewn perthynas â chynulleidfaoedd a gomisiynwyd ar gyfer yr adolygiad hwn.

A2.117 Yn ein hymgyngoriad, roeddem yn trafod ffyrdd posibl o gynnal a chryfhau'r system darledu gwasanaeth cyhoeddus, megis sicrhau bod cynnwys darledu gwasanaeth cyhoeddus ar gael a bod modd ei ganfod yn hawdd, y berthynas rhwng y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a'r sector cynhyrchu annibynnol a rôl sianeli portffolio darledu gwasanaeth cyhoeddus.

A2.118 Daeth yr ymgynghoriad hwn i ben ym mis Chwefror 2015. Rydym yn bwriadu cyhoeddi datganiad terfynol, yn nodi ein canfyddiadau mewn perthynas â darledu gwasanaeth cyhoeddus, ac unrhyw gynigion neu argymhellion, rywbryd ganol 2015.

### **Ymateb fel y bo'n briodol i newidiadau yn y broses datganoli pwerau i lywodraethau cenedlaethol**

A2.119 Yn ein Cynllun Blynyddol Drafft gwnaethom amlinellu ymateb Ofcom ym mis Hydref 2014 i wahoddiad Comisiwn Smith i gyfrannu at ei drafodaethau ar argymhellion i ddatganoli rhagor o bwerau i Senedd yr Alban.

A2.120 Cyhoeddodd Comisiwn Smith ei [argymhellion](#) ar 27 Tachwedd 2014. Cyhoeddodd Llywodraeth y DU [gymalau drafft](#) ar 22 Ionawr 2015 yn dangos sut y byddai'r mesurau hyn yn cael eu hymgorffori'n ddiweddarach mewn deddfwriaeth. Nodwn fod y ddeddfwriaeth ddrafft yn cynnwys nifer o ddarpariaethau sy'n ymwneud ag Ofcom a'i waith, er enghraifft pŵer i Weinidogion yr Alban benodi un aelod o Fwrdd Ofcom a fydd yn gallu cynrychioli buddiannau'r Alban.

A2.121 Cyhoeddodd Comisiwn Silk ran dau ei [argymhellion](#) ar ddatganoli yng Nghymru ym mis Mawrth 2014. Ar 27 Chwefror 2015, rhyddhaodd Llywodraeth y DU bapur gorchymyn fel rhan o gytundeb Dydd Gŵyl Dewi ar ragor o ddatganoli i Gymru.

A2.122 Nodwn fod hyn yn cynnwys nifer o ddarpariaethau sy'n ymwneud ag Ofcom a'i waith, er enghraifft pŵer i Weinidogion Cymru benodi un aelod o Fwrdd Ofcom a fydd yn gallu cynrychioli buddiannau Cymru.

A2.123 Yn 2015/16, byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban ar weithredu rhannau perthnasol Cytundeb Comisiwn Smith a chyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar weithredu rhannau perthnasol cytundeb Dydd Gŵyl Dewi.

A2.124 Byddwn hefyd yn parhau i ymateb fel y bo'n briodol i unrhyw gynigion ar gyfer datganoli pwerau i ddeddfwrfeydd yn y DU a llywodraethau cenedlaethol fel y maent yn effeithio ar y sector cyfathrebiadau.

### **Cyhoeddi diweddariad i adroddiad 2014 ar gyflwr seilwaith cyfathrebiadau'r DU**

A2.125 O dan Ddeddf Cyfathrebu 2003 a Deddf yr Economi Ddigidol 2010, rhaid inni baratoi adroddiad bob tair blynedd ar wasanaethau a rhwydweithiau cyfathrebiadau electronig y DU. Mae'r adroddiad yn edrych ar y ddarpariaeth, perfformiad a chapasiti rhwydweithiau a gwasanaethau, defnyddio sbectwm, rhannu seilwaith a diogelwch a chadernid ar draws gwledydd y DU. Y prif rhwydweithiau a ystyrir yw'r rhwydweithiau teleffoni a band eang sefydlog, y rhwydweithiau data a llais symudol, Wi-Fi, rhwydweithiau radio a darlledu.

A2.126 Cyhoeddwyd ein *Hadroddiad Seilwaith cyntaf* ym mis Tachwedd 2011 a'r [ail](#) ym mis Rhagfyr 2014. Yn y blynyddoedd rhwng y rhain, rydym wedi cyhoeddi diweddariadau blynyddol, sy'n canolbwyntio ar feysydd sy'n newid gyflymaf, megis signal/darpariaeth a chapasiti rhwydweithiau sefydlog, symudol a darlledu. Yn 2015, rydym yn bwriadu cyhoeddi diweddariad blynyddol arall.

### **Datblygu fframwaith ar gyfer mesur lluosogrwydd yn y cyfryngau**

A2.127 Mae lluosogrwydd yn y cyfryngau yn cyfrannu at gymdeithas ddemocrataidd sy'n gweithredu'n dda drwy sicrhau y ceir amrywiaeth o safbwyntiau a thrwy atal un perchennog yn y cyfryngau rhag cael gormod o ddylanwad dros farn pobl a'r agenda wleidyddol.

A2.128 Ym mis Medi 2014, gofynnodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i Ofcom ddatblygu fframwaith mesur ar gyfer lluosogrwydd yn y cyfryngau. Mae hyn yn dilyn casgliadau [ymgynghoriad](#) gan DCMS ar berchnogaeth yn y cyfryngau a lluosogrwydd, a sefydlodd gwmpas y fframwaith hwn.

A2.129 Bwriadwn gydymffurfio â chais yr Ysgrifennydd Gwladol drwy adeiladu ar ein gwaith blaenorol yn y maes hwn lle y bo'n briodol. Byddwn hefyd yn ceisio datblygu fframwaith mesur ar gyfer lluosogrwydd yn y cyfryngau a fydd yn gallu dangos y sefyllfa ymhob un o'r gwledydd, yn ogystal ag yn y DU drwyddi draw.

A2.130 Ym mis Hydref 2014, gwnaethom gyhoeddi galwad am fewnbwn i gasglu safbwyntiau cynnar rhanddeiliaid ar y dangosyddion y dylai'r fframwaith eu cynnwys (rhaid i'r rhain allu dangos y sefyllfa ar lefel y DU ac ymhob un o'r gwledydd). Gwnaethom gyhoeddi [ymgynghoriad](#) ar gyfres o ddangosyddion arfaethedig ym mis Mawrth 2015. Rydym yn disgwyl dod i gasgliadau a darparu'r fframwaith mesur i'r Ysgrifennydd Gwladol yn ystod haf 2015.

### **Ymgysylltu â'r Llywodraeth am y posibilrwydd o roi fframwaith cyffredin ar gyfer safonau yn y cyfryngau ar waith**

A2.131 Roedd papur polisi'r Llywodraeth, [Connectivity, Content and Consumers](#) yn gofyn i'r diwydiant a rheoleiddwyr gydweithio'n wirfoddol i ddatblygu agwedd fwy cyson at safonau yn y cyfryngau, a sicrhau bod defnyddwyr yn deall pa gynnwys sy'n cael ei reoleiddio a pha gynnwys nad yw'n cael ei reoleiddio. Ym mis Chwefror 2014, gofynnodd y cyn Ysgrifennydd Gwladol i Ofcom gychwyn y gwaith hwn.

- A2.132 Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r Llywodraeth, y diwydiant a rheoleiddwyr yn y cyfryngau i ddatblygu dull gweithredu mwy cyson ar gyfer diogelu cynulleidfaoedd ar draws cyfryngau.
- A2.133 Bydd cysylltiad rhwng y gwaith hwn a'n cyfraniad cyson at ddadleuon ar reoleiddio cyfryngau clyweledol. Mae Ofcom yn aelod o'r Grŵp Rheoleiddwyr Ewropeaidd ar gyfer Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol (ERGA), grŵp cynghoriarbenigol ffurfiol newydd o reoleiddwyr clyweledol yn Aelod-wladwriaethau'r UE. Bydd y grŵp yn cyfnewid arferion da ac yn cynghori'r Comisiwn ar weithrediad cyson y Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol (AVMS), yn y cyfnod yn arwain at adolygiad posibl o'r Gyfarwyddeb.
- A2.134 Mae Ofcom yn arwain gwaith y grŵp yn adolygu a yw cwmpas y Gyfarwyddeb yn dal yn addas i'r diben, a byddwn yn cyfrannu'n sylweddol at y drafodaeth ar awdurdodaeth a diogelu pobl ifanc dan oed dan y Gyfarwyddeb AVMS.

### **Ymgysylltu â rhaglen deddfwriaethol y Comisiwn Ewropeaidd newydd**

- A2.135 Mae trafodaethau deddfwriaethol ar elfennau o becyn deddfwriaethol Cyfandir wedi'i Gysylltu'r Comisiwn Ewropeaidd yn parhau ac ni wyddys eto pryd y bydd testun terfynol yn cael ei fabwysiadu. Bydd Ofcom yn parhau i ddarparu cymorth technegol i Lywodraeth y DU yn ystod y trafodaethau ac wedyn mewn perthynas â rhoi unrhyw reolau newydd ar waith.
- A2.136 Disgwylir i'r Comisiwn newydd (a ddechreuodd weithredu ym mis Tachwedd 2014) gyflwyno "map marchnad sengl ddigidol" a fydd yn berthnasol i'n sector erbyn canol 2015. Deallwn y bydd yn canolbwyntio ar hawlfraint a hawliau eiddo deallusol, yn ogystal â moderneiddio a symleiddio rheolau i ddefnyddwyr ar gyfer prosesau digidol ac ar-lein. Mae'r Comisiwn wedi nodi ei fwriad i lansio adolygiad o'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol ddechrau 2016, a disgwylir y bydd adolygiad o'r Fframwaith Rheoleiddio Ewropeaidd yn cael ei lansio yn hanner cyntaf 2016.
- A2.137 Bydd Ofcom yn parhau i gyfrannu at y dadleuon polisi Ewropeaidd hyn, gan gynnwys gyda'i gymheiriaid mewn Aelod-wladwriaethau eraill, drwy BEREC.
- A2.138 Byddwn hefyd yn parhau i ddarparu cymorth i Lywodraeth y DU mewn perthynas ag unrhyw drafodaethau deddfwriaethol a all gael eu cynnal ar faterion sy'n berthnasol i'r meysydd sy'n cael eu rheoleiddio gennym.

**Atodiad 3**

# Gwaith rhaglennol Ofcom a'i wasanaethau i randdeiliaid

## Rydym yn darparu nifer o wasanaethau hanfodol i ddefnyddwyr a rhanddeiliaid eraill

A3.1 Mae ein gwaith rhaglennol parhaus, a nodir isod, hefyd yn rhan bwysig o'r broses o gyflawni ein dyletswyddau.

**Ffigur 7 – Tabl o feysydd gwaith rhaglennol ar gyfer 2015/16**

Hybu cystadleuaeth effeithiol a dewis gwybodus	Diogelu defnyddwyr rhag niwed	Hyrwyddo cyfleoedd i gyfranogi	Sicrhau y gwneir y defnydd gorau posibl o sbectrwm	Cynnal hyder cynulleidfaoedd mewn cynnwys a ddarlledir
<ul style="list-style-type: none"> <li>Gorfodi cystadleuaeth e.e. drwy ddatrys anghydfodau ac ymchwilio i gwynion o dan y Ddeddf Cystadleuaeth a gosod cosbau pan fo hynny'n briodol;</li> <li>Rhoi mesurau ar waith i sicrhau bod rhifau daearyddol ar gael, a gwneud gwaith pellach yn ôl yr angen ar rifau nad ydynt yn rhai daearyddol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Monitro diogelwch a chadernid rhwydweithiau</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cynnal a chyhoeddi ymchwil marchnad a defnyddwyr</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cynllunio aseiniadau sbectrwm a dyfarnu trwyddedau</li> <li>Rhoi cyngor a chymorth ar gyfer achosion o ymyrraeth, a chymryd camau gorfodi pan fo hynny'n briodol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau bod safonau rhaglenni effeithlon ac effeithiol yn cael eu gorfodi</li> <li>Aseinio trwyddedau darlledu, gan gynnwys trwyddedau ar gyfer gorsafoedd teledu lleol, a hyrwyddo amrywiaeth a chyfle cyfartal ym maes darlledu</li> </ul>

**Cyfrannu at bolisi cyhoeddus a ddiffinnir gan y Senedd, a'i roi ar waith, a lle y bo'n briodol gan weinyddiaethau datganoledig**

- Ymgysylltu â rhanddeiliaid rhyngwladol a chyfrannu'n frwd at rwydweithiau rheoleiddio Ewropeaidd
- Cefnogi gwaith Rhwydwaith Rheoleiddwyr y DU

### Diben strategol 1: hybu cystadleuaeth effeithiol a dewis gwybodus

#### Gorfodi cystadleuaeth e.e. drwy ddatrys anghydfodau ac ymchwilio i gwynion o dan y Ddeddf Cystadleuaeth a gosod cosbau pan fo angen

A3.2 Mae gennym ddyletswyddau i ddatrys anghydfodau rhwng rhanddeiliaid pan fyddant yn dod i'n sylw. Mae'r dyletswyddau hyn yn ymwneud ag achosion honedig

o dorri amodau rheoleiddio neu faterion eraill sy'n ymwneud ag ymddygiad darparwyr cyfathrebiadau. Rydym yn ymchwilio i anghydfodau o'r fath ac yn cymryd camau i'w datrys.

- A3.3 Rydym hefyd yn agor ymchwiliadau i achosion posibl o dorri amodau rheoleiddio – naill ai wrth ymateb i gŵyn neu ar ein liwt ein hunain. Mae ein hymchwiliad parhaus i'r wybodaeth a ddarperir gan gwmnïau am leoliad wrth wneud galwadau i'r gwasanaethau brys yn enghraifft o ymchwiliad rydym yn ei wneud ar ein liwt ein hunain.
- A3.4 Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, mae ein [Canllawiau ar Ddatrys Anghydfodau](#) yn amlinellu sut rydym yn mynd ati i ystyried anghydfodau rheoleiddio. Mae ein [Canllawiau ar Orfodi](#) yn egluro sut rydym yn delio â chwynion ynghylch rheolau rheoleiddio, yn ogystal â chwynion o dan y ddeddf cystadleuaeth. Mae [Pennod 6](#) y ddogfen hon yn amlinellu ein gwaith ar wahân o dan y Ddeddf Cystadleuaeth (1998).

## **Rhoi mesurau ar waith i sicrhau bod rhifau daearyddol ar gael, a gwneud gwaith pellach, yn ôl yr angen, ar rifau nad ydynt yn rhai daearyddol**

### Rhifau daearyddol

- A3.5 Mae gennym ddyletswydd i ddyrannu rhifau ffôn daearyddol (rhifau ffôn llinellau sefydlog sy'n dechrau gyda '01' a '02') i ddarparwyr cyfathrebiadau er mwyn iddynt hwythau eu rhoi i ddefnyddwyr.
- A3.6 Rydym yn gwneud gwaith i sicrhau bod y rhain yn cael eu defnyddio'n effeithlon er mwyn lleihau'r angen am fesurau trafferthus a chostus i fynd i'r afael â phrinder rhifau newydd. Mae hynny'n lleihau'r perygl y bydd prinder rhifau newydd yn creu rhwystrau rhag ymuno â'r farchnad ac yn lleihau cystadleuaeth.

### Rhifau nad ydynt yn rhai daearyddol

- A3.7 Cam nesaf ein hadolygiad o rifau nad ydynt yn rhai daearyddol (darllenwch baragraff [A1.24](#) i gael gwybodaeth am gynlluniau ar gyfer y cam presennol) yw canolbwyntio ar ystodau rhifau 070 a 076.
- A3.8 Mae'r ystodau hyn yn cael eu defnyddio ar gyfer gwasanaethau teclyn galw (pager) radio a rhifau personol. Rydym yn poeni y gallai defnyddwyr ddrysu rhwng y rhifau hyn a rhifau 07 ar gyfer ffonau symudol. Byddwn yn ymchwilio ymhellach i'r mater hwn, ac rydym yn gobeithio cynnal ymgynghoriad maes o law.
- A3.9 Rydym hefyd yn adolygu'r defnydd o rifau symudol, gan gynnwys diffinio 'gwasanaeth symudol' sy'n cael ei ddefnyddio wrth ddyrannu rhifau o'r ystod rhifau symudol 07. Bydd hyn yn cynnwys y dull rydym yn ei gymryd yng nghyswllt ceisiadau i ddefnyddio rhifau symudol ar gyfer dyfeisiau Rhyngrwyd Pethau (cymwysiaidau peiriant i beiriant). Rydym yn disgwyl ymgynghori ar gynigion ein hadolygiad yn ddiweddarach eleni.

## **Diben Strategol 2: diogelu defnyddwyr rhag niwed**

### **Monitro diogelwch a chadernid rhwydweithiau**

- A3.10 Ym mis Awst 2014, gwnaethom gyhoeddi [canllawiau](#) newydd ar gyfer darparwyr cyfathrebiadau ar gydymffurfio â darpariaethau'r Ddeddf Cyfathrebu o ran



diogelwch a chadernid rhwydweithiau. Bydd y canllawiau hyn yn llywio ein gwaith yn 2015/16, gan gyflwyno trothwyon a gweithdrefnau newydd ar gyfer rhoi gwybod am fylchau yn y gwasanaeth gan gwmnïau. Byddwn yn parhau i weithio gyda darparwyr cyfathrebiadau i sicrhau eu bod yn gwreiddio'n newidiadau hyn yn eu gwaith.

- A3.11 Byddwn yn rhoi crynodeb blynyddol i'r Comisiwn Ewropeaidd o'r adroddiadau a gawn, a byddwn yn cynnwys crynodeb a dadansoddiad yng nghyhoeddiadau perthnasol Ofcom, fel yn *Niweddariad 2015 yr Adroddiad Seilwaith*. Byddwn hefyd yn mynd ar drywydd unrhyw ddiwyddiadau sy'n achosi pryder er mwyn deall beth sydd wedi'u hachosi, a oedd ymateb y cwmni yn briodol a'r camau a gymerwyd i leihau'r perygl y bydd yn digwydd eto.
- A3.12 Mae'r canllawiau a gyhoeddwyd ym mis Awst 2014 hefyd yn amlinellu ein cynlluniau i ehangu ein gwaith diogelwch a chadernid ar gyfer darparwyr gwasanaethau symudol a sefydlog llai. Yn 2015/16 byddwn yn ymgysylltu â'r cwmnïau hyn, drwy grwpiau diwydiant pan fo hynny'n briodol, i sicrhau bod y canllawiau yn cael eu mabwysiadu mewn ffordd gymesur.

### Diben strategol 3: hyrwyddo cyfleoedd i gyfranogi

#### Cynnal a chyhoeddi ymchwil marchnad a defnyddwyr

- A3.13 Rydym yn cynnal rhaglen eang o waith ymchwil i farchnadoedd cyfathrebu a dymuniadau ac ymddygiad defnyddwyr sy'n helpu i lywio'r gwaith o gyflawni ein dyletswyddau ehangach.
- A3.14 Mae ein hadroddiadau ymchwil blynyddol yn cynnwys y canlynol: [Adroddiad ar y Farchnad Cyfathrebiadau](#), [Adroddiad ar y Farchnad Cyfathrebiadau Rhynqwladol](#), ac [Adroddiad ar Brofiad Defnyddwyr](#).
- A3.15 Mae llawer o'n gwaith ymchwil yn rhoi gwybodaeth i ddefnyddwyr am nodweddion y gwasanaethau cyfathrebiadau a gynigir gan wahanol ddarparwyr, gan helpu defnyddwyr i wneud penderfyniadau prynu ar sail gwybodaeth. Yn 2015/16 bydd yr ymchwil hwn yn cynnwys adroddiadau wedi'u diweddarau ar y canlynol:
- [perfformiad](#) gwasanaethau band eang sefydlog;
  - darpariaeth symudol, gan gynnwys darparu [mapiau rhynqweithiol yn dangos y ddarpariaeth symudol](#) i ddefnyddwyr;
  - [perfformiad](#) gwasanaethau band eang symudol;
  - [ansawdd y profiad](#) o ran galwadau llais symudol (canran y galwadau symudol a gaiff eu cwblhau'n llwyddiannus ar rwydweithiau pob un o'r cwmnïau symudol); a
  - y [cwynion](#) a gawn gan ddefnyddwyr am gwmnïau a gwasanaethau telegyfathrebiadau.

## **Diben strategol 4: sicrhau y gwneir y defnydd gorau posibl o sbectrwm**

### **Cynllunio aseiniadau sbectrwm a dyfarnu trwyddedau**

- A3.16 Mae Ofcom yn rheoleiddio'r defnydd o gyfarpar radiogyfathrebiadau, naill ai drwy drwyddedu neu drwy eithriadau trwydded penodol. Mae hyn yn ein galluogi i wahanu defnyddwyr sbectrwm yn ôl lleoliad, amser ac amllder y defnydd.
- A3.17 Rydym yn ceisio darparu'r gwasanaethau hyn mor effeithlon ac effeithiol â phosibl, er mwyn lleihau nifer yr achosion o ddiddymu trwyddedau ac atal y sbectrwm rhag cael ei ddefnyddio heb drwydded. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau ar gyfer e-drwyddedu. I gael gwybod rhagor am ein cynlluniau i symleiddio'r broses trwyddedu sbectrwm, darllenwch baragraff [A4.35](#).

### **Rhoi cyngor a chymorth ar gyfer achosion o ymyrraeth, a chymryd camau gorfodi pan fo hynny'n briodol**

- A3.18 Wrth i'r galw am sbectrwm gynyddu a'r defnydd ohono gynyddu, mae'r perygl y bydd defnyddwyr yn wynebu ymyrraeth niweidiol hefyd yn cynyddu. Rydym yn rhoi cyngor a chymorth er mwyn helpu i ddatrys ymyrraeth niweidiol a gallwn helpu i leihau'r ymyrraeth pan fydd yn digwydd.
- A3.19 Mae ein Tîm Sicrhau Sbectrwm yn delio ag oddeutu 2,000 adroddiad am ymyrraeth bob blwyddyn ac yn rheoli sbectrwm y DU yn rhagweithiol er mwyn:
- gwarchod gwasanaethau cyfathrebiadau sy'n diogelu bywyd, fel y gwasanaethau brys, a gwasanaethau cyfathrebiadau rheoli traffig awyr;
  - atal y sbectrwm rhag cael ei ddefnyddio'n anghyfreithlon neu heb drwydded;
  - caniatáu i sbectrwm gael ei ddefnyddio'n gyfreithlon drwy roi trwyddedau sbectrwm, hwyluso'r broses o brynu a gwerthu trwyddedau sbectrwm a darparu cyngor a chymorth i'r rhai sy'n defnyddio'r sbectrwm; a
  - dod o hyd i offer nad yw'n cydymffurfio a'i atal rhag cael ei werthu.
- A3.20 Mae gorsafoddd darlledu anghyfreithlon yn achosi llawer o ymyrraeth niweidiol ac yn cyflawni trosedd difrifol. Mae ein Tîm Gorfodi a Pheirianneg Sbectrwm yn cydweithio â rhanddeiliaid y mae hyn yn effeithio arnynt, fel awdurdodau lleol, i atal gorsafoddd darlledu anghyfreithlon rhag cael mynediad at safleoedd maent yn ddibynnol arnynt. Mae hefyd yn helpu gyda'r broses o gyflwyno gwaharddebau i droseddwyr mynych.
- A3.21 Yn dilyn llwyddiant ein proses arolygu ragweithiol ar gyfer rhai mathau o gynnyrch sydd wedi'u trwyddedu, fel radio busnes, bwriadwn ehangu'r broses hon i gynnwys mathau eraill o gynnyrch sydd wedi'u trwyddedu, fel dolenni sefydlog.
- A3.22 Yn olaf, rydym yn ystyried creu Offeryn Statudol o dan y Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr<sup>9</sup> er mwyn i ni allu defnyddio ein pwerau i fynd i'r afael ag achosion o ymyrraeth niweidiol a achosir gan gyfarpar trydanol ac electronig yng nghyswllt ystod ehangach o gyfarpar.

---

<sup>9</sup> Rheoliadau Telegraffiaeth Ddi-wifr (Rheoli Ymyrraeth oddi wrth Gyfarpar) 2015

## **Diben strategol 5: cynnal hyder cynulleidfaedd mewn cynnwys a ddarlledir**

### **Sicrhau bod safonau rhaglenni effeithlon ac effeithiol yn cael eu gorfodi**

- A3.23 Gall y cyhoedd gwyno wrthym yn uniongyrchol am gynnwys a ddarlledir ar raglenni teledu a radio. Mae cwynion y gynulleidfa yn bwysig er mwyn sicrhau bod gwylwyr a gwrandawyr yn cael eu diogelu'n briodol.
- A3.24 Mae Ofcom yn rhoi ystyriaeth i bob cwyn sy'n dod i law yn erbyn y Cod Darlledu sy'n cynnwys gwahanol faterion megis: amddiffyn pobl o dan 18 oed; niwed a thramgwydd; troseddu (gan gynnwys safbwyntiau eithafol); crefydd; bod yn ddiuedd ac yn gywir wrth gyflwyno newyddion; tegwch a phreifatrwydd; a chyfeiriadau masnachol ar y teledu ac ar y radio.
- A3.25 Nid ydym yn rhoi ystyriaeth i gwynion ynghylch rhaglenni'r BBC sy'n ymwneud â chywirdeb, bod yn ddiuedd na chyfeirio at frandiau gan fod hyn yn rhan o gylch gwaith Ymddiriedolaeth y BBC.

### **Aseinio trwyddedau darlledu, gan gynnwys trwyddedau ar gyfer gorsafodded teledu lleol, a hyrwyddo amrywiaeth a chyfle cyfartal ym maes darlledu**

- A3.26 Rydym yn gwahodd ceisiadau gan orsafoedd teledu lleol am drwyddedau gwasanaeth teledu digidol lleol (L-DTPS) ac yn eu dyfarnu. Mae pum gorsaf deledu lleol wedi dechrau darlledu ers pasio'r ddeddfwriaeth yn 2011 a oedd yn ein galluogi i roi trwyddedau.
- A3.27 Mae gennym ddyletswydd i fynnu bod darlledwyr yn rhoi ar waith drefniadau i hyrwyddo cyfle cyfartal mewn cyflogaeth ac i gyhoeddi sylwadau am hynny'n flynyddol. Rydym yn monitro a yw darlledwyr yn cydymffurfio â'u dyletswyddau, ac rydym yn datblygu pecyn wedi'i ddiweddarau ar arferion gorau er mwyn rhoi arweiniad i ddarlledwyr llai ar eu rhwymedigaethau. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda'r Rhwydwaith Amrywiaeth Creadigol (CDN), ac yn rhoi cymorth technegol i'r Rhwydwaith wrth iddo roi ei system monitro amrywiaeth ar waith.
- A3.28 Mae gennym ddyletswydd i ystyried i ba raddau mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn cyflawni'r amcan o ddarparu "nifer digonol o raglenni sy'n adlewyrchu bywydau a phryderon cymunedau a buddiannau a thraddodiadau diwylliannol gwahanol yn y Deyrnas Unedig, ac yn lleol mewn gwahanol rannau o'r Deyrnas Unedig". Bydd ein hadolygiad o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus yn ystyried i ba raddau mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus wedi cyflawni'r amcan hwn. Rhoddir sylw i hyn ym mharagraff [A2.114](#).

## **Diben strategol 6: cyfrannu at bolisi cyhoeddus a ddiffinnir gan y Senedd, a'i roi ar waith, a lle y bo'n briodol gan weinyddiaethau datganoledig**

### **Ymgysylltu â rhanddeiliaid rhyngwladol a chyfrannu'n frwd at rwydweithiau rheoleiddio Ewropeaidd**

- A3.29 Rydym yn ymgysylltu â nifer o rhanddeiliaid Ewropeaidd a rhyngwladol eraill ym maes rheoleiddio cyfathrebiadau, er mwyn dysgu o brofiadau mewn marchnadoedd

eraill a cheisio dylanwadu ar ystyriaethau polisi er budd defnyddwyr a dinasyddion y DU.

- A3.30 Rydym yn cyfrannu'n frwd at rwydweithiau rheoleiddio Ewropeaidd, gan gynnwys Rheoleiddwyr Cyfathrebiadau Electronig Ewrop (BEREC), Llwyfan Awdurdodau Rheoleiddio Ewrop (EPRA), y Grŵp Rheoleiddwyr Ewropeaidd ar gyfer Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol (ERGA) a'r Grŵp Rheoleiddwyr Ewropeaidd ar gyfer Gwasanaethau Post (ERGP). Rydym hefyd yn rhan o'r Grŵp Polisi Sbectrwm Radio (RSPG), sy'n cynghori'r Comisiwn Ewropeaidd ar lunio polisïau sy'n ymwneud â sbectrwm.
- A3.31 Hefyd, mae'n ofynnol i Ofcom gynrychioli buddiannau'r DU o dan gyfarwyddyd gweinidogol ym mhwyllgorau sbectrwm yr Undeb Telegyfathrebiadau Ryngwladol (ITU), y Gynhadledd Ewropeaidd ar Weinyddiaethau Post a Thelegyfathrebu (CEPT) a rhwydweithiau rheoleiddio eraill.
- A3.32 Mae paratoi ac arwain dirprwyaeth y DU yng Nghynhadledd Radiogyfathrebu'r Byd yn rhan hollbwysig o'n gwaith rhyngwladol. Rhoddir sylw i hyn ym mharagraff [A1.72](#).

### Cefnogi gwaith Rhwydwaith Rheoleiddwyr y DU

- A3.33 Ym mis Mawrth 2014, cyhoeddodd prif reoleiddwyr economaidd y DU y byddent yn creu Rhwydwaith Rheoleiddwyr y DU (UKRN). Nod UKRN yw sicrhau y bydd sectorau'n cydweithio'n effeithiol. Dull UKRN o weithredu fydd egluro ac ystyried y gwahaniaethau rhwng sectorau a sicrhau dulliau gweithredu cydlynol a chyffredin er budd defnyddwyr a'r economi. Mae UKRN hefyd yn ceisio hyrwyddo cystadleuaeth ac amgylchedd cadarnhaol ar gyfer buddsoddi a meithrin gwaith rheoleiddio effeithlon.
- A3.34 Hyd yma, mae gwaith yr UKRN wedi canolbwyntio ar wyth ffrwd waith. Mae Ofcom yn arwain gwaith UKRN ar gydnerthedd, arloesedd o ran seilwaith a rheoleiddio ar gyfer ansawdd. Mae Ofcom hefyd wedi cyfrannu'n sylweddol at y ffrydiau gwaith sy'n cael eu harwain gan reoleiddwyr eraill. Roedd UKRN wedi [ymgyngori](#) ynghylch ei gynllun blynyddol ar gyfer 2015/16 ym mis Ionawr 2015, sy'n rhagweld gwaith pellach yn y meysydd canlynol:
- buddsoddi mewn seilwaith ar draws y sector;
  - ymgysylltu â defnyddwyr a newid cyflenwr;
  - deall fforddiadwyedd ar draws sectorau;
  - cydnerthedd ar draws y sector;
  - esbonio manteision rheoleiddio economaidd;
  - datblygu sefydliadol;
  - adenillion marchnad a chost cyfalaf; a
  - rheoleiddio ar gyfer ansawdd.
- A3.35 Bydd cynllun gwaith terfynol gan UKRN ar gyfer 2015/16 yn cael ei gyhoeddi yn ddiweddarach yn y gwanwyn.

## Cyfrifoldeb corfforaethol

- A3.36 Mae Ofcom wedi ymrwymo i fod yn gyflogwr cyfrifol ac i reoli ei effaith ar y gymuned ehangach. Drwy wreiddio ein rhaglen cyfrifoldeb corfforaethol ar draws ein sefydliad, rydym yn fwy effeithiol fel y rheoleiddiwr cyfathrebiadau ac fel cyflogwr.
- A3.37 Dyma ein hamcanion o ran cyfrifoldeb corfforaethol:
- trin pob cydweithiwr ag urddas a pharch mewn amgylchedd gwaith cynhwysol a theg, gan hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb;
  - lleihau ein hól troed carbon, darparu gwerth am arian a sicrhau bod arferion Ofcom yn gynaliadwy yn amgylcheddol; a
  - cynnwys, ysbrydoli a datblygu cydweithwyr wrth fynd ati'n rhagweithiol i geisio cefnogi ein cymuned leol.
- A3.38 O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, rydym wedi cyhoeddi ein Cynllun Cydraddoldeb Sengl (SES), sy'n cynnwys y nodweddion gwarchoddedig canlynol: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil a chyfeiriadedd rhywiol. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Sengl, a gyhoeddwyd am y tro cyntaf yn 2009, yn dwyn ynghyd ac yn cryfhau ymrwymadau Ofcom i amrywiaeth a chydaddoldeb.
- A3.39 Buom yn ymgynghori ar ein Cynllun Cydraddoldeb Sengl newydd ym mis Hydref 2014, cyn ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2014. Mae'r [Cynllun Cydraddoldeb Sengl](#) newydd yn nodi ein prif lwyddiannau o ran gwella amrywiaeth a chydaddoldeb yn Ofcom ers y tro diwethaf i ni ei ddiweddarau yn 2011. Mae hefyd yn cynnwys cynllun gweithredu sy'n cynnwys ein hamcanion a'n bwriad ar gyfer y dyfodol.
- A3.40 Dyma dri amcan cyffredinol y cynllun:
- cael grŵp amrywiol o bobl ar bob lefel yn y sefydliad;
  - ystyried anghenion a buddiannau gwahanol pob unigolyn a rhanddeiliaid wrth wneud ein gwaith; a
  - chreu diwylliant sy'n gwerthfawrogi cyfraniad pawb yn ôl haeddiant.
- A3.41 Yn 2014/15 gwnaed cynnydd pellach i gyflawni'r amcanion hyn:
- cyhoeddwyd ein harchwiliad cyflog cyfartal, a oedd yn dangos nad yw'r cyflogau a dalwn yn gwahaniaethu rhwng y rhywiau;
  - rhoddwyd system tracio ymgeiswyr ar waith, sy'n ein galluogi i fonitro amrywiaeth ymgeiswyr am swyddi – o'r cam ymholi ar y cychwyn i gynnis swydd;
  - diweddarwyd ein modiwl e-ddysgu ar gyfer amrywiaeth – mae'n rhaid i bob cydweithiwr gwblhau'r modiwl hwn a chael sesiwn gloywi bob tair blynedd;
  - gwnaethom lofnodi ymgyrch Swyddfa Cydraddoldeb y Llywodraeth 'Think, Act, Report'. Mae'r cynllun hwn yn annog sefydliadau i ganfod problemau sydd ganddynt yn ymwneud â chydaddoldeb y rhywiau, cymryd camau i ddatrys y problemau hynny ac adrodd am y cynnydd y maent yn ei wneud;

- rydym wedi cefnogi'r Rhwydwaith Amrywiaeth Creadigol gyda'u System Monitro Amrywiaeth, adnodd monitro ar draws y diwydiant sydd wedi cael ei safoni;
- gwnaethom noddi gwobr 'Peirianwraig Ifanc y Flwyddyn' y Sefydliad Peirianeg a Thechnoleg, am y drydedd flwyddyn yn olynol;

A3.42 Ers 2012, rydym wedi cyhoeddi [adroddiad blynyddol](#) ar broffil amrywiaeth cydweithwyr, dyletswydd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae canfyddiadau'r adroddiad hwn yn helpu i arwain ein gwaith parhaus i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn Ofcom.

A3.43 Rydym hefyd yn meincnodi yn rheolaidd i sicrhau ein bod yn gweithredu yn unol ag arferion gorau ar amrywiaeth a chydaddoldeb. Yn 2014:

- cawsom ein henwi gan The Times fel un o'r 50 Cyflogwr Gorau i Fenywod unwaith eto;
- cawsom sgôr gwell ym Mynegai Cydraddoldeb y Gweithle Stonewall;
- cawsom ein henwi yn un o'r 10 cyflogwr gorau yn y sector cyhoeddus ym mynegeion cydraddoldeb hiliol a rhywedd Busnes yn y Gymuned; a
- cawsom ein canmol am ein gwaith fel sefydliad sy'n ymwybodol iawn o anabledd; cawsom Wobr Efydd ym meincnod y Fforwm Busnes ar Anabledd.

## Atodiad 4

# Lleihau beichiau a chymhlethdod y broses rheoleiddio

- A4.1 O dan Ddeddf Cyfathrebu 2003, mae'n ofynnol i Ofcom leihau'r baich mae'n ei roi ar y cwmnïau mae'n eu rheoleiddio. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i ni adolygu'r broses reoleiddio'n gyson er mwyn sicrhau nad yw (a) yn gosod beichiau diangen; neu (b) yn parhau i greu beichiau sydd bellach yn ddiangen. Mae'n rhaid i Ofcom leihau neu gael gwared â beichiau diangen lle mae'n dod ar eu traws.
- A4.2 Rydym wedi adolygu gweithgareddau Ofcom er mwyn dod o hyd i feysydd lle byddai modd i ni leihau beichiau drwy symleiddio rheoliadau neu gael gwared arnynt. Rydym yn gwneud hyn mewn sawl ffordd, gan gynnwys:
- cael gwared â rheoliadau nad ydynt yn angenrheidiol mwyach;
  - lleihau cymhlethdod, sydd felly'n rhoi eglurder a sicrwydd i randdeiliaid a marchnadoedd ynghylch rheoleiddio; a
  - sicrhau bod y wybodaeth rydym yn ei darparu, a'r gwasanaethau rydym yn eu cynnig, ar gael yn hwylus.
- A4.3 Mae'r bennod hon yn sôn am gynlluniau dadreoleiddio a wnaed dros y flwyddyn ddiwethaf, yn ogystal â meysydd i'w hadolygu yn y dyfodol.

## Cael gwared â rheoliadau nad ydynt yn angenrheidiol mwyach

### Rydym wedi cael gwared â rheoleiddio *ex ante* mewn ambell faes o'r farchnad mynediad sefydlog

- A4.4 Ym mis Mehefin 2014, cyhoeddwyd [datganiad](#) terfynol ein hadolygiad o'r farchnad mynediad sefydlog (FAMR) sy'n rhoi sylw i'r cysylltiadau mynediad a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau rhyngwyd band eang a ffôn sefydlog (gan gynnwys band eang cyflym iawn) i ddefnyddwyr preswyl a busnes.
- A4.5 Penderfynasom osod rhwymedïau ar BT a KCOM lle roeddem o'r farn bod ganddynt gryn dipyn o bŵer marchnad mewn marchnadoedd penodol, gan gael gwared â rheoliadau nad oeddent yn angenrheidiol mwyach. Yn benodol, cawsom wared â rheoleiddio *ex ante* yn y marchnadoedd canlynol, lle roeddem o'r farn bod cyfraith cystadleuaeth *ex post* yn ddigon i fynd i'r afael â phryderon ynghylch cystadleuaeth a allai godi:
- llinellau cyfnewid analog sefydlog yn ardal Hull, sy'n cyd-fynd â'n casgliad yn natganiad band cul 2013;
  - ISDN2 yn ardal Hull; ac
  - ISDN30 yn ardal Hull.

## **Rydym yn dal i ystyried cyfleoedd i ddadroleiddio mewn marchnadoedd telegyfathrebiadau drwy adolygiadau**

- A4.6 Ym mis Ebrill 2014 gwnaethom gyhoeddi [cais cychwynnol am fewnbwn](#), a oedd yn nodi dechrau adolygiad 2016 o'r farchnad cysylltedd busnes (BCMR). Bydd yr adolygiad hwn yn rhoi sylw i'r farchnad ar gyfer llinellau ar brydles, sef gwasanaethau trosglwyddo data perfformiad uchel a ddefnyddir gan fusnesau mawr yn bennaf. Rydym yn bwriadu ymgynghori ar ein cynigion a'n canfyddiadau cychwynnol yn Ch1 2015/16, a byddwn yn chwilio am gyfleoedd i ddadroleiddio pan fo hynny'n briodol.
- A4.7 Mae rhagor o wybodaeth am ein dull gweithredu ar gyfer yr adolygiad o'r farchnad cysylltedd busnes (BCMR) ar gael ym mharagraff [A1.15](#).

## **Rydym wedi lleihau rheoleiddio o ran rhwymedigaethau mesur a bilio darparwyr telegyfathrebiadau**

- A4.8 Rydym wedi cwblhau adolygiad o'r Cyfarwyddyd Mesur a Bilio, sy'n sicrhau bod systemau bilio darparwyr cyfathrebiadau yn cyrraedd safonau technegol penodol o ran cywirdeb. Mae'r Cyfarwyddyd yn berthnasol i'r darparwyr gwasanaethau llais symudol a sefydlog sydd â dros £40m o drosiant blynyddol. Rhaid i drydydd parti a benodir gan Ofcom gymeradwyo systemau bilio a mesur darparwyr o'r fath gan eu cymharu â'r gofynion a nodir yn y Cyfarwyddyd. Rhaid iddynt hefyd fodloni rhwymedigaethau monitro ac adrodd.
- A4.9 Ar ôl ymgynghori, gwnaethom gyhoeddi datganiad yn pennu [Cyfarwyddyd](#) newydd ym mis Gorffennaf 2014. Mae'r Cyfarwyddyd yn cael gwared â rhai rheolau sy'n seiliedig ar dargedau a oedd wedi'u cynnwys yn y Cyfarwyddyd blaenorol, ond wedi cadw'r rheolau sy'n fwy seiliedig ar brosesau. Dylai hyn sicrhau cywirdeb cyffredinol ar gyfer biliau, fel nad oes rhaid i ddarparwyr fodloni gofynion bilio gwahanol. Mae hefyd yn cyflwyno dull cyson ar draws gwasanaethau cyfanwerthol, cwsmeriaid busnes bach a mawr a chwsmeriaid preswyl.

## **Byddwn yn cwblhau ein hadolygiad o reoleiddio fformatau cerddoriaeth radio**

- A4.10 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae gwasanaethau rhynggrwyd a radio digidol wedi darparu ffynonellau newydd ac amrywiol i wrandawyr radio gael gafael ar gerddoriaeth.
- A4.11 Mae Ofcom am gael cydbwysedd rhwng rhoi'r rhyddid i'r diwydiant radio addasu i newidiadau yn chwaeth defnyddwyr a hybu cystadleuaeth, gan fod yn ymwybodol ar yr un pryd o'n dyletswydd statudol i sicrhau bod amrywiaeth eang o raglenni radio ar gael, sy'n apelio i wahanol ddiddordebau a chwaethau.
- A4.12 Ym mis Rhagfyr 2015 gwnaethom gyhoeddi [ymgynghoriad](#) a oedd yn ystyried a yw'r ffordd rydym yn rheoleiddio'r dewis o gerddoriaeth sy'n cael ei chwarae ar wasanaethau radio masnachol analog lleol yn dal yn ffordd briodol o gyflawni ein dyletswyddau statudol yn y maes hwn. Byddwn yn ystyried safbwyntiau rhanddeiliaid a chyhoeddi datganiad yn Ch1 2015/16. Mae rhagor o wybodaeth am yr adolygiad hwn ar gael ym mharagraff [A2.105](#).



## Rydym yn dal i symleiddio'r rheoliadau technegol manwl sy'n effeithio ar ddarlledwyr

- A4.13 Yng Nghynllun Blynyddol y llynedd, pwysleisiwyd bod rheoleiddio technegol yn dal yn faes pwysig sydd, o bosibl, yn rhy ragnodol heb fod angen.
- A4.14 I fynd i'r afael â hyn rydym wedi diweddarau a diwygio ein Canllawiau a'n Codau Technegol ar Ddarlledu Radio Digidol yn ein datganiad ym mis Gorffennaf 2014. Rhoesom ystyriaeth i ddatblygiadau technegol a newidiadau yn arferion y diwydiant, gan gymryd camau i ddadreoleiddio os oedd hynny'n briodol. Mae'r cod diwygiedig a'r dogfennau cysylltiedig yn rhoi eglurder a sicrwydd i gwmnïau presennol, ymgeiswyr am y drwydded amblecs DAB cenedlaethol newydd a'r rhai a allai fod yn ymuno â'r farchnad yn y dyfodol.
- A4.15 Rydym hefyd yn bwriadu diweddarau ein Cod Perfformiad Technegol ar gyfer Teledu a Pharmedrau Cyfeirio Teledu Daearol Digidol (DTT). Rydym am sicrhau bod ein gwaith rheoleiddio'n adlewyrchu'r amgylchedd technegol presennol, er enghraifft drwy ddarparu eglurder am weithdrefnau rhoi gwybod am ddiffygion technegol a thrwy ddileu gofynion nad oes mo'u hangen bellach. Byddwn yn ymgynghori yn ystod Ch1 2015/16, yn ystyried barn y rhanddeiliaid ac yn cyhoeddi datganiad yng nghanol 2015.
- A4.16 Yn dilyn hynny, byddwn yn mynd ati i adolygu rheoliadau technegol ar gyfer radio analog, gan ystyried cyfleoedd i ddadreoleiddio pan fo hynny'n briodol.

## Lleihau cymhlethdod: rhoi eglurder a sicrwydd rheoleiddio

### Byddwn yn cyflwyno rheoliadau newydd ar gyfer terfynu galwadau symudol cyfanwerthol

- A4.17 Yn ddiweddar rydym wedi cwblhau ein hadolygiad o'r marchnadoedd terfynu galwadau symudol (MCT) yn y DU ac wedi penderfynu cyflwyno trefn rheoli ffioedd (*charge control*) ar gyfer pob darparwr cyfathrebiadau symudol. Gwnaethom gyhoeddi ein [datganiad](#) terfynol ar y farchnad MCT ym mis Mawrth 2015.
- A4.18 Mae'r gwasanaeth Terfynu Galwadau Symudol (MCT) yn wasanaeth cyfanwerthol a ddarperir gan ddarparwyr cyfathrebiadau symudol i gysylltu galwad â derbynnydd ar ei rwydwaith. Pan fydd darparwyr cyfathrebiadau sefydlog neu symudol yn gadael i'w cwsmeriaid ffonio rhif ffôn symudol yn y DU, maent yn talu ffi gyfanwerthol i'r darparwr symudol sy'n terfynu'r alwad – y 'gyfradd terfynu galwadau symudol' (MTR). Mae'r cyfraddau hyn yn cael eu gosod fesul munud, ac yn cael eu rheoleiddio ar hyn o bryd.
- A4.19 O dan reoliadau MCT blaenorol, roedd y rhwymedigaethau prisio yn cynnwys trefn rheoli ffioedd ar gyfer y pedwar darparwr cyfathrebiadau symudol mwyaf, a rhwymedigaeth i ddarparu telerau ac amodau "teg a rhesymol" ar gyfer mynediad i'r rhwydwaith i ddarparwyr cyfathrebiadau symudol llai. Rydym wedi dod i'r casgliad nad yw'r dull hwn wedi bod yn effeithiol o ran annog darparwyr cyfathrebiadau symudol llai â phŵer sylweddol yn y farchnad, neu rai newydd sy'n ymuno â'r farchnad, i beidio â chodi mwy na'r cyfraddau terfynu galwadau symudol sydd wedi'u meincnodi h.y. cyfraddau terfynu galwadau y mae eu ffioedd wedi'u rheoli ar gyfer y pedwar darparwr cyfathrebiadau symudol mwyaf.
- A4.20 Rydym felly wedi penderfynu cynnig cyflwyno trefn rheoli ffioedd ar gyfer pob MCP, sy'n symleiddio'r broses rheoleiddio, yn rhoi mwy o eglurder a sicrwydd rheoleiddio

i'r farchnad ac yn creu cymhelliant i ddarparwyr cyfathrebiadau gwreiddiol godi'r un gyfradd ar bob galwad i rifau ffôn symudol. O ran costau cydymffurfio, rydym wedi dod i'r casgliad na fyddai trefn rheoli ffioedd syml o reidrwydd yn fwy beichus na'r dull "teg a rhesymol" blaenorol. Rydym yn awr yn bwriadu diweddarau ein rhaglen orfodi ar ein liwt ein hunain ar gyfer MCT i adlewyrchu'r newidiadau i'r rhwymedigaethau rheoleiddio a osodir ar ddarparwyr gwasanaethau symudol.

### **Byddwn yn rhoi mwy o eglurder ynghylch ein rheolau amserlennu hysbysebion teledu a'u gorfodi**

- A4.21 Mae Ofcom yn gosod rheolau sy'n cyfyngu nifer yr egwylliau hysbysebu y ceir eu dangos yn ystod rhaglenni teledu. Rydym yn cynnig symleiddio ein rheolau ac egluro ein dull gorfodi er mwyn eu gwneud yn gliriach ac yn haws eu dilyn i'r rhanddeiliaid.
- A4.22 Gwnaethom gyhoeddi ein hymgyngoriad [\*Scheduling of Television Advertising\*](#) ym mis Gorffennaf 2014. Gwnaethom ymgynghori ar yr opsiynau sydd ar gael i Ofcom er mwyn sicrhau bod rheolau ynghylch i ba raddau y gall hysbysebion darfu ar raglenni teledu yn cael eu gorfodi'n effeithiol. Gwnaethom hefyd gynnig nifer o ddiwygiadau i'r modd mae'r rheolau wedi'u geirio a'u gosod er mwyn eu gwneud yn fwy eglur. Byddwn yn ystyried safbwyntiau rhanddeiliaid a disgwyliwn gyhoeddi datganiad yn ystod Ch1 2015/16.

### **Byddwn yn symleiddio prisiau ar gyfer rhifau ffôn nad ydynt yn rhai daearyddol i ddefnyddwyr**

- A4.23 Fel arfer, mae defnyddwyr yn defnyddio rhifau ffôn nad ydynt yn rhai daearyddol, fel rhifau 0845 a 0300, i gael gafael ar wasanaethau a ddarperir gan fusnesau, llinellau cymorth a chyrrff cyhoeddus. Yn benodol, mae darlledwyr yn defnyddio rhifau ffôn nad ydynt yn rhai daearyddol i alluogi gwylwyr a gwrandawyr i gyfrannu at raglenni; er enghraifft drwy bleidleisio ar gyfer canlyniad neu i gymryd rhan mewn sesiwn ffonio-i-mewn.
- A4.24 O fis Gorffennaf 2015 ymlaen, bydd strwythur tariff newydd yn cael ei gyflwyno ar gyfer galwadau nad ydynt yn rhai daearyddol er mwyn dangos yn glir faint mae'n ei gostio i ffonio busnesau a gwasanaethau. O dan y tariff newydd, bydd cost yr alwad yn cael ei 'dadfwn delu' er mwyn i ddefnyddwyr wybod faint yn union maent yn ei dalu i'w darparwr ffôn a faint sy'n cael ei drosglwyddo i gwmnïau eraill.
- A4.25 Mae ein [\*hymgyngoriad\*](#) ym mis Hydref 2014 ynghylch defnyddio rhifau nad ydynt yn rhai daearyddol ym maes darlledu yn cyflwyno cynigion i adlewyrchu gofynion y tariffau newydd yn y Cod Darlledu. Byddwn yn cyhoeddi datganiad yn Ch1 2015/16 yn nodi unrhyw newidiadau i'r cod cyn i'r newidiadau i'r tariff ddod i rym ym mis Gorffennaf 2015.

### **Rydym yn parhau i adolygu rheolau ar gyfer diogelwch eitemau post**

- A4.26 Rydym yn dal i bwysu a mesur yr opsiynau ar gyfer gwneud y trefniadau rheoleiddio presennol yn fwy effeithiol mewn perthynas â diogelwch eitemau post. Rydym yn ystyried strwythur rheoleiddio sy'n canolbwyntio mwy ar ganlyniadau, ac rydym yn bwriadu cyhoeddi ymgynghoriad yn ystod Ch2 2015/16.

## Argaeledd a hygyrchedd gwybodaeth a gwasanaethau

### Rydym wedi sicrhau bod gwybodaeth am ddefnydd o sbectrwm yn fwy hygyrch

- A4.27 Yn y [datganiad](#) ynghylch ein strategaeth rheoli sbectrwm ym mis Ebrill 2014, gwnaethom ategu ein hymrwymiad i ddarparu mwy o wybodaeth, a gwybodaeth well, ynghylch sut mae sbectrwm yn cael ei ddefnyddio yn y DU. Ar yr un pryd, fe wnaethom lansio [map sbectrwm rhyngweithiol](#) sy'n cynnwys y defnydd a wneir o sbectrwm yn y sector cyhoeddus a'r sector sifil.
- A4.28 Mae'r map yn ffordd hawdd o chwilio am wybodaeth ynghylch sut mae gwahanol fandiau sbectrwm yn cael eu defnyddio yn y DU, o 8.3kHz i 275GHz. Y nod yw dangos yn weledol mewn ffordd gymharol syml sut mae sbectrwm yn cael ei ddefnyddio. Mae'r map yn cynnwys gwybodaeth sydd eisoes ar gael ar wefan Ofcom yng Nghynllun y DU ar gyfer Awdurdodi Amledd (UK PFA) ar gyfer sbectrwm sy'n cael ei awdurdodi gennym ni, ac yn Nhabl Dyrannu Amledd y DU (UK FAT) ar gyfer sbectrwm nad yw'n cael ei awdurdodi gan Ofcom.
- A4.29 Byddwn yn dal i edrych ar gyfleoedd i ddarparu gwell gwybodaeth ynghylch sut mae sbectrwm yn cael ei ddefnyddio a'i rannu. Byddwn hefyd yn gweithio gyda'r Llywodraeth gan ei helpu gyda'i nod i ddatblygu un ffynhonnell wybodaeth am sbectrwm sy'n cael ei reoli gan y sector cyhoeddus.

### Rydym wedi sicrhau bod ein *Hadroddiad Seilwaith* yn fwy hygyrch a rhyngweithiol

- A4.30 Yn ein [Hadroddiad Seilwaith yn 2014](#), gwnaethom ryddhau mwy o'r dadansoddiadau a'r data sylfaenol mewn fformat agored. Mae hyn yn cynnwys data am gyflymder a darpariaeth band eang, manau â chyswllt Wi-Fi, y ddarpariaeth gan rwydweithiau symudol a rhwydweithiau darlledu. Cymerwyd camau hefyd i wella ansawdd y data drwy sicrhau eu bod yn haws eu deall.
- A4.31 Rydym wedi datblygu [porth](#) ar-lein sy'n cynnwys mapiau rhyngweithiol a graffeg gwybodaeth sy'n dangos y data ar ffurf lluniau. Bwriad y rhain yw sicrhau bod setiau data mawr – a chymhleth yn aml – mor berthnasol a dealladwy â phosibl i amrywiaeth eang o ddefnyddwyr.
- A4.32 Byddwn yn parhau i ystyried cyfleoedd i sicrhau bod ein data yn fwy agored i randdeiliaid ac ar gael yn fwy hwylus, er enghraifft yn *Niweddariad yr Adroddiad Seilwaith* yn hydref 2015.

### Rydym yn ei gwneud yn haws cael gafael ar wybodaeth am ddyraniad rhifau ffôn yn y DU, a'u hargaeledd

- A4.33 Mae Ofcom yn gyfrifol am weinyddu cynllun rhifo'r DU. Byddwn yn cyhoeddi manylion ynghylch rhifau ffôn y DU sydd ar gael ac wedi'u dyrannu ar ein gwefan yn wythnosol.
- A4.34 Ym mis Rhagfyr 2014 gwnaethom lansio cronfa ddata ar-lein newydd o rifau ffôn y DU. Mae hyn wedi symleiddio'r broses o wneud cais am rifau ffôn. Erbyn hyn, mae gan randdeiliaid fynediad at wybodaeth 'amser real' am y rhifau sydd ar gael i'w dyrannu ac mae'n haws iddynt ddiweddarau Ofcom ynghylch mabwysiadu a

defnyddio'r rhifau hyn. Mae darparu ein cronfa ddata mewnol ar-lein hefyd wedi arwain at brosesu ceisiadau'n fwy effeithlon yn fewnol.

### **Byddwn yn cynnal adolygiad o'n dull trwyddedu radiogyfathrebiadau**

- A4.35 Fel rhan o ddyletswydd Ofcom i reoli'r sbectwm radio, rydym yn rhoi trwyddedau i ddefnyddwyr radiogyfathrebiadau, o radio busnes a chyfleustodau i ddefnyddwyr radio morol.
- A4.36 Dechreusom gynnal adolygiad eang o'n gwasanaethau trwyddedu radiogyfathrebiadau yn ystod Ch4 2015/16. Rydym yn awyddus i wella profiad rhanddeiliaid a'n heffeithlonrwydd.
- A4.37 Byddwn yn edrych ar ffyrdd o wneud y broses ymgeisio am drwydded yn haws ac yn fwy hygyrch i randdeiliaid yr holl drwyddedau radiogyfathrebiadau rydym yn eu cyflwyno. Byddwn yn ceisio gwella ein gwasanaethau ar-lein i ddefnyddwyr, fel deiliaid trwyddedau radio amatur a radio llongau, yn ogystal â gwasanaethau wedi'u haseinio'n dechnegol a thrwyddedau 'ysgafn'. Os yw'n briodol, byddwn yn ymgynghori'n ddiweddarach yn 2015.

## Atodiad 5

# Crynodeb o ymatebion i'r Cynllun Blynyddol Drafft a gwahoddiad i gyflwyno sylwadau

## Cyflwyniad

- A5.1 Cawsom 32 o ymatebion ysgrifenedig i'n Cynllun Blynyddol Drafft gan gwmnïau gweithredol mewn amrywiaeth o farchnadoedd cyfathrebu, yn ogystal â chyrrff masnach, elusennau, sefydliadau budd defnyddwyr ac unigolion.
- A5.2 Ym mis Medi 2014 fe wnaethom hefyd wahodd rhanddeiliaid i awgrymu materion a meysydd y dylai Ofcom roi blaenoriaeth iddynt yn 2015/16, yn eu barn hwy. Cawsom ymatebion i'r gwahoddiad i gyflwyno sylwadau gan 28 o rhanddeiliaid.
- A5.3 Rydym wedi crynhoi prif bwyntiau'r rhanddeiliaid yn eu hymatebion i'r Cynllun Blynyddol Drafft a'r gwahoddiad i gyflwyno sylwadau isod, o dan y dibenion strategol y maent yn berthnasol iddynt. Rydym wedi ymateb i sylwadau unigol fel y bo'n briodol (gweler y sylwadau italig). Rydym hefyd wedi cyhoeddi pob ymateb nad oeddent yn rhai cyfrinachol yn y [Cynllun Blynyddol Drafft](#) a'r [gwahoddiad i gyflwyno sylwadau](#) ar ein gwefan.
- A5.4 Lle bo'n briodol, rydym wedi adlewyrchu sylwadau rhanddeiliaid ar y Cynllun Blynyddol Drafft ac ar y gwahoddiad i gyflwyno sylwadau yn ein rhaglen waith, gan roi sylw i'n dyletswyddau statudol a'r cyfyngiadau o ran adnoddau. Caiff hyn ei nodi'n glir yn ein hymatebion isod.

## Sylwadau ar raglen waith Ofcom

### Hybu cystadleuaeth effeithiol a dewis gwybodus

#### Cyflawni Adolygiad Strategol o Gyfathrebiadau Digidol

- A5.5 Roedd nifer o rhanddeiliaid wedi cyflwyno sylwadau ar faterion sy'n berthnasol i gwmpas yr Adolygiad Strategol o Gyfathrebiadau Digidol a gyhoeddwyd yn ddiweddar.
- A5.6 Cynigodd SSE ccc, Vodafone, UKCTA a Llywodraeth Cymru y dylai Ofcom adolygu Ymgymeriadau BT yng ngoleuni'r newidiadau yn amodau'r farchnad ers dechrau'r Ymgymeriadau.
- A5.7 Dywedodd TalkTalk y dylai Ofcom ymgynghori ynghylch a ddylai gyfeirio materion yng nghyswllt Ymgymeriadau BT i'r CMA. Nododd y gallai'r CMA archwilio'r achos dros wahanu strwythur Openreach oddi wrth BT. Roedd hefyd yn dadlau mai gwahanu'r strwythur hwn fyddai'r ffordd symlaf o atal oedi posibl i fuddsoddiad mewn rhwydweithiau llinellau sefydlog a gwella ansawdd y wasanaeth.
- A5.8 Nododd Rainbow Communications y byddai gwahanu swyddogaethau Openreach yng Ngogledd Iwerddon yn fanteisiol i gystadleuaeth llinell sefydlog.

- A5.9 Roedd Llywodraeth Cymru yn dadlau y byddai gwahanu strwythur Openreach yn sicrhau'r ateb gorau a mwyaf cynaliadwy ar gyfer creu marchnad gyfathrebiadau amrywiol ac iach, nid dim ond yng Nghymru, ond ar hyd a lled y DU hefyd.
- A5.10 Dywedodd unigolyn fod buddsoddiad BT mewn cynnwys chwaraeon teledu yn golygu y dylai roi'r gorau i Openreach.
- A5.11 Dywedodd BT, CWU a KCOM y dylai Ofcom wneud mwy i gymell buddsoddiad mewn rhwydwaith a rhoi mwy o sicrwydd rheoleiddio i gwmnïau. Dywedodd BT a KCOM y dylai Ofcom sicrhau nad yw rheoleiddio yn rhwystro buddsoddi mewn rhwydweithiau mynediad ffibr optig nac yn rhwystro cwsmeriaid rhag symud at dechnolegau o'r fath.
- A5.12 Dywedodd Vodafone y dylai Ofcom ddeall sut mae bwndelu gwasanaethau cyfathrebu yn galluogi cwmnïau sydd â phŵer sylweddol yn y farchnad i fanteisio ar y pŵer hwnnw mewn marchnadoedd cyfagos.
- A5.13 Roedd EE o'r farn y dylai Ofcom asesu effaith gynyddol rheoleiddio ar gystadleuaeth a buddsoddiad yn y sectorau mae'n eu rheoleiddio.
- A5.14 *Bydd yr Adolygiad Strategol o Gyfathrebiadau Digidol yn ystyried y materion hyn fel rhan o adolygiad ehangach o gystadleuaeth, buddsoddi a'r potensial am ddad-reoleiddio yn y marchnadoedd sefydlog a symudol. Er na allwn ddweud nawr beth fydd canlyniadau penodol yr adolygiad eang hwn, mae'r cwestiynau y byddem yn disgwyl eu hateb yn cynnwys pa faes y dylai'r polisi cystadleuaeth ganolbwyntio arno yn y dyfodol ('y tagfeydd economaidd parhaus') a sut y gellir cynnal cymhellion ar gyfer buddsoddiad ac arloesedd effeithlon. Mae'r gwaith hwn yn cael ei ddisgrifio ym mharagraff [A1.6](#) uchod.*

Sicrhau cystadleuaeth effeithiol wrth ddarparu gwasanaethau cyfathrebu ar gyfer busnesau, yn enwedig busnesau bach a chanolig (BBaCh)

- A5.15 Roedd UKCTA a Vodafone yn cytuno bod yn rhaid asesu pa mor dda mae'r marchnadoedd telegyfathrebiadau sefydlog yn diwallu anghenion BBaCh o ran argaeledd, prisiau ac ansawdd. Roedd BT yn annog Ofcom i leihau unrhyw faich rheoleiddio yng nghyswllt darparu gwasanaethau i fusnesau bach a chanolig.
- A5.16 Galwodd Ffederasiwn y Busnesau Bach (FSB) am adolygiad ehangach o gysylltedd busnes, yn ychwanegol at y BCMR. Roedd hefyd yn galw ar Ofcom i ofyn i'r CMA gynnal adolygiad o'r gystadleuaeth yn y farchnad band eang i fusnesau, er mwyn hyrwyddo lansiad gwasanaethau newydd sy'n cael eu teilwra i fusnesau bach a chanolig.
- A5.17 *Mae'r gwaith y mae Ofcom yn ymgymryd ag ef ar hyn o bryd o ran asesu'r canlyniadau ar gyfer BBaCh mewn marchnadoedd cyfathrebiadau yn ymchwilio i'r cysylltedd sy'n cael ei ddarparu i fusnesau bach a chanolig, gan gynnwys drwy farchnadoedd adwerthu a chyfanwerthu. Rydym yn bwriadu cyflwyno dogfen gychwynnol ar y gwaith hwn yn Ch1 2015/16, lle byddwn yn tynnu sylw at unrhyw faterion y byddwn yn dod ar eu traws ac yn argymhell gwaith y dylid ei gyflawni ar gyfer y dyfodol fel y bo'n briodol.*
- A5.18 Roedd nifer o gwmnïau rhwydweithiau symudol wedi argymhell y dylai Ofcom gymryd camau er mwyn hyrwyddo cystadleuaeth yn y maes symudol am-yn-ôl. Awgrymodd TalkTalk, Three a Vodafone y dylai Ofcom ganiatáu i ddarparwyr

cyfathrebiadau gael mynediad i rwydwaith ffisegol Openreach drwy atebion goddefol fel ffibr tywyll.

- A5.19 Fe wnaeth Llywodraeth Cymru annog Ofcom i fynnu bod BT, ar ôl iddo brynu EE, yn cynnig mynediad cyfanwerthol agored a chyfartal i'w seilwaith ffibr tywyll ar sail prisiau rheoledig. Roedd yn cefnogi creu dosbarth o gynnyrch ffibr rheoledig i gwmnïau rhwydweithiau symudol eu defnyddio mewn ardaloedd gwledig, gan gynnwys yn y gwledydd.
- A5.20 Gofynnodd Vodafone a fyddai modd sicrhau bod yr adolygiad o'r farchnad cysylltedd busnes yn rhoi sylw i faterion sy'n ymwneud (yn ôl Vodafone) ag ansawdd y gwasanaeth y mae Openreach yn ei ddarparu mewn perthynas â chynnyrch Ethernet. Awgrymodd hefyd y dylid defnyddio rheolaethau prisiau er mwyn diogelu defnyddwyr hen gynnyrch amlblecsu amrywiadau amser (TDM).
- A5.21 Nododd UKCTA na ddylai BCMR ganiatáu llwybr disgyn i Openreach er mwyn cyrraedd targedau ansawdd gwasanaethau Ethernet.
- A5.22 *Wrth gynnal y BCMR rydym yn bwriadu ystyried p'un ai a ddylai atebion goddefol fel mynediad i bibelli a / neu ffibr tywyll chwarae rhan yn y gwaith o fynd i'r afael ag unrhyw broblemau o ran cystadleuaeth yn y farchnad. Rydym hefyd yn bwriadu ystyried ansawdd y gwasanaeth sy'n gysylltiedig â gwasanaethau Ethernet a gaiff eu darparu gan Openreach. Rydym yn bwriadu ymgynghori â'n rhanddeiliaid ynghylch ein canfyddiadau a chyhoeddi'r cynigion cychwynnol yn Ch1 2015/16. Bydd BCMR yn asesu'r angen am reolaethau prisiau ar gyfer cynnyrch TDM.*

#### Gwella'r broses o newid darparwyr i ddefnyddwyr

- A5.23 Awgrymodd y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau, CWU, Dixons Carphone, Three, uSwitch a Which? y dylai Ofcom gyflwyno mesurau newydd er mwyn annog defnyddwyr i fanteisio ar y gwelliannau i'r prosesau newid. Ymhlith y mesurau arfaethedig hyn roedd: prosesau newid cyson sy'n cael eu harwain gan y darparwr sy'n ennill y cwsmer (GPL) o ran cynnyrch cyfathrebu (gan gynnwys bwndeli band eang sefydlog, gwasanaethau symudol a theledu drwy dalu); mesurau diogelu defnyddwyr cyson ar draws yr holl gynnyrch, a mesurau i ennyn hyder defnyddwyr mewn telerau contract.
- A5.24 Nododd y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau y dylid cyflwyno proses newid GPL ar gyfer gwasanaethau symudol a theledu drwy dalu yn gynt na'r amser a gymerwyd i gyflwyno gwasanaethau teleffoni sefydlog a band eang sefydlog.
- A5.25 Dywedodd BT y dylai defnyddwyr allu dilyn y prosesau newid sy'n berthnasol i wasanaethau teleffoni sefydlog ar rwydwaith Openreach pan fyddant yn dymuno newid rhwng darparwyr gwasanaethau eraill, fel teledu drwy dalu (gan gynnwys gwasanaethau cebl) neu ddarparwr gwasanaethau symudol. Dywedodd Three y dylai Ofcom sicrhau ffordd gynt a haws o newid rhwng cwmnïau symudol a chyflwyno proses newid GPL ar draws pob marchnad erbyn 2017.
- A5.26 Awgrymodd TalkTalk nad oedd angen ymgynghori ymhellach ynghylch gweithredu'r broses newid GPL ar draws holl fwndeli'r cynnyrch cyfathrebu, gan gynnwys bwndeli chwarae tair elfen a phedair elfen. Roedd yn dadlau y dylai Ofcom argymhell i'r Llywodraeth y dylid cymryd unrhyw gamau angenrheidiol yn y Senedd nesaf. Dywedodd Three y dylid ateb unrhyw gwestiynau ynghylch pwerau Ofcom i gyflwyno proses newid GPL.

- A5.27 *Rydym yn parhau i gyflawni gwaith sy'n mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal newid. O ran y prosesau newid, rydym wrthi'n rhoi cynlluniau ar waith er mwyn cysoni'r prosesau hyn ar gyfer gwasanaethau band eang a llais sy'n cael eu darparu ar rwydwaith copr Openreach a chreu un broses newid GPL. Rydym hefyd yn awyddus i sicrhau bod y broses o newid ffonau symudol a gwasanaethau wedi'u bwndelu mor syml â phosibl i ddefnyddwyr, a byddwn yn cyflwyno cynigion ar gyfer diwygio, yn ôl yr angen, yn ddiweddarach yn 2015.*
- A5.28 *Roedd SSE ccc yn dadlau y dylai Ofcom gefnogi sefydlu fforwm i ddarparwyr cyfathrebiadau ar gyfer defnyddwyr a busnesau bach er mwyn rheoli'r newid i brosesau newid GPL.*
- A5.29 *Dyweddodd Which? ei bod yn rhaid i ddefnyddwyr dalu costau diangen wrth newid darparwyr, er enghraifft er mwyn datgloi ffonau symudol. Dadleuodd Mr J P Gilliver y dylai Ofcom fynd i'r afael â materion yn ymwneud â chloi ffonau symudol ar rwydweithiau symudol.*
- A5.30 *Roedd Three a Which? yn dadlau y gallai system brisio a thaliadau rhy gymhleth (yn ogystal â chymhlethdod y prosesau newid) achosi niwed i ddefnyddwyr. Roedd Which? yn dadlau y dylai Ofcom annog cwmnïau i gyflwyno tariffau symlach, gan gynnwys talu am wasanaeth symudol a ffôn symudol ar wahân.*
- A5.31 *Rydym yn credu y bydd y gwaith rydym yn ei gyflawni ar brosesau newid yn galluogi defnyddwyr i newid yn haws, yn fwy hwylus ac y bydd ganddynt fwy o hyder i wneud hynny. Bydd hyn yn lleihau'r costau newid. Mae ein gwaith ar brosesau newid hefyd yn cynnwys canfod a mynd i'r afael â rhwystrau newid nad ydynt yn gysylltiedig â phroses. Er enghraifft, yn 2014 fe wnaethom gyhoeddi arweiniad i ddefnyddwyr ar [gloi a datgloi ffonau symudol](#); ac rydym yn bwriadu gwneud rhagor o waith ar hyn yn 2015. Byddwn hefyd yn archwilio ymddygiad darparwyr sy'n colli pan fydd defnyddwyr yn ceisio newid.*
- A5.32 *Rydym yn cytuno ei bod yn bwysig bod modd i ddefnyddwyr gymharu prisiau a chynigion yn hawdd. Mae ein hymchwil defnyddwyr yn awgrymu bod llawer o ddefnyddwyr eisoes yn gallu gwneud hyn. Mae nifer o adnoddau a dulliau ar gael i helpu defnyddwyr (gan gynnwys y rheini sy'n ei chael hi'n fwy anodd), megis gwefannau cymharu prisiau. Rydym yn ceisio sicrhau bod gwefannau cymharu prisiau y mae Ofcom wedi'u hachredu yn darparu adnoddau sy'n ddefnyddiol ac yn hawdd eu defnyddio.*
- A5.33 *Awgrymodd uSwitch y dylai Ofcom fynnu bod cwmnïau yn rhoi gwybod i ddefnyddwyr am ddiwedd eu contractau. Ar ben hynny, awgrymodd uSwitch y dylai Ofcom alluogi trydydd partion i gasglu data am wasanaethau cyfathrebu adwerthu, fel data am ddarpariaeth symudol.*
- A5.34 *Bydd ein gwaith ar brosesau newid hefyd yn cynnwys ystyriaeth i'r buddion net posibl ar gyfer defnyddwyr a chystadleuaeth a fydd yn rhoi gwybod i ddefnyddwyr pan fyddant yn agosáu at ddiwedd eu contract ac y byddai'n fanteisiol iddynt ystyried newid.*
- A5.35 *Rydym yn cytuno y dylai defnyddwyr fod mewn sefyllfa wybodus pan fyddant yn cymharu prisiau a gwasanaethau darparwyr. Ac ystyried cyflymderau band eang, mae nifer o adnoddau ar gael ar-lein i ddefnyddwyr wirio hyn. Ar ben hynny, rydym wedi cyhoeddi [Cod Ymarfer](#) sydd wedi'i lunio er mwyn sicrhau bod defnyddwyr yn deall pa gyflymderau lawrlwytho y gallant eu disgwyl a beth allai effeithio ar y rhain. O ran darpariaeth symudol, gall defnyddwyr weld gwybodaeth am y*



*ddarpariaeth ar wefannau darparwyr. Mae Ofcom hefyd wedi cyhoeddi data am ddarpariaeth benodol i gwmnïau yn [Adroddiad Seilwaith 2014](#) ac rydym yn bwriadu diweddarau hwn yn rheolaidd.*

- A5.36 Dywedodd Vodafone y byddai cyflawni rhagor o waith ar brosesau newid (yn ogystal â rhoi rhagor o wybodaeth am gyflymderau lawrlwytho band eang) yn anghymesur. Roedd yn nodi bod boddhad defnyddwyr gyda chludo rhifau symudol yn gwella yn dilyn buddsoddiad gan y diwydiant.

Gweithio i sicrhau cystadleuaeth deg ac effeithiol ar gyfer gwasanaethau darlledu, gan gynnwys ein hadolygiad o'r rhwymedigaeth 'rhaid cynnig yn gyfanwerthol'

- A5.37 Cynigodd BT y dylai gwaith i sicrhau sector teledu drwy dalu cystadleuol, gan gynnwys ein hadolygiad o farchnad llwyfannau teledu, fod yn un o'n prif flaenoriaethau ar gyfer 2015/16 (ac felly na ddylid ystyried hyn fel gwaith sylweddol arall).
- A5.38 *Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu nifer o ddatblygiadau yn y farchnad o ran darparu gwasanaethau teledu. Er enghraifft, mae gwasanaethau fideo ar alwad (VOD), sy'n aml yn cael eu darparu dros ben (over-the-top) gan ddefnyddio'r rhyngwrwyd, wedi dod yn fwyfwy poblogaidd. Rydym yn edrych ar sut mae defnyddwyr yn ymgysylltu â gwasanaethau ar alwad, a'r ffactorau a all ddylanwadu ar lwyfannau teledu digidol llinol er mwyn asesu a yw'n debygol y ceir cystadleuaeth effeithiol wrth ddarparu'r gwasanaethau cynnwys newydd hyn er budd defnyddwyr.*
- A5.39 Gwnaethom gyhoeddi [cylich gorchwyl](#) ar gyfer yr asesiad hwn yn ddiweddar ac rydym wedi gofyn am sylwadau. Rhagwelwn y byddwn yn cyhoeddi dogfen ymgynghori yn gosod ein canfyddiadau cychwynnol yn hydref 2015.
- A5.40 Dadleuodd TalkTalk y dylai darpariaeth 'rhaid cynnig yn gyfanwerthol' (WMO) fod yn berthnasol i Sky a BT, yn ogystal â pherchnogion hawliau teledu'r prif gemau pêl-droed, gan ddechrau o'r tymor nesaf ymlaen.
- A5.41 Nododd CWU y dylai Ofcom sicrhau nad yw'r "prif" gwmnïau teledu drwy dalu yn gwrthod caniatáu cyflenwad cyfanwerthol o gynnwys ffilmiau a chwaraeon premiwm yn afresymol.
- A5.42 *Rydym yn adolygu i ba raddau y mae WMO dal yn briodol neu p'un ai a oes angen ei dynnu neu ei newid. Rydym yn cydnabod bod y sector teledu drwy dalu yn datblygu'n gyflym a bydd ein hadolygiad o'r WMO yn ystyried y datblygiadau yn y farchnad, gan gynnwys canlyniad arwerthiant diweddaraf Uwchgyngghair Lloegr. Fe wnaethom gyhoeddi ymgynghoriad ym mis Rhagfyr; ac rydym yn bwriadu cyflwyno casgliadau ein hasesiad a, lle bo'n briodol, ymgynghori ymhellach ynghylch unrhyw atebion arfaethedig yn 2015.*
- A5.43 Nododd Mr Wally Sawyer na ddylid caniatáu i wasanaethau sianeli teledu wedi'u hamgryptio ar lwyfan Sky ddarlledu hysbysebion yn ogystal â derbyn ffioedd tanysgrifio gan Sky. Roedd yn dadlau bod hyn yn rhoi mantais gystadleuol amhriodol i wasanaethau o'r fath dros wasanaethau ar yr awyr am ddim.

### Gweithredu'r adolygiad o'r fframwaith ar gyfer darparu adroddiadau ariannol rheoleiddiol yn y maes telegyfathrebiadau

- A5.44 Awgrymodd TalkTalk y dylai Ofcom sicrhau bod Datganiadau Ariannol Rheoledig BT yn dyrannu ei gostau yn briodol ac nad yw'r fframwaith perthnasol yn caniatáu iddo chwyddo prisiau cyfanwerthol rheoledig yn artiffisial.
- A5.45 *Yn dilyn ein hadolygiad o'r drefn ar gyfer darparu adroddiadau ariannol rheoleiddiol, yn 2014 fe wnaethom benderfynu cyflwyno newidiadau i ofynion cyflwyno adroddiadau BT. Bellach, mae'r gofynion newydd wedi cael eu rhoi ar waith yn y marchnadoedd WBA a mynediad sefydlog. Mae'r newidiadau rydym wedi'u cyflwyno yn ceisio rhoi mwy o rôl i Ofcom yn y ffordd y mae BT yn paratoi'r Datganiadau Ariannol Rheoleiddiol. Yn benodol, mae'n rhaid i BT roi gwybod i ni am ei newidiadau arfaethedig i'r rheolau dyrannu costau ac mae gennym yr hawl i rwystro'r newidiadau arfaethedig os byddwn yn ystyried eu bod yn mynd yn groes i rwymedigaethau BT.*
- A5.46 *Ar ben hynny, rydym ar fin cyhoeddi datganiad a fydd yn nodi'r gofynion sy'n mynnu bod BT yn adlewyrchu'r penderfyniadau rheoleiddio penodol a wnaethpwyd yn yr adolygiadau o'r farchnad WBA a mynediad sefydlog yn 2014 yn y Datganiadau Ariannol Rheoleiddiol er mwyn sicrhau cysondeb. Byddwn yn ystyried pa mor gyson y dylid gweithredu adroddiadau rheoleiddiol ar draws yr holl farchnadoedd sy'n cael eu rheoleiddio wrth i ni gynnal ein hadolygiadau cyfnodol o'r farchnad. Rydym hefyd wedi dechrau adolygu proses ddyrannu costau BT. Fel rhan o'r adolygiad hwn byddwn yn asesu p'un ai a yw'r rheolau dyrannu costau y mae BT yn eu defnyddio yn briodol, ac os nad ydynt, sut y dylid dyrannu costau BT at ddibenion llunio penderfyniadau rheoleiddio.*

### Cychwyn ar yr adolygiadau o'r farchnad band cul a mynediad sefydlog

- A5.47 Dywedodd TalkTalk y dylai'r Cynllun Blynyddol gyfeirio at orfodi arweiniad ar reoleiddio'r bwch VULA.
- A5.48 Byddwn yn adolygu'r marchnadoedd ac yn ystyried rhwymedi ex-ante lle rydym ni o'r farn bod problem o ran cystadleuaeth barhaus nad oes modd mynd i'r afael â hi drwy gyfraith cystadleuaeth. Fe wnaethom gyhoeddi ein datganiad terfynol ar ein dull ar gyfer y bwch VULA ym mis Mawrth 2015. Mae'r dull hwn wedi'i gynllunio er mwyn sicrhau bod gan ddarparwyr cyfathrebu ddigon o fwch i gystadlu â BT o ran darparu pecynnau band eang cyflym iawn i ddefnyddwyr. Mae hefyd yn parhau i roi hyblygrwydd i BT o ran prisiau ar gyfer VULA. Mae hyn yn gwarchod ei gymhellion buddsoddi yng nghyswllt band eang cyflym iawn. Nodir y gwaith monitro rydym wedi'i gynllunio yn y maes hwn yn fwy manwl ym mharagraff [A2.17](#).
- A5.49 Dadleuodd yr unigolyn Mr Frank Knowles nad oedd Ofcom wedi galluogi digon o gystadleuaeth nac wedi gwella gwasanaethau mynediad sefydlog mewn ardaloedd heb gyfnewidfeydd wedi'u dadfwndelu. Dywedodd fod cynnydd mewn prisiau rhentu llinellau yn galluogi BT i fuddsoddi mewn cynnwys chwaraeon a chyflwyno ffibr, ond nad oedd rhai cyfnewidfeydd wedi gweld eu gwasanaethau'n gwella o gwbl ers cael eu huwchraddio i ADSL. Cynigodd y dylai cwsmeriaid rhentu llinell mewn ardaloedd cyfnewidfeydd heb eu dadfwndelu gael disgownt o 50% ar eu costau rhent er mwyn cymell BT i ddadfwndelu cyfnewidfeydd o'r fath.
- A5.50 *Mae dadfwndelu dolenni lleol o'r fath ar gael ym mhob cwr o'r DU. Mae cystadleuwyr BT yn dewis lle i'w defnyddio yn unol â'u penderfyniad masnachol eu hunain. Fel arfer, yr ardaloedd hynny lle na chaiff dadfwndelu dolenni lleol eu*

*defnyddio yw'r rheini lle byddai cystadleuwyr BT yn wynebu costau uwch. Mae Ofcom yn rheoleiddio prisiau cyfanwerthol llinellau ffôn a band eang BT yn yr ardaloedd heb ddadfwndelu dolenni lleol hyn. Cyflwynwyd y rheolaethau prisiau mwyaf diweddar ar gyfer y gwasanaethau hyn ym mis Mehefin 2014 ac mae'n rhaid gostwng prisiau'r rheolaethau hyn yn barhaus.*

- A5.51 Mynegodd Cyngor Defnyddwyr Cyffredinol Gogledd Iwerddon ei bryderon ynghylch amseroedd gosod a thrwsio llinell sefydlog a gwasanaethau Ethernet Openreach. Sylwodd y Cyngor ar nifer uchel y cwynion y mae'n eu derbyn gan ddefnyddwyr ynghylch telegyfathrebiadau.
- A5.52 Nododd UKCTA y dylai Ofcom orfodi rhwymedigaethau ansawdd gwasanaeth Openreach yn llym. Awgrymodd Vodafone y dylai Ofcom nodi'n fwy manwl sut y bydd yn gorfodi gofynion ansawdd gwasanaethau. Dywedodd unigolyn y dylai Ofcom sicrhau bod Openreach yn bodloni ei gytundebau lefel gwasanaeth yng nghyswllt diffygion a bod modd effeithiol o wneud iawn ar waith os bydd yn methu sicrhau hynny.
- A5.53 Nododd CWU y dylai pob cwmni rhwydweithiau mynediad sefydlog fod yn ddarostyngedig i safonau sylfaenol ansawdd gwasanaeth cyfatebol.
- A5.54 Dadleuodd unigolyn nad oes gan Openreach ddigon o gymhelliant i wella ansawdd y gwasanaeth mae'n ei gynnig i'w gwsmeriaid na'r prosesau ar gyfer cysylltu eiddo sydd ddim yn cael eu gwasanaethu. Fe wnaethant gynnig y gallai creu corff awdurdodi annibynnol alluogi darparwyr cyfathrebiadau eraill i gystadlu ag Openreach er mwyn darparu gwasanaethau rhwydwaith.
- A5.55 *Yn 2014 gosododd Ofcom rwymedigaethau ar Openreach yng nghyswllt amseroedd gosod a thrwsio ei linellau ffôn copr sefydlog, yn unol â'r adolygiad o'r farchnad mynediad sefydlog. Mae'r rhwymedigaethau hyn yn mynnu bod Openreach yn bodloni targedau'r cytundeb lefel gwasanaeth ar gyfer gosod a thrwsio, ac i dalu ei gwsmeriaid cyfanwerthol os bydd yn methu sicrhau hyn. Ar ben hynny, mae'r rhwymedigaethau hyn yn mynnu bod Openreach yn cyrraedd safon sylfaenol gyffredinol ar gyfer gosod a thrwsio a bydd modd ei ddirwyo os bydd yn methu cyrraedd y safonau hyn.*
- A5.56 *Mae Ofcom yn ystyried y ffordd orau o sicrhau bod Openreach yn darparu lefelau gwasanaeth da ar gyfer ei gynnyrch Ethernet yn y BCMR presennol.*

#### Hybu dewis effeithiol i ddefnyddwyr drwy sicrhau bod gwybodaeth glir a pherthnasol ar gael yn hawdd

- A5.57 Mynegodd y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau siom nad oedd Ofcom wedi cyhoeddi data cwynion ar gyfer y prif ddarparwyr cyfathrebiadau yn ddiweddar.
- A5.58 *Mae'r adroddiadau ar ddata cwynion ar gyfer Ch2 a Ch3 2014/15 wedi eu gohirio gan fod angen cynnal profion gwirio data ychwanegol. Bydd yr adroddiadau yn cael eu cyhoeddi cyn gynted â phosibl. Yn dilyn adolygiad o gwmpas ein hadroddiadau, byddant yn cynnwys data cwynion ar amrywiaeth ehangach o ddarparwyr cyfathrebiadau o'i gymharu ag adroddiadau blaenorol.*
- A5.59 Roedd OpenSignal yn cefnogi gwaith Ofcom i gyhoeddi gwybodaeth am ddarpariaeth a chyflymderau band eang symudol. Roedd yn dadlau y byddai dull o gael gwybodaeth gan lawer (crowdsourced) er mwyn casglu data yn sicrhau manteision methodolegol.

- A5.60 Pan fydd Ofcom yn cyhoeddi data sy'n ymwneud â pherfformiad cwmnïau, dywedodd Three y dylai Ofcom sicrhau bod modd cymharu gwybodaeth y ffynhonnell a bod cwmnïau'n cael eu cymharu mewn modd ystyrion. Dywedodd y dylai Ofcom weithio gyda'r diwydiant er mwyn cynnal adolygiadau parhaus o'r broses casglu data. Nododd Vodafone y dylai Ofcom ymgysylltu â darparwyr cyfathrebiadau er mwyn manteisio ar eu profiad o gymharu a chyfleu data darpariaeth symudol.
- A5.61 Nododd EE y dylai Ofcom esbonio'n fwy clir yr amgylchiadau y bydd yn gweithio yn unol â nhw er mwyn darparu gwybodaeth i ddefnyddwyr. Roedd o'r farn bod rhai o gyhoeddiadau gwybodaeth i ddefnyddwyr Ofcom yn anodd i ddefnyddwyr eu deall. Pe na bai modd newid hyn, dylai trydydd partïon eu darparu.
- A5.62 *Rydym yn ceisio sicrhau bod ein cyhoeddiadau gwybodaeth i ddefnyddwyr yn ddefnyddiol i ddefnyddwyr, ac er mwyn cyflawni hyn byddwn yn gweithio gydag amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys cynrychiolwyr defnyddwyr, darparwyr gwybodaeth ar gyfer y diwydiant a chyfryngwyr.*
- A5.63 Nododd Pwyllgor Cynghori Ofcom yng Ngogledd Iwerddon y dylai Ofcom wneud mwy i sicrhau bod ei gyhoeddiadau ymchwil yn cael eu cyhoeddi.
- A5.64 *Rydym yn ceisio rhannu ein hymchwil yn eang. Byddwn yn parhau i gyhoeddi ein hymchwil drwy ddatganiadau i'r wasg a drwy ymgysylltu â'r cyfryngau. Byddwn yn rhoi gwybod i randdeiliaid pan fydd ymchwil newydd yn cael ei gyhoeddi drwy anfon [diweddiadau](#) atynt mewn e-bost a chysylltu'n uniongyrchol â nhw. Byddwn yn parhau i sicrhau bod modd dod o hyd i'n gwaith ymchwil yn hawdd drwy ddiweddarau'r dudalen ymchwil benodol ar ein gwefan, sydd ar gael yn [hafan](#) Ofcom.*

#### Gorfodi cystadleuaeth e.e. drwy ddatrys anghydfodau ac ymchwilio i gwynion o dan y Ddeddf Cystadleuaeth a gosod cosbau pan fo hynny'n briodol

- A5.65 Cynigiodd BT y dylai Ofcom ymgynghori ar ei ddull gweithredu ar gyfer datrys anghydfodau rheoleiddio er mwyn helpu rhanddeiliaid i ddeall y dull gweithredu. Yn benodol, roedd am ddeall yn well sut bydd Ofcom yn defnyddio'i bwerau datrys anghydfodau yn dilyn penderfyniad y Goruchel Llys yn anghydfod 08X.
- A5.66 *Roedd [Canllawiau Datrys Anghydfodau](#) Ofcom (a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2011) yn nodi'r dull y mae Ofcom yn debygol o'i ddefnyddio ar gyfer datrys yr anghydfodau rheoleiddio y mae'n eu derbyn. Mae'r canllawiau yn nodi'n glir y bydd pob achos a gaiff ei gyfeirio yn cael ei asesu ar sail ffeithiau fesul achos. Felly nid trafod cyfraith achosion perthnasol neu gynnwys anghydfodau unigol yw diben y canllawiau, ac nid oes gennym gynlluniau i ddiweddarau'r canllawiau ar hyn o bryd.*

#### Ymatebion eraill i faterion yn ymwneud â chystadleuaeth

- A5.67 *Fe wnaeth nifer o ymatebwyr gyflwyno sylwadau ar faterion cyffredinol ynghylch cystadleuaeth. Rydym yn sylwi bod rhai o'r rhain yn berthnasol i gwmpas yr [Adolygiad Strategol o Gyfathrebiadau Digidol](#) a gyhoeddwyd yn ddiweddar ac a ddisgrifir ym mharagraff [A1.6](#) uchod.*
- A5.68 Roedd CWU yn dadlau y dylai Ofcom ymestyn unrhyw gamau unioni o ran cystadleuaeth y mae'n eu gwneud yn berthnasol i'r prif gwmnïau i gynnwys cwmnïau eraill mewn ardaloedd daearyddol lle mae gan gwmnïau o'r fath bŵer sylweddol yn y farchnad.

- A5.69 *Lle mae Ofcom yn gweld bod gan gwmni bŵer sylweddol yn y farchnad (SMP), mae'n rhaid iddo osod rheoliadau ar y cwmni hwnnw er mwyn mynd i'r afael â'r SMP.*
- A5.70 *Dadleuodd Three a Vodafone y dylai dull rheoleiddio cyffredinol Ofcom glirio'r tagfeydd sydd ar frig y gadwyn gyflenwi sy'n effeithio ar gystadleuaeth mewn rhai sectorau ac ystyried cystadleuaeth gref mewn rhai eraill. Awgrymodd Vodafone fod Ofcom wedi gwneud mwy a mwy mewn ymyriadau ad hoc ar waelod y gadwyn gyflenwi dros amser, ac roedd Three yn dadlau y dylai Ofcom geisio datrys y materion sy'n wynebu defnyddwyr drwy hybu mwy o wahaniaethau rhwng cwmnïau, yn hytrach nag ymyrryd ar waelod y gadwyn gyflenwi.*
- A5.71 *Rydym yn cydnabod gwerth cystadleuaeth o ran sicrhau canlyniadau da i ddefnyddwyr. Rydym hefyd yn cydnabod mai ymyrraeth uniongyrchol yw'r camau gweithredu mwyaf priodol mewn rhai achosion er mwyn diogelu defnyddwyr rhag niwed. Rydym yn ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng yr angen i ddiogelu defnyddwyr rhag niwed a'n dyletswydd i hyrwyddo cystadleuaeth.*
- A5.72 *Roedd BT o'r farn y dylai Ofcom adolygu cystadleuaeth yn y sector symudol yng ngoleuni newidiadau yn amodau'r farchnad ac mewn technoleg. Yn benodol, cynigiodd y dylai Ofcom weithio i ddeall effaith debygol 5G ar gystadleuaeth. Dywedodd SSE ccc y dylai Ofcom ystyried effaith proses uno arfaethedig BT ac EE ar gystadleuaeth yn y marchnadoedd cyfathrebiadau sefydlog a symudol.*
- A5.73 *Nid oes gennym unrhyw gynlluniau penodol i gynnal adolygiad o'r sector symudol, ond mae'n bosibl yr ymdrinnir â rhai agweddau penodol yn yr [Adolygiad Strategol o Gyfathrebiadau Digidol](#) a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Mae'r gwaith hwn yn cael ei ddisgrifio ym mharagraff [A1.6](#) uchod. Ar ben hynny byddwn yn darparu cymorth ar gais yr awdurdodau perthnasol yng nghyswllt cynlluniau uno posibl yn y sector.*
- A5.74 *Dadleuodd EE y dylai dull gweithredu Ofcom wrth reoleiddio terfynu galwadau symudol gydnabod pwysigrwydd hybu buddsoddiad mewn rhwydweithiau band eang symudol.*
- A5.75 *Rydym yn y broses o fabwysiadu proses reoleiddio newydd ar gyfer terfynu galwadau symudol (MCT) yn y cyfnod rhwng Ebrill 2015 a Mawrth 2018. Fel rhan o'n hasesiad o'n polisiau, rydym wedi ystyried yr effaith y byddai ein penderfyniad yn ei chael ar gystadleuaeth yn ogystal ag ar gymhellion ar gyfer buddsoddi yn y farchnad symudol, yn enwedig yng nghyd-destun y dewis o safonau costau a ddefnyddir ar gyfer cyflwyno trefn rheoli ffioedd MCT.*
- A5.76 *Rydym ni o'r farn y dylai'r penderfyniad i fabwysiadu'r safon cost ychwanegol yn y tymor hir (LRIC), sy'n arwain at reoleiddio llai ar y gyfradd terfynu galwadau symudol (MTR) annog cystadleuaeth. Serch hynny fe wnaethom hefyd ystyried a fyddai modd i hyn leihau'r enillion ar fuddsoddiadau a wneir gan gwmnïau symudol. Daethom i'r casgliad petai cystadleuaeth yn arwain at brisiau is a lleihau enillion ar fuddsoddiadau, byddai effaith o'r fath yn fach iawn ac yn annhebygol o rwystro buddsoddi effeithlon. Byddai unrhyw gynnydd mewn cystadleuaeth hefyd yn annog mwy o fuddsoddi gan y byddai cwmnïau'n buddsoddi er mwyn darparu gwasanaethau cystadleuol.*
- A5.77 *Ac ystyried y dystiolaeth empirig, rydym wedi nodi nad yw gostyngiadau blaenorol, llawer mwy sylweddol mewn cyfraddau terfynu galwadau symudol wedi cael effaith niweidiol ar fuddsoddiad, ac nid ydym yn ystyried y byddai'r effeithiau ar fuddsoddiad ac arloesedd yn fwy amlwg yn dilyn ein penderfyniad diweddar.*

## Diogelu defnyddwyr rhag niwed

### Diwygio rhifau nad ydynt yn rhai daearyddol i sicrhau tryloywder o ran prisiau

- A5.78 Dadleuodd Mr J P Gilliver y dylid symleiddio'r rhifau nad ydynt yn rhai daearyddol am dâl er mwyn osgoi dryswch i ddefnyddwyr. Dywedodd Mr Peter Young ac unigolyn arall y dylai Ofcom weithio i wella dealltwriaeth y cyhoedd o dariffau rhifau ffôn, gan gynnwys tariffau rhifau nad ydynt yn rhai daearyddol. Cynigiodd yr unigolyn arall hefyd y dylai fod yn ofynnol i gwmnïau rhwydweithiau symudol sicrhau bod modd ffonio rhifau 0800 am ddim o ffonau symudol.
- A5.79 Galwodd CWU ar Ofcom i ystyried p'un ai a yw costau cyffredinol galwadau i rifau nad ydynt yn rhai daearyddol yn rhy uchel.
- A5.80 *Bydd ein newidiadau mawr i rifau nad ydynt yn rhai daearyddol yn dod i rym ym mis Gorffennaf 2015. Mae'r rhain yn cynnwys sicrhau bod rhifau 0800 am ddim o bob ffôn, gan gynnwys ffonau symudol, a dadfwn delu'r ystod rhannu refeniw (084 / 087 / 09 / 118) er mwyn gwella tryloywder prisiau i ddefnyddwyr. Rydym hefyd yn parhau â'n gwaith ar yr ystod 070 / 076 er mwyn delio â'r dryswch ymysg defnyddwyr a'r twyll a welir yn yr ystodau hyn.*

### Diogelu defnyddwyr rhag niwed mewn amrywiaeth o feysydd blaenoriaeth, gan gynnwys galwadau niwsans

- A5.81 Dywedodd y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau wrth Ofcom y dylai weithio gyda sefydliadau eraill er mwyn lleihau amllder ac effaith galwadau niwsans. Roedd y Panel yn dadlau bod angen darparu gwasanaeth adnabod y galwr am ddim i ddefnyddwyr.
- A5.82 Nododd Mr J P Gilliver y dylid gosod dyletswyddau statudol ar gwmnïau llais llinell sefydlog er mwyn rhwystro prosesau ffug o adnabod y galwr. Cynigiodd unigolyn arall y dylai cwmnïau adnabod galwadau o'r tu allan i'r DU drwy wasanaeth adnabod y galwr a dim ond dangos galwadau sydd wedi'u cadarnhau.
- A5.83 Dadleuodd Dr Sally Broughton Micova y dylai Ofcom benderfynu pa gamau pellach y gallai cwmnïau eu cymryd i rwystro galwadau niwsans. Dywedodd hefyd y dylai Ofcom ymchwilio i weld pa mor ymarferol fyddai rhaglen nod barcod ar gyfer technolegau blocio galwadau.
- A5.84 Roedd BT yn pwysu ar Ofcom i fynd ati i ddod o hyd i sefydliadau sy'n gyfrifol am alwadau niwsans ac i ddelio â hwy, drwy gydweithio ar draws ffiniau a defnyddio dulliau tracio'r diwydiant. Roedd Vodafone yn cefnogi gwaith Ofcom o ran galwadau niwsans ond nid oedd yn cytuno â chyflwyno gofynion penodol ar gyfer pwynt gwerthu cyngor i ddefnyddwyr.
- A5.85 *Mae'r wybodaeth am broses adnabod y galwr (CLI) a gyflwynir mewn galwad yn ffordd ddefnyddiol o helpu'r defnyddwyr hynny sy'n manteisio ar y gwasanaeth a gynigir gan eu darparwr er mwyn adnabod galwyr a hidlo galwadau niwsans. Fodd bynnag, mewn rhai achosion efallai y bydd gwybodaeth CLI ar goll, yn cael ei chelu, neu'n cael ei gosod yn anghywir yn fwriadol gan y galwr - yr hyn a elwir yn alwad ffug, er mwyn camarwain y defnyddiwr. Mae cwmnïau cyfathrebiadau yn y DU wedi gweithio gyda'i gilydd i gytuno ar safon dechnegol sy'n gwneud y broses o olrhain gwir fanylion y galwr yn fwy effeithiol, hyd yn oed os yw'r alwad CLI wedi'i chelu neu'n ffug.*

A5.86 *Mae gwaith tymor hwy yn mynd rhagddo ar safonau technegol rhyngwladol a fydd, os cânt eu mabwysiadu'n eang gan ddarparwyr cyfathrebiadau a chynhyrchwyr cyfarpar, yn ei gwneud yn llawer anoddach gwneud galwadau ffug. Mae cwmnïau yn y DU hefyd wrthi'n cwblhau newidiadau i'r rheolau technegol presennol o ran sut yr ymdrinnir â gwybodaeth CLI mewn a rhwng gwahanol fathau o rwydweithiau. Gyda'i gilydd, dylai'r datblygiadau hyn barhau i wella cywirdeb, ac o'r herwydd pa mor ddefnyddiol yw'r wybodaeth CLI a dderbynnir gan ddefnyddwyr.*

#### Cefnogi cynlluniau'r diwydiant a'r Llywodraeth i wella lefelau ymddiriedaeth mewn gwasanaethau rhyngwryd

A5.87 Dywedodd Dr Sally Broughton Micova y dylai Ofcom ddeall y gall 'niwed' i ddefnyddwyr gynnwys camddefnyddio data personol, a defnydd amhriodol gan yr awdurdodau o ddata personol neu oruchwyliaeth. Awgrymodd hefyd y dylai Ofcom weithio gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a chyrrff eraill i ddatblygu polisi ar gyfer y maes hwn.

A5.88 Dywedodd Dr Broughton Micova hefyd y gellid gwneud mwy i ddeall canfyddiadau defnyddwyr am faterion diogelu data a'r niwed y gall gweithgareddau masnachol ar-lein eu hachosi i blant.

A5.89 Fe wnaeth y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau annog Ofcom i roi sylw arbennig i faterion preifatrwydd a diogelwch sy'n wynebu defnyddwyr. Awgrymwyd y dylai Ofcom sicrhau bod rhagor o fanylion ar gael o ran ei waith yn y maes hwn ac y dylai weithio gyda sefydliadau eraill er mwyn cefnogi defnyddwyr a microfusnesau.

A5.90 *Mae Ofcom wedi comisiynu nifer o adroddiadau ymchwil er mwyn deall yn well ganfyddiadau defnyddwyr o ymgysylltu ar-lein a sut caiff eu data ei ddefnyddio, megis:*

- *[Being online: an investigation of people's habits and attitudes;](#)*
- *[Apps environment;](#) ac*
- *[Adults' Media Use and Attitudes Report 2014.](#)*

A5.91 *Hefyd, yn ddiweddar mae Ofcom wedi cyhoeddi ei [adroddiad](#) ar y camau nesaf er mwyn cefnogi'r Rhyngwryd Pethau. Un o'r pedwar prif faes a nodwyd yn yr adroddiad, ar ôl cael mewnbwn gan randdeiliaid yn 2014, oedd preifatrwydd data. Bydd Ofcom yn gweithio gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, y Llywodraeth, rheoleiddwyr eraill a'r diwydiant er mwyn canfod atebion i faterion ynghylch preifatrwydd data yn y Rhyngwryd Pethau.*

#### Gweithio i sicrhau bod gwasanaethau hanfodol yn cael eu cefnogi ar rwydweithiau llais y genhedlaeth nesaf

A5.92 Nododd BT, KCOM ac UKCTA y dylai Ofcom flaenoriaethu ei waith er mwyn pennu sut y bydd modd i ddefnyddwyr gael gafael ar wasanaethau brys ar rwydweithiau llais y genhedlaeth nesaf. Roedd KCOM ac UKCTA yn dadlau y byddai mynnu bod cwmnïau'n darparu batri wrth gefn ar gyfer pob rhwydwaith ffibr cyfan yn anghymesur.

A5.93 *Mae cael gafael ar wasanaethau brys yn elfen bwysig o'r broses o ddarparu gwasanaethau cyfathrebu a bydd yn aros felly wrth i rwydweithiau'r genhedlaeth nesaf gael eu cyflwyno. Rydym yn ymwybodol bod darparwyr cyfathrebiadau yn*

*awyddus i ddatblygu a chyflwyno technolegau mynediad newydd a chynnig gwasanaethau newydd ac arloesol i ddefnyddwyr. Rydym yn parhau i asesu'r cwestiwn ynghylch y ffordd orau o amddiffyn dinasyddion yng ngoleuni'r datblygiadau technolegol hyn. Rydym wedi ymrwmo i weithio gyda rhanddeiliaid er mwyn penderfynu sut gellir sicrhau hyn ac ystyried y technolegau a'r seilweithiau rhwydwaith maent yn bwriadu eu mabwysiadu.*

Sicrhau bod defnyddwyr yn gallu cael iawndal am fethiannau mewn gwasanaeth ac am wasanaeth o ansawdd gwael

- A5.94 Nododd Cyngor ar Bopeth a Citizens Advice Scotland fod posibilrwydd i wella pa mor hawdd yw gweld trefniadau cwyno am gynnyrch a gwasanaethau post, er enghraifft, drwy ddarparu gwybodaeth glir am y cynllun gwneud iawn allanol. Fe wnaethant hefyd nodi nad oes digon o ymchwil defnyddwyr wedi'i gynnal i brofiadau defnyddwyr o drefniadau cwyno am y gwasanaeth post. Roeddent yn credu bod hwn yn amser priodol i ystyried p'un ai a yw'r safonau a'r systemau presennol ar gyfer ymdrin â chwynion defnyddwyr yn gymesur ac yn gweithio'n effeithiol er budd defnyddwyr yng nghyswllt cwmnïau post sy'n cael eu rheoleiddio a'r rhai sydd heb eu rheoleiddio.
- A5.95 Gofynnodd Cyngor Defnyddwyr Gogledd Iwerddon i Ofcom archwilio a yw cwmnïau post a gaiff eu rheoleiddio yn cydymffurfio â'r mesurau ar gyfer diogelu defnyddwyr, ac a wnaiff asesu pa mor addas yw'r fframwaith presennol ar gyfer ymdrin â chwynion ar gyfer yr holl gwmnïau.
- A5.96 Dywedodd Cyngor ar Bopeth fod yn rhaid i Ofcom adolygu'r systemau gwneud iawn posibl ar gyfer cwmnïau parseli, gan gynnwys ymgysylltu â'r Comisiwn Ewropeaidd.
- A5.97 *Rydym wrthi'n ymgyngori â rhanddeiliaid ynghylch y ffordd yr ymdrinnir â chwynion am y gwasanaeth post.*
- A5.98 Nododd unigolyn y dylai Ofcom wella ei wasanaethau i gwsmeriaid ar gyfer defnyddwyr sy'n cael trafferth defnyddio teleffoni llais, yn enwedig o ran y gwasanaethau i gwsmeriaid a ddarperir drwy e-bost.
- A5.99 *Ar hyn o bryd rydym yn ceisio datrys y materion ynghylch gwasanaethau i gwsmeriaid darparwyr cyfathrebiadau. Byddwn hefyd yn parhau i gynnal a chyhoeddi ymchwil ar ansawdd gwasanaethau i gwsmeriaid bob blwyddyn. Mae ein gwaith yn cynnwys yr holl ffyrdd o gael gafael ar wasanaethau i gwsmeriaid, gan gynnwys gwasanaethau llais ac e-bost.*
- A5.100 Awgrymodd uSwitch y dylai Ofcom adolygu pa mor dda mae'r darpariaethau presennol ar gyfer amddiffyn defnyddwyr yn bodloni anghenion defnyddwyr sy'n dewis gwasanaethau wedi'u bwndelu. Dadleuodd y dylai Ofcom sicrhau bod prosesau cyson i amddiffyn defnyddwyr ar waith ar gyfer yr holl gynnyrch cyfathrebiadau wedi'u bwndelu, gan gynnwys teledu drwy dalu.
- A5.101 *Rydym yn cytuno ei bod yn bwysig sicrhau bod defnyddwyr yn cael eu diogelu ar draws bwndeli, ac mae ein gwaith yn canolbwyntio ar ddiogelwch gyda gwasanaethau unigol yn ogystal â bwndeli o wasanaethau cyfathrebu electronig.*
- A5.102 Dywedodd Dr Sally Broughton Micova ac unigolyn arall y dylai Ofcom barhau i fynd i'r afael â'r niwed a achosir i ddefnyddwyr yn sgil codi prisiau yn ystod contractau cyfnod penodol.



- A5.103 Roedd BT yn galw am orfodi'r rheolau ar gyfer codi prisiau ar ganol contract yn drwyadl. Dywedodd Vodafone y dylai agwedd Ofcom at godi prisiau yn ystod contract gydnabod y gallai rheoleiddio effeithio ar gynnydd mewn prisiau yn uniongyrchol, er enghraifft drwy newid amodau'r farchnad neu drefniadau cyfanwerthu. Dadleuodd y dylai Ofcom ystyried hynny wrth bwysu a mesur ei flaenoriaethau rheoleiddio.
- A5.104 *Fe wnaeth [arweiniad](#) Ofcom ar godi prisiau mewn contractau tymor sefydlog a gyhoeddwyd yn 2013 ddefnyddio dull cytbwys yn seiliedig ar dystiolaeth er mwyn sicrhau tegwch. Byddwn yn parhau i adolygu'r arweiniad.*
- A5.105 Dywedodd BT ei bod yn bwysig bod defnyddwyr yn cael eu hamddiffyn i'r un graddau o ran materion fel codi prisiau yn ystod contract ar gyfer yr holl wasanaethau y gallant eu prynu fel rhan o fwndel, gan gynnwys gwasanaethau teledu drwy dalu.
- A5.106 *Rydym yn ystyried bod diogelu defnyddwyr o ran gwasanaethau wedi'u bwndelu yr un mor bwysig â'r gwasanaethau a brynir fesul un. Mae ein gwaith ar bolisiau a diogelu defnyddwyr yn ceisio diogelu'r holl ddefnyddwyr yn gymesur ac yn unol â'r fframwaith a ddarperir yn yr Amodau Cyffredinol a'r ddeddfwriaeth i ddefnyddwyr traws-sector. Bydd Ofcom yn parhau i fonitro a chymryd camau yng nghyswllt telerau contractau annheg, gan gynnwys codi prisiau ar ganol contract yn 2015/16.*
- A5.107 Cynigiodd unigolyn y dylid penodi ombwdsmon penodol er mwyn datrys anghydfodau busnes â darparwyr cyfathrebiadau yn gyflymach.
- A5.108 *Mae'r fframwaith presennol o dan y Ddeddf Cyfathrebiadau ac Amodau Cyffredinol Ofcom yn darparu gwasanaeth penodol gan yr ombwdsmon ar gyfer defnyddwyr preswyl a busnesau bach a chanddynt hyd at ddeg o weithwyr. Mae'n rhaid i ddarparwyr nodi eu rheolau ar gyfer ymdrin â chwynion a datrys anghydfodau, yn ogystal â bod yn aelod o un o ddau gynllun Dulliau Amgen o Ddatrys Anghydfodau (ADR) y mae Ofcom wedi'u cymeradwyo. Bydd angen i fusnesau a chanddynt fwy na deg o weithwyr geisio cyngor cyfreithiol annibynnol eu hunain, ond bydd rhai darparwyr yn dal i roi'r hawl i ddefnyddio ADR mewn achos o anghydfod, yn ôl eu disgrisiwn. Mae ein gwaith ymchwil hefyd wedi canfod y caiff y rhan fwyaf o gwynion a gyflwynir i fusnesau eu datrys yn y cyfnod o wyth wythnos cyn y bydd gwasanaethau'r ombwdsmon ar gael.*

#### Ymatebion eraill ar faterion yn ymwneud ag amddiffyn defnyddwyr

- A5.109 Dywedodd Which? mai dim ond y cyflymder llwytho i lawr y mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn debyg o'u cael y dylai cwmnïau gael eu hysbysebu. Roedd hefyd o'r farn y dylai cwmnïau wneud mwy er mwyn mesur honiadau mewn hysbysebion ynghylch cyflymderau "cyflym iawn".
- A5.110 Nid oedd y Fforwm Defnyddwyr ar gyfer Cyfathrebiadau yn ystyried bod arweiniad CAP a BCAP ar hysbysebu cyflymderau band eang yn mynnu bod yn rhaid i gwmnïau ddarparu gwybodaeth am gyflymderau band eang y mae defnyddwyr yn eu disgwyl a'u cael.
- A5.111 *Byddwn yn parhau â'n gwaith i wella tryloywder perfformiad a'r profiad o ddefnyddio band eang, gan gynnwys cyflymderau. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys ein hymchwil a'r data y byddwn yn ei gyhoeddi ar berfformiad cyflymderau, a'r gwaith a wneir i sefydlu metrigau ansawdd profiad eraill. Mae Ofcom yn gweithio gyda'r Pwyllgorau*

*Hysbysebu a'r Awdurdod Safonau Hysbysebu (ASA) ar faterion sy'n gyffredin i'r ddau gorff, a byddem yn nodi mai mater iddyn nhw yw honiadau hysbysebion.*

- A5.112 Mynegodd y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau, CWU a Which? bryder ynghylch lefelau diogelu defnyddwyr rhag cael biliau uchel ar ffonau symudol sydd wedi cael eu colli neu eu dwyn.
- A5.113 Rydym yn nodi **cyhoeddiad** diweddar y Llywodraeth sy'n datgan y bydd cwmnïau rhwydwaith symudol yn cynnig cap atebolrwydd o £100 i ddefnyddwyr ar gyfer biliau uchel sy'n cael eu creu ar ffonau symudol sy'n cael eu colli neu eu dwyn, pan roddir gwybod i'r heddlu am y lladradd neu'r golled o fewn 24 awr. Mae'r cytundeb hwn yn gam cadarnhaol er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r diffyg diogelwch i ddefnyddwyr pan fydd rhywun arall yn defnyddio'u ffôn mewn ffordd dwyllodrus.
- A5.114 Roedd y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau yn croesawu'r gwaith sydd wedi'i gyflawni er mwyn darparu gwybodaeth am hyd contract a ffioedd terfynu cynnar mewn 'Saesneg clir' i gwsmeriaid. Nododd y Panel y dylai gwybodaeth glir am y disgwyliadau o ran lefel y gwasanaeth, prisiau a safonau gwasanaeth i gwsmeriaid fod ar gael i gwsmeriaid hefyd.
- A5.115 *Mae darparu gwybodaeth glir i ddefnyddwyr, yn enwedig ynghylch yr agweddau hynny ar y gwasanaeth sy'n effeithio go iawn ar eu profiad yn bwysig iawn. Byddwn yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys y Panel, er mwyn gwella'r trefniadau yn y maes hwn.*
- A5.116 Dywedodd y Fforwm Defnyddwyr ar gyfer Cyfathrebiadau y dylai Ofcom ymgysylltu'n fwy rhagweithiol â grwpiau defnyddwyr a dinasyddion. Awgrymodd hefyd y dylai Ofcom adolygu'r modelau ymgysylltu â defnyddwyr y mae sectorau eraill wedi'u mabwysiadu: er enghraifft lle mae darparwyr gwasanaethau yn ymgysylltu â chynrychiolwyr defnyddwyr mewnol.
- A5.117 *Mae ymgysylltu â sefydliadau ac eiriolwyr ar ran defnyddwyr yn bwysig iawn i Ofcom. Rydym yn gwerthfawrogi sylwadau gan amrywiaeth o randdeiliaid sy'n cynrychioli defnyddwyr, gan gynnwys y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau, y Pwyllgor Cyngori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl, Pwyllgorau Cyngori Gwledydd a Rhanbarthau Ofcom, yn ogystal ag amrywiaeth o sefydliadau a chanddynt ddiddordeb trawsbynciol neu arbenigol.*
- A5.118 *Rydym hefyd yn parhau i hwyluso gwaith y Fforwm Defnyddwyr ar gyfer Cyfathrebiadau, sy'n ei alluogi i ymgysylltu'n eang â rhanddeiliaid defnyddwyr. Byddwn yn fodlon ystyried a thrafod â rhanddeiliaid sut mae gwella neu ddatblygu'r model ymgysylltu hwn, gan gynnwys pa mor effeithiol yw'r broses o ymgysylltu â'r diwydiant os bydd hynny'n briodol.*
- A5.119 Dywedodd Three y dylai Ofcom gydweithio'n fwy effeithiol â rheoleiddwyr a chyrrff eraill sydd â chyfrifoldebau i ddiogelu defnyddwyr er mwyn osgoi'r posibilrwydd o osod safonau anghyson.
- A5.120 *Mae Ofcom yn ymgysylltu'n rheolaidd â rheoleiddwyr eraill fel mater o drefn (gan gynnwys ASA, Ofgem, FCA a'r CMA) i drafod materion diogelu defnyddwyr sy'n gyffredin i bob un ohonynt ac er mwyn sicrhau eu bod yn gyson lle bo hynny'n briodol, er enghraifft, o ran materion prisiau a thelerau contract annheg. Rydym hefyd yn ymgysylltu'n agos ag ymgynghoriadau ac arweiniad y Llywodraeth ynghylch deddfwriaethau newydd fel y bo'n briodol er mwyn sicrhau ein bod yn mynd i'r afael yn ddigonol â materion yn y sector telegyfathrebiadau.*

- A5.121 Cynigiodd Pwyllgor Cynghori Ofcom yng Ngogledd Iwerddon y dylai Ofcom ddadansoddi'r cwynion mae wedi'u cael gan ddefnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon er mwyn penderfynu a yw "dibynnu mwy" ar rwydwaith copr BT yn effeithio'n andwyol ar ddefnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon.
- A5.122 *Byddwn yn dadansoddi'r cwynion sydd wedi dod i law yng Ngogledd Iwerddon yn unol â'r cais, ac yn cyflwyno adroddiad i Bwyllgor Cynghori Ofcom yng Ngogledd Iwerddon ynghylch y cwestiwn hwn.*
- A5.123 Dadleuodd Sefydliad Prydeinig y Galon y dylid diwygio'r Cod CAP er mwyn gwarchod plant rhag hysbysebion ar-lein ar gyfer bwydydd sy'n uchel mewn braster, halen neu siwgr (HFSS), er enghraifft ar ffurf cynnwys hyrwyddo.
- A5.124 *Nid yw deunydd hysbysebu, gan gynnwys deunydd hyrwyddo nad ydynt yn ddarostyngedig i God Darlledu Hysbysebion y DU (a elwir yn God BCAP), na'r rheolau penodol sy'n berthnasol i wasanaethau ar alwad wedi'u rheoleiddio yn rhan o gwmpas cylch gwaith statudol penodol Ofcom.*
- A5.125 Dywedodd Mr Peter Young fod y Post Brenhinol – yn ôl pob golwg – yn newid cofnodion cyfeiriadau post heb gadarnhad digonol.
- A5.126 *Mater gweithredol i'r Post Brenhinol yw'r ffordd y mae'n rheoli ei ffeiliau cyfeiriadau post.*

### **Hyrwyddo cyfleoedd i gyfranogi**

#### Adolygu'r ffactorau a allai effeithio ar gynaliadwyedd y gwasanaeth post cyffredinol

- A5.127 Mynegodd CWU bryder nad oedd Ofcom wedi ymateb i effaith cystadleuaeth pen-i-ben ar gynaliadwyedd y gwasanaeth post cyffredinol. Nododd y dylai Ofcom gynnal adolygiad ar unwaith o'r bygythiad y mae cystadleuaeth pen-i-ben yn ei gyflwyno i'r gwasanaeth cyffredinol. Awgrymodd y dylai Ofcom ystyried pennu terfyn ar gyfer cystadleuaeth pen-i-ben a fydd yn gyson â'r angen i sicrhau bod y gwasanaeth cyffredinol yn gynaliadwy yn ariannol.
- A5.128 Dywedodd Cyngor ar Bopeth a Citizens Advice Scotland y dylai Ofcom ystyried dulliau gwahanol ar gyfer cynnal Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol gynaliadwy os bydd adolygiad o'r farchnad yn canfod bygythiad gwirioneddol i'r ddarpariaeth, megis rhoi elfennau sy'n gwneud colled allan i dendr, cymorth gwladwriaethol neu drefniadau cronfa iawndal.
- A5.129 Nododd y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau y dylai Ofcom fynd ati'n rhagweithiol i adolygu'r ffactorau a allai effeithio ar gynaliadwyedd y gwasanaeth post cyffredinol, yn ogystal ag ansawdd targedau'r gwasanaeth. Nododd Cyngor ar Bopeth, Citizens Advice Scotland a Chyngor Defnyddwyr Cyffredinol Gogledd Iwerddon fod angen i Ofcom fonitro materion y farchnad bost yn ofalus, gan gynnwys datblygu newid a chystadleuaeth ar gyfer defnyddwyr preswyl a BBaCh mewn gwahanol ardaloedd daearyddol.
- A5.130 Dywedodd Mr J. P. Gilliver na ddylai Ofcom ddadreoleiddio gwasanaethau post mewn modd a fyddai'n tansellio darpariaeth y gwasanaeth post cyffredinol.
- A5.131 Fe wnaeth y Post Brenhinol annog Ofcom i gynnal adolygiad o'r gystadleuaeth yn y farchnad llythyrau yn 2015.

- A5.132 *Mae dyletswydd Ofcom i sicrhau bod darpariaeth y gwasanaeth cyffredinol wrth wraidd y gwaith rydym eisoes wedi'i gyflawni ac rydym yn bwriadu ei gyflawni yn y sector post. Rydym yn monitro'r datblygiadau yn y sector yn ofalus, ac yn enwedig materion ariannol y gwasanaeth cyffredinol.*
- A5.133 *Ym mis Rhagfyr 2014, cyhoeddodd Ofcom [ganlyniadau](#) ei adolygiad o'r gystadleuaeth pen-i-ben yn y sector post. Yng ngoleuni'r dystiolaeth a gasglwyd yn yr adolygiad hwn, daethom i'r casgliad nad oedd bygythiad i allu'r Post Brenhinol i ddarparu gwasanaeth cyffredinol mewn ffordd gynaliadwy yn ariannol.*
- A5.134 *Fel y gwnaethom ei nodi yn ein harweiniad ar gystadleuaeth pen-i-ben yn y sector post ym mis Mawrth 2013<sup>10</sup>, rydym yn ystyried a fyddai modd i ni weithredu amodau ar gyfer gwasanaeth cyffredinol ymhen chwech i naw mis pe bai angen, er mwyn sicrhau bod gwasanaeth cyffredinol yn cael ei ddarparu. I'r perwyl hwn, byddwn yn parhau i fonitro'r sefyllfa yn ofalus.*
- A5.135 Dywedodd y Fforwm Cystadleuaeth Post (MCF) y dylai Ofcom adolygu effeithlonrwydd y Post Brenhinol o ran a yw'n bodloni ei rwymedigaethau ar gyfer y gwasanaeth post cyffredinol, a yw'n credu bod y Post Brenhinol yn gwmni effeithlon a chymryd camau i'w annog i wella ei effeithlonrwydd yn ôl yr angen.
- A5.136 Roedd y Post Brenhinol yn annog Ofcom i ddatblygu ei ddealltwriaeth o'r ffactorau byd go iawn sy'n effeithio ar ei gynnydd wrth geisio canfod ffyrdd o wella ei effeithlonrwydd.
- A5.137 Nododd CWU y dylai Ofcom ystyried sut y mae mesurau effeithlonrwydd yn ystyried ffactorau llafur, fel nad yw'n annog "ras i'r gwaelod o ran cyflogau a thelerau ac amodau yn y sector post". Nododd ei bod yn bwysig bod CWU a rhanddeiliaid eraill yn cael cyfle i gyflwyno sylwadau ar fesurau effeithlonrwydd Ofcom.
- A5.138 *Fel rhan o'n [datganiad](#) ar gystadleuaeth pen-i-ben ym mis Rhagfyr 2014, fe wnaethom gyhoeddi ein bwriad i ehangu ein hadolygiad o'r ffactorau ymarferol a allai effeithio ar gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol yn y dyfodol. Ymysg pethau eraill, mae'r adolygiad ehangach hwn yn ystyried faint o welliannau i effeithlonrwydd y Post Brenhinol fyddai'n dderbyniol disgwyl iddo eu cyflawni er mwyn bod yn gyson â'i rwymedigaethau fel darparwr gwasanaeth cyffredinol dynodedig. Fel y nodir uchod, rydym yn gobeithio cwblhau'r adolygiad ehangach hwn tua diwedd blwyddyn ariannol 2015/16.*
- A5.139 Roedd Cyngor ar Bopeth a Citizens Advice Scotland yn disgwyl i Ofcom barhau i fonitro cynnydd y newidiadau a wneir i rwydwaith y Post Brenhinol ac ymchwilio pan nad yw'r Post Brenhinol yn glynu wrth feini prawf dwysedd. Roeddent hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd monitro y glynir wrth feini prawf mynediad ac yn disgwyl i Ofcom roi mesurau diogelwch ar waith fel bod y rhan fwyaf o bost yn cael ei gasglu mor hwyr yn ystod y dydd â phosibl.
- A5.140 Nododd Cyngor ar Bopeth a Citizens Advice Scotland ei bod yn bwysig deall pam mae'r Post Brenhinol yn methu cyrraedd ei dargedau dosbarthu Dosbarth Cyntaf yn rheolaidd mewn rhai ardaloedd cod post. Dywedodd y dylai Ofcom barhau i ymchwilio i fethiant y Post Brenhinol i gyrraedd y targed perthnasol ar gyfer y gwasanaeth Danfon Arbennig y Diwrnod Canlynol.

---

<sup>10</sup> *Cystadleuaeth pen-i-ben yn y sector post - Arweiniad terfynol ar ddull Ofcom o asesu'r effaith ar y gwasanaeth post cyffredinol, 27 Mawrth 2013, [http://stakeholders.ofcom.org.uk/binaries/consultations/e2e-guidance/statement/E2E\\_Guidance.pdf](http://stakeholders.ofcom.org.uk/binaries/consultations/e2e-guidance/statement/E2E_Guidance.pdf)*

- A5.141 Awgrymodd Cyngor Defnyddwyr Gogledd Iwerddon y dylai Ofcom ystyried atebion eraill ar gyfer sicrhau dilysrwydd y gwasanaeth post yn ogystal â'i reoleiddio, megis darparu gwasanaethau cadarn ar gyfer ymdrin â chwynion a gwneud iawn amdanynt.
- A5.142 *Bydd Ofcom yn parhau i fonitro cydymffurfiaeth y Post Brenhinol â'i rwymedigaethau gwasanaeth cyffredinol, gan gynnwys: rhwymedigaethau tryloywder o ran amseroedd casglu a dosbarthu; gofynion dwysedd o ran pwyntiau mynediad (h.y. blychau post); ac ansawdd rhwymedigaethau gwasanaeth ar lefel genedlaethol a chod post.*
- A5.143 Galwodd Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon ar Ofcom i roi sylw i'r gwahaniaeth mewn costau post ar draws ffiniau. Gofynnodd i Ofcom ddarparu rhagor o wybodaeth am unrhyw gamau y byddai'n bosibl iddo eu cymryd er mwyn helpu i ddatrys hyn.
- A5.144 *Mae Ofcom yn cynnal ymchwil tracio bob blwyddyn er mwyn deall a dangos maint y broblem hon i ddefnyddwyr. Rydym yn cadw mewn cof bod Cyngor Defnyddwyr Gogledd Iwerddon hefyd yn bwriadu cynnal gwaith ymchwil yn y maes hwn a byddwn yn gweithio gyda'r Cyngor i gyfrannu at drafodaethau ar y mater yn y dyfodol.*
- A5.145 *Ar hyn o bryd, nid oes diffiniad yn mynnu bod yn rhaid i'r gwasanaeth cyffredinol gael tariff ar gyfer post ar draws ffiniau rhwng Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon sydd yr un fath â'r tariff ar gyfer y DU. Ni fyddai'n bosibl newid hyn heb gynnal asesiad llawn o anghenion defnyddwyr. Nid oes gan Ofcom awdurdodaeth dros gwmnïau tramor, ac nid oes unrhyw fodd iddo fynnu bod An Post yn darparu gwasanaethau yng Ngweriniaeth Iwerddon am yr un prisiau â'r Post Brenhinol a fyddai'n ei gwneud yn bosibl cyflwyno tariff unffurf ar draws ffiniau.*
- A5.146 Roedd Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon hefyd yn poeni am y costau roedd rhai cwmnïau cludo parseli yn eu codi wrth ddosbarthu i Gogledd Iwerddon, yn ogystal â'r ffaith bod rhai cwmnïau'n gwrthod dosbarthu i Gogledd Iwerddon. Gofynnodd a fyddai'n bosibl gorfodi gwerthwyr ar-lein i gynnig gwasanaeth Post yn yr achosion hyn.
- A5.147 *Mae gan werthwyr hawl i wneud penderfyniad masnachol o ran pa gwmni post maen nhw'n ei ddewis i ddosbarthu parseli ar eu rhan ac nid oes yn rhaid iddynt ddefnyddio gwasanaethau'r Post Brenhinol.*
- A5.148 Mae'r Adran Busnes, Diwydiant a Sgiliau, Cyngor ar Bopeth, Citizens Advice Scotland a Chyngor Defnyddwyr Gogledd Iwerddon wedi tynnu sylw at gostau ychwanegol oherwydd yr effaith mae hyn yn ei gael ar gwsmeriaid mewn rhannau o'r Alban a Gogledd Iwerddon. O ganlyniad, mae'r cyrff hyn wedi gweithio gyda'r diwydiant cludo i ddatblygu datganiad o egwyddorion ar gyfer dosbarthu parseli i fusnesau fel gwerthwyr ar-lein. Dylai hyn wneud costau dosbarthu ychwanegol yn fwy clir i gwsmeriaid pan fyddant yn archebu eitemau. Cyhoeddwyd y datganiad o egwyddorion ym mis Gorffennaf 2014 a'i fwrriad yw hyrwyddo arferion gorau a rhoi'r dewis i ddefnyddwyr wneud penderfyniadau gwell wrth brynu ar-lein.
- A5.149 Dadleuodd y Post Brenhinol nad yw'r rheolaethau cyfyngu ar elw presennol yn rhoi digon o hyblygrwydd iddo o ran prisiau. Dywedodd CWU y dylai Ofcom sicrhau bod y fframwaith rheoleiddio ar gyfer profi gwasgfa elw yn sicrhau bod modd adlewyrchu costau darparu'r gwasanaeth post cyffredinol ac ansawdd targedau'r gwasanaeth.

- A5.150 *Fel y nodir uchod ym mharagraff A2.66, mae Ofcom yn cyflawni prosiect er mwyn adolygu model LRIC y Post Brenhinol ac, ymysg pethau eraill, er mwyn asesu p'un ai a fyddai'n ddigon cadarn a dibynadwy i gael ei ddefnyddio yn y drefn rheoli gwasgfa elw. Mae'r prawf gwasgfa elw presennol yn berthnasol i'r berthynas rhwng prisiau post mynediad a gwasanaethau post swmp adwerthu'r Post Brenhinol. Nid oes yr un o'r rhain yn rhan o'r gwasanaeth post cyffredinol nac yn cynnwys targedau ansawdd gwasanaeth sy'n cael eu rheoleiddio.*
- A5.151 Dadleuodd y Post Brenhinol fod ymchwiliad Deddf Cystadleuaeth Ofcom i gynigion prisiau mynediad yn cyfyngu ar ei allu i ddefnyddio adnoddau masnachol er mwyn ymateb i'r her yn sgil dosbarthu uniongyrchol. Dywedodd y dylai Ofcom neilltuo ei adnoddau i'w waith ar brisiau mynediad a dosbarthu uniongyrchol, yn hytrach nag ymchwiliad y Ddeddf Cystadleuaeth.
- A5.152 *Mae ymchwiliad Deddf Cystadleuaeth Ofcom yn ymwneud â'r prisiau a nodwyd gan y Post Brenhinol ym mis Ionawr 2014. Y Post Brenhinol oedd yn gyfrifol am y penderfyniadau i ohirio'r newidiadau a nodwyd a'u tynnu'n ôl yn dilyn hynny, ac fe wnaeth hynny ar ôl i ni ddechrau ein hymchwiliad. Nid Ofcom oedd yn gyfrifol am orfodi dim un o'r penderfyniadau hyn.*
- A5.153 Dadleuodd y Post Brenhinol y dylai Ofcom ymgynghori ar y cod ymarfer ar ddiogelwch eitemau post a gweithdrefnau gweithredol cyffredin y gwasanaeth post. Roedd yn nodi y dylai'r holl gwmnïau gydymffurfio â'r un safonau diogelwch eitemau post. Nododd CWU y dylai Ofcom fynnu bod yr holl ddarparwyr dosbarthu uniongyrchol yn cofnodi a chyflwyno adroddiadau ar dargedau perfformiad.
- A5.154 Dywedodd Cyngor ar Bopeth a Citizens Advice Scotland y byddent yn poeni y gallai unrhyw ymgais i bennu safonau penodol ar gyfer gweithdrefnau gweithredol cyffredin a chodau diogelwch eitemau post arwain at safon 'cyfartaledd diwydiant' anffafriol.
- A5.155 *Mae'r Cynllun Blynyddol yn cynnwys adolygiadau o'r cod ymarfer ar ddiogelwch eitemau post a gwasanaethau ymdrin â chwynion a gwneud iawn yn y sector post. Er ein bod wedi bwriadu adolygu gweithdrefnau gweithredol cyffredin y gwasanaeth post (PCOP) yn wreiddiol, ar yr un pryd, rydym wedi penderfynu dod â'n gwaith ar PCOP i ben oherwydd cyfyngiadau adnoddau.*
- A5.156 Dywedodd y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau ei fod yn awyddus i wybod p'un ai a yw mwy o gystadleuaeth yn y farchnad parseli wedi achos anfantais i gwsmeriaid.
- A5.157 *Rydym wrthi'n cynnal adolygiad o'r datblygiadau yn y sector parseli, a fydd yn cynnwys ystyried profiad defnyddwyr. Mae'r prosiect diogelwch eitemau post hefyd yn adolygu perfformiad y sector parseli.*
- A5.158 Roedd MCF yn annog Ofcom i gydweithio â'r Grŵp Rheoleiddwyr Ewropeaidd ar gyfer Gwasanaethau Post (ERGP) wrth iddo ystyried y diffiniad o rwymedigaethau'r gwasanaeth post cyffredinol. Roedd yn pwysu ar Ofcom i ymgynghori â rhanddeiliaid yn y DU ynghylch sut y dylai sicrhau bod y gwasanaeth post cyffredinol yn bodloni anghenion rhesymol defnyddwyr yn y dyfodol.
- A5.159 *Mae Ofcom yn aelod gweithredol o ERGP ac mae ganddo gynrychiolwyr ar yr holl is-grwpiau sy'n gyfrifol am weithredu rhaglen waith ERGP (gan gynnwys y llif gwaith sy'n ystyried gweithredu a datblygu'r USO).*

Hyrwyddo gwell darpariaeth o wasanaethau sefydlog a symudol i gwsmeriaid preswyl a busnes

- A5.160 Dadleuodd Corfforaeth Dinas Llundain nad yw Ofcom wedi sicrhau bod modd i fusnesau bach a chanolig ynghyd â busnesau mwy yn Ninas Llundain gael gafael ar gyflymder digon uchel ar gyfer llwytho band eang sefydlog i lawr, a bod cost rhai gwasanaethau yn dal yn rhwystyr.
- A5.161 *Mae argaeledd cynnyrch band eang ac Ethernet sy'n addas ar gyfer anghenion BBaCh o fewn cwmipas prosiect presennol Ofcom ar asesu'r canlyniadau sy'n deillio o'r farchnad cyfathrebiadau ar gyfer BBaCh. Bwriedir cyhoeddi adroddiad cychwynnol yn Ch1 2015/16, a byddwn hefyd yn amlinellu'r gwaith y dylid ei gyflawni ar gyfer y dyfodol er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw faterion a godir. Mae darparu llinellau ar brydles (fel y defnyddir gan fusnesau mwy yn ogystal â llawer o fusnesau bach a chanolig) yn destun BCMR presennol Ofcom.*
- A5.162 Cynigiodd yr FSB y canlynol:
- creu strategaeth band eang cenedlaethol newydd i sicrhau cysylltedd cyffredinol ledled y DU;
  - codi 'trothwy isaf lefel gwasanaeth' ar gyfer cyflymder llwytho band eang i lawr o 10Mbit yr eiliad i 100Mbit yr eiliad erbyn 2030; a
  - blaenoriaethu parciau busnes ac ardaloedd menter wrth gyflwyno band eang ffibr.
- A5.163 Nododd y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau y dylai pob defnyddiwr a microfusnes gael gwasanaeth sylfaenol o 2Mbit yr eiliad, ond roedd yn credu'n gryf y dylid sicrhau bod cyflymder sylfaenol mwy priodol o 10Mbit yr eiliad ar gael i bawb.
- A5.164 Dywedodd CWU y dylai Ofcom geisio cyflwyno rhwymedigaeth gwasanaethau cyffredinol band eang statudol a nododd y dylid cael ymyriad cyhoeddus er mwyn mynd i'r afael â gwasanaethau llais sefydlog a symudol yn ogystal â manau digyswllt band eang.
- A5.165 Dadleuodd Mr J. P. Gilliver y dylai Ofcom wneud mwy i annog cwmnïau rhwydweithiau band eang sefydlog i ddarparu gwasanaethau sy'n cynnig cyflymder llwytho i lawr o 2Mbit yr eiliad neu uwch yn gyffredinol. Pwysleisiodd hefyd pa mor bwysig yw hybu mwy o gystadleuaeth rhwng darparwyr ym mhob rhanbarth.
- A5.166 *Er bod band eang sefydlog bellach ar gael i bron bob eiddo yn y DU, mae'r dechnoleg a'r cyflymder yn amrywio'n sylweddol. Mae modd i naw deg saith y cant o eiddo gael gwasanaeth band eang sylfaenol gyda chyflymder llwytho i lawr o 2Mbit yr eiliad neu uwch; gall 85% gael gwasanaeth safonol gyda chyflymder o 10Mbit yr eiliad neu uwch. Mae'r dystiolaeth a nodir yn [Adroddiad Seilwaith 2014](#) Ofcom yn awgrymu bod yr aelwyd gyffredin yn disgwyl cael cyflymder band eang o 10Mbit yr eiliad o leiaf erbyn hyn. Fe wnaethom awgrymu y dylai'r Llywodraeth ystyried diwygio'r Ymrwymiad Gwasanaeth Cyffredinol o 2Mbit yr eiliad er mwyn ei bennu ar y lefel hon. Mae'r Llywodraeth wedi nodi ei bwriad i ehangu'r Rhwymedigaethau Gwasanaeth Cyffredinol i fynnu cyflymder band eang sylfaenol o 5Mbit yr eiliad. Byddwn yn parhau i gefnogi ac ymgysylltu â'r Llywodraeth wrth iddi ddatblygu ei chynigion polisi ar gyfer Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol ar gyfer band eang.*

- A5.167 *Roedd ein Hadroddiad Seilwaith yn 2014 hefyd yn tynnu sylw at broblemau mannau di-gyswllt sefydlog a symudol fel maes y dylid mynd i'r afael ag ef ar y cyd â'r Llywodraeth a'r diwydiant. Mae'r data rydym yn ei gasglu ar gyfer yr adroddiad hwn yn dangos lle mae'r mannau di-gyswllt, sy'n hollbwysig er mwyn mynd i'r afael â nhw.*
- A5.168 Roedd Pwyllgor Cynghori Ofcom yng Ngogledd Iwerddon yn holi p'un ai a yw Ofcom yn gwneud digon i sicrhau bod mannau di-gyswllt band eang sefydlog yn cael eu llenwi.
- A5.169 *Yn Adroddiad Seilwaith 2014, fe wnaethom drafod problem benodol mannau di-gyswllt yng Ngogledd Iwerddon. Llinellau copr hir iawn sy'n cysylltu llawer o'r cartrefi hyn. Mae'r data rydym yn ei gasglu ar gyfer yr adroddiad hwn yn dangos lle mae'r mannau di-gyswllt, sy'n hollbwysig er mwyn mynd i'r afael â nhw a rhoi gwybodaeth i ddefnyddwyr. Mae ein mapiau ar-lein yn dangos data ar lefel cod post defnyddwyr o ran argaeledd band eang cyflym iawn. Rydym hefyd yn ymwybodol o waith Prosiect Gwella Band Eang yng Ngogledd Iwerddon (NIBIP), cynllun mewn ardaloedd penodol i ddarparu, i gynyddu neu i wella gwasanaethau band eang am y tro cyntaf. Dechreuodd y gwaith ym mis Chwefror 2014 a dylai ddod i ben ym mis Rhagfyr 2015.*
- A5.170 Nododd FSB y dylai Ofcom gynnal yr ymchwil a wnaeth i Adroddiad Seilwaith 2014 eto. Roedd yr ymchwil hwn yn canolbwyntio ar argaeledd gwasanaethau cyfathrebu ar gyfer BBaCh.
- A5.171 *Mae argaeledd amrywiaeth o wasanaethau cyfathrebu ar gyfer BBaCh yn fater pwysig. Ar hyn o bryd rydym wrthi'n pennu hyd a lled diweddariad eleni i Adroddiad Seilwaith 2014 ac rydym yn disgwyl gweld yr un fath eto o ran dadansoddiad o'r gwasanaethau sydd ar gael i fusnesau bach a chanolig.*
- A5.172 Cynigiodd Corfforaeth Dinas Llundain y dylai Ofcom adolygu anghenion gwahanol ardaloedd o ran buddsoddi yn y seilwaith band eang yn 2015/16, gan ystyried gofynion busnes lleol. Dywedodd y dylai Ofcom asesu i ba raddau y mae llinellau i gyflwyno'r gwasanaethau yn unig a dolenni lleol anhygyrch yn cyfyngu darpariaeth band eang cyflym iawn.
- A5.173 *Roedd Adroddiad Seilwaith 2014 yn mynd i'r afael ag argaeledd amrywiol gwasanaethau band eang cyflym iawn ar gyfer BBaCh ar hyd a lled y DU. Roedd yn dangos bod y broblem yn llawer gwaeth na honno sy'n wynebu defnyddwyr mewn rhai ardaloedd. Byddwn yn datblygu'r gwaith hwn ymhellach ac yn cynnal adroddiad a fydd yn dadansoddi'r farchnad ar gyfer darparu gwasanaethau i fusnesau bach a chanolig. Caiff yr adroddiad hwn ei gyhoeddi yn Ch1 2015/16. Byddwn hefyd yn cyflwyno rhagor o sylwadau ar hyn yn ein Diweddariad ar yr Adroddiad Seilwaith, y disgwylir ei gyhoeddi yn hydref 2015.*
- A5.174 Nododd Mr Ewan Sutherland nad oedd y Cynllun Blynyddol Drafft yn cynnwys llawer o waith o ran gwella argaeledd band eang sefydlog mewn ardaloedd gwledig.
- A5.175 Tynnodd Llywodraeth yr Alban sylw at argaeledd is band eang cyflym iawn yn yr Alban o'i gymharu â gweddill y DU. Rhoddodd bwyslais ar ba mor bwysig yw gwella hyn, a chyfeiriodd at y datblygiadau yn y farchnad darlledu megis y cynllun arfaethedig i gyflwyno BBC Three ar ei newydd wedd fel gwasanaeth ar-lein yn unig.



- A5.176 *Rydym yn cytuno ei bod yn bwysig mynd i'r afael ag argaeledd is band eang cyflym iawn yn yr Alban (yn ogystal ag ardaloedd eraill nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol), yn enwedig wrth i ragor o wasanaethau symud ar-lein. Nodwn fod rhaglen BDUK yn anelu at sicrhau darpariaeth band eang cyflym iawn o 95% ym mhob ardal awdurdod lleol, ac y bydd hynny'n cael ei gyflwyno tan 2017. Mae mynd i'r afael â'r 5% sy'n weddill yn dal yn her. Mae'r Llywodraeth yn ystyried dewisiadau technegol gyda'r diwydiant, gyda phrosiect profi gwerth £100m.*
- A5.177 *Mae Llywodraeth yr Alban wedi buddsoddi £7.5 miliwn er mwyn helpu i osod band eang cyflym iawn mewn ardaloedd o'r Alban nad ydynt yn rhan o'r cynlluniau cyflwyno presennol ac mae wedi darparu Cronfa Gychwyn er mwyn helpu cymunedau gyda'r costau sydd ynghlwm wrth sefydlu prosiectau dan arweiniad y gymuned leol er mwyn cael gafael ar wasanaethau band eang cyflym iawn.*
- A5.178 Dywedodd Vodafone nad yw Ofcom wedi cyhoeddi Adroddiadau blynyddol o Brofiadau Cwsmeriaid Busnes. Dadleuodd nad yw ffocws Ofcom ar fesurau i wella profiadau defnyddwyr o sectorau cyfathrebiadau yn mynd i'r afael ag anghenion cwsmeriaid busnes yn ddigonol.
- A5.179 *Mae cyflawni gwaith ar fusnesau bach a chanolig yn un o feysydd blaenoriaeth Ofcom yn 2015. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio ar brosiect manwl a fydd yn ystyried p'un ai a yw'r farchnad cyfathrebiadau yn darparu canlyniadau da i fusnesau bach a chanolig o ran argaeledd, dewis a phris gwasanaethau cyfathrebu, gan gynnwys gwasanaethau llais sefydlog a symudol, a gwasanaethau data. Bydd hyn yn ategu'r BCMR. Yn 2014 fe wnaethom gyhoeddi adroddiad helaeth ar brofiadau defnyddwyr BBaCh; fe wnaethom lansio porth gwe newydd a oedd yn cynnwys cyngor i'r holl fusnesau; fe wnaethom gyflwyno adroddiad ar ddatblygiad gwasanaethau yn Adroddiad Seilwaith 2015; yn ogystal â chyhoeddi cais am fewnbwn er mwyn casglu safbwyntiau rhanddeiliaid ar gyfer ein hadolygiad o fusnesau bach a chanolig.*
- A5.180 Dadleuodd BT fod y gwaith o fodloni'r Amodau Cyffredinol ar gyfer cynnig gwasanaethau i fusnesau bach a chanolig yn cael ei gymhlethu o wybod beth yw maint rhai cwsmeriaid busnes.
- A5.181 *Nod Amodau Cyffredinol Ofcom yw sicrhau bod defnyddwyr preswyl a busnes yn cael eu hamddiffyn yn briodol rhag niwed posibl. Mewn rhai achosion mae'r mesurau amddiffyn yn amrywio rhwng defnyddwyr busnesau bach a defnyddwyr busnesau mwy. Rydym yn gwerthfawrogi bod hyn yn golygu bod yn rhaid i ddarparwyr ddeall faint o gwsmeriaid sydd gan eu BBaCh a'i bod yn anodd bod yn siŵr o hyn ar adegau. Mae Ofcom wedi dweud y bydd yn fwy pragmataidd a hyblyg wrth wirio rhaglenni gorfodi a monitro cydymffurfiaeth yng nghyswllt y gofynion hyn ac rydym yn croesawu adborth ar y mater hwn.*
- A5.182 *Yn y gorffennol rydym wedi cyhoeddi [arweiniad](#) ar ein hagwedd at gydymffurfiaeth yn ein datganiad ar wahardd contractau a adnewyddir yn awtomatig ar gyfer cwsmeriaid preswyl a busnesau bach.*
- A5.183 Gofynnodd Pwyllgor Cynghori Ofcom yng Ngogledd Iwerddon beth yw rôl Ofcom pan nad yw cystadleuaeth yn galluogi nifer sylweddol o ddinasyddion i fynd ar-lein (e-gynhwysiant) a chael gafael ar wasanaethau ar-lein y Llywodraeth.
- A5.184 *Weithiau mae'n bosibl y bydd argaeledd band eang yn rhwystr i fanteisio ar wasanaethau'r rhyngwlad ac felly'n rhwystr i ddefnyddio gwasanaethau ar-lein y Llywodraeth. Mae band eang ar gael ym mhob cwr o'r DU mwy neu lai, ond mae'r*

*cyflymderau'n amrywio'n sylweddol. Rydym yn amcangyfrif nad oedd modd i tua 7% o gartrefi yng Ngogledd Iwerddon gael band eang sefydlog gyda chyflymder o 2Mbit yr eiliad neu uwch ym mis Mehefin 2014. Ledled y DU, nid oes modd i tua 15% o gartrefi gael cyflymder o 10Mbit yr eiliad neu uwch. Dangosodd tystiolaeth yn ein Hadroddiad Seilwaith yn 2014 y bydd cyflymder o dan y lefel hon yn effeithio'n wael ar y galw am fand eang.*

- A5.185 *Pan fydd economeg rhwydweithiau'n golygu nad yw'r farchnad yn gwasanaethu rhannau o'r DU yn llawn, mae'n bosibl y bydd Ofcom neu'r Llywodraeth yn ymyrryd er mwyn hyrwyddo buddiannau defnyddwyr a dinasyddion. Mae pwy sy'n cymryd camau, a sut, yn dibynnu ar y dulliau sydd ar gael. Er enghraifft, mae Ofcom wedi canolbwyntio ar wella darpariaeth symudol drwy atodi rhwymedigaethau darpariaeth at drwyddedau symudol. Mae'r Llywodraeth wedi ymyrryd er mwyn gwella darpariaeth rhwydweithiau symudol a band eang cyflym iawn drwy ddefnyddio arian cyhoeddus er mwyn rhoi cymhorthdal i'r broses gyflwyno ehangach. Mae Gogledd Iwerddon yn elwa o gynlluniau band eang parhaus sy'n cael eu cyflwyno dan arweiniad yr Adran Menter, Masnach a Buddsoddi. Mae gennym amcan penodol yn ein Cynllun Blynyddol er mwyn cefnogi'r cynlluniau hyn.*
- A5.186 Dadleuodd Corfforaeth Dinas Llundain a South West Internet CiC fod y ffaith nad yw BT yn datgelu eu cynlluniau cyflwyno ar gyfer y dyfodol yn atal cwmnïau eraill rhag buddsoddi mewn band eang cyflym iawn. Dadleuodd y dylai Ofcom fynnu bod BT yn datgelu lle na fydd yn darparu ffibr neu gyflymder digon uchel.
- A5.187 *Gan nad oes yn rhaid i BT ddarparu gwasanaeth band eang ar lefel benodol mewn unrhyw leoliad, ar hyn o bryd nid oes modd i Ofcom fynnu bod BT yn nodi lle na fydd yn darparu gwasanaethau band eang cyflym iawn. Mater i'r Llywodraeth yw cwmpas ac i ba raddau y bydd BT yn defnyddio prosiectau a ariennir gan BDUK, er y bydd Ofcom yn parhau i gyhoeddi gwybodaeth am argaeledd band eang cyflym iawn.*
- A5.188 Dywedodd Corfforaeth Dinas Llundain a South West Internet CiC y dylai Ofcom ystyried cyflwyno rhwymedigaethau i Openreach o ran cyflwyno band eang sefydlog cyflym iawn.
- A5.189 *Gan nad oes Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol ar gyfer band eang cyflym iawn ar hyn o bryd, a bod prosesau cyflwyno'r prosiect ymyriadau masnachol a chyhoeddus dal i fynd rhagddynt, nid yw'n bosibl gorfodi rhwymedigaethau o ran darpariaeth na gwasanaethau fel hyn ar hyn o bryd. Fodd bynnag, fel y nodir yn Adroddiad Seilwaith 2014, rydym yn credu y dylai'r Llywodraeth ystyried ailbennu lefel ei Hymrwymiad Gwasanaeth Cyffredinol, sy'n rhan allweddol o'i pholisi er mwyn sicrhau darpariaeth gwasanaeth band eang effeithiol.*
- A5.190 Dadleuodd Corfforaeth Dinas Llundain a South West Internet CiC fod y ffaith nad yw BT yn datgelu eu cynlluniau cyflwyno ar gyfer y dyfodol yn atal cwmnïau eraill rhag buddsoddi mewn band eang cyflym iawn. Dadleuodd y dylai Ofcom fynnu bod BT yn datgelu lle na fydd yn darparu ffibr neu gyflymder digon uchel.
- A5.191 *Gan nad oes yn rhaid i BT ddarparu gwasanaeth band eang ar lefel benodol mewn unrhyw leoliad, nid oes modd i Ofcom ar hyn o bryd fynnu bod BT yn nodi lle na fydd yn darparu gwasanaethau band eang cyflym iawn. Mater i'r Llywodraeth yw cwmpas ac i ba raddau y bydd BT yn defnyddio'r prosiectau ymyriadau a ariennir gan BDUK, er y bydd Ofcom yn parhau i gyhoeddi gwybodaeth am argaeledd.*

- A5.192 Dywedodd South West Internet CiC nad yw dadansoddiad Ofcom o argaeledd band eang yn adlewyrchu data cwsmeriaid mewn ardaloedd gwledig sy'n cael band eang o ansawdd gwael yn ddigonol. Dadleuodd hefyd y dylai Ofcom ymchwilio i gontractau buddsoddiadau band eang cyflym iawn sy'n cael eu dyfarnu i BT.
- A5.193 *Byddwn yn parhau i gyhoeddi data am argaeledd a pherfformiad band eang, yn unol â'r hyn a nodir yn Adroddiad Seilwaith 2014. Mae'r data yn tynnu sylw at y gwahaniaethau rhwng ardaloedd daearyddol. Rydym yn ystyried hyn yn ddull pwysig i lunwyr polisi a defnyddwyr. Byddwn yn ceisio gwella manylder y data a pha mor berthnasol ydyw i brofiadau tybiedig defnyddwyr, gan adeiladu ar y gwaith y gwnaethom ymgymryd ag ef gydag Actual Experience ac a gyhoeddwyd yn Adroddiad Seilwaith 2014.*
- A5.194 *Mater i'r Llywodraeth yw dyfarnu contractau yn unol â chynllun BDUK.*
- A5.195 Nododd EE a Vodafone y dylai Ofcom weithio gyda'r Llywodraeth er mwyn diwygio'r Cod Cyfathrebu Electronig. Dywedodd Vodafone y dylai'r Llywodraeth ganiatáu hawliau cliriach i gwmnïau rhwydweithiau symudol er mwyn iddynt gael mynediad ar unwaith at safleoedd er mwyn trwsio a'u cynnal a'u cadw, yn ogystal ag er mwyn uwchraddio'r seilwaith, heb wynebu costau ychwanegol.
- A5.196 Nododd Vodafone fod cwmnïau rhwydweithiau symudol yn talu mwy o rent am safleoedd na darparwyr seilwaith allweddol eraill. Cynigiodd y dylai Ofcom weithio gyda'r Llywodraeth i gyflwyno hawliau i gwmnïau rhwydweithiau symudol gael mynediad ar unwaith at seilwaith y rhwydwaith er mwyn gwneud gwaith cynnal a chadw a thrwsio.
- A5.197 *Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi'r cynigion ar gyfer diwygio'r Cod Cyfathrebiadau Electronig bellach, ac mae cyfle arall i randdeiliaid gyflwyno eu sylwadau drwy ymgynghoriad a fydd yn dod i ben ddiwedd Ebrill.<sup>11</sup>*
- A5.198 Roedd y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau yn argymhell y dylid monitro cynnydd cwmnïau symudol yn ofalus yn erbyn gofynion darpariaeth 4G ac y dylid eu hannog i ddatblygu cynlluniau wrth gefn pan fydd perygl y bydd y ddarpariaeth yn wael. Roedd hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd monitro datblygiadau yn y farchnad a allai effeithio ar y ddarpariaeth, megis rhaglenni sy'n lleihau nifer y mastiau. Dywedodd Which? y dylai Ofcom bennu cosbau ariannol os bydd cwmnïau symudol yn methu bodloni eu hymrwymiaid darpariaeth y cytunwyd arnynt gyda'r Llywodraeth erbyn 2017.
- A5.199 *Mae gennym raglen waith weithredol ar waith er mwyn monitro darpariaeth symudol ac rydym yn chwilio am ffyrdd o wella'r wybodaeth rydym yn ei darparu i ddefnyddwyr. O ran y cwestiwn penodol ynghylch rhwymedigaeth darpariaeth 4G, byddwn yn asesu i ba raddau y mae O2 yn cydymffurfio â'i rwymedigaeth ar ddiwedd 2017 fel y nodir yn nhrwydded O2. Yna byddwn yn asesu'r mesurau cywir y byddwn eu cymryd oni fyddant yn cydymffurfio erbyn hynny.*
- A5.200 O ran aiddyrannu'r sbectrwm (h.y. 700MHz), nododd Llywodraeth Cymru y byddai'n croesawu petai'r Cynllun Blynyddol yn cyfeirio at orfodi targedau ar gyfer darpariaeth symudol ddaearyddol, gan gynnwys targedau penodol ar gyfer y gwledydd.

<sup>11</sup> Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, *Reforming the Electronic Communications Code*, Chwefror 2015, <https://www.gov.uk/government/consultations/consultation-on-reforming-the-electronic-communications-code>.

A5.201 *Rydym yng ngham cynnar y broses clirio 700MHz. Byddwn yn ystyried pa mor briodol yw rhwymedigaethau darpariaeth genedlaethol a rhanbarthol maes o law.*

#### Ymatebion eraill i faterion yn ymwneud â chyfranogiad

A5.202 Nododd BT a KCOM y dylai Ofcom adolygu'r rhwymedigaethau gwasanaeth cyffredinol yng ngoleuni datblygiadau yn y farchnad. Yn benodol, gwnaethant ddweud y dylai ymrwymadau i ddarparu ffonau talu gael eu hadolygu oherwydd y fath niferoedd o ffonau symudol sy'n cael eu defnyddio erbyn hyn.

A5.203 Dywedodd EE a BT y dylai Ofcom ymgysylltu â'r Comisiwn Ewropeaidd wrth iddo ystyried cwmpas y Gyfarwyddeb Gwasanaeth Cyffredinol. Dadleuai BT a KCOM y dylai Ofcom adolygu addasrwydd y rhwymedigaethau gwasanaeth cyffredinol y maent yn ddarostyngedig iddynt, yn enwedig y rheini sy'n ymwneud â darparu ffonau talu. Cynigiodd Solitaire Payphones y byddai modd i'r rhwymedigaethau gwasanaeth cyffredinol o ran darparu ffonau talu gael eu bodloni'n rhannol drwy ddarparu ffonau talu o dan do mewn lleoliadau sy'n cael eu goruchwyllo.

A5.204 *Dechreuodd y Comisiwn ei adolygiad cyfnodol mwyaf diweddfaf o'r Rhwymedigaethau Gwasanaeth Cyffredinol yn Ch1 2014 gyda holiadur i awdurdodau rheoleiddio cenedlaethol a oedd yn delio â nifer o faterion, yn cynnwys:*

- *cyfrifo cost;*
- *ceisiadau a gafwyd i'r Rhwymedigaethau Gwasanaeth Cyffredinol fod yn berthnasol i wasanaethau gwahanol;*
- *mesur meini prawf fforddiadwyedd; a*
- *gofynion ar gyfer defnyddwyr anabl.*

A5.205 *Mae'r ymarfer hwnnw wedi dod i ben bellach ac rydym yn disgwyl adroddiad gan y Comisiwn yn edrych ar gwmpas y Rhwymedigaethau Gwasanaeth Cyffredinol ac a yw'r gwasanaethau o dan y Rhwymedigaethau yn ymateb i anghenion presennol y farchnad. Bydd y Comisiwn yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos ar yr adroddiad hwnnw ddechrau 2015 ac mae wedi dweud y bydd yn cyhoeddi ei gasgliadau erbyn diwedd 2015.*

A5.206 *Bydd gan Ofcom ran yn y gwaith o lunio unrhyw farn a gaiff ei chyflwyno gan BEREK ar unrhyw adroddiad gan y Comisiwn ac unrhyw gynigion y bydd yn eu cyflwyno, ac efallai hefyd y bydd yn cyflwyno'i farn ei hun. Rydym yn disgwyl y byddai unrhyw ddiwygiadau i'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyffredinol y gallai'r Comisiwn eu cynnig gael eu datblygu yng nghyd-destun yr Adolygiad ehangach o'r Fframwaith, y disgwyliwn i'r Comisiwn ei lansio gyda phapur gwyrdd / gwyn ddiwedd 2015 neu ddechrau 2016.*

A5.207 *Ar y lefel genedlaethol, bydd Ofcom yn parhau i fonitro'r ddarpariaeth Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol drwy'r amodau penodol sydd ar BT a Kingston Communications. Fel rhan o hyn, byddwn yn ystyried yr achos dros adolygu gweithrediad ac effeithiolrwydd yr Amod a darpariaethau cysylltiedig manwl yn ymwneud â blychau ffonio cyhoeddus.*

- A5.208 Cynigiodd BT y dylai Ofcom arwain dadl ar sut a phryd y dylai'r DU roi'r gorau i ddefnyddio'r rhwydwaith ffôn switsio cyhoeddus (PSTN) a rhoi'r gorau yn y pen draw i wasanaethau llais TDM.
- A5.209 *Rydym eisoes yn cysylltu â nifer o ddarparwyr cyfathrebiadau yng nghyswllt eu cynlluniau i symud o'r hen systemau PSTN llais at dechnolegau mwy diweddar. Rydym yn bwriadu cyhoeddi cais am fewnbnw yn Ch1 2015/16 gan wahodd rhanddeiliaid i gyflwyno'u safbwyntiau am y materion technegol allweddol a all godi o ganlyniad i symud gwasanaethau llais o rwydweithiau etifeddol i rwydweithiau'r genhedlaeth nesaf.*
- A5.210 Mynegodd unigolyn bryder am ansawdd isdeitlau byw, dal-i-fyny a Fideo ar Alwad, yn ogystal â gwasanaethau i gwsmeriaid ynghylch isdeitlo.
- A5.211 *Mae Ofcom yn cydnabod pwysigrwydd isdeitlau o ansawdd da ar gyfer y gwylwyr hynny sy'n dibynnu ar y gwasanaeth i weld rhaglenni teledu. Yn gyffredinol, mae Ofcom yn teimlo bod ansawdd isdeitlau ar gyfer rhaglenni sydd wedi'u recordio ymlaen llaw ar y teledu yn dda, a bod hyn yn wir am isdeitlau rhaglenni sydd wedi'u recordio ymlaen llaw sy'n cael eu darparu ar gyfer gwasanaethau dal-i-fyny ac ar alwad. Ond, teimla Ofcom fod lle i wella ansawdd isdeitlau byw ac mae wedi rhoi cychwyn ar brosiect dwy flynedd i annog darlledwyr i wneud gwelliannau. Bydd yn parhau i weithio ar hyn yn ystod 2015.*
- A5.212 Roedd y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau yn croesawu'r ffaith bod gwasanaeth cyfnewid testun y genhedlaeth nesaf yn cael ei ddarparu. Roedd yn pwysleisio pwysigrwydd monitro gweithrediad y gwasanaeth newydd a phrofiad y defnyddiwr ohono i sicrhau ei fod yn arwain at y gwelliannau a ddymunir.
- A5.213 *Mae Ofcom yn cytuno bod monitro perfformiad gwasanaeth cyfnewid testun y genhedlaeth nesaf yn elfen bwysig o'i roi ar waith. Bwriadwn gynnal ymchwil ymysg defnyddwyr (meintiol ac ansoddol) gyda'r bwriad penodol o gyflawni hyn, a rhagwelir y bydd hyn yn dechrau yn fuan yn y flwyddyn ariannol newydd.*
- A5.214 Roedd y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau yn annog Ofcom i wneud mwy i annog cyfranogiad digidol, gan ddadlau bod Ofcom wedi canolbwyntio gormod ar argaeledd gwasanaethau cyfathrebiadau. Cynigiodd y CWU y dylai Ofcom wneud mwy i annog e-lythrennedd, yn arbennig yng nghyswllt pobl hŷn a phobl fregus. Gofynnodd y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau pam nad yw gwaith Ofcom i hyrwyddo cynhwysiant digidol fel petai'n canolbwyntio ar y DU i gyd.
- A5.215 *Mae gan Ofcom ddyletswydd i hyrwyddo llythrennedd yn y cyfryngau. Rydym yn gwneud hyn drwy lunio ymchwil manwl a chyflwyno'r ymchwil hwnnw i amrywiaeth eang o randdeiliaid. Mae ein hymchwil yn cwmpasu amrywiaeth o faterion gan gynnwys gweithgareddau ac agweddau pobl ar-lein, yn ogystal â gofyn pam nad yw pobl yn mynd ar-lein. Mae ein harolygon meintiol ar lythrennedd yn y cyfryngau yn rhoi sylw i bobl dros 75 oed a gallwn hefyd ddarparu ystadegau ar elfennau demograffig eraill. Mae ein gwaith yn cwmpasu gwledydd y DU a hefyd yn rhoi darlun ar gyfer y DU i gyd.*
- A5.216 Roedd Llywodraeth Cymru yn argymhell y dylai Ofcom fonitro lefelau llythrennedd yn y cyfryngau yn ôl yr iaith a siaredir, gan sicrhau dulliau casglu data cadarn ymysg siaradwyr Cymraeg. Dywedodd y gallai Ofcom hyrwyddo cynhwysiant ac ymgysylltiad drwy weithio gyda chylchgronau cymunedol Cymraeg lleol a darparu trwyddedau darlledu radio i gymunedau o ddefnyddwyr Twitter.

- A5.217 *Mae maint y sampl ar gyfer ymchwil Ofcom i lefelau llythrennedd yn y cyfryngau yng Nghymru yn rhy fach i ddarparu data dibynadwy ar lefelau llythrennedd yn y cyfryngau ymysg siaradwyr Cymraeg. Nid yw cynyddu maint y sampl i lefel a fyddai'n darparu'r cyfryw wybodaeth yn bosibl oherwydd cyfyngiadau adnoddau.*
- A5.218 *Nid yw darparu hyfforddiant ac adnoddau i gylchgronau cymunedol yn rhan o gylch gwaith Ofcom. Dyfernir trwyddedau radio fel rhan o brosesau trwyddedu statudol, e.e. pan wahoddir cyrff i wneud ceisiadau am drwyddedau radio cymunedol neu pan hysbysebir trwyddedau masnachol.*
- A5.219 *Dywedodd Llywodraeth Cymru fod gwaith Ofcom yn annog llythrennedd yn y cyfryngau fel petai'n canolbwyntio ar ddiogelwch plant ac y gellid ei ymestyn i ddysgu sgiliau i blant, fel codio er enghraifft.*
- A5.220 *Er bod ein Cynllun Blynyddol yn ymdrin â'n gwaith ar fater diogelwch plant, mae ein rhaglen ymchwil ar lythrennedd yn y cyfryngau yn ehangach na hyn. Mae'n monitro i ba raddau y mae plant yn dysgu codio yn yr ysgol, a sut maent yn defnyddio ac yn meddwl am amrywiaeth o gynnwys a gwasanaethau eraill.*
- A5.221 *Roedd Vodafone yn annog Ofcom i gefnogi gwaith Sefydliad Tinder i hyrwyddo ymgysylltiad a chynhwysiant digidol.*
- A5.222 *Roedd UKCTA yn annog Ofcom i beidio â chyflwyno rhagor o reoleiddio yng nghyswllt gwasanaethau rhynggrwyd er mwyn gwella lefelau ymddiriedaeth defnyddwyr.*
- A5.223 *Mae Ofcom wedi ymrwymo i weithio gyda rhanddeiliaid i godi ymwybyddiaeth am faterion yn ymwneud â chynhwysiant digidol, yn arbennig drwy ein hamrywiol gyhoeddiadau ymchwil ar lythrennedd yn y cyfryngau Rydym yn aelod o weithgor cynhwysiant digidol Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth, a'i fwriad yw penderfynu ar y ffordd orau o fesur cynhwysiant. Rydym yn siarad yn rheolaidd mewn cynadleddau a seminarau i ddarparu sylfaen dystiolaeth ar gyfer trafodaeth. Rydym hefyd yn cynnal digwyddiadau ymchwil rheolaidd sy'n dod ag asiantaethau cyhoeddus, y Llywodraeth, diwydiant ac academyddion at ei gilydd i rannu eu hymchwil yn y maes hwn. Rydym yn cyhoeddi [bwletin ar lythrennedd yn y cyfryngau](#) bob chwarter sy'n casglu gwybodaeth am gynlluniau a phrosiectau ym maes llythrennedd yn y cyfryngau.*

## **Sicrhau y gwneir y defnydd gorau posibl o sbectrwm**

Gweithio tuag at sicrhau bod sbectrwm yn cael ei ryddhau'n brydlon a'i ddyfarnu'n effeithiol, gan gynnwys y bandiau 2.3GHz, 3.4GHz a 700MHz

- A5.224 *Roedd Cydffederasiwn y Diwydiannau Erialaidd (CAI) yn dadlau nad oedd rhyddhau sbectrwm amledd uchel iawn ar gyfer defnydd band eang symudol er budd y nifer mwyaf o ddefnyddwyr sbectrwm. Pan fydd gwasanaethau teledu daearol digidol yn cael eu symud, cynigiodd y dylai Ofcom gefnogi'r safonau a'r manylebau ar gyfer derbynyddion y byddai'r Cydffederasiwn yn eu gweithredu.*
- A5.225 *Yn ddiweddar, rydym wedi penderfynu newid defnydd y sbectrwm UHF rhwng 694MHz a 790MHz (y 'band 700MHz') o deledu daearol digidol (DTT) a'r sector gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig (PMSE) i ddata symudol. Penderfynwyd gwneud hyn ar ôl cynnal dadansoddiad cost a budd manwl a ddangosodd y byddai'r newid yn darparu buddion net sylweddol i ddinasyddion a defnyddwyr. Bwriadwn sicrhau na fydd y newid hwn yn effeithio'n sylweddol ar y*

*ddarpariaeth DTT na'r sianeli sydd ar gael ac y byddwn yn osgoi tarfu'n sylweddol ar wylwyr. Mae ein dadansoddiad yn dangos y byddwn yn gallu cyflawni hyn.*

- A5.226 *Nid oes gan Ofcom bwerau rheoleiddio o gwbl dros erialau na chyfarpar domestig ond rydym yn parhau i gefnogi'r cynlluniau gan Gydffederasiwn y Diwydiannau Erialau (CAI) a chyrrff eraill yn y diwydiant i sefydlu safonau priodol ar gyfer erialau.*
- A5.227 *Roedd Grŵp Radio Diwydiant Adloniant Prydain (BEIRG) yn cynnig y dylai Ofcom adolygu a allai rhanddeiliaid fel cwmnïau rhwydweithiau symudol ddefnyddio eu sbectrwm presennol yn fwy effeithiol, yn ogystal ag effaith dadlwytho data drwy sbectrwm heb ei drwyddedu, cyn iddo ddyrannu sbectrwm ychwanegol ar gyfer data symudol.*
- A5.228 *Dywedodd BEIRG hefyd y dylai Ofcom ymrwymo i ailddyrrannu sbectrwm pwrpasol i ddefnyddwyr PMSE cyn symud ymlaen i ailddyrrannu'r band 700MHz. Roedd yn cynnig y dylai Ofcom gynnal dadansoddiad annibynnol o'r galw a ragwelir am ddata symudol hyd at 2020. Roedd yn cwestiynu cadernid yr amcanestyniadau ar gyfer y defnydd o ddata symudol y mae Ofcom wedi'u defnyddio. Roedd hefyd yn cynnig y dylai Ofcom geisio sicrhau bod gwasanaethau sefydlog a Wi-Fi yn cael eu defnyddio i ateb y galw am ddata symudol.*
- A5.229 *Rydym yn ystyried yr holl opsiynau ar gyfer sbectrwm arall y gallai cymwysiaidau PMSE ei ddefnyddio. Ar hyn o bryd rydym yn cynnal adolygiad strategol o ofynion sbectrwm y sector PMSE i'r dyfodol (adolygiad PMSE) ac rydym yn gobeithio pennu cyfleoedd newydd i rannu sbectrwm ar gyfer defnyddwyr PMSE sain. Nid ydym yn credu bod y byddai oedi cyn gwneud ein penderfyniad i ddarparu'r band 700MHz ar gyfer band eang symudol er budd gorau dinasyddion a defnyddwyr. A hynny oherwydd credwn y byddai'r gost o beidio â bwrw ymlaen â newid y defnydd o'r band yn rhy uchel.*
- A5.230 *Rydym yn rhagweld hefyd y byddwn yn cwblhau'r adolygiad PMSE yn 2015, a ddylai roi digon o amser i weithgynhyrchwyr ddatblygu cyfarpar PMSE newydd a'i gyflwyno yn y farchnad. Nid ydym yn bwriadu comisiynu rhagor o waith i ddadansoddi'r galw tebygol am ddata symudol. Rydym yn monitro tueddiadau yn y galw am ddata symudol ac rydym yn parhau i ddatblygu a mireinio ein barn yn gyson am y twf yn y dyfodol.*
- A5.231 *Dywedodd Three y dylai Ofcom lunio ymrwymiad newydd i gystadleuaeth deg ac agored ym marchnad sbectrwm y DU drwy'r tri arwerthiant sbectrwm sy'n cael eu cynllunio ar hyn o bryd. Dadleuai dros ddefnyddio capiau sbectrwm yn yr arwerthiannau sydd ar y gweill, ar gyfer cyfanswm y daliadau sbectrwm a sbectrwm amledd isel, ar yr un lefelau ag a ddefnyddiodd Ofcom yn yr arwerthiant 4G yn 2013.*
- A5.232 *Roedd BT yn pwysu ar Ofcom i sicrhau na fydd arwerthiannau sbectrwm 2.3GHz a 3.4GHz yn achosi problemau technegol ehangach ar gyfer defnyddwyr sbectrwm.*
- A5.233 *Byddwn yn ystyried rhagor ar yr ymatebion hyn. Rydym yn disgwyl cyhoeddi datganiad ar ddyfarnu'r bandiau 2.3GHz a 3.4GHz yn y man.*
- A5.234 *Dadleuai'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau y dylid rhoi blaenoriaeth i anghenion defnyddwyr wrth ddatblygu polisi yn y maes hwn a lleisiodd bryderon mai pobl ar incwm isel a phobl fregus o bosibl fydd yn dioddef fwyaf yn sgil y newidiadau i'r band 700MHz. Roedd y Panel yn annog Ofcom i ddatblygu cynlluniau wrth gefn er mwyn lleihau'r perygl hwn.*

- A5.235 *Mae ein dadansoddiad yn awgrymu y byddwn yn gallu clirio'r band 700MHz heb leihau'r ddarpariaeth teledu daearol digidol yn ormodol na'r sianelau sydd ar gael a heb achosi ymyrraeth sylweddol i wylwyr. Dros y flwyddyn nesaf byddwn yn gweithio gyda'r Llywodraeth, y diwydiant a grwpiau defnyddwyr i ddatblygu cynllun i sicrhau bod gwylwyr yn derbyn gwybodaeth briodol a chefnogaeth yn ystod y trawsnewid. Un rhan o'r maes hwn y byddwn yn canolbwyntio arno fydd rhoi sylw i anghenion gwylwyr bregus.*
- A5.236 Dadleuai Mr J P Gilliver y dylai Ofcom ystyried y gost ychwanegol i ddefnyddwyr o gael gafael ar wasanaethau teledu ar yr awyr am ddim dros fand eang wrth ystyried ailddyrrannu'r band sbectrwm symudol 700MHz i gwmnïau symudol. Teimlai bod defnyddwyr teledu daearol digidol o bosibl wedi cael eu tangynrychioli yn ystod ymgynghoriad Ofcom ar y pwnc hwn.
- A5.237 *Yn ddiweddar, penderfynasom newid defnydd y sbectrwm UHF rhwng 694MHz a 790MHz (y 'band 700MHz') o deledu daearol digidol (DTT) a'r sector gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig (PMSE) i ddata symudol. Penderfynwyd gwneud hyn ar ôl cynnal dadansoddiad cost a budd manwl a ddangosodd y byddai'r newid yn darparu buddion net sylweddol i ddinasyddion a defnyddwyr. Bwriadwn sicrhau na fydd y newid hwn yn effeithio'n sylweddol ar y ddarpariaeth DTT na'r sianeli sydd ar gael ac y byddwn yn osgoi tarfu'n sylweddol ar wylwyr. Mae ein dadansoddiad yn dangos y byddwn yn gallu cyflawni hyn.*
- A5.238 *Rydym yn disgwyl y bydd gweddill y sbectrwm UHF y mae teledu daearol digidol yn ei ddefnyddio (470-694MHz) yn dal yn bwysig ar gyfer y diben hwnnw am flynyddoedd. Nid ydym yn rhagweld y bydd teledu daearol digidol yn cael ei ddiffodd tan o leiaf 2030.*

#### Cynrychioli safbwynt y DU mewn trafodaethau rhyngwladol i gytuno ar sut mae defnyddio sbectrwm yn effeithiol

- A5.239 Dywedodd BT y dylai Ofcom barhau i geisio dylanwadu ar awdurdodau a fforymau rheoli sbectrwm rhyngwladol er budd y DU: er enghraifft, yr ITU, CEPT, y Comisiwn Ewropeaidd a BEREC. Yn benodol, pwysleisiodd pa mor bwysig yw hybu cysondeb ac arferion gorau yn sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd a BEREC o ran darpariaethau gwasanaethau mynediad cyfanwerthol. Roedd yn annog Ofcom i weithio i sicrhau nad yw gwahaniaethau rhwng trefniadau rheoleiddio cenedlaethol yn niweidio cystadleurwydd cwmnïau cyfathrebiadau'r DU dramor.
- A5.240 *Bydd Ofcom yn parhau i gymryd rôl weithredol mewn fforymau rhyngwladol ac Ewropeaidd perthnasol er mwyn hybu buddiannau'r DU a dylanwadu ar ganlyniadau yn unol ag anghenion defnyddwyr a dinasyddion y DU. Dros y flwyddyn nesaf yn benodol byddwn yn ceisio diogelu amcanion y DU yng Nghynhadledd Radio'r Byd ym mis Tachwedd 2015. Byddwn yn ymgysylltu'n agos â sefydliadau Ewropeaidd perthnasol ar nifer o faterion, gan gynnwys adolygiad a ragwelir o'r fframwaith cyfathrebiadau electronig. Bydd Ofcom yn parhau i weithio'n agos gyda rhanddeiliaid i fwrw ymlaen â'r gweithgareddau hyn.*
- A5.241 Roedd BT yn annog Ofcom i wneud gwaith i sicrhau bod deddfwriaeth yr UE ar niwtraliaeth y rhyngrwyd yn synhwyrol, yn deg ac wedi'i chyfyngu i'r meysydd lle mae hynny'n angenrheidiol er mwyn gwarchod buddiannau defnyddwyr. Cynigiodd Three y dylai Ofcom geisio sicrhau bod unrhyw fframwaith ar gyfer niwtraliaeth y rhyngrwyd yn galluogi cwmnïau rhwydweithiau symudol i reoli eu rhwydweithiau'n effeithlon.



- A5.242 *Mae Ofcom yn ymgysylltu'n rhagweithiol â Llywodraeth y DU, ein cymheiriaid rheoleiddio yn Ewrop a rhanddeiliaid eraill i ddarparu mewnbwn ar y pecyn Cyfandir wedi'i Gysylltu o ran Niwtraliaeth y Rhynggrwyd. Rydym yn gweithio i sicrhau bod unrhyw reolau newydd yn ymarferol ac yn unol ag arferion rhwydweithio da, nad ydynt yn tanseilio'r arloesedd sydd wedi creu gwerth enfawr y rhynggrwyd fel y mae heddiw, a'u bod yn darparu amddiffyniadau priodol i ddefnyddwyr.*
- A5.243 Cynigiodd BT hefyd y dylai Ofcom weithio gyda sefydliadau Ewropeaidd i hyrwyddo cystadleuaeth effeithiol o ran darparwyr gwasanaethau drwy fand eang (OTT).
- A5.244 *Mae Ofcom yn bwriadu cyfrannu'n weithredol at waith BEREC ar ddarparwyr gwasanaethau drwy fand eang (OTT) sydd yn yr arfaeth ar gyfer 2015, fel y disgrifir yn rhaglen waith BEREC ar gyfer 2015 ac yn strategaeth tymor canolig BEREC ar gyfer 2015-17 a fabwysiadwyd yn ddiweddar. Bydd Ofcom hefyd yn dilyn y gwaith a gomisiynwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd sydd i fod i wella dealltwriaeth o'r ecosystem OTT cyn unrhyw gynigion ar gyfer adolygu Fframwaith yr UE.*

### Cwblhau ein hadolygiad o'r gofynion sbectrwm ar gyfer y sector gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig

- A5.245 Dadleuai BEIRG nad yw Ofcom wedi rhoi digon o sicrwydd i weithgynhyrchwyr a defnyddwyr PMSE o ran eu dyraniadau sbectrwm. Dadleuai y dylai Ofcom gyhoeddi strategaeth sbectrwm wedi'i diffinio'n glir i ddefnyddwyr PMSE cyn gynted â phosibl, cyn Cynhadledd Radiogyfathrebu'r Byd yn 2015 ac agor y band 700MHz at ddefnydd data symudol.
- A5.246 *Mae Ofcom yn cydnabod y manteision pwysig y mae defnyddwyr microffonau radio yn y sector PMSE, fel theatrau, lleoliadau chwaraeon a digwyddiadau cerddoriaeth, yn eu darparu i'r DU.*
- A5.247 *Rydym ar hyn o bryd yn cynnal adolygiad strategol o ofynion sbectrwm y sector PMSE i'r dyfodol. Un o amcanion yr adolygiad hwn yw sicrhau bod dyfeisiau PMSE sain yn gallu cael gafael ar ddigon o sbectrwm i barhau i ddarparu'r manteision y maent yn eu darparu ar hyn o bryd yn dilyn penderfyniad Ofcom i ddarparu'r band 700MHz ar gyfer data symudol.*
- A5.248 *Mae Ofcom yn parhau i weithio'n agos gyda rhanddeiliaid drwy ei ymgysylltiad rheolaidd â BEIRG ac eraill i sicrhau y bydd defnyddwyr PMSE yn dal i gael mynediad at ddigon o sbectrwm yn dilyn newid defnydd y band 700MHz. Rydym yn anelu at gwblhau'r adolygiad o PMSE yn 2015.*

### Archwilio cyfleoedd i rannu sbectrwm a'u rhoi ar waith

- A5.249 Dywedodd BEIRG fod Ofcom yn caniatáu cyflwyno dyfeisiau bylchau gwyn yn rhy gyflym a'u bod yn peri risgiau penodol i ddefnyddwyr gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig. Dadleuai y dylai Ofcom ymchwilio ymhellach i effaith dyfeisiau bylchau gwyn a mynnu bod defnyddwyr dyfeisiau bylchau gwyn yn sicrhau nad ydynt yn creu ymyrraeth niweidiol.
- A5.250 Roedd BT yn cynnig y dylai Ofcom roi blaenoriaeth i waith ar rannu sbectrwm a gweithio er mwyn deall yn well yr heriau cydfodolaeth sy'n gysylltiedig â newidiadau mewn defnyddio sbectrwm. Awgrymodd BT y dylai cynlluniau ar gyfer arwerthiannau yn y dyfodol ystyried rhannu sbectrwm.

- A5.251 *Rydym wedi nodi y bydd rhannu sbectrwm yn faes gwaith sylweddol yn y Cynllun Blynyddol. Rydym yn ystyried sut y gallwn helpu i sicrhau y bydd mwy o sbectrwm yn cael ei rannu neu ei rannu'n well rhwng categorïau defnydd gwahanol lle mae rhannu eisoes yn digwydd ac ystyried cyfleoedd newydd i ymestyn y rhannu ar draws rhagor o fandiau sbectrwm. Gall peirianweithiau yn y farchnad fod yn berthnasol i'r gwaith hwn, i'r graddau y gallent gefnogi trefn rannu fwy effeithlon a byddwn yn ystyried hyn yn ein gwaith.*
- A5.252 *Fel y nodir yn ein [Strategaeth ar Reoli Sbectrwm](#), rydym yn parhau i ganolbwyntio ar heriau cydfodoli ar draws ein holl brosiectau yn ymwneud â pholisi sbectrwm. Mae hyn yn berthnasol i'r ffordd y gall y rheini sy'n rhannu sbectrwm weithredu'n llwyddiannus ochr yn ochr â'i gilydd.*

### Cynllunio ar gyfer gofynion sbectrwm yn y dyfodol, gan gynnwys ar gyfer y Rhyngwrwd Pethau

- A5.253 *Roedd UKCTA a Vodafone yn cefnogi gwaith Ofcom yn ystyried gofynion sbectrwm data symudol y Rhyngwrwd Pethau. Roeddynt yn annog Ofcom i ymchwilio i ffyrdd o ddarparu sbectrwm ychwanegol ar gyfer cymwysiadau Rhyngwrwd Pethau, gan gynnwys drwy rannu sbectrwm. Nododd UKCTA y dylai Ofcom gael gwared â rheoliadau a allai gyfyngu ar arloesedd mewn M2M a gweithio i gysoni rheoliadau perthnasol a defnydd o sbectrwm rhwng Aelod-wladwriaethau'r UE ac ar draws y byd.*
- A5.254 *Mae Ofcom yn gwybod y gallai rhwydweithiau symudol, a fydd yn seiliedig ar dechnolegau cyfredol neu dechnolegau'r dyfodol, chwarae rhan bwysig yn darparu gwasanaethau Rhyngwrwd Pethau, ochr yn ochr â thechnolegau eraill. Yn ddiweddar gwnaethom gyhoeddi datganiad a oedd yn ystyried sut y gallai Ofcom ysgogi buddsoddiad ac arloesedd yn y Rhyngwrwd Pethau. Ynndo, rhoesom ein barn y bydd mae'n debyg ddigon o sbectrwm ar gael i ddiwallu'r galw gan wasanaethau Rhyngwrwd Pethau yn y tymor byr i'r tymor canolig.*
- A5.255 *Ond, rydym yn cydnabod y gallai fod angen rhagor o sbectrwm yn y tymor hwy. Byddwn yn parhau i fonitro'r galw am sbectrwm gan wasanaethau Rhyngwrwd Pethau i helpu i ganfod a fydd angen rhagor o sbectrwm. Gallai hyn fod ar ffurf bandiau sbectrwm newydd neu drwy rannu mynediad at fandiau.*
- A5.256 *Dywedodd BEIRG na ddylai sbectrwm gael ei ddyrannu i gymwysiadau Rhyngwrwd Pethau mewn ffordd a fyddai'n tarfu ar ddefnyddwyr presennol. Dywedodd y dylai Wi-Fi a dyraniadau sbectrwm M2M chwarae rhan bwysig yn cefnogi cymwysiadau Rhyngwrwd Pethau.*
- A5.257 *Gellir cyflwyno gwasanaethau'r Rhyngwrwd Pethau gan ddefnyddio nifer o dechnolegau a bandiau sbectrwm. Gellir cyflwyno rhai gwasanaethau gan ddefnyddio technolegau rhwydwaith symudol o fewn sbectrwm trwyddedig; efallai y byddai'n well cyflwyno cymwysiadau eraill drwy sbectrwm sy'n cael ei rannu heb drwydded. Wrth ystyried pa fandiau sbectrwm i'w darparu ar gyfer gwasanaethau symudol a di-wifr, gan gynnwys y Rhyngwrwd Pethau, mae Ofcom yn ystyried sawl ffactor, gan gynnwys y potensial i achosi ymyrraeth i ddefnyddwyr sbectrwm eraill.*

### Ymatebion eraill i faterion yn ymwneud â sbectrwm

- A5.258 *Dadleuai EE y dylai Ofcom sicrhau bod ei ddull gweithredu ar gyfer gosod ffioedd trwyddedau blynyddol yn cyd-fynd â chyfarwyddyd y Llywodraeth, ac yn ystyried y peryglon o'u gosod yn rhy uchel.*

- A5.259 *Ym mis Rhagfyr 2014, cytunodd y Llywodraeth a'r cwmnïau rhwydweithiau symudol y byddai'r cwmnïau yn gweithredu'r rhwymedigaeth i sicrhau darpariaeth llais i 90% o arwynebedd daearyddol y DU erbyn 31 Rhagfyr 2017 fan hwyraf. Ym mis Rhagfyr 2014, gwnaethom gytuno y byddem yn rhoi'r cyfle i bob parti â diddordeb roi sylwadau ynghylch a ddylai'r rhwymedigaeth newydd i sicrhau darpariaeth llais i 90% o arwynebedd y DU effeithio ar ffioedd trwyddedau i'r dyfodol, gan ystyried y costau cynyddrannol cysylltiedig a wynebir gan y cwmnïau. Gwnaethom gyhoeddi [ymgyngoriad](#) ar y pwnc hwn ym mis Chwefror 2015.*
- A5.260 Dadleuodd CAI dros ddiwygio cyfyngiadau cynllunio sy'n effeithio ar y gwaith o osod erialau ac antenau, gan ddweud bod anghysondeb rhwng y rheoliadau sy'n effeithio ar offer teledu daearol digidol a'r rheoliadau sy'n effeithio ar offer lloeren (maes sydd, ym marn CAI, yn cael ei reoleiddio'n fwy llym).
- A5.261 *Nid yw materion yn ymwneud â chynllunio gwlad a thref yn fater i Ofcom. Yr Adran dros Gymunedau a Llywodraeth Leol yn Lloegr, y Gyfarwyddiaeth Cymunedau yn yr Alban, Adran yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy yng Nghymru ac Adran yr Amgylchedd yng Ngogledd Iwerddon yw'r cyrff sy'n gyfrifol am gynllunio yn eu gwledydd. Ond, rydym yn ymwybodol o gamau i symleiddio deddfwriaeth a chysoni'r dulliau gweithredu'n ymwneud ag erialau teledu daearol traddodiadol ac erialau teledu lloeren.*
- A5.262 Dywedodd O3b fod y drefn reoleiddio ryngwladol sy'n rheoli defnydd systemau lloeren nad ydynt yn ddaearsefydlog o ddyraniadau'r gwasanaethau lloeren sefydlog yn y band 37.5-51.4 GHz yn amwys ac yn llesteirio datblygiad y band. Dywedodd ei fod yn gobeithio cael cefnogaeth Ofcom i roi sylw i hyn yng nghynhadledd radiogyfathrebu'r byd yn 2019.
- A5.263 *Mae Ofcom yn cydnabod y mater a godwyd gan O3b ac mae'n asesu a fyddai angen camau rheoleiddio mewn fforymau rhyngwladol i roi sylw i'r pryder hwn.*
- A5.264 Roedd O3b hefyd am weld Ofcom yn rhoi blaenoriaeth i gefnogi argymhelliad CEPT ar y defnydd o rwydweithiau NGSO (orbit lloeren nad yw'n ddaearsefydlog) gan Orsafoedd Daear ar Lwyfannau Symudol (ESOMPs)
- A5.265 *Mae Ofcom yn parhau i gefnogi'r gwaith sy'n mynd rhagddo yn CEPT ar y defnydd o rwydweithiau NGSO gan ESOMPs mewn rhai rhannau o'r band-Ka.*
- A5.266 Dywedodd Mr J. P. Gilliver nad yw agwedd Ofcom at reoli sbectrwm wedi adlewyrchu buddiannau rhai defnyddwyr sbectrwm ddigon, sydd wedi'u gorfodi i gael offer newydd.

## **Cynnal hyder cynulleidfaoedd mewn cynnwys a ddarlledir**

### Hybu diogelwch a ffydd y gynulleidfa mewn amgylcheddau traddodiadol ac amgylcheddau ar-lein

- A5.267 Dadleuodd unigolyn y dylai Ofcom leihau faint o ddelweddau rhywiol, iaith anwedus a thrais sy'n ymddangos ar y sgrin, neu gael gwared arnynt yn llwyr, er mwyn atal niwed i blant ac oedolion.
- A5.268 *Mae Cod Darlledu Ofcom yn cynnwys rheolau clir sy'n helpu i sicrhau bod pobl ifanc dan oed ac oedolion yn cael eu diogelu rhag cynnwys niweidiol neu anaddas. Mae rheolau'r Cod yn trafod cynnwys fel trais ac ymddygiad peryglus, iaith anwedus a deunydd rhywiol. Mae Ofcom hefyd yn cynnal ymchwil rheolaidd i agweddau*

*cynulleidfaoedd at gynnwys sy'n achosi tramgwydd o'r math hwn, sy'n ein helpu i wneud penderfyniadau ar y mathau hyn o faterion. Er enghraifft, y llynedd gwnaethom gyhoeddi ymchwil ar agweddau defnyddwyr a thueddiadau o ran y trais a welir ar raglenni teledu yn y DU.*

- A5.269 Dywedodd Dr Sally Broughton Micova y dylem wneud gwaith i ddadansoddi sut mae amrywiaeth y DU yn cael ei bortreadu ar y sgrin ac yn niwydiannau rhanddeiliaid. Awgrymodd Dr Broughton Micova y dylai Ofcom edrych ar y modd y mae pobl ifanc, a phobl ifanc sy'n lesbïaid, yn hoyw, yn ddeurywiol neu'n drawsryweddol yn cael eu portreadu ar y sgrin.
- A5.270 Dywedodd Undeb y Gweithwyr Cyfathrebu (CWU) y dylai Ofcom sicrhau nad yw darlledwyr yn gallu cyflwyno cynnwys sy'n bychanu grwpiau bregus. Awgrymodd hefyd y dylai Ofcom wneud mwy i sicrhau bod barn a safbwyntiau amrywiol yn cael eu cynrychioli ar y sgrin.
- A5.271 *Mae Cod Darlledu Ofcom yn cynnwys rheolau clir sy'n helpu i ddarparu amddiffyniad digonol i gynulleidfaoedd rhag deunydd niweidiol neu dramgwyddus. Mae'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i ddarlledwyr sicrhau bod y cyd-destun yn gallu cyfiawnhau darlledu deunydd a all achosi tramgwydd - gan gynnwys iaith neu driniaeth wahaniaethol ar sail oed, anabled, rhywedd, hil, crefydd, credoau a chyfeiriadedd rhywiol.*
- A5.272 *Os gwelwn fod darlledwyr wedi torri'r Cod, byddwn yn cymryd camau gorfodi yn eu herbyn. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, roedd tri darlledwr wedi torri'r Cod am ddarlledu iaith dramgwyddus, dirmygus neu sarhaus, gan gynnwys y termau "spaz", "poof" a "slope". Yn y tri achos, nid oeddem o'r farn fod y potensial i achosi tramgwydd wedi'i gyfiawnhau gan y cyd-destun.*
- A5.273 *Rydym yn gadarn o blaid yr angen i wella amrywiaeth a chyfle cyfartal ym maes darlledu. Rydym yn gweithio gyda'r Rhwydwaith Amrywiaeth Creadigol ar weithredu eu system monitro amrywiaeth, Diamond, ac yn eu cefnogi'n llawn yn y gwaith hwn. Bydd y system hon yn cofnodi data amrywiaeth a darparu data safonol y gellir eu cymharu ar amrywiaeth ar y sgrin ac oddi ar y sgrin.*
- A5.274 *Hefyd, credwn ei bod yn bwysig sicrhau bod canllawiau defnyddiol, ymarferol ac annibynnol ar gael i ddarlledwyr. Rydym ar hyn o bryd yn datblygu pecyn ar gyfer y sector i sicrhau bod 'arferion gorau' ar sut i sicrhau gweithlu amrywiol a chynhwysol yn cael eu deall gan bob darlledwr (bach neu fawr). Rydym yn cynnal rhagor o waith dadansoddi ar ba mor dda y mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn diwallu anghenion cynulleidfaoedd fel rhan o'n hadolygiad o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus. Bydd yn edrych ar farn cynulleidfaoedd am y ffordd y caiff y prif grwpiau amrywiaeth eu portreadu a'u cynrychioli.*
- A5.275 Cynigiodd y Gymdeithas Darlledwyr Masnachol (COBA) y dylai Ofcom ystyried gadael i ddarlledwyr teledu ddangos cynnwys 12- a 15- cyn y trothwy o dan warchodaeth PIN, gan ddweud bod cynnwys o'r fath ar gael ar wasanaethau VOD.
- A5.276 *Rydym yn fodlon parhau i adolygu ein dull o reoleiddio cynnwys a ddarlledir. Mae'r safonau a osodwn ar gyfer diogelu plant ymysg elfennau pwysicaf y fframwaith safonau. Ond rydym eisiau sicrhau bod y ffordd yr ydym yn rheoleiddio yn addas i'r diben ac yn adlewyrchu'r newidiadau yn ymddygiad, agweddau a disgwyliadau defnyddwyr.*

A5.277 *Dengys ein hymchwil fod y rhan fwyaf o blant yn dal i wyllo'r teledu, mai teledu yw'r cyfrwng mwyaf cyffredin o hyd ac mae'n debygol o aros felly am beth amser. Rydym hefyd yn gwybod o'n hymchwil cyson fod y rhan fwyaf o rieni yn gwerthfawrogi'r trothwy 9pm ar y teledu ac yn dal i'w gael yn ddefnyddiol wrth benderfynu beth sy'n addas i'w plant ei wyllo. Mae ein hymchwil yn awgrymu hefyd nad oes fawr o awydd ymysg defnyddwyr ehangach i newid y drefn reoleiddio bresennol ar gyfer teledu a ddarledir.*

Ymatebion eraill ar faterion yn ymwneud â chynnwys a ddarledir

- A5.278 Mynegodd Pwyllgor Cynghori Ofcom yng Ngogledd Iwerddon bryderon am yr effaith bosibl ar gystadleuaeth (yn arbennig i UTV) mewn perthynas â chynlluniau RTÉ i gynnig gofod hysbysebu ar gyfer Gogledd Iwerddon yn unig.
- A5.279 *Mae gan unrhyw ddarledwr yn yr UE hawl i ddarparu mwy o ddewis i wylwyr yng Ngogledd Iwerddon ac i chwilio am arian ar gyfer hyn drwy gystadlu am hysbysebion lleol.*
- A5.280 Roedd Pwyllgor Cynghori Ofcom yng Ngogledd Iwerddon hefyd yn bryderus am y cyllid ar gyfer darlledu rhaglenni ieithoedd cynhenid ar ôl diwedd y trefniadau ariannu presennol yn 2015.
- A5.281 *Mater i Weithrediaeth Gogledd Iwerddon yw arian ar gyfer darlledu rhaglenni mewn ieithoedd cynhenid.*
- A5.282 Roedd Community TV Trust o'r farn nad yw gorsafodded teledu lleol yn ymgysylltu ddigon â'u cymunedau lleol ac nad ydynt, ac eithrio rhaglenni newyddion, yn cyfleu barn a safbwyntiau cymunedau ddigon.
- A5.283 *Mae'r holl geisiadau am deledu lleol y mae Ofcom yn eu derbyn yn cael eu hystyried yn erbyn meini prawf statudol, a dim ond ceisiadau sy'n bodloni'r meini prawf hynny sy'n gymwys i'w hystyried am drwydded. Does dim maen prawf statudol yn mynnu bod gwasanaeth yn adlewyrchu safbwyntiau a barn cymunedau. Ond mae gofynion statudol eraill sy'n cyfeirio, er enghraifft, at, "fywydau a phryderon cymunedau a thraddodiadau a diddordebau diwylliannol yn yr ardal neu'r lleoliad hwnnw".*
- A5.284 *Mae Ofcom yn ystyried ceisiadau'n ofalus yn erbyn yr holl feini prawf statudol fel y nodir yn adran 244 o Orchymyn Gwasanaeth Rhaglenni Teledu Digidol Lleol 2012 cyn gwneud unrhyw benderfyniadau. Unwaith y bydd gwasanaeth rhaglenni teledu digidol lleol wedi cael ei lansio, rhaid iddo fodloni ei ymrwymadau ar gyfer rhaglenni a nodir yn ei drwydded ac unrhyw amodau eraill dan y drwydded.*
- A5.285 *Gall unrhyw berson neu gorff gwyno wrth Ofcom os ydynt yn ystyried nad yw darledwr wedi cydymffurfio â gofyniad perthnasol. Mae unrhyw gwynion am drwyddedai Gwasanaeth Rhaglenni Teledu Digidol Lleol y bydd Ofcom yn eu derbyn yn cael eu hasesu yn unol â'r Gweithdrefnau Cyffredinol ar gyfer ymchwilio i dorri amodau trwyddedau darlledu. Bydd hyn yn cynnwys asesiad cychwynnol o'r mater, ac wedyn ymchwiliadau mewn achosion lle mae'n ymddangos bod y gofynion perthnasol wedi cael eu torri.*
- A5.286 Cynigiodd Sefydliad Prydeinig y Galon y dylai Ofcom atal darledwyr rhag darlledu hysbysebion ar gyfer bwydydd sy'n uchel mewn braster, halen neu siwgr (HFSS) cyn y trothwy. Dadleuai fod newidiadau mewn arferion gwyllo plant yn golygu nad

yw'r rheolau presennol, sy'n cyfyngu ar hysbysebu bwydydd HFSS ar sail cyfran y plant sy'n debygol o wyllo rhaglen, yn gwarchod plant yn ddigonol mwyach.

- A5.287 *Cyflwynodd Ofcom gyfyngiadau ar ddarledu hysbysebion HFSS yn 2007, ac mi wnaethom eu harchwilio'n drylwyr yn 2010. Gwnaethom ystyried a fyddai'n briodol cyfyngu hysbysebion HFSS i cyn 21:00. Ond, daethom i'r casgliad bryd hynny nad oedd y dystiolaeth o ran iechyd y cyhoedd yn ddigon sicr i gyfiawnhau mesur o'r fath. Ond, rydym yn dal yn ymwybodol o bryderon am effaith hysbysebion bwyd ar blant a byddwn, gyda'n cyd-bartneriaid rheoleiddio, BCAP a'r ASA, yn parhau i sicrhau bod y cyfyngiadau amserlennu ar y teledu yn dal yn effeithiol ar gyfer atal plant rhag gweld deunydd anaddas.*
- A5.288 Cynigiodd Sefydliad Ffilm Prydain (BFI) y dylai weithio gydag Ofcom i ystyried sut gall y BFI, law yn llaw â darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, sicrhau bod cynnwys rhaglenni teledu wedi'u harchifo ar gael yn ehangach.
- A5.289 *O ran awgrym y BFI y dylai Ofcom weithio gyda'r BFI a Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus masnachol i archwilio'u rôl yn darparu hen raglenni teledu, rydym yn gwahodd y BFI i drafod unrhyw gynigion ynghylch sut mae'n diwallu'i amcanion polisi gyda ni.*
- A5.290 Awgrymodd COBA y dylai Ofcom, wrth gysylltu â darlledwyr ynghylch cwynion yn ymwneud â safonau darledu, roi mwy o fanylion iddynt am natur y cwynion. Cynigiodd y gallai'r *Bwletin Darlledu* wneud mwy i ddangos yn glir sut mae Ofcom yn dehongli ac yn defnyddio'r Cod Darlledu. Awgrymodd hefyd y dylid sefydlu fforwm chwe misol ar faterion cydymffurfio i Ofcom a darlledwyr er mwyn helpu'r rhanddeiliaid i ddeall blaenoriaethau Ofcom a helpu Ofcom i ddeall arferion y diwydiant.
- A5.291 *Er bod cwynion yn rhan bwysig o waith gorfodi Ofcom, ers cyflwyno'n gweithdrefnau presennol yn 2011, rydym wedi gweithredu proses lle rhoddir y sylw pennaf i faterion yn hytrach nag i gwynion unigol. Rydym yn ceisio sicrhau ein bod yn esbonio ffocws ein hasesiadau neu ymchwiliadau'n glir ar ddechrau unrhyw ohebiaeth er mwyn i ddarlledwyr ddeall i beth y maent yn gorfod ymateb.*
- A5.292 *Ar ddiwedd y broses ymchwiliadau, rydym yn gofalu sicrhau bod ein penderfyniadau, fel y'u cyhoeddir yn y Bwletin Darlledu, yn esbonio'n glir beth sydd wedi torri'r Cod Darlledu a beth sydd ddim wedi gwneud hynny.*
- A5.293 *Rydym yn cyhoeddi crynodeb o ganfyddiadau 'heb dorri'r cod darlledu' yng nghefn y Bwletin Darlledu ar gyfer achosion sy'n cael y canlyniad hwn. Weithiau, rydym yn cyhoeddi canfyddiadau 'heb dorri'r cod darlledu' mwy manwl mewn achosion proffil uchel, neu achosion er budd y cyhoedd, neu lle y byddai'n ddefnyddiol i helpu defnyddwyr i gydymffurfio.*
- A5.294 *Yng ngoleuni sylwadau COBA a rhanddeiliaid eraill yn y maes hwn, byddwn yn ystyried cyhoeddi canfyddiadau 'heb dorri'r cod darlledu' mwy manwl yn fwy aml. Rydym yn croesawu adborth gan ddarlledwyr ar faterion cydymffurfio ac yn fodlon ystyried ffyrdd gwahanol o ymgysylltu â nhw.*
- A5.295 Dywedodd Mr Wally Sawyer y gallai cystadleuaeth ar gyfer trwyddedau Channel 3 i Gymru a Lloegr (sydd gan ITV plc ar hyn o bryd) wella'r cynnwys lleol a ddarperir sydd wedi'i gyfyngu gan fwyaf ar hyn o bryd i raglenni newyddion rhanbarthol.

- A5.296 *O dan ddeddfwriaeth, roedd rhaid i Ofcom yn 2013 roi'r cyfle i ddeiliaid trwyddedau adnewyddu eu trwyddedau, ar yr amod eu bod yn gallu cynnal lefel y dyletswyddau Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yr oedd dadansoddiad Ofcom yn awgrymu oedd yn fforddiadwy. O ganlyniad, mae holl drwyddedau Channel 3, gan gynnwys y rheini gan ITV, STV ac UTV, wedi cael eu hadnewyddu tan ddiwedd 2024.*
- A5.297 *Roedd Mr Wally Sawyer, unigolyn, yn beirniadu nifer y sianeli +1 ar Freeview, gan awgrymu bod hyn yn lleihau'r dewis sydd ar gael. Dywedodd hefyd fod sianeli teledu y tanysgrifir iddynt sy'n dangos hysbysebion yn cael mantais annheg dros sianeli ar yr awyr am ddim.*
- A5.298 *Yn niffyg deddfwriaeth i'r gwrthwyneb, mae gan ddarlledwyr y rhyddid i ddefnyddio'r sbectrum y maent wedi'i brynu fel y gwelont yn dda, ac i ddangos hysbysebion ar sianeli teledu drwy dalu fel y dymunant.*
- A5.299 *Pwysleisiodd Llywodraeth yr Alban bwysigrwydd diogelu'r broses o roi amlygrwydd priodol i ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys ar gyfer gwasanaethau cenedlaethol a rhanbarthol. Roedd hefyd yn pwysleisio'r angen i gyfeiryddion rhaglenni electronig (EPGs) ddiwallu anghenion pobl â nam ar eu golwg.*
- A5.300 *Mae Ofcom yn dal yn ymrwymedig i sicrhau amlygrwydd priodol i bob sianel gwasanaeth cyhoeddus, yn unol â statud, gan gynnwys ar gyfer gwasanaethau cenedlaethol a rhanbarthol. Mae hefyd yn dal yn ymrwymedig i weithio gyda darparwyr Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig i sicrhau gwelliannau i hygyrchedd y cyfeiryddion i bobl â namau ar eu golwg.*
- A5.301 *Dywedodd unigolyn y credai ei bod yn deg i'r Blaid Werdd a Phlaid Genedlaethol yr Alban gael eu cynnwys mewn unrhyw ddaol a ddarlledir cyn yr Etholiad Cyffredinol rhwng arweinyddion y pleidiau, ar sail eu safle mewn polau piniwn.*
- A5.302 *Mae'r pwynt hwn yn adleisio nifer mawr o atebion a gawsom gan unigolion i'n hymgyngoriad yn adolygu rhestr Ofcom o'r prif bleidiau, ar gyfer yr etholiadau sy'n digwydd ar 7 Mai 2015. Yn ein [datganiad](#) ar y mater hwn, nodwyd gennym fod y rhestr o brif bleidiau'n bwysig ar gyfer gwaith Ofcom yn rheoleiddio'r sylw a roddir i etholiadau oherwydd mae rhai dyletswyddau<sup>12</sup> yn berthnasol i bleidiau ar y rhestr honno. Yn gryno, mae'r rhestr o brif bleidiau yn adlewyrchu'r ffaith fod gan rai pleidiau gwleidyddol lefel sylweddol o gefnogaeth ymysg etholwyr a nifer o gynrychiolwyr etholedig, ar draws amrywiaeth o etholiadau yn y DU neu'r gwledydd datganoledig. Ond, yn ein datganiad, gwnaethom hefyd bwysleisio nad oes gan Ofcom rôl o gwbl yn y penderfyniad ynghylch pa bleidiau a wahoddir, strwythur, nac arddull unrhyw ddadleuon rhwng arweinwyr a all gael eu darlledu cyn Etholiad Cyffredinol 2015, ac nid yw Ofcom wedi bod yn gysylltiedig â'r materion hyn chwaith.*
- A5.303 *Mynegodd Mr Wally Sawyer bryder am ddarlledu cynnwys rhwydwaith gan ddeiliaid trwyddedau radio a chanddynt bresenoldeb daearyddol eang, megis Heart, Capital a Smooth. Dywedodd y dylai amleddau FM gael eu dyrannu i wasanaethau radio sydd wedi'u trwyddedu i ddarlledu 12 awr o gynnwys lleol bob dydd. Nododd fod rhai amleddau FM lleol hefyd ar gael i'w defnyddio gan ddeiliaid trwyddedau a chanddynt ymrwymadau o'r fath.*

<sup>12</sup> Gweler [Rheolau](#) Ofcom ar ddarllediadau gwleidyddol a refferenda ac Adran Chwech (etholiadau a refferenda) y [Cod Darlledu](#).

A5.304 *Mae dull presennol Ofcom ar gyfer rheoleiddio elfennau lleol ar radio masnachol analog yn seiliedig ar dystiolaeth mewn ymchwil defnyddwyr diweddar, sy'n cefnogi'r cydbwysedd presennol rhwng allbwn lleol ac allbwn rhwydwaith.*

## **Cyfrannu at bolisi cyhoeddus a ddiffinnir gan y Senedd, a'i roi ar waith, a lle y bo'n briodol gan weinyddiaethau datganoledig**

### Cwblhau adolygiad Ofcom o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus

A5.305 Dywedodd y BFI y dylai Ofcom wneud gwaith pellach i hyrwyddo buddsoddi mewn rhaglenni plant gwreiddiol i'w darlledu am y tro cyntaf gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol (PSB). Roedd yn dadlau y dylai Ofcom ystyried pa mor ddeniadol fyddai cwotas gorfodadwy a deddfwriaeth.

A5.306 *Fel rhan o'n hadolygiad parhaus o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus fe wnaethom gyhoeddi dadansoddiad manwl o ddarpariaeth rhaglenni PSB ar gyfer plant. Nododd ein hymgyngoriad y gostyngiad termau real mewn gwariant ar gynnwys i blant fel pryder posibl ac roedd yn gofyn am sylwadau dinasyddion a defnyddwyr. Rydym yn ystyried yr ymatebion a gawsom a byddwn yn cyhoeddi datganiad terfynol yn yr haf.*

A5.307 Rhoddodd Llywodraeth Cymru ragor o sylwadau manwl mewn ymateb i'r Adolygiad PSB. Dywedodd Pwyllgor Cyngori Ofcom yng Ngogledd Iwerddon ei fod yn pryderu nad yw comisiynau yng Ngogledd Iwerddon yn cael eu cynrychioli'n ddigonol ym marchnadoedd cyfryngau'r DU.

A5.308 *Byddwn yn ystyried yr holl ymatebion i'r adolygiad PSG wrth i ni ddatblygu ein datganiad terfynol y byddwn yn ei gyhoeddi'n ddiweddarach eleni.*

### Ymateb fel y bo'n briodol i newidiadau yn y broses datganoli pwerau i lywodraethau cenedlaethol

A5.309 Ar ôl i Lywodraeth y DU gyhoeddi'r papur [\*Scotland in the United Kingdom - An enduring settlement\*](#), nododd Llywodraeth yr Alban y dylai Ofcom allu dweud mwy am y cynlluniau i gynnig rôl ymgyngorol ffurfiol i Lywodraeth yr Alban a Senedd yr Alban ar gyfer pennu blaenoriaethau strategol Ofcom yn yr Alban.

A5.310 Roedd Pwyllgor Cyngori Ofcom yng Ngogledd Iwerddon yn poeni nad yw Gogledd Iwerddon, yn yr un modd â'r gwledydd datganoledig eraill, yn cael ei chynrychioli'n ddigonol ar bob lefel ac yn yr holl agweddau ar waith Ofcom, gan gynnwys ei drefniadau llywodraethu.

### Datblygu fframwaith ar gyfer mesur lluosogrwydd yn y cyfryngau

A5.311 Nododd CWU y dylai'r fframwaith y mae Ofcom yn ei ddefnyddio i fesur lluosogrwydd yn y cyfryngau fesur i ba raddau y mae'n darlledu cynnwys sy'n adlewyrchu amrywiaeth o safbwyntiau, gan gynnwys safbwyntiau undebau llafur.

A5.312 *Mae Ofcom wedi cyhoeddi [\*ymgyngoriad\*](#) ar fframwaith mesur lluosogrwydd yn y cyfryngau. Mae ein fframwaith arfaethedig yn ystyried yr holl gyfryngau y mae ein defnyddwyr yn eu defnyddio i gael gafael ar gynnwys newyddion a materion cyfoes, gan gynnwys teledu.*



Ymatebion eraill yngylch materion yn ymwneud â pholisi cyhoeddus

- A5.313 Dadleuodd COBA y dylai Ofcom flaenoriaethu ei waith er mwyn deall effaith yr egwyddor gwlad tarddiad ar sector darlledu'r DU ac ystyried ei heffeithiau cadarnhaol ar fuddsoddiad yn sector darlledu'r DU. Roedd yn dadlau y dylai Ofcom gynrychioli buddiannau'r DU wrth iddo gymryd rhan mewn unrhyw ddadl yn y dyfodol yngylch y cymal gwlad tarddiad yng nghyd-destun adolygiad o'r Gyfarwyddeb AVMS.
- A5.314 *Bydd Ofcom yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid y DU er mwyn sicrhau ei fod yn deall yn llawnach fuddiannau'r egwyddor gwlad tarddiad i sector darlledu'r DU. Bydd Ofcom hefyd yn aelod gweithredol o Grŵp Rheoleiddwyr Ewropeaidd ar gyfer Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol (ERGA), gweithgor arbenigol sy'n ystyried materion gwlad tarddiad yn ystod 2015.*
- A5.315 Dywedodd Three y dylai Ofcom flaenoriaethu ei waith gyda'r Llywodraeth a BEREC er mwyn sicrhau y gall unrhyw fesurau newydd i leihau costau trawsrwydweithio data rhyngwladol hefyd gyfyngu ar y ffioedd y gall rhydweithiau tramor eu codi ar gwmnïau rhwydweithiau symudol y DU ar gyfer trawsrwydweithio data rhyngwladol ac nad ydynt yn sicrhau buddiannau i gwmnïau presennol.
- A5.316 *Mae Ofcom yn ymgysylltu'n weithredol â'r Llywodraeth a BEREC er mwyn helpu i sicrhau bod ymyriadau cyfanwerthol priodol yn y farchnad grwydro rhyngwladol yn cyd-fynd ag unrhyw ymyriadau rheoleiddio ar lefel adwerthu yn y farchnad honno.*
- A5.317 Petai'r DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd, dywedodd Mr Ewan Sutherland y dylai Ofcom gynnal gwerthusiad technegol o effaith hyn ar ei waith.

**Sylwadau ar strategaeth gyffredinol Ofcom a'i ddibenion strategol**

- A5.318 Roedd yr ymatebwyr yn cytuno'n gyffredinol â'n barn bod strategaeth a dibenion strategol Ofcom yn dal yn briodol.
- A5.319 Dywedodd BT y dylai Ofcom gynyddu ei ddibenion strategol gydag ymrwymadau penodol er mwyn annog buddsoddiad, darparu sicrwydd rheoleiddio, meithrin agwedd gyson ar draws marchnadoedd, annog arfer gorau a chystadleuaeth ryngwladol a chael gwared ar reoliadau pryd bynnag y bydd hynny'n briodol. Cynigiodd hefyd y dylai Ofcom ychwanegu ymrwymadau i ddefnyddio dull cyson i hyrwyddo cystadleuaeth ym mhob sector sy'n cael ei reoleiddio ac i hyrwyddo cystadleuaeth ar draws ffiniau ar gyfer ei ddibenion strategol.
- A5.320 Cynigiodd Corfforaeth Dinas Llundain y dylai Ofcom newid ei ddatganiad strategaeth i ddweud bod Ofcom yn gweithio er budd penodol cwsmeriaid busnes.
- A5.321 *Mae gan Ofcom amrywiaeth o ddyletswyddau wedi'u nodi mewn deddfwriaeth ddomestig ac Ewropeaidd. Prif ddyletswydd Ofcom yw datblygu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr (gan gynnwys defnyddwyr busnes). Ar ben hynny, mae adrannau 3, 4 a 6 Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn nodi'r dyletswyddau canlynol ymysg y rhai sy'n berthnasol i Ofcom:*
- *ystyried pa mor ddymunol yw annog buddsoddiad ac arloesedd;*
  - *bod yn gyson;*
  - *cyfrannu at ddatblygiad y farchnad fewnol Ewropeaidd; ac*

- *adolygu beichiau rheoleiddio.*

- A5.322 Awgrymodd Llywodraeth Cymru y dylid ailddrafftio dibenion strategol Ofcom er mwyn iddynt adlewyrchu "realiti llywodraeth ddatganoledig yn well a sicrhau atebolrwydd uniongyrchol i Gymru mewn meysydd fel Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus".
- A5.323 *Ar ôl ystyried hyn, rydym wedi aileirio'r diben strategol perthnasol er mwyn cyfeirio at y gwaith parhaus rydym yn ei gyflawni gyda gweinyddiaethau datganoledig yn y gwledydd fel a ganlyn:*
- "Cyfrannu at bolisi cyhoeddus a ddiffinnir gan y Senedd, a'i weithredu, a lle y bo'n briodol gan weinyddiaethau datganoledig".*
- A5.324 Dywedodd Three y dylai Ofcom adolygu pa mor effeithiol mae'n cyflwyno ei raglen waith er mwyn sicrhau bod modd craffu arni'n ddigonol.
- A5.325 Nododd Three hefyd y byddai cyhoeddi cynllun pum mlynedd ar gyfer Ofcom yn fuddiol i sectorau cyfathrebu, gan gynnwys ynddo amcanion clir ynghylch yr hyn mae'r rheoleiddiwr am ei gyflawni ac amserlen ar gyfer gwneud hynny. Dywedodd nad yw'r Cynllun Blynyddol wedi rhoi amcanion ac amserlenni clir yn y gorffennol, sy'n golygu ei bod yn anodd i'r diwydiant a llunwyr polisi ddal Ofcom yn atebol.
- A5.326 *Gan fod datblygiadau'r farchnad yn y sectorau cyfathrebiadau yn symud yn gyflym, nid yw'n ymarferol i Ofcom gyhoeddi cynllun gwaith pum mlynedd. Fodd bynnag, rydym yn monitro'r farchnad er mwyn sicrhau ein bod yn ymwybodol o'r materion posibl a allai godi yn y dyfodol ac effeithio ar ein dull rheoleiddio. Rydym yn cynnwys rhestr o'r rhain ym Mhennod 8 y Cynllun Blynyddol. Fel ffordd o bennu amcanion clir ar gyfer y flwyddyn sydd o'n blaenau, rydym yn cyhoeddi canlyniadau interim a therfynol wedi'u cynllunio ar gyfer ein meysydd gwaith blaenoriaeth yn y Cynllun Blynyddol. Yna byddwn yn asesu ein llwyddiant o ran cyflawni'r rhain yn ein [Hadroddiad Blynyddol](#) fel ffordd o ddal y sefydliad yn atebol.*
- A5.327 Dywedodd Three nad yw Ofcom yn ddigon clir ynghylch faint mae ei weithgareddau yn ei gostio. Nododd hefyd fod y ffaith mai dim ond unwaith y mae Prif Weithredwr Ofcom wedi ymddangos gerbron pwyllgor Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon y Senedd yn ddigonol at ddibenion craffu.
- A5.328 *Caiff prosiectau a gweithgareddau eraill Ofcom eu cyflwyno yn ein Rhaglen Waith sydd wedi'i chyhoeddi. Mae ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn disgrifio'r cynnydd yn erbyn ein blaenoriaethau strategol (a'r prosiectau sy'n sail iddynt), gyda dadansoddiad manwl o'n costau (gan gynnwys unrhyw amrywiad) ac incwm fesul sector. Caiff y rhain eu cyfrifo a'u dyrannu yn unol â'n Datganiad Egwyddorion Codi Ffioedd.*
- A5.329 *Mae'r dull hwn, ynghyd â'r fethodoleg sylfaenol a'r modelau cyfrifiadurol a ddefnyddir ar gyfer y broses dyrannu costau, yn gyson â'r gofynion a nodir yn y statud. Maent hefyd yn ddarostyngedig i adolygiad cadarn gan Archwilwyr Mewnol yn ogystal â'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol fel rhan o'i gynllun archwilio blynyddol.*
- A5.330 *Fel y nodir o dan [Pennod 8](#), rydym wedi pennu cyllideb o £114.3m ar gyfer 2015/16, gostyngiad o 3.4%<sup>13</sup> mewn termau real o'i gymharu â chyllideb 2014/15. Mae*

<sup>13</sup> Yn seiliedig ar RPI Ionawr 2015, sef 1.1%

*costau ar gyfer 2015/16 yn ôl sector rhanddeiliaid wedi eu cwblhau a byddant yn cael eu cyhoeddi yn ein Tablau Tariff, ochr yn ochr â'r ddogfen hon. Ni fydd unrhyw newidiadau i'r fethodoleg a ddefnyddir i gyfrifo'r ffioedd hyn.*

- A5.331 *Mae ymddangosiad blynyddol Ofcom gerbron y pwyllgor Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon yn un o blith nifer o ymddangosiadau tebyg. Mae pwyllgorau eraill yn craffu ar ein gwaith ar sail ad hoc, gan gynnwys y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a'r deddfwrfeydd datganoledig. Yn y pen draw, penderfyniad y Senedd a'r deddfwrfeydd datganoledig yw pennu i ba raddau maent yn craffu ar ein gwaith. Rydym yn llwyr atebol i'r Senedd ac yn agored i unrhyw fesurau craffu.*
- A5.332 *Roedd Vodafone o'r farn nad yw Ofcom yn ddigon agored am y modd mae'n pennu blaenoriaethau'r sefydliad.*
- A5.333 *Fel y nodir o dan [Pennod 3](#) y Cynllun Blynyddol, rydym yn ystyried y ffactorau canlynol wrth bennu blaenoriaethau ein sefydliad ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf: perchnogaeth Ofcom ar y mater a'n cylch gwaith presennol; maint ac eglurder yr hyn a gyflawnir; pa mor bwysig yw'r mater; a'r galw ar adnoddau mewnl.*
- A5.334 *Nododd EE nad yw'r Cynllun Blynyddol Drafft yn cynnwys digon o fanylion am sut mae Ofcom yn penderfynu pa waith "dewisol" mae'n ymgymryd ag ef. Yng nghyswllt polisiâu defnyddwyr yn benodol, awgrymodd y dylai'r gwaith gael ei lywio gan asesiad o niwed a / neu fethiant yn y farchnad, ac y dylid cyflwyno hyn yn glir, a'i fesur lle bo hynny'n bosibl.*
- A5.335 *Mae Ofcom yn blaenoriaethu ei waith gyda defnyddwyr ar sail tystiolaeth o niwed i ddefnyddwyr.*
- A5.336 *Nododd EE a Three y dylai Ofcom gyhoeddi rhagor o wybodaeth am gost a chanlyniadau ei weithgareddau. Dywedodd EE y dylai hyn fod yn berthnasol yng nghyswllt prosiectau dewisol sylweddol yn arbennig. Awgrymodd fod Ofcom yn ymgymryd â gormod o brosiectau gydag amserlenni rhy hir. Nododd y gallai Ofcom fod yn fwy clir o ran yr ymatebion i'r broses ymgynghori y mae'n eu derbyn neu'n eu gwrthod.*
- A5.337 *Nid ydym yn cyhoeddi costau prosiectau unigol, ond rydym yn cyhoeddi'r canlyniadau interim a therfynol sydd yn yr arfaeth ar gyfer ein meysydd gwaith blaenoriaeth. Mae gan rai prosiectau brif amcanion i'w cyflawni yn y tymor byr, tra mae mathau eraill o waith o natur fwy rhaglennol. Ym Mhennod 2 y Cynllun Blynyddol rydym yn nodi'r prif themâu sydd wedi deillio o ymatebion yr ymgynghoriad a'r newidiadau rydym wedi'u gwneud i'r Cynllun yn sgil hynny. Rydym hefyd yn ymateb i bwyntiau unigol rhanddeiliaid fel y bo'n briodol yn yr Atodiad hwn.*

## **Dadreoleiddio a symleiddio**

- A5.338 *Dadluedd EE, KCOM, SSE ccc, Three, UKCTA a Vodafone y dylai Ofcom adolygu pa mor addas oedd yr Amodau Cyffredinol yn y rownd. Yn benodol, cynigiodd KCOM y dylai Ofcom ailystyried rhwymedigaethau o ran darparu gwasanaethau band cul gan ystyried bod gwasanaethau ffibr ar gael yn fwy eang. Cynigiodd nifer o randdeiliaid y dylai Ofcom ystyried y gwaith dyblygu a achosir drwy ddefnyddio Amodau Cyffredinol ar gyfer gwahanol wasanaethau o fewn bwndeli adwerthu gwasanaethau cyfathrebiadau.*

- A5.339 *Mae datblygiad yr Amodau Cyffredinol dros amser wedi creu fframwaith cymesur ar gyfer diogelu defnyddwyr penodol i'r sector, i gydategu a chyd-fynd â darpariaethau diogelu defnyddwyr ar draws sectorau. Mae'n bwysig bod diogelwch cymesur i ddefnyddwyr yn berthnasol i'r holl wasanaethau o fewn cwmpas yr amodau pa un a gawsant eu prynu yn unigol neu mewn bwndel. Nid ydym yn bwriadu adolygu'r holl Amodau Cyffredinol yn 2015/16 er y byddwn efallai yn ystyried rhai Amodau Cyffredinol penodol o fewn nifer o brosiectau.*
- A5.340 *Awgrymodd SSE ccc y dylai'r Amodau Cyffredinol wahaniaethu rhwng y gofynion ar ddarparwyr cyfathrebiadau adwerthu a'r gofynion ar ddarparwyr rhwydweithiau mynediad a seilwaith. Dywedodd hefyd y dylai Ofcom gyflwyno gofynion llai rhagnodol yn lle rhwymedigaethau Amod Cyffredinol 14 ar gyfer cyhoeddi codau ymarfer gwahanol.*
- A5.341 *Dywedodd Vodafone fod gofynion yr Amodau Cyffredinol ar gyfer darparu gwybodaeth i ddefnyddwyr yn anghyson ac yn rhy hir. Cynigiwyd bod Ofcom yn cael gwared ar ofynion dyblyg ac anghysonderau ac yn adolygu'r gofynion yn y rownd.*
- A5.342 *Gofynnodd Three i Ofcom egluro rhwymedigaethau cwmnïau o ran delio â chwynion ac anghydfodau o dan Amod Cyffredinol 14. Nododd nad oedd Amod Cyffredinol 14 yn glir ac y dylai wahaniaethu rhwng chwynion a mathau eraill o gyswllt â chwsmeriaid.*
- A5.343 *Mae'r Amodau Cyffredinol yn berthnasol i unrhyw ddarparwr gwasanaethau neu rwydweithiau cyfathrebu electronig. Mae Ofcom wedi cyhoeddi arweiniad ar yr Amodau Cyffredinol [yma](#).*
- A5.344 *O ran disodli rhwymedigaethau Amod Cyffredinol 14 ar gyfer cyhoeddi gwahanol godau ymarfer gyda llai o ofynion rhagnodol, mae'n bwysig nodi bod y rhwymedigaethau hyn wedi cael eu drafftio yng ngoleuni pryderon penodol ynghylch y wybodaeth y mae Darparwyr Cyfathrebiadau Gwreiddiol yn ei darparu i'w cwsmeriaid o ran Gwasanaethau Cyfradd Premiwm, gwasanaethau trosi rhifau, galwadau 0870, rhifau personol a nodweddion, a / neu gyfyngiadau yn y gwasanaeth a ddarperir iddynt, sy'n wahanol i'r gwasanaethau ffôn sydd ar gael i'r cyhoedd a ddarperir dros Rwydwaith Cyfathrebiadau Cyhoeddus. Felly maent wedi'u targedu'n benodol at fynd i'r afael â'r diffygion yn y farchnad lle nad oedd defnyddwyr yn cael gwybodaeth berthnasol ffurfiol.*
- A5.345 *Mae gan Ofcom raglen orfodi'n mynd rhagddi ar gyfer ymdrin â chwynion ynghylch Amod Cyffredinol 14, gan gynnwys ymchwiliad parhaus i gydymffurfiaeth EE â'r rheolau hyn. Rydym hefyd yn cynnal astudiaeth ymgynghori i'n helpu ni i asesu'n well p'un ai a yw'r prif ddarparwyr cyfathrebiadau'n bodloni eu rhwymedigaethau ar gyfer hwyluso mynediad priodol i ddulliau amgen o ddatrys anghydfodau ac a oes ganddynt, drwy estyniadau, weithdrefnau chwynion teg ac effeithiol yn fwy cyffredinol. Byddwn yn ystyried unrhyw esboniadau a newidiadau pellach a allai fod yn briodol yng ngoleuni'r gwaith parhaus hwn.*
- A5.346 *Nododd Three y dylai'r Amodau Cyffredinol sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau OTT yn cael eu diogelu yn hyn o beth.*
- A5.347 *Rydym o'r farn bod angen mesurau amddiffyn cynhwysfawr ar waith ar gyfer defnyddwyr y gwasanaethau rydym yn eu rheoleiddio. Caiff hyn ei ddarparu gan fframwaith o gyfraith defnyddwyr ar draws sectorau a phenodol i sectorau. Nodir cwmpas yr Amodau Cyffredinol yn y Ddeddf Cyfathrebiadau ac mae'n caniatáu*

*rheoleiddio'r Gwasanaethau Cyfathrebiadau Electronig. Rydym yn ystyried yr angen am fesurau amddiffyn ychwanegol fesul achos ar sail y dystiolaeth sydd ar gael.*

- A5.348 Cynigiodd Mr J. P. Gilliver y dylai Ofcom ystyried dadreoleiddio dulliau gweithredu dyfeisiau pŵer isel.
- A5.349 Dadleuodd BT y dylai Ofcom ymateb i dystiolaeth o ddirywiad tymor hir mewn lefelau a refeniw telegyfathrebiadau sefydlog drwy beidio â bod mor llym wrth reoleiddio, yn enwedig o ran "hen" gynnyrch. Cynigiodd y gallai Ofcom roi'r gorau i ddefnyddio modelau rheolaeth ffioedd cymhleth ar gyfer mynegeiau prisiau yn y dyfodol.
- A5.350 Dadleuodd nifer o'r rhai a ymatebodd y dylai Ofcom leihau'r baich o ran ymateb i ymgynghoriadau a cheisiadau am data. Dywedodd COBA y gallai Ofcom wneud mwy i gydlynu'r broses o gyhoeddi ymgynghoriadau.
- A5.351 Roedd BT, EE a Three yn annog Ofcom i adolygu ei ddefnydd o geisiadau am wybodaeth statudol i leihau'r baich cydymffurfio. Dywedodd Vodafone y dylai Ofcom ystyried sut mae lleihau'r baich ar gwmnïau wrth iddynt lunio ymatebion i geisiadau am fewnbwn gan ddefnyddio data sensitif defnyddwyr.
- A5.352 *Rydym yn cydnabod y baich y mae ein hymgyngoriadau a'n ceisiadau am ddata yn ei roi ar randdeiliaid. Rydym yn ceisio lleihau'r baich hwn drwy ofyn dim ond am yr wybodaeth sy'n angenrheidiol yn ein barn ni lle bo hynny'n bosibl, ac rydym yn amseru ein ceisiadau a'n hymgyngoriadau amrywiol er mwyn osgoi'r amseroedd prysuraf.*
- A5.353 *Fodd bynnag, dylid cydnabod bod Ofcom yn rheoleiddiwr seiliedig ar dystiolaeth a bod yn rhaid iddo ymgynghori a bod yn dryloyw o ran ei brosesau gwneud penderfyniadau. Ar ben hyn, mae modd apelio yn erbyn penderfyniadau Ofcom a'r prosesau y bydd yn eu dilyn i ddod i'r penderfyniadau hynny. Felly mae'r safonau rydym yn gweithredu yn unol â nhw ac y cawn ein mesur yn eu herbyn yn ddwys.*

## **Sylwadau cyffredinol**

- A5.354 Cyflwynodd Three sylwadau am y broses apelio sy'n berthnasol i lawer o benderfyniadau Ofcom. Roedd yn annog Ofcom i barhau i bwysu ar y Llywodraeth i symleiddio'r broses honno.
- A5.355 *Mae'n bwysig bod modd i randdeiliaid apelio yn erbyn y penderfyniadau pwysig y byddwn yn eu gwneud os ydynt yn credu ein bod wedi gwneud camgymeriad materol. Rydym dal yn credu bod angen ystyried apelïadau o'r fath yn effeithiol ac yn effeithlon, ac rydym yn nodi bod y Llywodraeth wedi ymgynghori ar ddiwygio'r safon adolygu berthnasol ar hyn o bryd. Rydym hefyd yn nodi bod y Llywodraeth wrthi'n ymgynghori ynghylch rheolau gweithredu'r Tribiwnlys Apeliadau Cystadleuaeth, ac rydym yn cymryd rhan weithredol yn yr adolygiad hwnnw, ac yn croesawu hynny.*
- A5.356 Dywedodd y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau y dylai Ofcom wneud mwy i nodi lle gall hwyluso gwaith rhanddeiliaid eraill ar faterion defnyddwyr, neu annog rhanddeiliaid eraill i fynd i'r afael â nhw, lle nad oes ganddo bwerau i ymyrryd.
- A5.357 *Mae Ofcom yn deall bod ei fuddiannau a'i waith yn gorgyffwrdd â gwaith asiantaethau a rhanddeiliaid eraill mewn sawl maes. Rydym yn aml yn sicrhau canlyniadau da drwy gydweithio â'r rhanddeiliaid hyn, drwy arfer ein pwerau yn*

*ffurfiol a drwy ddulliau mwy anffurfiol hefyd. Mae enghreifftiau yn cynnwys ein dull sy'n cynnwys llawer o randdeiliaid er mwyn atal galwadau niwsans, yn ogystal â'n gwaith ymchwil helaeth sy'n cyfrannu at waith eraill ac yn eu galluogi i gyflawni'r gwaith hwnnw.*

- A5.358 Argymhellodd Three y dylai Ofcom gyfarfod ac ymgysylltu'n amlach â chwmnïau er mwyn galluogi'r diwydiant i gyfrannu at y gwaith o ddatrys problemau y tu allan i'r broses ymgynghori ffurfiol.
- A5.359 *Rydym yn cynnal cyfarfodydd anffurfiol â rhanddeiliaid yn rheolaidd er mwyn trafod materion sy'n datblygu a chwilio am atebion.*
- A5.360 Nododd Mr Ewan Sutherland nad yw Ofcom a'i gyd-reoleiddwyr yn bodloni'r gofynion perthnasol o ran cyhoeddi ffynonellau data agored. Nododd nifer o gynigion ar gyfer gwella'r drefn o gyfrannu at ymgynghoriadau Ofcom.
- A5.361 *Mae data Ofcom a gyhoeddwyd mewn fformat agored yn cynnwys Adroddiad Seilwaith 2014, Adroddiad ar y Farchnad Gyfathrebu o 2010, sef the statistical release calendar, Telecommunications Market Data Update 2014, a'n hadroddiad Children and Parents: Media Use and Attitudes Report 2014. Caiff y data ei gyhoeddi mewn fformat agored y mae modd i beiriant ei ddarllen (.csv). Mae hyn yn unol â pholisi'r Llywodraeth, fel y nodir yn y papur gwyn ar ddata agored.<sup>14</sup>*
- A5.362 Dywedodd J P Gilliver nad oedd strwythur yr ymgynghoriad yn glir. Cynigiodd hefyd y gallai Ofcom godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'i waith drwy hysbysebion.
- A5.363 *Rydym yn codi ymwybyddiaeth o'n gwaith drwy ymgynghoriadau a digwyddiadau cyhoeddus, gan gynnwys ein digwyddiadau ymgynghori ar y Cynllun Blynyddol a gynhelir yn Llundain ac yn y gwledydd bob blwyddyn. Rydym hefyd yn cyhoeddi diweddariadau o'n cyhoeddiadau (fel ein harweiniad i ddefnyddwyr) ar ein gwefan ac ar gyfryngau cymdeithasol fel LinkedIn a Twitter.*

---

<sup>14</sup> Swyddfa'r Cabinet, *Open Data White Paper: Unleashing the potential*, Mehefin 2012, [https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/78946/CM8353\\_acc.pdf](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/78946/CM8353_acc.pdf).